Fflyd	7.6	Bysiau a cherbydau casglu sbwriel newydd
Datblygu Economaidd	6.5	Prosiectau Corfforol Adfywio Ledled y Sir, Datblygiadau Cymunedol a Cyd Fentrau
Gwasanaethau Cymdeithasol	0.8	Cartrefi Gofal a Datblygiadau Dysgu yr Anabl
Corfforaethol	4.5	Man Gwaith Cyfalaf a Datblygiadau Strategaeth TG

1.8 Safonau Cyfrifyddu sydd wedi'u cyhoeddi ond heb eu mabwysiadu hyd yn hyn.

Os oes Safon newydd wedi'i chyhoeddi ond heb gael ei mabwysiadu gan y Côt hyd yn hyn, mae'n ofynnol i'r Awdurdod ddatgelu gwybodaeth am effaith y newid o ran cyfrifyddu. Y newidiadau a gyflwynwyd yng Nghôd 2017/18 yw:

- Addasiad i adrodd am gostau trafodion cynllun y gronfa bensiw.
- Addasiad i adrodd am y manau lle buddsoddir fwyaf.

Ni ragwelir y bydd y newidiadau uchod yn cael effaith wirioneddol ar y wybodaeth a ddarparwyd yn natganiadau ariannol y Cyngor.

1.9 Gwybodaeth Ychwanegol

Mae gwybodaeth ychwanegol am y cyfrifon ar gael oddi wrth Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol, Adran Y Gwasanaethau Corfforaethol, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP.

2 DATGANIAD O'R CYFRIFOLDEBAU DROS Y DATGANIAD CYFRIFON

Cyfrifoldebau'r Awdurdod

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod:

- Wneud trefniadau i weinyddu ei faterion ariannol mewn modd priodol ac i sicrhau bod un o'i swyddogion yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny. Yn yr Awdurdod hwn, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol yw'r swyddog hwnt.
- Rheoli ei faterion mewn modd sy'n gwneud y defnydd mwyaf darbodus, effeithiol ac effeithlon o adnoddau a diogelu ei asedau.
- Cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon.

Cyfrifoldebau Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol

Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad yr Awdurdod o'i Gyfrifon sydd, yn unol â'r arferion cyfrifo priodol fel y'u pennwyd yn Côt Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig ("y Côt Ymarfer"),

Wrth baratoi'r Datganiad Cyfrifon hwn, mae Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol:

- Wedi dewis polisïau cyfrifydda addas ac wedyn wedi'u cymhwyso'n gyson;
- Wedi gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a doeth;
- Wedi cydymffurfio â'r Côt Ymarfer;
- Wedi cadw cofnodion cyfrifydda priodol, amserol a chyfredol;
- Wedi cymryd camau rhesymol er atal a darganfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

Ardystio'r Cyfrifon

Yr wyf yn ardystio fod y Datganiad Cyfrifon a welir ar dudalennau 31 i 171 yn rhoi golwg gywir a theg ar y sefyllfa ariannol Cyngor Sir Caerfyrddin a Chronfa Bensiwn Dyfed ar 31 Mawrth 2017 ac o'i incwm a'i wariant am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2017.

Chris Moore FCCA
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol

Dyddiad: 29 Mehefin 2017

3 DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

3.1 Cwmpas y Cyfrifoldeb

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin (yr Awdurdod) yn gyfrifol am sicrhau yr ymgymerir â'i waith yn unol â'r gyfraith a safonau priodol. Rhaid iddo sicrhau hefyd y diogelir cyllid cyhoeddus, y rhoddir cyfrif priodol amdano ac y'i defnyddir yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae dyletswydd hefyd ar yr Awdurdod i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn y ffordd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau, gan roi sylw i gyfuniad o ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am sefydlu trefniadau priodol ar gyfer Llywodraethu ei waith, gan hwyluso cyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol, gan gynnwys bod â threfniadau priodol ar gyfer rheoli risg.

Mae'r Awdurdod yn manylu ar y modd y mae'n ymdrin â phob agwedd ar Lywodraethu drwy ei Gyfansoddiad sy'n diffinio safonau, rolau a chyfrifoldebau'r Weithrediaeth, Aelodau'r Awdurdod, ei Bwyllgorau a'i Swyddogion. Mae'r Cyfansoddiad yn cynnwys Cynllun Dirprwyo sy'n amlinellu'r broses gwneud penderfyniadau, gan ystyried y ddeddfwriaeth berthnasol.

Ffurfiwyd **Grŵp Llywodraethu Corfforaethol** sy'n cynnwys swyddogion allweddol a 2 Aelod o'r Bwrdd Gweithredol er mwyn darparu gwybodaeth a monitro'r camau a gymerir o ran materion sy'n effeithio ar Lywodraethu. Mae hyn yn cynnwys y **Côd Llywodraethu Corfforaethol**, a gafodd ei gymeradwyo gan y Cyngor ym mis Mehefin 2012 a'i ddiweddarau gan y Pwyllgor Archwilio ym mis Mawrth 2016. Gwahoddir Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio fel sylwedydd yng nghyfarfodydd y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol.

Mae'r Côd Llywodraethu Corfforaethol yn cydnabod polisïau a phrosesau sy'n cyd-fynd ag egwyddorion Fframwaith CIPFA / SOLACE '**Delivering Good Governance in Local Government**' (Nodiadau canllaw ar gyfer Awdurdodau Lleol Cymru Rhifyn 2016 - Cyhoeddwyd Medi 2016). Mae'r fframwaith hwn yn clustnodi 7 prif egwyddor llywodraethu da sy'n ategu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r datganiad hwn yn egluro sut mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â gwahanol elfennau'r Fframwaith Llywodraethu

3.2 Y Fframwaith Llywodraethu

Mae'r Fframwaith Llywodraethu yn cynnwys y systemau a'r prosesau, y diwylliannau a'r gwerthoedd hynny sy'n cyfarwyddo ac yn rheoli'r Awdurdod ynghyd â'r modd y mae'n atebol i'r gymuned, yn ymgysylltu â hi ac yn ei harwain. Mae'r Fframwaith yn galluogi'r Awdurdod i fonitro i ba raddau y cyflawnwyd ei amcanion strategol ac i ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at gyflenwi gwasanaethau priodol a chost-effeithiol.

Mae'r system Rheoli Mewnol yn rhan bwysig o'r fframwaith hwnnw ac fe'i lluniwyd i reoli risg i lefel resymol. Ei nod yw clustnodi a blaenoriaethu'r risgiau o ran cyflawni polisïau, nodau ac amcanion yr Awdurdod. Mae'n asesu tebygolrwydd ac effaith y risgiau a glustnodwyd ac yn rheoli risgiau unigol yn briodol.

3.3 Yr Amgylchedd Llywodraethu

Mae Fframwaith Llywodraethu CIPFA/SOLACE yn pennu 7 egwyddor graidd ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol. 'Saith egwyddor CIPFA' yw:

1. **Uniondeb a Gwerthoedd** - *Ymddwyn ag uniondeb, arddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu grym y gyfraith*

2. **Bod yn Agored ac Ymgysylltu** - Sicrhau bod yn agored ac ymgysylltu'n drylwyr â rhanddeiliaid
3. **Gwneud gwahaniaeth** - Diffinio deilliannau o ran manteision economaidd, cymdeithasol, ac amgylcheddol cynaliadwy
4. **Sicrhau ein bod yn cyflawni'r hyn y mae'n fwriad gennym i'w wneud** - Penderfynu ar yr ymyriadau angenrheidiol i gyflawni'r deilliannau bwriadedig i'r graddau gorau posibl
5. **Gwerthfawrogi ein pobl; ymgysylltu, arwain a chefnogi** - Datblygu'r capasiti a'r gallu i arwain ac unigolion
6. **Rheoli risgiau, perfformiad a chyllid**- Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref
7. **Tryloywder ac atebolrwydd da** - Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd, ac archwilio er mwyn darparu atebolrwydd effeithiol

Mae'r Awdurdod yn mynd i'r afael â'r 7 egwyddor graidd fel a ganlyn:

- 3.3.1 **Uniondeb a Gwerthoedd** - Ymddwyn ag uniondeb, arddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu grym y gyfraith.

3.3.1.1 Y Pwyllgor Safonau

Mae'r Pwyllgor Safonau'n goruchwyllo safonau ymddygiad yr Aelodau, yn trefnu hyfforddiant i Aelodau'r Cyngor ac i Aelodau'r Cynghorau Tref a'r Cynghorau Cymuned ynghylch y Côd Ymddygiad. Mae hefyd yn ystyried ceisiadau am ollyngiadau i gymryd rhan mewn cyfarfodydd lle bo Aelodau wedi nodi buddiannau personol neu ragfarnol yn y mater dan sylw.

Hefyd mae'r Pwyllgor yn goruchwyllo'r trefniadau ar gyfer darparu amgylchedd diogel i Ddatgelu Camarfer.

3.3.1.2 Gwerthoedd Craidd

Cafodd Gwerthoedd Craidd y Cyngor eu hadnewyddu yn ystod 2015/16 ar y cyd â'r staff, yr aelodau etholedig, yr uwch-reolwyr a'r undebau llafur. Maent yn sylfaenol i'r modd y mae'r Cyngor yn gweithredu ac yn darparu ei wasanaethau. Maent yn rhoi sail i flaenoriaethau o ran y gwasanaeth ac yn ganllaw i ddatblygu gwasanaethau cynhwysol sy'n ymateb i anghenion cwsmeriaid, gan gefnogi a gwerthfawrogi ein staff ar yr un pryd. Drwy weithio fel Un Tîm rydym yn:

- Canolbwyntio ar ein **CWSMERIAID**
- **GWRANDO** er mwyn gwella
- Ymdrechu i **RAGORI**
- Ymddwyn ag **UNIONDEB**
- **CYMRYD CYFRIFOLDEB** personol

Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu Datganiad Ymddygiad Cyffredinol a fydd yn sicrhau bod y Gwerthoedd Craidd, sydd wedi'u hadnewyddu, yn ymwreiddio ledled yr Awdurdod.

3.3.1.3 Y Cyfansoddiad

Pan gafodd llywodraeth leol ei moderneiddio yn dilyn Deddf Llywodraeth Leol 2000, mabwysiadodd yr Awdurdod fath newydd ar Gyfansoddiad ar y ffurf a hyrwyddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Ers hynny, mae'r cyfansoddiad hwnnw wedi'i adolygu'n

rheolaidd i sicrhau ei fod yn diwallu anghenion yr Awdurdod a'i reoleiddwyr o ran tryloywder y llywodraethu, atebolrwydd a gwneud penderfyniadau.

Cyhoeddir y Cyfansoddiad ar wefan y Cyngor. Yn ei hanfod, mae'r ddogfen yn egluro sut y mae'r Cyngor yn gweithredu a sut y mae'n gwneud penderfyniadau. Mae 8 rhan i'r cyfansoddiad, sef:

1. *Crynodeb ac Eglurhad* – golwg gyffredinol gryno ar y Cyngor a'i gyrff gwneud penderfyniadau
2. *Yr Erthyglau* – disgrifiad manylach o'r Cyngor a'i rannau cyfansoddol.
3. *Swyddogaethau/Pwerau Dirprwyedig* - Mae'r rhan hon yn egluro pa aelodau sy'n gyfrifol am ba benderfyniadau. Nodir yn benodol a yw penderfyniadau'n rhai y caiff y Cyngor yn unig, neu'r Bwrdd Gweithredol yn unig, eu gwneud a nodir pa benderfyniadau a ddirprwywyd *i swyddogion yn unol â Chynllun Dirprwyo*.
4. *Y Rheolau Gweithdrefn - yn cynnwys y rheolau ynghylch cynnal cyfarfodydd y Cyngor a'i Bwyllgorau* (a elwir yn gyffredin yn "**Rheolau Sefydlog**"), y rheolau ynghylch trafodion y Bwrdd Gweithredol a'r Pwyllgorau Craffu, y rheolau ynghylch mynediad i wybodaeth, **y Rheolau o ran Gweithdrefnau Contractau, Rheolau'r Weithdrefn Ariannol a'r Rheolau Cyflogi Swyddogion**.
5. *Codau a Phrotocolau - Mae'r Côt Ymddygiad ar gyfer Aelodau, sy'n ddogfen statudol, ymhlith y Codau sydd wedi'u cynnwys yn y Rhan hon*. Yn hyn o beth, mae rheolau caeth iawn ynghylch ymddygiad aelodau o ran eu rôl yn Gyngorwyr a'u rôl o ran gwneud penderfyniadau. Yn benodol, os oes gan aelodau fuddiant personol a rhagfarnol mewn unrhyw fater a drafodir mewn cyfarfodydd mae'n rhaid iddynt ddatgelu'r buddiant a gadael y cyfarfod (oni bai iddynt gael gollyngiad i gymryd rhan yn y cyfarfod).
6. *a) Cynllun Lwfansau'r Cyngorwyr a'r Aelodau Cyfetholedig* - Mae hwn yn pennu Proffiliau Swyddi a Manylebau Person yr Aelodau, Aelodau'r Bwrdd Gweithredol a Chadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau, ynghyd â nodi manylion y taliadau y mae gan yr aelodau hawl i'w derbyn. O ran taliadau i'r Aelodau, roedd Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol, sef y corff a sefydlwyd i bennu taliadau Aelodau (a elwir bellach yn 'gyflogau') wedi defnyddio'i bwerau newydd, o 1 Ebrill 2012, i bennu'r union symiau a delir yn hytrach na phennu'r taliadau mwyaf y gellid eu gwneud. Diben y pennu hwn oedd sicrhau taliadau mwy cyson ledled Cymru.
6. *b) Strwythurau Rheoli*
7. *Enwau a Chyfeiriadau'r Cyngorwyr*
8. *Aelodaeth Ddwyieithog y Bwrdd Gweithredol a'r Pwyllgorau*

Mae'r Cyfansoddiad yn ddogfen fyw a hysbysir y Cyngor am newidiadau unigol iddo benderfynu arnynt fel y bo'r angen, ac wedi iddynt gael eu hystyried gan Weithgor Adolygu'r Cyfansoddiad. Ni wnaed dim newidiadau o bwys i'r Cyfansoddiad yn ystod Blwyddyn y Cyngor 2016/17. Fodd bynnag, yn unol â dyletswydd statudol newydd, penderfynodd y Cyngor Sir yn ei gyfarfod ar 25 Ionawr 2017 ddynodi'r Pwyllgor Craffu – Polisi ac Adnoddau fel y Pwyllgor Craffu sy'n gyfrifol am graffu ar waith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin.

Adolygodd y Cyngor Sir ei gydbwysedd gwleidyddol a chyfansoddiad Pwyllgorau yn ystod Blwyddyn y Cyngor, yn dilyn ymddiswyddiad un aelod o grŵp gwleidyddol ac is-etholiad a gynhaliwyd o ganlyniad i farwolaeth aelod gweithredol.

Roedd yn galonogol nodi bod newidiadau a gyflwynwyd i Reolau Sefydlog y Cyngor mewn blynyddoedd blaenorol wedi arwain at 17 o Gwestiynau â Rhybudd yn cael eu gofyn gan y

cyhoedd yng nghyfarfodydd y Cyngor Sir yn ystod Blwyddyn y Cyngor a 49 o Gwestiynau â Rhybudd yng nghyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol yn ystod Blwyddyn y Cyngor.

Hefyd roedd llacio'r rheolau yn ymwneud â gosod Rhybuddion â Chynnig ger bron mewn blwyddyn flaenorol wedi arwain at 11 o Rybuddion â Chynnig yn cael eu gosod ger bron ym Mlwyddyn y Cyngor 2016/17.

Ym mis Awst 2016 cyflwynodd y Bwrdd Gweithredol drefniadau llywodraethu newydd ar gyfer y Panelau Apeliadau Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol.

3.3.1.4 Y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol

Fel y nodir yn Adran 3.1, ffurfiwyd Grŵp Llywodraethu Corfforaethol i gydlynu trefniadau llywodraethu'r Awdurdod, eu rheoli ac adrodd yn eu cylch. Roedd y Grŵp yn cynnwys:

- Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau
- Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Gymunedau
- Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio (yn sylwedydd)
- Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol (Swyddog Adran 151)
- Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith (Y Swyddog Monitro)
- Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol
- Y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adfywio a Pholisi)
- Y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl)
- Pennaeth Dros Dro Archwilio, Rheoli Risg a Chaffael
- Rheolwr y Gwasanaethau Pobl
- Dirprwyon enwebedig a ganiateir

Mae'r grŵp yn gyfrifol am ddiweddarau'r Côd Llywodraethu ac am lunio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Yn ogystal, mae'r Grŵp bellach yn goruchwyllo gwaith y Grŵp Rheoli Gwybodaeth.

3.3.1.5 Y Swyddog Monitro

Mae'r Swyddog Monitro (Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith) yn gyfrifol am ddiweddarau'r Cyfansoddiad i sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r gofynion deddfwriaethol diweddaraf ac anghenion llywodraethu'r Awdurdod. Mae hefyd yn gyfrifol am sicrhau y cydymffurfir yn llawn â'r darpariaethau ar bob lefel o weithgareddau'r Awdurdod. Yn Brif Swyddog Cyfreithiol, a chyda chefnogaeth y tîm cyfreithiol mewnol, caiff y Swyddog Monitro fynd i holl gyfarfodydd yr Awdurdod, gan gynnwys y Bwrdd Gweithredol a Thîm Rheoli Corfforaethol yr Awdurdod. Mae'r Swyddog Monitro mewn sefyllfa dda i fod yn flaenweithgar o ran helpu'r Aelodau a'r Swyddogion, mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol, i gydymffurfio â'r gyfraith a gweithdrefnau'r Awdurdod ei hun. Y Swyddog Monitro yw'r Pennaeth Gwasanaeth sy'n bennaf gyfrifol am yr Uned Gwasanaethau Democrataidd ac ef/hi hefyd sy'n gyfrifol am y cofnod swyddogol o'r broses benderfyniadau democrataidd, ac am ei gyhoeddi.

Mae'r Swyddog Monitro yn gweithio'n agos gyda Phennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig a Swyddog Adran 151 yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989. Bydd yn adrodd i'r Cyngor neu i'r Bwrdd Gweithredol os bydd o'r farn y bydd unrhyw gynnig sydd gerbron yn arwain at dorri'r gyfraith.

Mae Rhwydwaith Cymru Gyfan o Swyddogion Monitro sy'n cwrdd bob tri mis i drafod pynciau amserol ac i rannu'r arfer gorau, ac mae'r Swyddog Monitro'n mynychu'r cyfarfodydd hyn.

3.3.2 **Bod yn Agored ac Ymgysylltu** - Sicrhau bod yn agored ac ymgysylltu'n drylwyr â rhanddeiliaid

3.3.2.1 **Ymgynghori ac Ymgysylltu â Dinasyddion a Defnyddwyr Gwasanaethau**

Mae gan yr Awdurdod ddull sydd wedi'i sefydlu ers tro ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu â dinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau. Mae ganddo Banel Dinasyddion, Rhwydwaith 50+ i ymgynghori â phobl hŷn, Fforwm Ieuentid a grwpiau ymgynghori penodol niferus i ofyn barn pobl â nodweddion gwarchoddedig penodol fel y nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2011. Hefyd, mae'r Cyngor yn cyhoeddi ei holl ymgynghoriadau cyfredol yn yr adran Lleol-i ar wefan y Cyngor.

Hefyd mae'r Awdurdod yn gwneud defnydd helaeth o Arolwg Cenedlaethol Cymru, sef arolwg blynyddol a gomisiynir gan Lywodraeth Cymru. Defnyddir y canlyniadau i helpu'r Awdurdod i hunanasesu ei wasanaethau ac maent yn cael eu cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol a'r Cynllun Gwella.

Mae'r Awdurdod wedi bod yn gweddarlledu holl gyfarfodydd y Cyngor Llawn er mis Mai 2013, cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio er mis Tachwedd 2014, a chyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol er mis Medi 2015.

Mae'r Awdurdod yn ymgynghori'n helaeth ynghylch ei Gyllideb bob blwyddyn. Mae hyn yn cynnwys seminarau, digwyddiadau Insight ar gyfer pobl ifanc, arolygon ar-lein, y cyfryngau cymdeithasol, a chyfarfodydd rhanddeiliaid â Chynghorau Tref a Chymuned, y Cyngor Ieuentid ac Undebau. Ystyrir canlyniadau'r ymgynghoriadau ac fe'u cyflwynir i'r Bwrdd Gweithredol a'r Cyngor Sir yn rhan o Adroddiad Strategaeth y Gyllideb.

3.3.2.2 **Ymdrin â Chwynion**

Mae gan yr Awdurdod weithdrefn gorfforaethol ar gyfer **Cwynion a Chanmoliaeth gan Gwsmeriaid**, a chaiff ystadegau a dadansoddiad o'r cwynion a ddaw i law eu cyflwyno i bob Pwyllgor Craffu ac yn flynyddol gan y Pwyllgor Safonau. Mae'r Weithdrefn Gwynion yn unol â Pholisi Pryderon a Chwynion Enghreifftiol Llywodraeth Cymru, a chafodd ei hadolygu a'i diwygio yn 2016/17.

Mae gan yr Awdurdod Dîm Cwynion canolog a fydd yn sicrhau y cydymffurfir â'r gofynion a nodwn yn ein Gweithdrefn ac yn sicrhau cysondeb ar draws yr Awdurdod cyfan.

Darperir adroddiadau i'r Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Pwyllgorau Craffu ddwywaith y flwyddyn, a darperir adroddiadau mwy manwl i'r adrannau pan fo'r angen, er mwyn monitro tueddiadau, clustnodi problemau a gwella gwasanaethau ar sail profiadau'r cwsmeriaid.

Ymchwiliodd ac ymatebodd yr Awdurdod i 731 o gwynion yn ystod 2016/17 o gymharu â 501 o gwynion yn ystod 2015/16. Hefyd rhoddodd y Tîm Cwynion sylw i 586 o ymholiadau a cheisiadau pellach am gymorth.

3.3.2.3 **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystyried cwynion y cyhoedd ynghylch ymddygiad Aelodau a chamweinyddu. Cyhoeddir ei adroddiad yn flynyddol.

Cyflwynir adroddiadau Adran 16 yr Ombwdsmon (h.y. adroddiadau er budd y cyhoedd) i'r Cyngor Sir fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith.

3.3.2.4 Sicrhau Cyfathrebu Allanol Effeithiol

Mae gan yr Awdurdod dîm Marchnata a'r Cyfryngau canolog sydd wedi ymroi i gyfathrebu'n effeithiol â'n preswylwyr drwy fynd ati'n flaenweithgar i ymgysylltu â hwy ac i hybu ymagwedd agored er mwyn diogelu a hybu enw da'r Cyngor. Bydd blaenraglen waith marchnata a'r cyfryngau yn canolbwyntio ar ac yn helpu gwasanaethau i ymgysylltu â'r bobl iawn, ar yr adeg iawn, yn y modd a ffefirir. Bydd yn cael ei datblygu gan yr Aelodau o'r Bwrdd Gweithredol a Thimau Rheoli Adrannol, a fydd yn cytuno arni.

Mae'r Awdurdod wedi gweld cynnydd clir yn y defnydd o'r Cyfryngau Cymdeithasol a'r Wefan Gorfforaethol fel modd i'n cynulleidfa gyfathrebu ac ymgysylltu â'r Cyngor. Bellach mae gennym tua 5,064 o ddilynwyr ar Facebook a 6,768 o ddilynwyr ar Twitter. Mae postiad/neges drydar ar gyfartaledd yn cyrraedd 3,000 o bobl ar Facebook a 88,000 ar Twitter. Mae'r wefan gorfforaethol yn cael 116,000 o sesiynau defnyddwyr y mis ar gyfartaledd. Bydd y Gwasanaethau Cwsmeriaid yn cyflwyno system apwyntiadau a gwasanaeth allgymorth i sicrhau bod yn agored a sicrhau ein bod yn cyfathrebu ac yn cefnogi cynifer â phosibl o breswylwyr.

Ystadegau: Sesiynau defnyddwyr gwefan ar gyfartaledd: Google analytics (Mai 2016 – 2017) | Postiad / Neges Drydar ar gyfartaledd yn cyrraedd: | Facebook Insights (Mai 2016 – 2017) | Tweetreach (100 neges drydar diwethaf, 23 Mai 2017)

3.3.3 **Gwneud gwahaniaeth** - Diffinio deilliannau o ran manteision economaidd, cymdeithasol, ac amgylcheddol cynaliadwy

3.3.3.1 Y Pwrpas a'r Weledigaeth

Mae gan yr Awdurdod ddull pendant ar gyfer gweithredu gyda phartneriaid allweddol yn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (a sefydlwyd ym mis Mai 2016 o hen Fwrdd Gwasanaethau Lleol Sir Gaerfyrddin). Cafodd y Strategaeth Gymunedol Integredig ei llunio gan Fwrdd Gwasanaethau Lleol Sir Gaerfyrddin. Mae'n amlinellu'r weledigaeth a'r canlyniadau i bobl Sir Gaerfyrddin, i'w cyflawni gan y prif gyrff yn y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol. Mae uchelgais a blaenoriaethau strategol yr Awdurdod yn cyd-fynd â'r canlyniadau sirol amlasiantaeth a glustnodwyd drwy ein dogfen, **Strategaeth Gymunedol Integredig Sir Gaerfyrddin, 2011/16**. Ni all un corff ar ei ben ei hun gyflawni'r canlyniadau hyn a chydabyddir bod gan bob partner rôl i'w chwarae i gyflawni'r canlyniadau hyn, drwy gydweithio.

Ym mis Medi 2015 gwnaethom adolygu ein Strategaeth Gorfforaethol ar gyfer 2015-20. Roedd y Strategaeth hon yn amlinellu blaenoriaethau a dyheadau strategol y Cyngor a sut y bwriadwn gyflawni ein cyfraniad i'r Strategaeth Gymunedol Integredig.

Disgwylir i'r holl bartneriaid raeardu eu hymrwymiaadau o ran y Strategaeth Gymunedol Integredig i'w cynlluniau eu hunain. Hwn yw'r dull a arferwn o ran ein Strategaeth Gorfforaethol a'n Cynllun Gwella Blynnyddol. Bu i ni gyhoeddi dogfen gyfun sef Adroddiad Blynnyddol a Chynllun Gwella i ddarparu gwybodaeth gynhwysfawr a chytbwys i'r cyhoedd am ein gwasanaethau, er mwyn iddynt allu gweld sut yr ydym yn perfformio a'r heriau yr ydym yn eu hwynebu. Mae'r Cyngor yn nodi ei Brif Flaenoriaethau Amcanion Gwella bob blwyddyn ar ôl dadansoddi'r data, y canfyddiadau rheoleiddiol a data bodlonrwydd cwsmeriaid. Mae'r blaenoriaethau hyn (a adolygir gan Swyddfa Archwilio Cymru) yna'n cael eu rhaeadru i Gynlluniau Busnes Is-adrannol, gyda'r targedau a'r camau gweithredu'n cael eu monitro drwy'r System Monitro Perfformiad a Gwella (PIMS). Monitrir y rhain gan Reolwyr, y Tîm Rheoli Corfforaethol, y Bwrdd Gweithredol a'r Pwyllgorau Craffu.

Mae Adroddiad Blynyddol 2014/15 a Chynllun Gwella 2015/16 wedi derbyn tystysgrif gydymffurfio gan Swyddfa Archwilio Cymru a chanfyddiadau cadarnhaol yn Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru. Hefyd roeddem wedi llunio adroddiad cynnydd ynghylch blwyddyn gyntaf y Strategaeth Gorfforaethol.

Yn ystod 2016/17 dechreuom gyflawni ein dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Fel Corff Cyhoeddus roedd yn ofynnol i ni gyhoeddi ein Hamcanion Llesiant erbyn 31 Mawrth 2017, ac roedd y modd y bu i ni bennu'r amcanion hyn yn cydymffurfio â chanllawiau statudol. Penderfynom uno ein Prif Flaenoriaethau Amcanion Gwella â'n Hamcanion Llesiant.

3.3.3.2 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Deddf newydd yw hon a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru a fydd yn newid agweddau ar sut ydym yn gweithio. Pwrpas cyffredinol y Ddeddf yw sicrhau bod trefniadau llywodraethu cyrff cyhoeddus ar gyfer gwella llesiant Cymru, yn ystyried anghenion cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r Ddeddf wedi'i llunio i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae'r gyfraith newydd yn nodi:-

- i. Bod yn rhaidd i ni ddatblygu'n gynaliadwy, gan wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Yr egwyddor datblygu cynaliadwy yw: '*... bod yn rhaid i'r corff cyhoeddus weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb effeithio ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.*'
- ii. Bod yn rhaidd i ni arddangos 5 ffordd o weithio:
 - Y Tymor Hir
 - Integredig
 - Cynhwysol
 - Cydweithredol
 - Ataliol
- iii. Bod yn rhaidd i ni weithio tuag at gyflawni'r 7 nod llesiant cenedlaethol sydd yn y Ddeddf. Gyda'i gilydd, maent yn creu gweledigaeth a rennir y gall cyrff cyhoeddus weithio tuag ati:
 - Cymru lewyrchus
 - Cymru gydnerth
 - Cymru iachach
 - Cymru sy'n fwy cyfartal
 - Cymru o gymunedau cydlynus
 - Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
 - Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Fel corff cyhoeddus mae'n rhaid i ni gyhoeddi ein Hamcanion Llesiant, sy'n mwyhau ein cyfraniad i'r Nodau Llesiant Cenedlaethol hyn.

Rhestr o Amcanion Llesiant Sir Gaerfyrddin 2017/18:

- Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella eu profiadau yn gynnar mewn bywyd

- Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw (Gordewdra ymysg Plant)
- Parhau i wella cyrhaeddiad pob dysgwr
- Lleihau nifer yr oedolion ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant
- Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi
- Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir
- Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael
- Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra ymysg oedolion)
- Cefnogi cysylltiadau da â ffrindiau, y teulu a chymunedau mwy diogel
- Cefnogi'r nifer cynyddol o bobl hŷn er mwyn iddynt gadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio
- Ymagwedd ledled y Cyngor tuag at gefnogi Heneiddio'n Dda yn Sir Gaerfyrddin
- Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol
- Gwella seilwaith a chysylltedd y priffyrdd a thrafnidiaeth

Roeddem wedi cynnwys ein Datganiad Llesiant Statudol pan gyhoeddwyd ein Hamcanion Llesiant Statudol ar 1 Ebrill 2017. Mae hwn yn pennu ein trefniadau llywodraethu i gefnogi ein deilliannau cynlluniedig.

Datganiad Llesiant

- i. Rydym yn teimlo bod ein Hamcanion Llesiant yn cyfrannu'n helaeth at gyflawni ein Nodau Llesiant Cenedlaethol. Mae ein Hamcanion Llesiant yn ymwneud ag agweddau gwahanol ar gwrs bywyd ac yn rhoi sylw i lesiant mewn ffordd systematig.

Ers 2002/03 rydym wedi cysoni ein cynllunio busnes a'n cynllunio gwelliannau yn llawn â'r canlyniadau y cytunwyd arnynt gyda phartneriaid mewn Strategaeth Gymunedol Integredig. Rydym wedi defnyddio ymagwedd 'unedig' at gyflawni'r amcanion hyn, gan ddod â chyfraniadau gwahanol wasanaethau at ei gilydd mewn ffordd integredig. Bydd yr ymagwedd hon yn parhau.
- ii. Mae'r Amcanion Llesiant hyn wedi deillio o adborth sylweddol yn sgil ymgynghori a llu o ffynonellau gwybodaeth gwahanol ynghylch angen, data perfformiad ac adborth rheoleiddiol. Wrth ddatblygu cynlluniau gweithredu i gyflawni'r amcanion hyn byddwn yn cynnwys pob math o bobl sydd â diddordeb yn eu cyflawni.
- iii. Bydd y camau a gymerwn i gyflawni'r Amcanion Llesiant (ein cynlluniau gweithredu) yn ceisio sicrhau y defnyddir cymaint ag sy'n bosibl ar ddulliau tymor hir, integredig, cynhwysol, cydweithredol ac ataliol.
- iv. Mae gan aelod o'r Bwrdd Gweithredol gyfrifoldeb penodol dros y Ddeddf yn gyffredinol. Hefyd bydd gan bob aelod o'r Bwrdd Gweithredol sy'n ddeiliad portffolio gyfrifoldeb dros Amcanion Llesiant/KIOP perthnasol.
- v. I sicrhau ein bod yn cymryd y camau gweithredu hyn byddwn yn defnyddio ein dangoswrdd System Monitro Gwybodaeth am Berfformiad (PIMS), a ddatblygwyd yn fewnol. Caiff pob cynllun gweithredu ei fonitro ac adroddir yn ei gylich yn chwarterol i'r timau rheoli adrannol, y Tîm Rheoli Corfforaethol, a'r Bwrdd Gweithredol. Hefyd adroddir ynghylch cynnydd i'r Pwyllgorau Craffu. Bydd y

Cyngor yn paratoi adroddiad blynyddol am ei Amcanion Llesiant ac yn diwygio'r amcanion os bydd angen.

- vi. Caiff cynnwys y cynlluniau gweithredu, er mwyn cyflawni'r Amcanion Llesiant, ei ariannu'n ddigonol ac mae'n rhan annatod o gynlluniau busnes Gwasanaethau (gweler manylion ariannol Atodiad 4). I gyflawni'r amcanion hyn bydd gwasanaethau yn 'uno' ac yn cydweithio, yn gweithio gyda phartneriaid, ac yn cynnwys dinasyddion o bob math yn llawn.
- vii. Mae ein hamcanion yn rhai tymor hir ond bydd ein cynlluniau gweithredu yn cynnwys cerrig milltir a fydd yn galluogi monitro a sicrhau cynnydd.
- viii. I sicrhau bod modd cyflawni ein Hamcanion Llesiant ac i gyrraedd disgwyliadau'r Ddeddf, byddwn yn addasu trefniadau craffu, cynllunio ariannol, rheoli asedau, asesu risg, a rheoli perfformiad.

Ble mae angen i newid ddigwydd mewn Llywodraethu Corfforaethol

Mae'r Ddeddf yn nodi.....' *set graidd o weithgareddau sy'n gyffredin i lywodraethu corfforaethol cyrff cyhoeddus (Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol Para. 47). Mae cymhwyso gofynion y Ddeddf i'r gweithgareddau hyn yn debygol o sicrhau'n fwyaf effeithiol y math o newid sy'n ofynnol'.*

- | | |
|--|-------------------------|
| 1. Cynllunio Corfforaethol a Chynllunio Gwasanaethau | 2. Cynllunio Ariannol |
| 3. Rheoli Asedau | 4. Cynllunio'r Gweithlu |
| 5. Caffael | 6. Rheoli Risg |
| 7. Rheoli Perfformiad | |

3.3.3.3 Adroddiad Blynyddol yr Arweinydd a'r Flaenraglen Waith

Cafodd yr Arweinydd blaenorol ei ailbenodi yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 24 Mai 2017.

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor ei Adroddiad Blynyddol a'r Flaenraglen Waith yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 18 Mai 2016. Yn ei adroddiad, atgoffwyd y Cyngor gan yr Arweinydd fod Swyddfa Archwilio Cymru wedi cynnal Asesiad Corfforaethol o'r Cyngor yn ystod y flwyddyn, a'i fod yn "ymfalchïo" fod yr awdurdod wedi cael "canmoliaeth uchel am gael gweledigaeth sefydledig a gâi ei hysgogi gan arweinyddiaeth gref ar y cyd gan y Bwrdd Gweithredol a'r Tîm Rheoli Corfforaethol". Dywedodd fod yr adroddiad "wedi nodi bod gan yr Awdurdod fframwaith clir o gynlluniau a strategaethau cytbwys, y cytunwyd arnynt gyda phartneriaid, a oedd wedi cael eu troi'n flaenoriaethau i'w gweithredu."

Cyhoeddodd yr Arweinydd ei Aelodau o'r Bwrdd Gweithredol i'r Cyngor yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, a'r dyraniad seddi newydd rhwng Plaid a'r Grŵp Annibynnol, sef 7 sedd ar y Bwrdd Gweithredol i Plaid a 3 i'r Grŵp Annibynnol, a'r swydd Dirprwy Arweinydd yn cael ei roi i'r Grŵp Annibynnol.

3.3.4 Sicrhau ein bod yn cyflawni'r hyn y mae'n fwriad gennym i'w wneud - Penderfynu ar yr ymyriadau angenrheidiol i gyflawni'r deilliannau bwriadedig i'r graddau gorau posibl

3.3.4.1 Rheoli Perfformiad/Y Swyddogaeth Graffu

Mae Aelodau Etholedig yr Awdurdod yn ymwneud yn fawr â rheoli perfformiad, ar lefel y Bwrdd Gweithredol yn ogystal â lefel y Pwyllgorau Craffu. Yn aml, bydd data am berfformiad yn symbylu astudiaethau manwl gan y Pwyllgorau Craffu, a hynny fel rheol drwy Grwpiau Gorchwyl a Gorffen. Mae'r rhain wedi cyfrannu'n flaenweithgar at ddatblygu polisiau a gwella gwasanaethau ar achlysuron niferus yn y blynyddoedd diwethaf.

Yn ystod 2016/17, bydd y Cyngor yn rhoi gweithdrefn newydd ar waith lle bydd Penaethiaid Gwasanaeth yn cael eu herio gan Aelodau'r Bwrdd Gweithredol ynghylch eu Cynlluniau Busnes. Cafodd y rhaglen her hon ei hailadrodd ym mis Mai/Mehefin 2016. Yn dilyn etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2017, bydd rhaglen her newydd o ran Aelodau'r Bwrdd Gweithredol yn cael ei chynnal mewn perthynas â chynlluniau busnes gwasanaeth 2017/18.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflwyno adroddiad i'r Cyngor Llawn bob blwyddyn ynghylch pa mor effeithiol yw'r Awdurdod.

Mae system soffistigedig yr Awdurdod ar gyfer Rheoli Perfformiad yn cael ei defnyddio'n helaeth gan Swyddogion ac Aelodau. Caiff ei defnyddio hefyd gan y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Bwrdd Gweithredol Rhagarweiniol yn fodd 'amser real' (trwy'r cyfleuster Dangosfwrdd) o fonitro perfformiad. Caiff gwybodaeth fanwl ei chodi o'r system a'i defnyddio gan Bwyllgorau Craffu'r Awdurdod. Defnyddir y data i glustnodi meysydd penodol lle bydd y Pwyllgorau'n gwneud astudiaethau mwy dwys i fonitro perfformiad ac i wneud argymhellion polisi. Mae'r Awdurdod yn bartner ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac mae Pwyllgor Craffu - Polisi ac Adnoddau y Cyngor yn cael Adroddiad Perfformiad Blynyddol gan Gadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Ym mis Hydref 2016, cynhaliwyd seminar a gweithdy gennym lle bu'r Aelodau'n penderfynu ar Amcanion Llesiant. Ym mis Chwefror 2017, i sicrhau bod y Pwyllgorau Craffu yn gallu archwilio ein Cynllun Amcanion Llesiant, am y tro cyntaf erioed daeth yr holl Bwyllgorau at ei gilydd i gyflawni swyddogaeth graffu. Rhoddwyd sylw i'r materion a godwyd gan y Pwyllgor cyn i'r cynllun gael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir.

3.3.5 **Gwerthfawrogi ein pobl; ymgysylltu, arwain a chefnogi** - *Datblygu'r capasiti a'r gallu i arwain ac unigolion*

Yn dilyn etholiadau llywodraeth leol Cymru ym mis Mai 2017, mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin 30 o gynghorwyr sir newydd, ac mae pecyn hyfforddiant, datblygu a sefydlu cynhwysfawr yn cael ei ddarparu iddynt ac i aelodau sy'n dychwelyd.

3.3.5.1 Y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

Pwyllgor statudol yw hwn sydd â chylch gwaith sy'n cynnwys hybu a chefnogi llywodraethu da. Mae agwedd bwysig ar y nod hwnnw yn cael ei sicrhau drwy ddarparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu rhesymol i'r Aelodau a phenodiad Cadeirydd y Pwyllgor yn Hyrwyddwr Datblygu'r Aelodau.

3.3.5.2 Rheoli ein Gweithlu

Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin tua 7,900 o weithwyr ac mae pob un ohonynt yn cyfrannu at gyflawni ein Blaenoriaethau Corfforaethol.

Cefnogir ein staff gan yr Is-adran Rheoli Pobl, sy'n cynnal ystod o Bolisiau a Gweithdrefnau i sicrhau bod yr holl staff yn cael eu rheoli'n deg ac mewn modd cyson. Mae'r Prif Bolisiau a Gweithdrefnau yn cynnwys:

- Polisi Iechyd a Diogelwch
- Polisi Recriwtio a Dethol Staff gan gynnwys recriwtio diogel
- Gweithdrefn Sefydlu
- Polisi Datgelu Camarfer
- Polisiau Achwyniadau a Disgyblu
- Côd Ymddygiad ar gyfer y Swyddogion
- Y Polisi Ad-drefnu
- Y Strategaeth ar gyfer Pobl
- Polisi Tâl
- Polisi Gweithio Ystywyth

Caiff ein staff eu hannog i ddatblygu ac mae hyn yn gydnaws â'n hamcanion fel sefydliad a achredwyd gan gynllun **Buddsoddyr mewn Pobl**. Ategir datblygiad ein gweithlu gan y canlynol:

- Proses Arfarnu
- Strategaeth Dysgu a Datblygu
- Annog Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)
- Cynllunio Gweithlu Effeithiol
- Y Strategaeth ar gyfer Pobl

Yn dilyn gweithredu'r Cytundeb Statws Unffurf yn 2011/12, mae grŵp bach o swyddogion yn dal i gadw golwg gyffredinol ar reoli newid ac ar strwythur cyflogau a graddau y Cyd-gyngor Cenedlaethol (yr NJC), ac yn rhoi cyngor i reolwyr ynghylch gwobrwyo'n gyffredinol. Nod y grŵp hwn yw sicrhau bod uniondeb y strwythur cyflogau, buddion a graddau'n cael ei gynnal.

Hefyd, mae'r Cyngor yn cyhoeddi Polisi Tâl erbyn mis Ebrill bob blwyddyn, fel sy'n ofynnol dan Adran 38 o'r Ddeddf Lleoliaeth. Pwrpas y datganiad yw bod yn dryloyw ynghylch ymagwedd y Cyngor at bennu cyflog ei weithwyr (ac eithrio'r rhai sy'n gweithio yn ysgolion yr awdurdod lleol). Cytunir ar y Polisi Tâl gan y Cyngor Llawn a chaiff ei gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.

Cynhaliodd yr Awdurdod archwiliadau cyflog cyfartal blynyddol, ac nid yw'r diweddaraf o'u plith yn awgrymu bod unrhyw dystiolaeth o wahaniaethu yn y strwythurau cyflog nac yn y lwfansau a delir. Fel rheol, mae'r gwahaniaethau mewn cyflog yn ganlyniad i rannu'r rhywiau yn ôl y mathau o swyddi yn hytrach na gweithredu lwfansau.

Mae'r Awdurdod yn ceisio mwyhau cyfleoedd gweithio ystywyth i gefnogi ein hamcanion Strategol trwy:

- **Moderneiddio'r gwasanaethau a ddarperir:** mae defnyddio technoleg newydd i ddarparu gwasanaethau yn rhoi cyfleoedd i symleiddio prosesau a bod yn agosach i'n cwsmeriaid.
- **Recriwtio a Chadw:** bydd gwahanol arferion gwaith yn ein helpu i recriwtio a chadw ein gweithwyr.
- **Strategaeth Adeiladau:** bydd gweithio ystywyth yn helpu i leihau anghenion adeiladau a defnyddio adeiladau'n fwy effeithiol.

- **Agenda gweithio'n hyblyg:** bydd gweithio ystwyth yn cefnogi'r agenda cydbwysedd bywyd-gwaith ehangach, gan gefnogi gweithlu mwy cynhwysol.
- **Amgylcheddol:** gall gweithio ystwyth arwain at lai o deithiau car, llai o dagfeydd traffig adeg oriau brig, a gweithlu mwy cynhwysol.

Mae'r pwyntiau uchod yn cynrychioli'r egwyddorion strategol sy'n ategu ein Polisi Gweithio Ystwyth.

Mae ein Polisi Datgelu Camarfer yno i ddiogelu ein Gweithwyr os bydd angen iddynt roi gwybod am bryder difrifol sydd ganddynt ynghylch gwasanaeth y mae'r Cyngor yn ei ddarparu neu ymddygiad Gweithiwr arall, Cynghorydd neu unigolyn arall sy'n gweithredu ar ran y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn ystyried Datgelu Camarfer yn fater difrifol iawn ac mae wedi datblygu a chyflwyno modiwl E-ddysgu cynhwysfawr iawn sydd ar adran 'Learning Curve' ein MEWNRWYD, sydd newydd gael ei diwygio. Cynyddir ymwybyddiaeth o'r polisi ei hun drwy'r fewnwyd, llythyrau newyddion Adrannau, posteri, e-byst at yr holl staff, a hefyd rydym yn llunio canllaw byr sydd ar gael i'r gweithwyr hynny nad ydynt ar e-bost. Mae swyddogion datgelu camarfer wedi cael hyfforddiant diweddarau i atgyfnerthu eu rôl o fod yn bwynt cyswllt cychwynnol ar gyfer rheoli pryderon. Mae Ymgynghorwyr Adnoddau Dynol, ymgynghorwyr cyfreithiol, a swyddogion datgelu camarfer wedi cael hyfforddiant allanol i gryfhau'r cysylltiadau rhwng polisïau Adnoddau Dynol eraill a datgelu camarfer.

3.3.5.3 Y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion

Mae'r Cynllun Dirprwyo yn rhestru'r penderfyniadau a ddirprwyir i swyddogion, boed hynny gan y Cyngor neu gan y Bwrdd Gweithredol. Wrth arfer y pwerau a ddirprwyir iddynt, rhaid i'r swyddogion gydymffurfio â'r gofynion statudol a Fframwaith Polisi a Chyllideb y Cyngor, ymysg gofynion eraill. Rhaid i unrhyw benderfyniadau arwyddocaol gael eu cofnodi a bod ar gael i'r Pwyllgor Craffu perthnasol os gwneir cais amdanynt. Bellach cyhoeddir penderfyniadau gweithredol gan swyddogion.

3.3.6 **Rheoli risgiau, perfformiad a chyllid** - *Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref*

3.3.6.1 Rheoli Risg

Mae gan yr Awdurdod ddull datblygedig iawn o reoli risg a chafodd y **Strategaeth Rheoli Risg a Dilyniant Busnes 2012/15** ei chymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio ym mis Mawrth 2012. Mae gan yr Awdurdod Grŵp Llywio Rheoli Risg sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Bwrdd Gweithredol, i'r Pwyllgor Archwilio ac i Dîm Rheoli y Prif Swyddogion. Caiff y Grŵp Llywio Rheoli Risg ei gadeirio gan y Pennaeth Archwilio, Risg a Chaffael. Ar y grŵp mae Aelod Penodedig Rheoli Risg sy'n Aelod o'r Bwrdd Gweithredol (sef yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau), a Swyddogion Penodedig Rheoli Risg Adrannol.

Nod yr Awdurdod yw sicrhau bod rheolaeth dda ar risg yn dod yn rhan annatod o'i holl brosesau. Mae adran benodol yn Adroddiadau'r Pwyllgorau ar gyfer trafod ac egluro unrhyw oblygiadau o safbwynt Rheoli Risg.

Caiff Risgiau Corfforaethol, Gwasanaethau a Phrosiectau eu cofnodi ar Gofrestr Risgiau. Rydym yn defnyddio "Meddalwedd ar y we ar gyfer Cofrestru Risgiau", sy'n caniatáu i adrannau fewnbynnu, cyrchu, diweddarau a rheoli gwybodaeth ynghylch Risgiau Gwasanaethau a Phrosiectau

3.3.6.2 Y Grŵp Llywio Rheoli Risg

Mae'r Grŵp Llywio Rheoli Risg wedi'i ystyried yn enghraifft dda iawn o'r modd y gellir datblygu Rheoli Risg a sicrhau bod Rheoli Risg yn rhan annatod o holl benderfyniadau'r sefydliad. Mae'r Grŵp yn cwrdd bob tri mis ac yn cael ei gefnogi gan waith ei Is-grwpiau h.y. Risgiau Eiddo ac Atebolrwydd, Risgiau'r Fflyd Gerbydau a Dilyniant Busnes.

3.3.6.3 Y Pwyllgorau Craffu

Mae'r Swyddogaeth Graffu yn chwarae rhan werthfawr iawn o ran sicrhau gwell perfformiad a herio. Mae'n amlwg fod y rôl Graffu o ran y "Grwpiau Gorchwyl a Gorffen" wedi cael dylanwad cadarnhaol ar ddatblygu polisïau.

Mae gan yr Awdurdod system ddatblygedig iawn o reoli perfformiad. Mae'r Pwyllgorau Craffu'n cael adroddiad Chwarter 1 a Chwarter 3 ac Adroddiad Blynyddol am berfformiad, sy'n cynnwys diweddariad am yr holl Ddangosyddion Perfformiad a'r Camau Gweithredu Allweddol sydd yn y Cynllun Gwella.

Mae gan bob Pwyllgor Craffu y grym cyfansoddiadol i 'alw i mewn' unrhyw benderfyniadau a wnaed gan y weithrediaeth, boed gan y Bwrdd Gweithredol cyfan neu gan aelodau unigol o'r Bwrdd Gweithredol yn eu meysydd portffolio eu hunain. Er mwyn caniatáu 'galw i mewn', ni fydd unrhyw benderfyniad y mae'r Bwrdd Gweithredol neu Aelodau o'r Bwrdd Gweithredol yn ei wneud yn dod i rym tan 3 diwrnod ar ôl cyhoeddi'r penderfyniad a'i ddsbarthu i aelodau'r Pwyllgor Craffu perthnasol drwy neges e-bost.

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol 2011, Aelodau o Grŵp yr Wrthblaid yw Cadeiryddion y Pwyllgor Craffu – Cymunedau a Phwyllgor Craffu – yr Amgylchedd.

3.3.6.4 Gweinyddiaeth Ariannol (Swyddog Adran 151)

Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol yw'r swyddog sy'n gyfrifol am weinyddu busnes yr Awdurdod o dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac mae'n gyffredinol gyfrifol am weinyddiaeth ariannol y Cyngor Sir.

Mae'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) wedi cyhoeddi **"Statement on the Role of the Chief Financial Officer in Local Government"**. Mae'r datganiad yn disgrifio rôl a chyfrifoldebau'r Prif Swyddog Ariannol. Mae'n nodi 5 prif egwyddor (gweler isod) sy'n diffinio'r gweithgareddau craidd a'r ymddygiad sydd i'w disgwyl gan y Prif Swyddog Ariannol mewn sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus a'r trefniadau y mae angen eu gwneud i ategu'r rheini. Drwy benodi'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cydymffurfio'n llwyr â'r Datganiad.

Egwyddor 1 - Mae'r Prif Swyddog Ariannol mewn Awdurdod Lleol yn aelod allweddol o'r Tîm Arweinyddiaeth, gan ei helpu i ddatblygu a gweithredu strategaeth ac i ddarparu adnoddau ar gyfer amcanion strategol yr Awdurdod a'u cyflawni, a hynny mewn modd cynaliadwy ac er budd y cyhoedd.

Egwyddor 2 - Rhaid i'r Prif Swyddog Ariannol mewn Awdurdod Lleol ymwneud yn weithgar â'r holl benderfyniadau busnes o bwys, a gallu dylanwadu ar y penderfyniadau hynny, er mwyn sicrhau y rhoddir ystyriaeth lawn i'r goblygiadau, y cyfleoedd a'r risgiau sy'n bodoli nawr a'r rhai tymor hir, a sicrhau eu bod yn cyd-fynd â strategaeth ariannol gyffredinol yr Awdurdod.

Egwyddor 3 - Rhaid i'r Prif Swyddog Ariannol mewn Awdurdod Lleol arwain gwaith yr Awdurdod cyfan o ran hyrwyddo a chyflawni rheolaeth ariannol dda er mwyn diogelu arian cyhoeddus bob amser a sicrhau y'i defnyddir yn briodol, yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

Egwyddor 4 - Rhaid i'r Prif Swyddog Ariannol mewn Awdurdod Lleol arwain a chyfarwyddo swyddogaeth ariannol sydd â'r adnoddau i'w gwneud yn addas i'r pwrpas.

Egwyddor 5 - Rhaid i'r Prif Swyddog Ariannol mewn Awdurdod Lleol feddu ar gymwysterau proffesiynol a phrofiad addas.

Mae Is-adran y Gwasanaethau Ariannol yn rhoi cymorth i Adrannau ac yn cydgysylltu a chefnogi'r broses ar gyfer paratoi'r gyllideb a monitro ariannol.

Yn ei waith, mae'r Awdurdod yn dilyn cyfres benodol o Reolau o ran Gweithdrefnau Ariannol a Rheolau o ran Gweithdrefnau Contractau sy'n cael eu cynnal gan yr Adran Gwasanaethau Corfforaethol. Bydd unrhyw newidiadau'n cael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio.

3.3.6.5 Panel Cronfa Bensiwn Dyfed

Cyngor Sir Caerfyrddin yw'r Awdurdod Gweinyddu a benodwyd yn statudol ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed. Mae Panel y Gronfa Bensiwn yn cynnwys 3 Aelod o'r Cyngor Sir ynghyd â dirprwy sydd wedi'i enwebu i wasanaethu yn absenoldeb Aelod. Mae'r cyfrifoldebau canlynol gan Banel y Gronfa Bensiwn:

- Adolygu perfformiad Cronfa Bensiwn Dyfed, penderfynu ar gyfeiriad strategol pob mater sy'n ymwneud â buddsoddi'r Gronfa a monitro pob agwedd ar y swyddogaeth fuddsoddi.
- Penderfynu ar faterion Awdurdod Gweinyddu'r Gronfa Bensiwn.

Yn ystod 2016-17, cafodd Panel y Gronfa Bensiwn gefnogaeth gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol a Phennaeth y Gwasanaethau Ariannol, Is-adran y Gwasanaethau Ariannol, a Chynghorydd Buddsoddi Annibynnol. Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol oedd y swyddog Adran 151.

Mae Polisi Llywodraethu'r Gronfa yn manylu ar drefniadau llywodraethu'r Gronfa.

Mae gan y Bwrdd Pensiynau Lleol, a sefydlwyd yn 2015-16 o dan Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013, rôl oruchwylio neu graffu. Y bwriad yw iddo gynorthwyo'r Awdurdod Gweinyddu i sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau a gofynion a bennwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau a chan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol.

Wedi i Lywodraeth Ei Mawrhydi gymeradwyo Cronfa Fuddsoddi Cymru ym mis Tachwedd 2016, penodir yn haf 2017 Weithredwr Trydydd Parti i'r Gronfa a reoleiddir gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, i reoli'r buddsoddiadau a'r gostyngiad mewn treuliau rheoli buddsoddiadau ar gyfer pob un o'r 8 cronfa yng Nghymru. Mae Cytundeb Rhwng Awdurdodau, sef y fframwaith cyfreithiol ar gyfer sefydlu Cyd-bwyllgor Llywodraethu wedi cael ei gymeradwyo gan bob un o'r 8 awdurdod gweinyddu ac mae Gweithgor Swyddogion a fydd yn cynghori'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cael ei ddewis fel Awdurdod Cynnal i ddarparu cymorth gweinyddol ac ysgrifenyddol, ac i roi'r penderfyniadau a wneir gan y Cyd-bwyllgor Llywodraethu ar waith.

3.3.6.6 Y Fargen Ddinesig

Bydd y Fargen Ddinesig yn cael ei rheoli gan drefniant Cyd-bwyllgor sy'n cynnwys Arweinwyr awdurdodau lleol Sir Gaerfyrddin, Abertawe (Cadeirydd), Castell-nedd Port Talbot, a Sir Benfro. Prif Weithredwr Cyngor Sir Caerfyrddin yw'r Swyddog Atebol arweiniol ar gyfer y Fargen Ddinesig ac mae'r Awdurdod yn cynnal swyddogaeth y Swyddfa Ranbarthol ar ran y Cyd-bwyllgor.

3.3.7 Tryloywder ac atebolrwydd da - *Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd, ac archwilio er mwyn darparu atebolrwydd effeithiol*

3.3.7.1 Y Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Safonau a Phwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn elfen allweddol o'r Llywodraethu Corfforaethol ac mae'r Pwyllgor yn rhoi sicrwydd ynghylch y trefniadau sydd gan yr Awdurdod ar gyfer rheoli risg, cynnal amgylchedd rheoli effeithiol ac adrodd am berfformiad ariannol yn ogystal ag anariannol.

Mae'r Pwyllgor Safonau (y mae mwyafriif ei aelodau yn Aelodau Allanol) yn hybu safonau uchel o ymddygiad ar gyfer Aelodau yn ogystal â chadw golwg gyffredinol ar y prosesau sydd gan yr Awdurdod i ymdrin â chwynion a'i weithdrefn Datgelu Camarfer.

Hefyd mae gan yr Awdurdod Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd (5 o Aelodau Etholedig) a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd statudol a phenodedig. Mae cylch gwaith y Pwyllgor, fel y'i pennwyd gan yr Awdurdod, yn cynnwys sicrhau bod cyfleoedd hyfforddi a datblygu rhesymol i'r Aelodau, penodi Hyrwyddwr Datblygu'r Aelodau, a hybu a chefnogi llywodraethu da.

3.3.7.2 Archwilio Mewnol

Mae'r adolygiad o effeithiolrwydd y system Rheoli Mewnol a'r trefniadau Llywodraethu yn cael ei lywio gan waith yr Archwilwyr Mewnol, sy'n rhoi sicrwydd i'r Awdurdod. Mae'n ofynnol i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol gyflawni ei waith yn unol â'r safonau a nodwyd yn **Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS)** a sefydlwyd yn 2013. Y rhain yw'r safonau proffesiynol y cytunwyd arnynt ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol.

Yn unol â gofynion y Safonau, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn llunio adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Archwilio ei ystyried. Mae fformat yr Adroddiad Blynyddol yn cydymffurfio â gofynion y Côd Ymarfer.

Mae gan yr Awdurdod swyddogaeth Archwilio Mewnol effeithiol. Caiff y **Cynlluniau Archwilio Strategol a Blynyddol** eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio bob blwyddyn a rhoddir adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio drwy'r flwyddyn ynghylch y cynnydd a wnaed ac unrhyw Wendidau Sylweddol a glustnodwyd.

Yn ogystal â'r gwaith a gynlluniwyd, mae'r Uned Archwilio Mewnol yn ymchwilio i dwyll ac yn rhagweithio i ganfod twyll.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi medru dibynnu ar waith yr Archwilwyr Mewnol yn gyson.

3.3.7.3 Archwilio Allanol (Swyddfa Archwilio Cymru)

Swyddfa Archwilio Cymru, sef Archwilydd Allanol yr Awdurdod, sy'n adolygu ac yn rhoi sylwadau ar agweddau ariannol ar y Llywodraethu Corfforaethol, sy'n cynnwys cyfreithlondeb y trafodion ariannol, y sefyllfa ariannol, y systemau Rheolaeth Ariannol Fewnol a'r safonau ymddygiad ariannol a thwyll ac arferion llwgr

Caiff yr holl adroddiadau eu cyflwyno i'r pwyllgorau perthnasol, a hefyd rydym yn cadw cofnod o'r adroddiadau a'r argymhellion rheoleiddiol.

3.3.7.4 Asedau Gwybodaeth

Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adfywio a Pholisi) y Cyngor yw **Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth** yr Awdurdod. Mae Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth Corfforaethol yn cwrdd yn rheolaidd er mwyn diogelu gwybodaeth yr Awdurdod a'i chadw'n ddiogel. Darperir cofnodion y cyfarfodydd hyn i'w hystyried i'r Tîm Rheoli Corfforaethol.

Mae amryw o fesurau diogelu ar waith i warchod rhag colli neu ryddhau gwybodaeth bersonol. Mae'r mesurau diogelu hyn yn cynnwys amgryptio cyfrifiaduron côl, cyfryngau storio cofau a dyfeisiau eraill. Mae'r Awdurdod yn cyflogi:

- Swyddog Diogeledd TG sy'n cynghori ynghylch diogeledd data. Hefyd cyflogir swyddogion ymgynghorol ac ymgynghorwyr allanol o bryd i'w gilydd i brofi trefniadau diogeledd y Cyngor a chynghori yn eu cylch.
- Swyddog Diogelu Data sy'n cynghori ynghylch cydymffurfio â'r gyfraith ac sy'n sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau ar waith ac y cydymffurfir â hwy.

Caiff y mesurau diogelu hyn eu hadolygu'n barhaus ac maent yn cynnwys atebion technegol ynghyd â hyfforddiant i staff sy'n ymwneud â rheoli a thrin data sensitif.

Mae'r gwaith yn parhau ynghylch rôl a chyfrifoldebau'r Perchenogion Asedau Gwybodaeth (IAOs). Yn ystod 2016/17 darparwyd sesiynau hyfforddiant pellach i reolwyr trydedd haen ar fod yn Swyddogion Asedau Gwybodaeth i'w helpu i ddeall pwysigrwydd yr asedau y maent yn gyfrifol amdanynt; i'w hannog i rannu data mewn modd cyfrifol lle bydd hyn yn hyrwyddo gwell gwasanaeth; ac i ddeall yn llwyr y gofynion ar gyfer sicrhau cywirdeb a diogeledd data. Hefyd gwnaed cynnydd o ran llunio Cofrestr Asedau Gwybodaeth yn 2016/17 a fydd yn parhau i gael ei chynnal a'i diwygio yn barhaus.

Ar hyn o bryd mae Swyddog Diogelu Data yr awdurdod yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaethau TGCh i asesu a pharatoi ar gyfer cyflwyno Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) newydd sy'n dod i rym ym mis Mai 2018.

3.3.7.5 Adolygu Effeithiolrwydd

Cynhelir adolygiad rheolaidd o effeithiolrwydd ein trefniadau Llywodraethu (gan gynnwys y system Rheoli Mewnol) a hynny gan y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol drwy ei waith.

Mae'r adolygiad yn cael gwybodaeth i'w lywio gan reolwyr yr Awdurdod sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, gan Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol a hefyd gan sylwadau'r Archwilwyr Allanol (Swyddfa Archwilio Cymru).

Er mwyn mesur pa mor effeithiol yw'r fframwaith llywodraethu gofynnir am dystiolaeth a datganiadau sicrwydd gan y canlynol

- Y Cyngor
- Yr Arweinyddiaeth / Y Bwrdd Gweithredol
- Aelodau'r Bwrdd Gweithredol
- Y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion
- Y Pwyllgor Archwilio / y Pwyllgorau Craffu / y Grŵp Llywio Rheoli Risg
- Y Pwyllgor Safonau
- Archwilio Mewnol
- Archwilio Allanol
- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

3.3.7.6 Y Cyngor

Mae'r Cyngor yn cwrdd bob mis ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch swyddogaethau'r Cyngor. Cyhoeddir ei Agendâu o leiaf 3 diwrnod cyfan cyn y cyfarfodydd, ac mae ei gyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd (yn amodol ar eithriadau). Cyhoeddir ei gofnodion ac maent ar gael i'r cyhoedd.

Roedd Adroddiad Asesu Corfforaethol 2015, Swyddfa Archwilio Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2016, wedi dod i'r casgliad hwn:

- Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da wrth sefydlu trefniadau llywodraethu gwell sydd bellach yn fwy cadarn a thryloyw, er bod cyfleoedd i wneud gwelliannau pellach i alluogi'r Aelodau i fod yn fwy effeithiol yn eu rolau.
- Parhau i wella llywodraethu, gwneud penderfyniadau, bod yn agored a thryloywder a'u cadw dan adolygiad gan y Gweithgor Adolygu'r Cyfansoddiad.

3.3.7.7 Yr Arweinyddiaeth / Y Bwrdd Gweithredol

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn gwneud penderfyniadau ynghylch swyddogaethau'r weithrediaeth o fewn y fframwaith polisi a chyllideb a bennir gan y Cyngor. Cyhoeddir yr Agenda o leiaf 3 diwrnod cyfan cyn ei gyfarfodydd a chynhelir y cyfarfodydd yn gyhoeddus (yn amodol ar eithriadau statudol). Cyhoeddir ei gofnodion a gall ei benderfyniadau gael eu 'galw i mewn' gan y Pwyllgor Craffu perthnasol (gweler paragraff 3.4.8 isod).

Ar ôl etholiad llywodraeth leol 2017, mae dyraniad y seddi rhwng y ddwy blaid sy'n rhan o'r Glymblaid (Plaid a'r Grŵp Annibynnol) wedi newid o'r dyraniad blaenorol 5:5 i 7 Plaid: 3 Grŵp Annibynnol.

O ganlyniad bu rhywfaint o oedi ynghylch blaenraglen waith lawn y Cyngor ond bydd yn cael ei chyhoeddi'n fuan.

Mae'r Awdurdod yn cwrdd â'r Cynghorau Tref a'r Cynghorau Cymuned ddwywaith y flwyddyn mewn Fforwm ffurfiol.

3.3.7.8 Aelodau o'r Bwrdd Gweithredol

Mae gan Aelodau o'r Bwrdd Gweithredol bwerau gwneud penderfyniadau mewn perthynas â'u meysydd portffolio eu hunain. Cyhoeddir eu penderfyniadau ac maent yn amodol ar gael eu 'galw i mewn' gan y Pwyllgorau Craffu perthnasol (gweler paragraff 3.4.8 isod). Mae'r portffolios wedi cael eu newid yn dilyn etholiadau 2017. Cynhaliwyd etholiadau llywodraeth

leol ym mis Mai 2017, ac ar ôl hynny bu'n rhaid i'r Cyngor Sir wneud penderfyniad o'r newydd ynghylch penodi Arweinydd ac mae'n bosibl yr ailedrychir ar y Portffolios yn dilyn y broses honno.

3.3.7.9. Y Pwyllgor Archwilio

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cwrdd drwy gydol y flwyddyn i roi sicrwydd annibynnol i'r Awdurdod ynghylch pa mor effeithiol yw'r Rheoli Mewnol a'r Fframwaith Rheoli Risg.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn gyfrifol hefyd am gymeradwyo Datganiad Cyfrifon yr Awdurdod.

O dan **Fesur Llywodraeth Leol Cymru 2011** mae'n orfodol fod gan Awdurdodau Lleol Bwyllgor Archwilio. Mae'r Mesur yn nodi bod yn rhaid cael Aelod Allanol â Phleidlais annibynnol ar y Pwyllgor Archwilio, ac, yn dilyn proses hysbysebu allanol, cymeradwywyd Aelod Allanol â Phleidlais gan y Cyngor Sir ar 8 Mehefin 2016.

Mae Proffiliau Swyddi ar gael ar gyfer Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ac Aelodau'r Pwyllgor Archwilio. Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol 2011, mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn Aelod o Grŵp yr Wrthblaid.

3.4 Materion Llywodraethu i Fynd i'r Afael â hwy

Mae angen ystyried a mynd i'r afael â'r materion Llywodraethu ychwanegol canlynol yn ystod y 12 mis nesaf:

1. Sicrhau bod yr adrannau'n monitro ac yn cymryd camau gweithredu o ran yr holl Argymhellion a Chynigion Rheoliadol cytunedig a dilys. Datblygu dangosfwrdd/swyddogaeth PIMS i alluogi hyn.
2. **Ar gyfer 2016/17** - Cyhoeddi Adroddiad Blyneddol am berfformiad 2016/17 a'n cynnydd o ran ail flwyddyn ein Strategaeth Gorfforaethol erbyn **31 Hydref 2017**.
3. **Ar gyfer 2017/18**
 - Cyhoeddi ein Hamcanion Llesiant
 - cyhoeddi ein Cynlluniau Gweithredu ar ein Hamcanion Llesiant ar gyfer 2017/18 a monitro eu gweithrediad
 - bodloni disgwyliadau Llywodraethu Corfforaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
 - yn ystod y flwyddyn parhau i fabwysiadu a chryfhau 5 ffordd o weithio
4. **Ar gyfer 2018/19** –
 - Ar ddechrau 2017/18, sicrhau bod ein Hamcanion Llesiant a'n Prif Flaenoriaethau Amcanion Gwella yn dylanwadu ar y gyllideb a bennir
 - Sicrhau mwy o integreiddio rhwng y Gwasanaeth a Chynllunio Ariannol fel y cytunir â Swyddfa Archwilio Cymru yn yr Adroddiad Cynllunio Ariannol
 - Adolygu a monitro prosesau diogelu cyflogaeth mewn perthynas â:
 - Cadw cofnod Adnoddau Dynol o ran cwynion ac archwiliadau mewn perthynas â staff;
 - Darparu geirda ar gyfer swyddi sy'n rhan o weithgaredd a reoleiddir;
 - Gwiriadau cyn-cyflogi ar gyfer swyddi sy'n rhan o weithgaredd a reoleiddir.
 - Adolygu'r Polisi Recriwtio a Dethol i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth cyflogaeth a chefnogi'r adolygiad o'r broses recriwtio
 - Cyhoeddi Polisi Tâl erbyn mis Ebrill 2018 yn unol ag Adran 38 o'r Ddeddf Lleoliaeth
 - Monitro a gwerthuso argymhellion a wnaed gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen Adolygu Rheoli Pobl

Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod rydym yn bwriadu cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion uchod er mwyn gwella ein trefniadau Llywodraethu ymhellach. Yn Atodiad 2, atodwyd Cynllun Gweithredu yn crynhoi'r Camau Gweithredu uchod, y Swyddogion Cyfrifol a'r Dyddiadau Targed. Rydym wedi ein bodloni y bydd y camau hyn yn mynd i'r afael â'r angen am welliannau a byddwn yn monitro'r modd y cânt eu rhoi ar waith a'u gweithredu fel rhan o'n hadolygiad blynyddol nesaf.

Cymeradwyo

Arweinydd y Cyngor

Dyddiad

Prif Weithredwr

Dyddiad

ATODIAD 1**Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM FATERION LLYWODRAETHU Y MAE ANGEN RHOI SYLW
IDDYNT AC A NODWYD MEWN DATGANIADAU LLYWODRAETHU BLYNYDDOL BLAENOROL**

Y FFYH- HONELL	Y MATERION	Y SWYDDOG CYFRIFOL	Y CAMAU GWEITHREDU/ Y CYNNYDD	STATWS
DLIB 2013/14 Rhif 5a	Adolygu Rheolau'r Weithdrefn Ariannol a sicrhau bod Rheolwyr Cyllideb yn llwyr ymwybodol o'u cyfrifoldebau	Pennaeth Archwilio, Rheoli Risg a Chaffael Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol	Adolygwyd Llawlyfr y Gyllideb, Llawlyfr y Prosiectau Grantiau a'r Llawlyfr Rheoli Cyfalaf ac roedd y fersiwn diweddaraf wedi'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio (11 Gorffennaf a 26 Medi 2014) Cymeradwywyd y Rheolau o ran Gweithdrefnau Contractau gan y Pwyllgor Archwilio ym mis Medi 2016, a chymeradwywyd newid pellach ym mis Mawrth 2017.	Wedi ei gwblhau
DLIB 2013/14 Rhif 5b	Adolygu Rheolau'r Weithdrefn Ariannol a sicrhau bod Rheolwyr Cyllideb yn llwyr ymwybodol o'u cyfrifoldebau	Pennaeth Archwilio, Rheoli Risg a Chaffael	Rheolau'r Weithdrefn Ariannol i'w diweddarau a'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio	Ar waith
DLIB 2014/15 Rhif 1	Gweithio gyda'r Weinyddiaeth newydd i lunio Blaenraglen Waith 5 mlynedd a blaenoriaethau'r Cyngor	Y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adfywio a Pholisi)	Gan fod etholiadau'r Cyngor yn 2017 fe gyflwynodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Dole, flaenraglen waith 12 mis ym mis Mai 2016	Wedi cwblhau (Mater allweddol i'r Cyngor newydd yn 2017)
DLIB 2014/15 Rhif 2	Ymateb i'r Aseiad Corfforaethol sydd i'w gynnal gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod 2015/16	Y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adfywio a Pholisi)	Mae'r Cynllun Gweithredu wedi cael ei gynhyrchu a'i gymeradwyo gan y Bwrdd Gweithredol ym mis Mai 2016.	Wedi ei gwblhau
DLIB 2014/15 Rhif 6	Ymateb i Reoliad Diogelu Data Cyffredinol newydd yr Undeb Ewropeaidd (GDPR) (sy'n disodli Deddf Diogelu Data 1998)	Y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adfywio a Pholisi)	Nid oedd canllawiau wedi dod i law yn ystod 15/16 ynghylch y ddeddfwriaeth newydd, yr oedd oedi wedi bod yn ei chylch ac a oedd ond wedi dod i rym ar 26 Mai 2016.	Ar waith

Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM FATERION LLYWODRAETHU Y MAE ANGEN RHOI SYLW IDDYNT AC A NODWYD MEWN DATGANIADAU LLYWODRAETHU BLYNYDDOL BLAENOROL				
Y FFYNHONELL	Y MATERION	Y SWYDDOG CYFRIFOL	Y CAMAU GWEITHREDU/ Y CYNNYDD	STATWS
DLIB 2014/15 Rhif 8	Monitro cynnydd o ran gweithredu gwelliannau o ran rheoli'r Grant Cefnogi Pobl	Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd	Mae monitro ar waith drwy adroddiadau chwarterol i'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r cynnydd wedi bod yn gadarnhaol ac mae newidiadau wedi cael eu gweithredu. Bellach mae'r Pwyllgor Archwilio wedi gofyn am adroddiadau chwe-misol.	Ar waith
DLIB 2015/16 Rhif 1	Ymateb i Ddeddf newydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a datblygu perthynas waith effeithiol ar y cyd â phartneriaid yn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.	Y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adfywio a Pholisi)	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi'i sefydlu ym mis Mai 2016. Gweithio ar sicrhau bod yr Awdurdod yn parhau i gydymffurfio â'r Ddeddf newydd	Ar waith
DLIB 2015/16 Rhif 2	Monitro Cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.	Y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adfywio a Pholisi)	Safonau newydd wedi'u cyflwyno ar draws yr Awdurdod. Bydd monitro cydymffurfiaeth yn digwydd yn barhaus.	Ar waith
DLIB 2015/16 Rhif 3	Sicrhau bod Cynllun Gweithredu, mewn perthynas â chynigion gwella a fynegwyd yn Asesiad Corfforaethol 2015/16, yn cael ei gwblhau a'i fonitro.	Y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adfywio a Pholisi)	Cytunwyd ar Gynllun Gweithredu 25 pwynt. Cafodd ei gynnwys yn ein Hadroddiad Blynyddol a Chynllun Gwella (ARIP) a'i fonitro drwy gydol y flwyddyn. Roedd y Cynllun Gweithredu hwn ar ddangosfwrdd y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Bwrdd Gweithredol Rhagarweiniol. Mae Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2016/17 yn cynnwys dilyniant i'r Asesiad Corfforaethol.	Parhaus mewn rhannau
DLIB 2015/16 Rhif 4	Datblygu Rhaglen Hyfforddiant Aelodau i sicrhau bod trefniadau priodol ar waith ar gyfer mis Mai 2017. Hyfforddiant i'w ddarparu hyd at fis Hydref 2017.	Y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)		Wedi ei gwblhau

Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM FATERION LLYWODRAETHU Y MAE ANGEN RHOI SYLW IDDYNT AC A NODWYD MEWN DATGANIADAU LLYWODRAETHU BLYNYDDOL BLAENOROL				
Y FFYNHONELL	Y MATERION	Y SWYDDOG CYFRIFOL	Y CAMAU GWEITHREDU/ Y CYNNYDD	STATWS
DLIB 2015/16 Rhif 5	Adolygu'r Trefniadau Llywodraethu ar gyfer cytundebau Partneriaethau a chydweithio Rhanbarthol	Y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adfywio a Pholisi)		Wedi ei gwblhau
DLIB 2015/16 Rhif 6	Datblygu perthynas effeithiol gyda Chomisiynydd newydd yr Heddlu, Aelodau Cynulliad Cymru a chynghorau tref a chymuned i sicrhau bod cydweithredu'n digwydd i'r eithaf	Y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adfywio a Pholisi)	Perthnasoedd wedi'u sefydlu gydag ymrwymiad parhaus i'w datblygu ymhellach	Wedi ei gwblhau
DLIB 2015/16 Rhif 7	Aseu a monitro effaith Partneriaeth y Fargen Ddinesig ar yr Awdurdod	Y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adfywio a Pholisi)	Cafodd Bargen Ddinesig Bae Abertawe ei llofnodi gan Lywodraethau Cymru a'r DU ar 20 Mawrth 2017. Cyngor Sir Caerfyrddin fydd y Swyddfa Ranbarthol a'r corff arweiniol atebol. Mae'r Cytundeb Cyd-bwyllgor yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd.	Ar waith
DLIB 2015/16 Rhif 8	Datblygu a chynnal Cofrestr Asedau Gwybodaeth	Y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adfywio a Pholisi)	Bydd cofrestru cofnodion sefydledig a gweithio ar adolygu a diweddarau cofnodion a sicrhau eu bod yn gywir yn broses barhaus yn y dyfodol	Wedi ei gwblhau
DLIB 2015/16 Rhif 9	Datblygu Strategaeth Rheoli Risg a Strategaeth Dilyniant Busnes newydd	Pennaeth Archwilio, Rheoli Risg a Chaffael	Yn cael ei drafftio ar hyn o bryd	Ar waith
DLIB 2015/16 Rhif 10	Adolygu Adroddiad 2014/15 Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch Ardystio Grantiau, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2016, a gweithredu unrhyw gamau y cytunwyd arnynt	Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Ariannol	Adolygwyd yr holl gamau gweithredu a chysylltwyd â'r Adrannau yn eu cylch.	Wedi ei gwblhau

ATODIAD 2

MATERION LLYWODRAETHU - CYNLLUN GWEITHREDU

MATERION LLYWODRAETHU NEWYDD A NODWYD ELENI YN
Y DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

CYF. Y MATER	Y CAM GWEITHREDU	Y SWYDDOG CYFRIFOL	Y DYDDIAD TARGED
DLIB 2016/17 Rhif 1	Sicrhau bod yr adrannau'n monitro ac yn cymryd camau gweithredu o ran yr holl Argymhellion a Chynigion Rheoliadol cytunedig a dilys. Datblygu dangosfwrdd / swyddogaeth PIMS i alluogi hyn.	Y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adfywio a Pholisi)	31 Mawrth 2018
DLIB 2016/17 Rhif 2	Ar gyfer 2016/17 – Cyhoeddi Adroddiad Blynyddol am berfformiad 2016/17 a'n cynnydd o ran ail flwyddyn ein Strategaeth Gorfforaethol.	Y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adfywio a Pholisi)	31 Hydref 2017
DLIB 2016/17 Rhif 3	Ar gyfer 2017/18 <ul style="list-style-type: none"> • Cyhoeddi ein Hamcanion Llesiant • cyhoeddi ein Cynlluniau Gweithredu ar ein Hamcanion Llesiant ar gyfer 2017/18 a monitro eu gweithrediad • bodloni disgwyliadau Llywodraethu Corfforaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol • yn ystod y flwyddyn parhau i fabwysiadu a chryfhau 5 ffordd o weithio 	Y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adfywio a Pholisi)	Mawrth 2018
DLIB 2016/17 Rhif 4	Ar ddechrau 2017/18, sicrhau bod ein Hamcanion Llesiant a'n Prif Flaenoriaethau Amcanion Gwella yn dylanwadu ar y gyllideb a bennir	Y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adfywio a Pholisi)	Rhagfyr 2017
DLIB 2016/17 Rhif 5	Sicrhau mwy o integreiddio rhwng y Gwasanaeth a Chynllunio Ariannol fel y cytunir â Swyddfa Archwilio Cymru yn yr Adroddiad Cynllunio Ariannol	Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol	Rhagfyr 2017

MATERION LLYWODRAETHU - CYNLLUN GWEITHREDU**MATERION LLYWODRAETHU NEWYDD A NODWYD ELEN I YN
Y DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL**

CYF. Y MATER	Y CAM GWEITHREDU	Y SWYDDOG CYFRIFOL	Y DYDDIAD TARGED
DLIB 2016/17 Rhif 6	Adolygu a monitro prosesau diogelu cyflogaeth mewn perthynas â: <ul style="list-style-type: none"> • Cadw cofnod Adnoddau Dynol o ran cwynion ac archwiliadau mewn perthynas â staff; • Darparu geirda ar gyfer swyddi sy'n rhan o weithgaredd a reoleiddir; • Gwiriadau cyn-cyflogi ar gyfer swyddi sy'n rhan o weithgaredd a reoleiddir. 	Y Cyfarwyddwr Cymunedau	Mawrth 2018
DLIB 2016/17 Rhif 7	Adolygu'r Polisi Recriwtio a Dethol i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth cyflogaeth a chefnogi'r adolygiad o'r broses recriwtio	Rheolwr y Gwasanaethau Pobl	Mawrth 2018
DLIB 2016/17 Rhif 8	Cyhoeddi Polisi Tâl erbyn mis Ebrill 2018 yn unol ag Adran 38 o'r Ddeddf Lleoliaeth	Y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl)	Mawrth 2018
DLIB 2016/17 Rhif 9	Monitro a gwerthuso argymhellion a wnaed gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen Adolygu Rheoli Pobl	Y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adfywio a Pholisi)	Mawrth 2018

5 DATGANIADAU CYLLIDOL

Mae'r datganiadau cyllidol yn cynnwys y canlynol:

5.1 DADANSODDIAD GWARIANT A CHYLLID

Mae'r Dadansoddiad Gwariant a Chyllid yn dangos sut mae'r gwariant blynyddol yn cael ei ddefnyddio a'i gyllido o adnoddau (grantiau'r llywodraeth, rhenti a'r dreth gyngor) gan awdurdodau lleol o gymharu â'r adnoddau hynny a ddefnyddir neu a enillir gan awdurdodau yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Hefyd mae'n dangos sut mae'r gwariant hwn yn cael ei ddyrannu rhwng adrannau'r Cyngor at ddibenion gwneud penderfyniadau. Caiff incwm a gwariant y cyfrifir amdanynt o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol eu cyflwyno'n fwy llawn yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

5.2 Y DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

Mae'r datganiad hwn yn dangos y gost cyfrifyddu yn ystod y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol â'r arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn hytrach na'r swm sydd i'w ariannu o'r trethiant. Bydd Awdurdodau yn codi'r trethiant i dalu am wariant yn unol â'r rheoliadau: gallai hyn fod yn wahanol i'r gost cyfrifyddu. Dangosir sefyllfa'r trethiant yn y Datganiad Symudiadau yng Nghronfeydd yr Awdurdod. Dangosir sefyllfa'r trethiant yn y Dadansoddiad Gwariant a Chyllid a'r Datganiad Symudiadau yng Nghronfeydd.

5.3 DATGANIAD AM Y SYMUDIADAU YNG NGHRONFEYDD YR AWDURDOD

Mae'r datganiad hwn yn dangos y symudiadau yn ystod y flwyddyn yn y gwahanol gronfeydd sydd gan yr Awdurdod. Maen nhw wedi'u dadansoddi yn ôl 'cronfeydd defnyddiadwy' (hynny yw cronfeydd y gellir eu defnyddio ar gyfer gwariant neu i leihau trethi lleol) a chronfeydd eraill. Mae'r Datganiad yn dangos sut mae symudiadau blwyddyn cronfeydd yr Awdurdod wedi'u rhannu'n enillion a cholledion yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol a'r addasiadau statudol sydd eu hangen i ddychwelyd y cyfrifon i'r symiau oedd yn daladwy i'r dreth gyngor a rhenti preswylfeydd am y flwyddyn. Mae'r llinell Cynnydd/Gostyngiad Net yn dangos Balans statudol Cronfa'r Cyngor a symudiadau Balans y Cyfrif Refeniw Tai yn ystod y flwyddyn yn dilyn yr addasiadau hyn.

5.4 Y FANTOLEN

Mae'r Fantolen yn dangos gwerth yr asedau a'r rhwymedigaethau sydd gan yr Awdurdod ar ddyddiad y fantolen. Mae asedau net yr Awdurdod (hynny yw, yr asedau namyn y rhwymedigaethau) yn cyfateb i'r cronfeydd sydd gan yr Awdurdod. Mae dau ddsbarth o gronfeydd. Y dosbarth cyntaf yw'r cronfeydd defnyddiadwy, hynny yw, y cronfeydd y gall yr Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae angen bod yn ddarbodus wrth dynnu o'r cronfeydd a thalu sylw i unrhyw gyfyngiadau statudol ar y defnydd sydd i'w wneud ohonynt (ee y Cronfeydd Cyfalaf na cheir eu defnyddio ond ar gyfer gwariant cyfalaf neu i ad-dalu dyled). Yn yr ail ddsbarth mae'r cronfeydd hynny *na* all yr Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Yn eu plith mae cronfeydd sydd ag enillion neu golledion ar bapur yn unig (ee y Gronfa Ailbrisiad, lle byddai'r symiau ond ar gael i ddarparu gwasanaethau pe byddai'r asedau'n cael eu gwerthu); a chronfeydd sydd â'r gwahaniaethau amseru a ddangosir yn y llinell 'Addasiadau rhwng y sail cyfrifyddu a'r sail ariannu yn unol â'r rheoliadau' yn y Datganiad Symudiadau yng Nghronfeydd yr Awdurdod.

5.5 Y DATGANIAD LLIF ARIAN

Mae'r Datganiad Llif Arian yn dangos y newidiadau yn arian parod ac arian cyfwerth yr Awdurdod yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r datganiad yn dangos sut mae'r Awdurdod yn creu ac yn defnyddio arian ac adnoddau cyfwerth ag arian drwy ddsbarthu'r llif arian yn weithgareddau gweithredol, buddsoddi ac ariannu. Mae swm y llif arian net sy'n deillio o'r gweithgareddau gweithredol yn bwysig i ddangos i ba raddau y mae gweithrediadau'r Awdurdod yn cael eu hariannu gan drethi ac incwm grant neu gan y rhai sy'n derbyn gwasanaethau gan yr Awdurdod. Mae gweithgareddau buddsoddi yn cynrychioli'r graddau y mae arian wedi'i ddefnyddio ar gyfer adnoddau y bwriedir iddynt gyfrannu at wasanaethau'r Awdurdod yn y dyfodol. Mae llif yr arian o'r gweithgareddau ariannu yn ddefnyddiol i broffwydo faint fydd y rhai sy'n darparu cyfalaf i'r Awdurdod (hynny yw, benthyca) yn ei hawlio yn y dyfodol.

5.1 DADANSODDIAD GWARIANT A CHYLLID

Y gwahaniaeth rhwng (Gwarged)/Diffyg Cronfa'r Cyngor (CC) a'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT) a (Gwarged)/Diffyg y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

2016-17

	Gwariant Net a chodir ar y CC a'r CRT £'000	Addasiadau ar gyfer Dibenion Cyfalaf £'000	Newidiadau Net ar gyfer Addasiadau Pensiynau £'000	Gwahaniaet hau Eraill £'000	Cyfanswm Addasiadau £'000	Gwariant Net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr £'000
Adran						
Prif Weithredwr	8,937	305	501	6	812	9,749
Addysg a Phlant	146,143	17,830	681	1,272	19,783	165,926
Gwasanaethau Corfforaethol	19,181	232	(436)	12	(192)	18,989
Cymunedau	86,242	6,042	1,624	40	7,706	93,948
Amgylchedd	41,637	8,530	796	35	9,361	50,998
Cyfrif Refeniw Tai	(18,619)	14,851	107	6	14,964	(3,655)
Yswiriant a Chorfforaethol	3,937	(3,345)	0	0	(3,345)	592
Cost Net y Gwasanaethau	287,458	44,445	3,273	1,371	49,089	336,547
Incwm a Gwariant Arall	(296,987)	(25,556)	10,140	(62)	(15,478)	(312,465)
(Gwarged)/Diffyd	(9,529)	18,889	13,413	1,309	33,611	24,082
Balans CC a CRT ar 31ain Mawrth 2016:	(87,707)					
(Gwarged)/Diffyg	(9,529)					
Balans CC a CRT ar 31ain Mawrth 2017:	(97,236)					
2015-16						
Adran						
Prif Weithredwr	9,423	1,381	760	14	2,155	11,578
Addysg a Phlant	144,754	15,849	1,327	(1,220)	15,956	160,710
Gwasanaethau Corfforaethol	20,088	537	1,436	18	1,991	22,079
Cymunedau	84,831	3,583	2,308	64	5,955	90,786
Amgylchedd	40,940	7,050	1,079	43	8,172	49,112
Cyfrif Refeniw Tai	(11,035)	216,162	146	6	216,314	205,279
Yswiriant a Chorfforaethol	12,623	(10,029)	0	0	(10,029)	2,594
Cost Net y Gwasanaethau	301,624	234,533	7,056	(1,075)	240,514	542,138
Incwm a Gwariant Arall	(293,970)	(38,999)	9,779	107	(29,113)	(323,083)
(Gwarged)/Diffyd	7,654	195,534	16,835	(968)	211,401	219,055
Balans CC a CRT ar 31ain Mawrth 2015:	(95,361)					
(Gwarged)/Diffyg	7,654					
Balans CC a CRT ar 31ain Mawrth 2016:	(87,707)					

Gweler nodyn 6.49 i gael Esboniad Naratif o'r addasiadau rhwng gwariant net sy'n daladwy i Gronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai a gwariant net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

5.2 Y DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

2015-16			2016-17		
Cyfanswm y Gwariant	Cyfanswm yr Incwm Gros	Cyfanswm y Gwariant Net	Cyfanswm y Gwariant Gros	Cyfanswm yr Incwm Gros	Cyfanswm y Gwariant Net
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
37,398	(25,820)	11,578	27,253	(17,504)	9,749
222,662	(61,952)	160,710	228,125	(62,199)	165,926
90,858	(68,779)	22,079	88,204	(69,215)	18,989
149,272	(58,486)	90,786	150,620	(56,672)	93,948
102,479	(53,367)	49,112	108,557	(57,559)	50,998
242,523	(37,244)	205,279	34,607	(38,262)	(3,655)
2,697	(103)	2,594	604	(12)	592
847,889	(305,751)	542,138	637,970	(301,423)	336,547
Adran					
			Prif Weithredwr		
			Addysg a Phlant		
			Gwasanaethau Corfforaethol		
			Cymunedau		
			Amgylchedd		
			Cyfrif Refeniw Tai		
			Yswiriant a Chorfforaethol		
Cost Net y Gwasanaethau			Cost Net y Gwasanaethau		
Praeseptau ac Ardollau:					
	147				138
	9,067				9,172
	5,017				5,283
	14,080				14,191
	146				2,268
	(533)				(369)
				Nodyn 6.5	
	27,924				30,683
Gwariant Gweithredol Arall			Gwariant Gweithredol Arall		
	17,639				17,636
	9,185				9,687
	(450)				(386)
	1,149				333
				Nodyn 6.10	
	27,523				27,270
Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi			Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi		
	(199,071)				(195,966)
	(565)				0
	(96,297)				(100,023)
	(53,410)				(55,720)
	(29,187)				(18,709)
				Nodyn 6.38	
				Nodyn 6.38	
				Nodyn 6.6	
				Nodyn 6.7	
				Nodyn 6.38	
	(378,530)				(370,418)
Trethiant ac Incwm Grantiau Amhenodol			Trethiant ac Incwm Grantiau Amhenodol		
(Gwarged)/Diffyg ar Darparu Gwasanaethau			(Gwarged)/Diffyg ar Darparu Gwasanaethau		
	(21,274)				(9,150)
	(28,472)				83,368
	(49,746)				74,218
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall			Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall		
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr			Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		
	169,309				98,300

5.3 DATGANIAD AM Y SYMUDIADAU YNG NGHRONFEYDD YR AWDURDOD

	Balans Cronfar Cyngor	Cronfeydd Wrth Gefn sydd wedi'u Clustnodi	Cyfrif Refeniw Tai	Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf	Cronfa Wrth Gefn Atgyweiriadau Mawr	Gronfa Grantiau Cyfalaf Heb eu Defnyddio	CYFANSWM CRONFEYDD Y GELLIR EU DEFNYDDIO	Cronfeydd na ellir eu defnyddio	CYFANSWM CRONFEYDD YR AWDURDOD
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Balans ar 31 Mawrth 2015	(8,500)	(76,199)	(10,662)	(26,512)	0	(1,275)	(123,148)	(773,744)	(896,892)
Symudiadau yn y cronfeydd yn ystod 2015/16									
Gwarged neu (ddiffyg) ar ddarparu gwasanaethau	10,139	0	208,916	0	0	0	219,055	0	219,055
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall	0	0	0	0	0	0	0	(49,746)	(49,746)
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	10,139	0	208,916	0	0	0	219,055	(49,746)	169,309
Addasiadau rhwng y sail cyfrifyddu a'r sail ariannu yn unol â'r rheoliadau (nodyn 6.4)	(3,987)	0	(207,414)	7,879	0	412	(203,110)	203,110	0
(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddo i'r Cronfeydd a Glustnodwyd	6,152	0	1,502	7,879	0	412	15,945	153,364	169,309
Trosglwyddo i/(o'r) Cronfeydd a Glustnodwyd (nodyn 6.22)	(6,431)	6,391	40	0	0	0	0	0	0
(Cynnydd)/Gostyngiad yn y flwyddyn	(279)	6,391	1,542	7,879	0	412	15,945	153,364	169,309
Balans ar 31 Mawrth 2016	(8,779)	(69,808)	(9,120)	(18,633)	0	(863)	(107,203)	(620,380)	(727,583)
Symudiadau yn y cronfeydd yn ystod 2016/17									
Gwarged neu (ddiffyg) ar ddarparu gwasanaethau	24,088	0	(6)	0	0	0	24,082	0	24,082
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall	0	0	0	0	0	0	0	74,218	74,218
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	24,088	0	(6)	0	0	0	24,082	74,218	98,300
Addasiadau rhwng y sail cyfrifyddu a'r sail ariannu yn unol â'r rheoliadau (nodyn 6.4)	(28,786)	0	(4,825)	3,658	0	272	(29,681)	29,681	0
(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddo i'r Cronfeydd a Glustnodwyd	(4,698)	0	(4,831)	3,658	0	272	(5,599)	103,899	98,300
Trosglwyddo i/(o'r) Cronfeydd a Glustnodwyd (nodyn 6.22)	4,173	(4,113)	(60)	0	0	0	0	0	0
(Cynnydd)/Gostyngiad yn y flwyddyn	(525)	(4,113)	(4,891)	3,658	0	272	(5,599)	103,899	98,300
Balans ar 31 Mawrth 2017	(9,304)	(73,921)	(14,011)	(14,975)	0	(591)	(112,802)	(516,481)	(629,283)

5.4 Y FANTOLEN

31/03/16 £'000			£'000	31/03/17 £'000
		Nodiadau		
1,310,097	Eiddo, Offeriant a Chyfarpar	6.8	1,321,435	
2,246	Asedau Treftadaeth	6.9	2,246	
22,927	Eiddo Buddsoddi	6.10	25,290	
1,110	Buddsoddiadau Tymor Hir	6.11	1,961	
7,148	Dyledwyr Tymor Hir	6.12	7,396	
<u>1,343,528</u>	Asedau Tymor Hir			<u>1,358,328</u>
8,038	Buddsoddiadau Tymor Byr	6.13	22,155	
410	Asedau a Ddelir i'w Gwerthu	6.14	0	
1,006	Stocrestrau	6.15	977	
46,370	Dyledwyr Tymor Byr	6.16	49,526	
<u>34,851</u>	Arian Parod ac Arian Cyfwerth	6.17	16,022	
90,675	Asedau Cyfredol			<u>88,680</u>
(9,013)	Benthyciadau Tymor Byr	6.18	(13,203)	
(55,541)	Credydwyr Tymor Byr	6.19	(57,723)	
(3,601)	Darpariaethau	6.20	(3,677)	
<u>(68,155)</u>	Rhwymedigaethau Cyfredol			<u>(74,603)</u>
(3,526)	Darpariaethau	6.20	(3,757)	
(370,425)	Benthyciadau Tymor Hir	6.21	(378,071)	
<u>(264,514)</u>	Rhwymedigaethau Tymor Hir Arall	6.44	(361,294)	
(638,465)	Rhwymedigaethau Tymor Hir			<u>(743,122)</u>
<u>727,583</u>	Asedau Net			<u>629,283</u>
8,779	Balans Cronfa'r Cyngor		9,304	
9,120	Cyfrif Refeniw Tai	7.2	14,011	
	Cronfeydd Wrth Gefn Cronfa'r Cyngor sydd wedi'u			
66,131	Clustnodi	6.22	72,211	
	Cronfeydd Cronfa'r Cyngor a ddelir gan ysgolion yn			
3,677	unol â RHYLL	6.22	1,710	
0	Atgyweiriadau Mawr	6.22	0	
18,633	Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy	6.23	14,975	
863	Grantiau Cyfalaf heb eu defnyddio	6.24	591	
<u>107,203</u>	Cyfanswm Cronfeydd Defnyddiadwy			<u>112,802</u>
333,733	Cronfa Ailbrisiad	6.25	331,384	
555,560	Cyfrif Addasiadau Cyfalaf	6.26	552,106	
(986)	Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol	6.27	(884)	
342	Cronfa Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig	6.28	336	
(264,514)	Cronfa Bensiynau	6.29	(361,294)	
<u>(3,755)</u>	Cyfrif Absenoldebau Cronedig	6.30	(5,167)	
620,380	Cronfeydd na ellir eu defnyddio			<u>516,481</u>
<u>727,583</u>	Cyfanswm Cronfeydd			<u>629,283</u>

5.5 Y DATGANIAD LLIF ARIAN

2015-16 £'000		Nodiadau	2016-17 £'000
123,679	Trethiant		130,179
336,657	Grantiau		343,073
13,615	Rhenti		14,468
330	Llog a Dderbyniwyd		188
83,684	Derbyniadau arall o gweithgareddau gweithredol		93,378
557,965	Mewnlifoedd Arian a cynhyrchwyd o gweithgareddau gweithredol		581,286
(207,905)	Arian a Dalwyd i Weithwyr ac ar eu Rhan		(202,567)
(28,414)	Budd-dal Tai a Dalwyd Allan		(28,241)
(47,250)	Taliadau NNDR i'r Gronfa Genedlaethol		(48,002)
(19,097)	Praeseptau a Dalwyd		(19,474)
(16,774)	Llog a Dalwyd		(17,737)
(209,381)	Taliadau arall am gweithgareddau gweithredol		(238,461)
(528,821)	All-lifoedd Arian a cynhyrchwyd o gweithgareddau gweithredol		(554,482)
29,144	Llif arian net o'r Gweithgareddau Gweithredol	6.48	26,804
	Prynu Eiddo, Offeriant a Chyfarpar, Eiddo Buddsoddi a Asedau		
(63,694)	Anniriaethol		(56,004)
(152,700)	Prynu buddsoddiadau tymor hir a tymor byr		(317,400)
(99,945)	Taliadau arall am gweithgareddau buddsoddi		(9,850)
2,295	Enillion o Gwerthu eiddo, offeriant a chyfarpar, eiddo buddsoddi a asedau anniriaethol		2,998
171,762	Enillion o'r buddsoddiadau tymor hir a tymor byr		303,333
41,783	Derbyniadau arall o gweithgareddau buddsoddi		21,922
(100,499)	Llif arian net o'r Gweithgareddau Buddsoddi		(55,001)
101,461	Derbyniadau arian parod o fenthycyca tymor byr a tymor hir		17,657
(5,262)	Ad-daliadau benthyca tymor byr a tymor hir		(5,727)
(1,260)	Taliadau arall am gweithgareddau ariannu		(2,562)
94,939	Llif arian net o'r Gweithgareddau Ariannu		9,368
23,584	Cynnydd neu ostyngiad net mewn arian neu adnoddau cyfwerth ag arian		(18,829)
11,267	Arian ac adnoddau cyfwerth ag arian ar ddechrau'r cyfnod adrodd		34,851
34,851	Arian ac adnoddau cyfwerth ag arian ar ddiwedd y cyfnod adrodd	6.17	16,022

6 NODIADAU I'R CYFRIFON

6.1 Datganiad O'r Polisïau Cyfrifydda

Cyffredinol

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn crynhoi trafodion Cyngor Sir Caerfyrddin a Cronfa Bensiwn Dyfed am flwyddyn ariannol 2016-17 a'i sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, sef 31 Mawrth 2017.

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod baratoi Datganiad o Gyfrifon blynyddol o dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu paratoi yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol. Yn bennaf, defnyddir y Côd Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2016/17 a'r *Côd Ymarfer Cyfrifyddu Gwerth Gorau 2016/17*, wedi'u hategu gan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Y confensiwn cyfrifyddu a fabwysiedir yn y Datganiad o Gyfrifon yw, yn bennaf, cost hanesyddol, wedi'i addasu gan ailbriso rhai categorïau o asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol.

Mae meysydd o fewn y cyfrifon nad ydynt yn cydymffurfio â'r cyhoeddiad uchod wedi'u nodi yn ôl yr angen.

6.1.1 Croniadau Incwm a Gwariant

Rhoddir cyfrif am weithgaredd yn y flwyddyn y mae'n digwydd yn hytrach na phryd y mae arian yn cael ei dalu neu'n cael ei dderbyn. Yn arbennig:

- Caiff referniw o werthu nwyddau ei gydnabod pan fo'r Awdurdod yn trosglwyddo risgiau a buddion arwyddocaol perchnogaeth i'r prynwr ac y bo'n debyg y bydd buddion economaidd neu botensial gwasanaeth cysylltiedig â'r trafodyn yn dod i'r Awdurdod.
- Caiff referniw o ddarparu gwasanaethau ei gydnabod pan all yr Awdurdod fesur yn ddibynadwy ganran cwblhau'r trafodyn ac y bo'n debyg y bydd buddion economaidd neu botensial gwasanaeth cysylltiedig â'r trafodyn yn dod i'r Awdurdod.
- Cofnodir gwariant ar nwyddau a gyflenwir pan gânt eu defnyddio - os oes bwllch rhwng dyddiad derbyn nwyddau a'r dyddiad defnyddio, fe'u nodir fel Stocrestrau ar y fantolen.
- O ran gwaith, cofnodir gwariant pan yw'n cael ei gwblhau. Cyn hynny, nodir 'cynllun ar waith' ar y Fantolen.
- Caiff treuliau mewn perthynas â gwasanaethau a geir (gan gynnwys gwasanaethau a ddarperir gan gyflogaion) eu cofnodi fel gwariant pan geir y gwasanaethau yn hytrach na phan wneir y taliadau.
- Mae'r llog a delir am fenthyciadau ac a dderbynnir yn sgil buddsoddiadau yn cael ei gyfrif ar sail y gyfradd log effeithiol ar gyfer yr offeryn ariannol perthnasol yn hytrach na'r llif arian a bennir neu a benderfynir gan y contract.
- Pan yw'r referniw a'r gwariant wedi cael eu cydnabod ond yr arian parod heb ei dderbyn neu ei dalu, bydd y swm perthnasol yn cael ei gofnodi yn y Fantolen fel dyled neu gredyd. Os oes amheuaeth a fydd dyledion yn cael eu talu, nodir balans y dyledwyr a bydd swm sy'n cyfateb i'r incwm na fydd yn cael ei gasglu o bosib yn cael ei gynnwys yn y cyfrif referniw.

- Un eithriad i'r egwyddor hon yw pan fydd taliadau refeniw penodol yn daliadau chwarterol (e.e. trydan, nwy) lle mae'r cyfrifon refeniw yn cynnwys pedwar taliad. Mae'r polisi hwn yn cael ei ddefnyddio'n gyson bob blwyddyn ac felly nid yw'n cael effaith sylweddol ar gyfrifon y flwyddyn.
- Bydd incwm a gwariant yn cael eu nodi fel credyd neu ddebyd yng nghyfrif refeniw y gwasanaeth perthnasol, oni bai eu bod yn dderbyniadau cyfalaf neu'n wariant cyfalaf

6.1.2 **Eiddo, Offeriant a Chyfarpar**

Caiff asedau sydd â sylwedd ffisegol ac a ddelir i'w defnyddio i gynhyrchu neu gyflenwi nwyddau neu wasanaethau, i'w rhentu i eraill, neu at ddibenion gweinyddol, ac y disgwylir iddynt gael eu defnyddio yn ystod mwy nag un flwyddyn ariannol, eu dosbarthu'n Eiddo, Offeriant a Chyfarpar.

Cydnabod: Caiff gwariant ar gaffael, creu neu wella Eiddo, Offeriant a Chyfarpar ei gyfalafu ar sail croniadau, ar yr amod ei bod yn debyg y bydd y buddion economaidd neu botensial gwasanaeth yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â'r eitem yn dod i'r Awdurdod ac y gellir mesur cost yr eitem yn ddibynadwy. Caiff gwariant sy'n cynnal ond nad yw'n ychwanegu at botensial ased i gyflenwi buddion economaidd neu botensial gwasanaeth yn y dyfodol (h.y. atgyweiriadau a gwaith cynnal a chadw) ei godi fel traul pan y'i gwneir.

Mesur: I ddechrau caiff asedau eu mesur ar gost, sy'n cynnwys y pris prynu a/neu unrhyw wariant y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i roi'r ased mewn cyflwr gweithio at y defnydd a fwriedir iddo.

Mae asedau yn cael eu trosglwyddo i'r fantolen ar y sail a argymhellir gan CIPFA ac yn unol â Safonau Gwerthuso a Phrisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS). Mae asedau yn cael eu dosbarthu i'r grwpiau sy'n ofynnol o dan y Côd Ymarfer ar Gyfrifon Awdurdodau Lleol, ar y sail ganlynol:

- seilwaith, asedau cymunedol ac asedau sy'n cael eu hadeiladu – cost hanesyddol dibrisiedig
- aneddiadau – gwerth teg, a bennir gan ddefnyddio sail gwerth defnydd sy'n bodoli ar gyfer tai cymdeithasol
- yr holl asedau eraill – gwerth teg, a bennir fel y swm a fyddai'n cael ei dalu am yr ased gyda'i ddefnydd sy'n bodoli (gwerth defnydd sy'n bodoli).
- Lle na fo tystiolaeth seiliedig ar y farchnad o werth teg oherwydd natur arbenigol ased, defnyddir cost amnewid dibrisiedig i gael amcangyfrif o'r gwerth teg

Ac eithrio asedau seilwaith ac asedau cymunedol, mae asedau sefydlog yn cael eu hail brisio yn ôl rhaglen dreigl bum mlynedd ac mae unrhyw newid mawr mewn gwerth asedau yn cael ei addasu yn y cyfrifon ar gyfer y flwyddyn y digwydd y cyfryw newid.

Mae'r amserlen hanesyddol o adbrasio asedau wedi'i nodi isod:

Asedau Corfforaethol	2012-13
Prif Weithredwr, Adfywio	2013-14
Ysgolion	2014-15
Stoc Dai a Costau Darparu	
o'r Newydd Dibrisiedig Asedau	2015-16
Gofal Cymdeithasol, Hamdden, Amgylchedd	2016-17

Mae asedau a geir o dan brydlesau cyllid yn cael eu cyfalafu yng nghyfrifon yr Awdurdod, ynghyd â'r rhwymedigaeth i dalu rhenti yn y dyfodol.

Gwneir credydau i'r gronfa ailbrisiu wrth gefn i gyd-fynd â'r cynnydd mewn prisiadau ac i gydnabod enillion sydd heb eu gwireddu. Fel eithriad, gallai enillion gael eu credydu i'r Datganiad Incwm A Gwariant Cynhwysfawr pan fyddant yn codi yn sgil tynnu yn ôl allan golled amharu a roddwyd yn flaenorol ar gyfrif refeniw gwasanaeth.

Amhariad :

Mae asedau'n cael eu hasesu ar ddiwedd pob blwyddyn i benderfynu a oes unrhyw arwydd bod yr ased wedi ei amharu. Lle bo arwyddion yn bodoli ac amcangyfrifir bod unrhyw wahaniaethau posibl o bwys, amcangyfrifir gwerth adferadwy'r ased a, lle bo hyn yn llai na gwerth cario'r ased, caiff colled amhariad ei chydabod ar gyfer y diffyg.

Lle canfyddir colledion amhariad, cyfrifyddir ar eu cyfer trwy:

- Lle bo balans enillion ailbrisiad ar gyfer yr ased yn y Gronfa Ailbrisiadau, caiff gwerth cario'r ased ei ysgrifennu i lawr yn erbyn y balans hwnnw (hyd at swm yr enillion cronedig)
- Lle na fo balans yn y Gronfa Ailbrisiadau neu falans annigonol, caiff gwerth cario'r ased ei ysgrifennu i lawr yn erbyn y llinell wasanaeth berthnasol / llinellau gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
- Lle bo colled amhariad yn cael ei gwrthdroi wedyn, mae'r gwrthdroad yn cael ei gredu i'r llinell wasanaeth berthnasol / llinellau gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, hyd at swm y golled wreiddiol, wedi'i gymhwyso ar gyfer y dibrisiad a fyddai wedi cael ei godi pe na bai'r golled wedi cael ei chydabod.

Gwarediadau ac Asedau Anghyfredol a Ddelir i'w Gwerthu

Pan ddaw'n debyg y caiff gwerth cario ased ei adennill yn bennaf trwy werthiant yn hytrach na thrwy barhau i'w ddefnyddio, caiff ei ailddosbarthu'n Ased a Ddelir i'w Werthu. Mae'r ased yn cael ei ailbrisiu'n syth cyn ei ailddosbarthu ac yna ei gario ar y swm isaf o'r swm hwn a gwerth teg llai costau gwerthu'r ased. Lle bo gostyngiad wedyn yn y gwerth teg llai costau gwerthu'r ased, caiff y golled ei chofnodi yn y llinell Gwariant Gweithredu Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Caiff enillion yn y gwerth teg eu cydnabod dim ond hyd at swm unrhyw golledion a gydnabyddwyd o'r blaen yn y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau.

Ni chodir dibrisiad ar Asedau a Ddelir i'w Gwerthu.

Os nad yw asedau'n bodloni'r meini prawf mwyach i gael eu dosbarthu'n Asedau a Ddelir i'w Gwerthu, cânt eu hailddosbarthu'n asedau anghyfredol eto a'u prisio ar y swm isaf o'u gwerth cario cyn iddynt gael eu dosbarthu'n Asedau a Ddelir i'w Gwerthu, wedi'i gymhwyso ar gyfer dibrisiad, amorteiddiad neu ailbrisiadau a fyddai wedi cael eu cydnabod pe na baent wedi cael eu dosbarthu'n Asedau a Ddelir i'w Gwerthu, a'u gwerth adferadwy ar ddyddiad y penderfyniad i beidio â'u gwerthu.

Nid yw asedau sydd i gael eu hepgor neu eu sgrapio yn cael eu hailddosbarthu'n Asedau a Ddelir i'w Gwerthu. Pan fo ased yn cael ei waredu neu ei ddatgomisio, mae gwerth cario'r ased yn y Fantolen yn cael ei ysgrifennu i ffwrdd i'r llinell Gwariant Gweithredu Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r ennill neu golled wrth ei waredu. Mae derbyniadau o warediadau (os oes rhai) yn cael eu credydu i'r un llinell yn y Datganiad Incwm

a Gwariant Cynhwysfawr, hefyd fel rhan o'r enillion neu golledion wrth ei waredu (h.y. eu debydu yn erbyn gwerth cario'r ased ar adeg ei waredu). Mae unrhyw enillion ailbrisiad a gronnir ar gyfer yr ased yn y Gronfa Ailbrisiadau'n cael eu trosglwyddo i'r Cyfrif Cymhwysio Cyfalaf.

Mae symiau a cheir ar gyfer gwaredu mwy na £10,000 yn cael eu categoreiddio fel derbyniadau cyfalaf a'u credydu i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf. Yna ni ellir defnyddio'r rhain ond ar gyfer buddsoddi cyfalaf newydd neu eu neilltuo i leihau angen sylfaenol yr Awdurdod i fenthyg arian. Mae derbyniadau'n cael eu neilltuo i'r Gronfa o Balans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Newidiadau i Gronfeydd.

Ni chaiff gwerth dileu gwarediadau ei godi yn erbyn y dreth gyngor, oherwydd darperir yn llawn am gost asedau sefydlog o dan drefniadau ar wahân ar gyfer ariannu cyfalaf. Mae symiau'n cael eu neilltuo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf o Balans Cronfa'r Cyngor Gyffredinol yn y Datganiad Newidiadau i Gronfeydd.

Dibrisiant

Darperir am ddibrisiad ar yr holl asedau Eiddo, Offeriant a Chyfarpar trwy ddyrannu eu symiau dibrisiadwy yn systematig dros eu hoesoedd defnyddiol. Gwneir eithriad am asedau sydd heb oes ddefnyddiol benodol y gellir ei bennu (h.y. tir rhydd-ddaliadol a rhai Asedau Cymunedol) ac asedau nad ydynt ar gael i'w defnyddio eto (h.y. asedau sy'n cael eu hadeiladu).

Caiff dibrisiad ei gyfrifo ar y seiliau canlynol:

- aneddiadau ac adeiladau eraill – dyraniad llinol dros oes ddefnyddiol yr eiddo fel y'i hamcangyfrifir gan y prisiwr
- cerbydau, peiriannau, celfi a chyfarpar – naill ai dyraniad llinol dros oes ddefnyddiol yr ased neu fel canran o werth pob dosbarth o asedau yn y Fantolen, fel y cynghorir gan swyddog sydd â chymwysterau priodol
- seilwaith – dyraniad llinol dros 40 o flynyddoedd

Yn ogystal, dibrisir enillion adbrisiad, a bydd swm sy'n gyfwerth â'r gwahaniaeth rhwng y dibrisiant gwerth cyfredol a roddir ar asedau a'r dibrisiant a fyddai wedi cael ei roi ar sail eu cost hanesyddol yn cael ei drosglwyddo bob blwyddyn o'r Cyfrif wrth Gefn - Adbrisiadau i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf.

Cyfrifyddu Cydrannol

Defnyddir cyfrifyddu cydrannol pan fydd gan ased unigol un neu ragor o rannau hanfodol ac iddynt oes economaidd sylweddol wahanol i'r prif ased. Felly byddai cydrannau'r prif ased yn dibrisio ar gyfraddau gwahanol.

Er mwyn pennu a oes gwahaniaeth o bwys yn y tâl dibrisio, mae'r Awdurdod yn cynnal dadansoddiad sensitifrwydd mewn perthynas â'i brosiectau cyfalaf mwyaf. Mae'r tâl yn cael ei gyfrifo ar sail yr ased cyfan o'i gymharu â thâl ar sail y cydrannau. Caiff y tâl ar sail cydrannau ei ddefnyddio os oes gwahaniaeth o bwys rhwng y ddau gyfrifiad.

6.1.3 **Eiddo Buddsoddi**

Eiddo buddsoddi yw'r eiddo hwnnw a ddefnyddir dim ond i ennill rhenti a/neu am arbrisant cyfalaf. Nid yw'r diffiniad yn cael ei fodloni os caiff yr eiddo ei ddefnyddio mewn unrhyw ffordd i hwyluso cyflenwi gwasanaethau neu gynhyrchu nwyddau neu'n cael ei ddal i'w werthu.

Caiff eiddo buddsoddi ei fesur yn y lle cyntaf ar gost ac wedyn ar werth teg, ar sail y swm y gellid cyfnewid yr ased amdano rhwng partïon gwybodus ar hyd braich. Ni chaiff yr eiddo ei ddibrisio ond caiff ei ailbriso bob blwyddyn yn ôl amgylchiadau'r farchnad ar ddiwedd y flwyddyn. Caiff enillion a cholledion wrth ailbriso eu cofnodi yn y llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Caiff yr un peth ei wneud gydag enillion a cholledion wrth waredu'r eiddo.

Caiff y rhenti a geir am eiddo buddsoddi eu credydu i'r llinell Incwm Ariannu a Buddsoddi ac maent yn arwain at ennill i Falans y Gronfa Gyffredinol. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau statudol yn caniatáu i enillion a cholledion ailbrisiadau a gwarediadau gael effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol. Felly caiff yr enillion a'r colledion eu tynnu allan o Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Newidiadau i Gronfeydd a'u cofnodi yn y Cyfrif Addasu Cyfalaf ac (ar gyfer unrhyw dderbyniadau o werthiant sy'n fwy na £10,000) y Gronfa Derbyniadau Cyfalaf.

6.1.4 **Asedau Treftadaeth**

Mae gwahanol fathau o Asedau Treftadaeth ac maent wedi'u nodi yn y cyfrifon fel a ganlyn.

- **Cyn-asedau Cymunedol**

Mae'r asedau treftadaeth hynny a oedd gynt yn cael eu cynnwys mewn asedau cymunedol wedi cael eu trosglwyddo i'r categori newydd ar gyfer Asedau Treftadaeth. Fe'u cofnodir ar sail y gost hanesyddol ac maent yn cynnwys Castell Caerfyrddin, regalia dinesig a darnau o waith celf.

- **Gwaith Celf Seilwaith**

Yn flaenorol câi'r asedau hyn eu nodi fel seilwaith ac roeddent un ai'n rhan o brosiect cyfalaf mawr neu'n ddarnau o waith celf ynddynt eu hunain ar gylchfannau neu yng nghanol trefi. A hwythau'n gyn-asedau seilwaith, fe'u cofnodir ar sail y gost hanesyddol.

- **Arddangosion Amgueddfeydd/Cofnodion Archif**

Mae gan yr Awdurdod gasgliad mawr o arddangosion amgueddfeydd a deunydd archif na chawsant eu cynnwys yn y Fantolen. Nid yw gwybodaeth am gost yr eitemau hyn ar gael yn hawdd ac ym marn yr Awdurdod ni fyddai'r budd o drefnu i briso'r eitemau hyn yn cyfiawnhau'r gost o wneud hynny.

6.1.5 **Asedau Anniriaethol**

Asedau nad oes iddynt sylwedd ffisegol yw'r rhain ond asedau a ddaw â buddion economaidd i'r Awdurdod yn y dyfodol, sef asedau megis trwyddedau meddalwedd neu asedau a grëir yn fewnol ac sydd wedi'u cyfalafu.

Ar hyn o bryd nid oes gan yr Awdurdod asedau anniriaethol. Caiff gwelliannau ('*enhancements*') eu categoreiddio bob blwyddyn a byddai unrhyw asedau anniriaethol yn cael eu nodi fel rhan o'r ymarfer blynyddol hwn.

6.1.6 **Taliadau sy'n Cael eu Cynnwys yn y Refeniw am Asedau Sefydlog**

Caiff y symiau canlynol eu debydu i wasanaethau, gwasanaethau cymorth a chyfrifon masnachu er mwyn cofnodi cost dal asedau sefydlog yn ystod y flwyddyn:

- dibrisiad yr asedau a ddefnyddiwyd gan y gwasanaeth perthnasol
- colledion ailbrisiad ac amhariad ar asedau mae'r gwasanaeth yn eu defnyddio lle nad oes unrhyw enillion cronedig yn y Gronfa Ailbrisiadau y gallir dileu'r colledion yn eu herbyn
- amorteiddio asedau sefydlog anniriaethol y gwasanaeth.

Nid yw'n ofynnol i'r Awdurdod godi treth gyngor i dalu am golledion dibrisiad, ailbrisiad ac amhariad nac amorteiddiadau. Fodd bynnag, mae'n ofynnol iddo roi cyfraniad blynyddol o'i refeniw tuag at leihau ei ofynion benthycia i gyd. Felly mae'r cyfraniad ym malans y Gronfa Gyffredinol (Dardpariaeth Isafswm Refeniw neu Brifswm Cronfa Fenthyciadau) yn cymryd lle colledion dibrisiad, ailbrisiad ac amhariad ac amorteiddiadau, trwy drafodyn addasu gyda'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn y Datganiad Newidiadau i Gronfeydd ar gyfer y gwahaniaeth rhwng y ddau.

6.1.7 **Gwariant Refeniw a Gyllidir gan Gyfalaf dan Statud**

Mae gwariant a wnaethpwyd yn ystod y flwyddyn y gellir ei gyfalafu o dan ddardpariaethau statudol ond nad yw'n arwain at greu asedau anghyfredol wedi cael ei godi fel gwariant ar y gwasanaeth perthnasol yn y cyfrif Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn. Lle bo'r Awdurdod wedi penderfynu talu cost y gwariant hwn o adnoddau cyfalaf sy'n bodoli eisoes neu drwy gael benthyciad, mae trosglwyddiad yn y Datganiad Newidiadau i Gronfeydd o Falans Cronfa'r Cyngor i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf wedyn yn tynnu allan y symiau a godwyd yn y Datganiad Newidiadau ar Falans Cronfa'r Cyngor fel nad oes unrhyw effaith ar lefel y Dreth Gyngor.

6.1.8 **Arian Parod ac Arian Gyfwerth**

Mae'r arian gyfwerth yn fuddsoddiadau sy'n rhwydd eu drosglwyddo i symiau arian parod heb newid ei werth. Caiff arian parod ei dynnu a'i adneuo gan ddibynnu ar ddiffyg neu warged arian parod ar y diwrnod. Mae pob cyfrif galw wedi cael eu dynodi at y diben hwn. Mae'r Arian Parod Cyfatebol hefyd yn cynnwys buddsoddiadau cyfnod penodedig sy'n aeddfedu cyn pen tri mis neu lai ar ôl y dyddiad caffael.

6.1.9 **Grantiau a Chyfraniadau'r Llywodraeth**

Caiff grantiau gan lywodraethau a chyfraniadau gan drydydd partïon a rhoddion, pa un ydynt yn cael eu talu fel ernes, fel rhandaliadau neu fel ôl-daliadau, eu cydnabod fel taliadau dyledus i'r Awdurdod pan fo sicrwydd rhesymol:

- y bydd yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r amodau sy'n gysylltiedig â'r taliadau, ac
- y bydd y grantiau neu'r cyfraniadau'n dod i law.

Ni chaiff symiau a gydnabyddir fel taliadau dyledus i'r Cyngor eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hyd nes i'r amodau sy'n gysylltiedig â'r grant neu'r cyfraniad gael eu bodloni. Mae'r amodau yn nodi ei bod yn ofynnol i'r buddion economaidd yn y dyfodol neu'r potensial gwasanaeth a gorfforir yn yr ased sy'n cael ei gaffael gan ddefnyddio'r grant neu'r cyfraniad gael eu defnyddio gan y derbynnydd fel y rhagnodir, neu fod yn rhaid i'r buddion economaidd yn y dyfodol neu'r potensial gwasanaeth gael eu dychwelyd i'r trosglwyddwr.

Mae symiau o arian a flaendalwyd fel grantiau a chyfraniadau nad yw'r amodau ar eu cyfer wedi cael eu bodloni'n cael eu cario yn y Fantolen fel credydwy. Pan gaiff yr amodau eu bodloni, caiff y grant neu'r cyfraniad ei gredu i'r llinell wasanaeth berthnasol (grantiau a chyfraniadau refeniw priodoladwy) neu Incwm Trethi a Grantiau Amhenodol (grantiau refeniw heb eu neilltuo a'r holl grantiau cyfalaf) yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Lle caiff grantiau cyfalaf eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, cânt eu tynnu allan o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Newidiadau i Gronfeydd. Lle nad yw'r grant wedi cael ei ddefnyddio eto i ariannu gwariant cyfalaf, caiff ei gofnodi yn y gronfa Grantiau Cyfalaf Heb eu Defnyddio. Lle mae wedi cael ei ddefnyddio, caiff ei gofnodi yn y Cyfrif Addasu Cyfalaf. Caiff symiau yn y gronfa Grantiau Cyfalaf Heb eu Defnyddio eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf ar ôl iddynt gael eu defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf.

6.1.10 **Prydlesu**

Caiff prydlesi eu dosbarthu fel prydlesi cyllid lle bo telerau'r brydles yn trosglwyddo'n arwyddocaol yr holl risgiau a buddion sydd ynghlwm wrth berchnogaeth ar yr eiddo, offeriant neu gyfarpar o'r prydleswr i'r prydlesai. Mae pob prydles arall yn cael ei dosbarthu fel prydles weithredol. Lle bo prydles yn cynnwys tir ac adeiladau, caiff elfennau'r tir a'r adeiladau eu hystyried ar wahân at ddibenion dosbarthu. Cyfrifyddir ar gyfer trefniadau nad oes ganddynt statws cyfreithiol prydles ond sy'n cyfleu hawl i ddefnyddio ased yn gyfnewid am dâl o dan y polisi hwn lle bo cyflawni'r trefniant yn dibynnu ar ddefnyddio asedau penodol.

Mae adolygiad o bob brydles yr Awdurdod (fel y prydlesai ac fel y prydleswr) wedi cael ei gynnal. Ar hyn o bryd mae'r holl brydlesi'n cael eu trin fel prydlesi gweithredol. Ychydig iawn o brydlesi bach a ganfuwyd y gellid o bosibl eu hailddosbarthu'n brydlesi cyllid. Mae'r rhain yn gysylltiedig â chyfarpar ac yn anarwyddocaol yn nhermau eu gwerth a'u hyd. Ni fyddai'r addasiadau ailddosbarthu'n effeithio'n sylweddol ar sefyllfa ariannol yr Awdurdod, nac ar allu'r sawl sy'n darllen y cyfrifon i weld holl weithgareddau economaidd y Cyngor a'r graddau y mae'n agored i risg.

Yr Awdurdod fel y Prydleswr – prydlesi gweithredol

Caiff rhenti sy'n cael eu talu o dan brydlesi gweithredol eu codi i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel un o dreuliau'r gwasanaethau sy'n cael budd o ddefnyddio'r eiddo, offeriant neu gyfarpar sy'n cael eu prydlesu.

Yr Awdurdod fel y Deiliad Prydlesi – prydlesi gweithredol

Lle bo'r Awdurdod yn rhoi prydles weithredol dros eiddo, caiff yr ased ei gadw yn y Fantolen. Caiff incwm o renti ei gredu i'r gwasanaeth priodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

6.1.11 **Rhwymedigaethau Ariannol**

Caiff rhwymedigaethau ariannol eu cydnabod ar y Fantolen pan ddaw'r Awdurdod yn barti i ddarpariaethau contractiol offeryn ariannol ac ar y dechrau cânt eu mesur yn ôl gwerth teg a'u cario yn unol â'u cost amorteiddiedig. Mae'r hyn a godir bob blwyddyn i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer y llog sy'n daladwy yn cael ei seilio ar werth cario'r rhwymedigaeth, wedi'i luosi gan y gyfradd llog weithredol ar gyfer yr offeryn. Y gyfradd llog weithredol yw'r gyfradd sy'n disgowntio'n union daliadau arian parod amcangyfrifedig yn y dyfodol dros oes yr offeryn i'r swm y cafodd ei gydnabod yn wreiddiol yn unol ag ef.

Ar gyfer y rhan fwyaf o'r benthyciadau sydd gan yr Awdurdod, mae hyn yn golygu mai'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prifswm ad-daladwy sy'n ddyledus (a hefyd llog cronedig); ac mai'r llog a godir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r swm taladwy am y flwyddyn yn unol â chytundeb y benthyciad.

Caiff enillion a cholledion ar adbrynu benthyciadau neu eu setlo'n gynnar eu credydu a'u debydu i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ym mlwyddyn eu hadbrynu neu eu setlo. Fodd bynnag, lle bo'r adbrynu wedi digwydd fel rhan o ailstrwythuro'r portffolio benthyciadau sy'n golygu addasu neu gyfnewid offerynnau sy'n bodoli eisoes, mae'r premiwm yn cael ei ddiwynnu o gost amorteiddiedig y benthyciad newydd neu addasedig ac mae'r disgownt yn cael ei ychwanegu ati, ac mae'r dibrisiant i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn cael ei ledaenu dros oes y benthyciad trwy addasiad i'r gyfradd llog weithredol.

Lle bo premiymau a disgowntiau wedi cael eu codi i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, mae'r rheoliadau'n caniatáu i'r effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor gael ei ledaenu dros flynyddoedd i ddod. Mae gan yr Awdurdod bolisi o ledaenu'r ennill neu'r golled dros y tymor oedd ar ôl ar y benthyciad yr oedd y premiwm yn daladwy arno neu yr oedd y disgownt yn dderbyniadwy arno pan gafodd ei ad-dalu. Mae cysoni'r symiau a godir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr gyda'r tâl net sy'n ofynnol yn erbyn Balans y Gronfa Gyffredinol yn cael ei gyflawni trwy drosglwyddiad i'r neu o'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol yn y Datganiad Newidiadau i Gronfeydd.

6.1.12 **Asedau Ariannol**

Benthyciadau a Symiau Derbyniadwy

Caiff benthyciadau a symiau derbyniadwy eu cydnabod ar y Fantolen pan ddaw'r Awdurdod yn barti i ddarpariaethau contractiol offeryn ariannol ac ar y dechrau cânt eu mesur yn ôl gwerth teg. Wedyn cânt eu mesur yn unol â'u cost amorteiddiedig. Mae credydau blynyddol i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer y llog derbyniadwy yn cael eu seilio ar werth cario'r ased wedi'i luosi gan y gyfradd llog weithredol ar gyfer yr offeryn. Ar gyfer y rhan fwyaf o'r benthyciadau mae'r Awdurdod wedi'u rhoi, mae hyn yn golygu mai'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prifswm derbyniadwy sy'n ddyledus (a hefyd llog cronedig) ac mai'r llog sy'n cael ei gredu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r swm derbyniadwy am y flwyddyn yng nghytundeb y benthyciad.

Lle bo'r Awdurdod wedi rhoi benthyciadau ar gyfraddau is na chyfraddau'r farchnad (benthyciadau meddal), caiff unrhyw golled sylweddol ei chofnodi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (wedi'i debydu i'r gwasanaeth priodol) am werth presennol y llog a fydd yn cael ei hepgor dros oes yr offeryn, gan arwain at gost amorteiddiedig is na'r prifswm dyledus. Mae'r llog yn cael ei gredu i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfradd llog weithredol ychydig yn uwch na'r gyfradd dderbyniadwy gan y sefydliadau gwirfoddol, gyda'r gwahaniaeth yn cynyddu cost amorteiddiedig y benthyciad yn y Fantolen. Mae darpariaethau statudol yn ei gwneud yn ofynnol mai effaith benthyciadau meddal ar Falans y Gronfa Gyffredinol yw'r llog derbyniadwy am y flwyddyn ariannol – mae cysoni'r symiau a gaiff eu debydu a'u credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr gyda'r ennill net sy'n ofynnol yn erbyn Balans y Gronfa Gyffredinol yn cael ei gyflawni trwy drosglwyddiad i'r neu o'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol yn y Datganiad Newidiadau i Gronfeydd.

Lle nodir bod amhariad ar asedau oherwydd tebygrwydd sy'n deillio o ddigwyddiad yn y gorffennol na fydd taliadau sy'n ddyledus o dan y contract yn cael eu gwneud, caiff yr ased ei ysgrifennu i lawr a chodir tâl ar y gwasanaeth perthnasol (am symiau derbyniadwy sy'n benodol i'r gwasanaeth hwnnw) neu i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Caiff y golled amhariad ei mesur fel y gwahaniaeth rhwng gwerth cario a gwerth presennol y llifoedd arian yn y dyfodol wedi'u diwygio, wedi'u disgowntio ar gyfradd llog weithredol wreiddiol yr ased.

Caiff unrhyw enillion a cholledion sy'n deillio wrth ddatgydnabod ased eu credydu neu eu debydu i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

6.1.13 **Stocrestrau a Chontractau Hirdymor**

Caiff stocrestrau eu cynnwys yn y Fantolen ar yr isaf o'r gost a'r gwerth gwireddadwy net. Mae cost stocrestrau'n cael ei dynodi gan ddefnyddio'r fformiwla gostio gyfartalog bwysoledig.

Cyfrifyddir ar gyfer contractau hirdymor ar sail codi gwerth y gwaith a'r gwasanaethau a gafwyd o dan y contract yn ystod y flwyddyn ariannol ar y Warged neu Ddiffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau.

6.1.14 **Cost y Gwasanaethau Cynnal**

Caiff costau gorbenion a gwasanaethau cymorth eu codi ar y rheiny sy'n cael budd o'r cyflenwad neu'r gwasanaeth yn unol ag egwyddorion costio *Côd Ymarfer Cyfrifyddu Gwerth Gorau 2016/17* Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth. Defnyddir egwyddor costio amsugol llwyr – sef bod cost lawn gorbenion a gwasanaethau cymorth yn cael ei rhannu rhwng defnyddwyr yn ôl cyfran y buddion a dderbyniwyd.

6.1.15 **Darpariaethau**

Caiff darpariaethau eu gwneud lle bo rhywbeth wedi digwydd sy'n gosod rhwymedigaeth ar yr Awdurdod sy'n debyg o alw am setliad trwy drosglwyddo buddion economaidd, ac y gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth. Er enghraifft, efallai bod y cyngor yn rhan o achos llys a allai arwain yn y pen draw at wneud setliad neu dalu iawndal.

Caiff darpariaethau eu codi fel traul i'r llinell wasanaeth briodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn y daw'r Awdurdod i wybod am y rhwymedigaeth a chânt eu mesur yn ôl yr amcangyfrif gorau - ar ddyddiad y fantolen - o'r gwariant gofynnol i setlo'r rhwymedigaeth, gan gymryd risgiau ac elfennau ansicr perthnasol i ystyriaeth.

Pan gaiff taliadau eu gwneud yn y pen draw, cânt eu codi ar y ddarpariaeth sydd wedi'i chreu yn y Fantolen. Caiff setliadau amcangyfrifedig eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol - lle daw'n llai na thebygol y bydd angen trosglwyddo buddion economaidd yn awr (neu gwneir setliad llai nag a ragwelwyd), caiff y ddarpariaeth ei gwrthdroi a'i chredydu'n ôl i gyfrif refereniw'r gwasanaeth perthnasol.

Lle disgwylir bod rhywun arall (e.e. yn sgil hawliad yswiriant) yn talu canran o'r taliad, neu'r holl daliad, sydd ei angen i setlo darpariaeth, caiff hyn ond ei gydnabod fel incwm yn y cyfrif refereniw gwasanaeth priodol os yw'n hollol bendant y bydd ad-daliad yn dod i law pe setlir y rhwymedigaeth.

6.1.16 **Cronfeydd Wrth Gefn**

Mae'r Awdurdod yn neilltuo symiau penodol fel cronfeydd wrth gefn at ddibenion polisi yn y dyfodol neu i ddarparu ar gyfer hapddigwyddiadau. Caiff cronfeydd wrth gefn eu creu trwy neilltuo symiau o Balans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Newidiadau i Gronfeydd. Pan fo angen talu gwariant sydd i gael ei ariannu o gronfa wrth gefn, caiff ei godi ar y gwasanaeth priodol yn y flwyddyn honno i sgorio yn erbyn y Warged neu Ddiffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Yna caiff y gronfa wrth gefn

ei neilltuo'n ôl i Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Newidiadau i Gronfeydd fel na chodir unrhyw beth yn erbyn y dreth gyngor ar gyfer y gwariant.

Caiff rhai cronfeydd penodol eu cadw er mwyn rheoli'r prosesau cyfrifyddu ar gyfer asedau anghyfredol, offerynnau ariannol, budd-daliadau ymddeoliad a chyflogeion, ac nid ydynt yn adnoddau y gall yr Awdurdod eu defnyddio – caiff y cronfeydd hyn eu hesbonio yn y polisïau perthnasol.

6.1.17 **Budd-daliadau i Gyflogeion**

Budd-daliadau sy'n daladwy yn ystod eu cyflogaeth

Budd-daliadau tymor byr i gyflogeion yw'r rheiny y mae'n rhaid eu setlo cyn pen 12 mis ar ôl diwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys budd-daliadau fel cyflogau, gwyliau blynyddol â thâl ac absenoldeb salwch â thâl i'r cyflogeion presennol a chânt eu cydnabod fel traul am wasanaethau yn y flwyddyn mae'r cyflogeion yn rhoi gwasanaeth i'r Awdurdod. Gwneir cronriad ar gyfer cost hawliau i wyliau y mae cyflogeion yn eu hennill ond heb eu cymryd cyn diwedd y flwyddyn, y gall cyflogeion eu cario ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf. Gwneir y cronriad ar y cyfraddau cyflog sy'n berthnasol yn y flwyddyn gyfrifyddu ganlynol, sef y cyfnod mae'r cyflogai'n cymryd y budd-dal ynddi. Codir y cronriad i'r Warged neu Ddiffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau, ond yna caiff ei wrthdroi allan trwy'r Datganiad Newidiadau i Gronfeydd er mwyn i'r budd-daliadau gwyliau gael eu codi i refeniw yn y flwyddyn ariannol y cymerir yr absenoldeb gwyliau ynddi.

Budd-daliadau dod â swyddi i ben

Budd-daliadau dod â swyddi ben yw'r symiau sy'n daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan yr Awdurdod i ddod â chyflogaeth swyddog i ben cyn y dyddiad ymddeol arferol neu benderfyniad swyddog i dderbyn dileu ei swydd yn wirfoddol, a chânt eu codi ar sail cronriadau i'r llinell Costau Heb eu Dosbarthu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan fo modd dangos bod yr Awdurdod wedi ymrwymo i ddileu cyflogaeth swyddog neu grŵp o swyddogion neu wneud cynnig i annog dileu swyddi'n wirfoddol.

Lle bo budd-daliadau dod â swyddi i ben yn golygu gwella pensiynau, mae darpariaethau statudol yn ei gwneud yn ofynnol codi'r swm sy'n daladwy gan yr Awdurdod i'r gronfa bensiwn neu'r pensiwnwr yn y flwyddyn, nid y swm a gyfrifir yn unol â'r safonau cyfrifyddu perthnasol, ar Falans y Gronfa Gyffredinol. Yn y Datganiad Newidiadau i Gronfeydd, mae angen neilltuadau i ac o'r Gronfa Wrth Gefn Bensiynau er mwyn dileu'r debydau a chredydau tybiannol ar gyfer budd-daliadau dod â swyddi i ben o ran gwelliannau i bensiynau, a rhoi yn eu lle ddebydau ar gyfer yr arian parod a dalwyd i'r gronfa bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau o'r fath sy'n daladwy ond heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn.

Budd-daliadau Ôl Gyflogaeth

Mae gweithwyr y Cyngor yn aelodau o ddau gynllun pensiwn ar wahân:

- Cynllun Pensiwn Athrawon, a weinyddir gan *Capita Teachers' Pensions* ar ran yr Adran Addysg.
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

Mae'r ddau gynllun yn darparu budd-daliadau penodol i'r aelodau (cyfandaliadau ymddeol a phensiynau), a enillwyd wrth iddynt weithio i'r Cyngor.

Fodd bynnag, mae'r trefniadau ar gyfer cynllun yr athrawon yn golygu na ellir nodi'r rhwymedigaethau ar gyfer y budd-daliadau hyn yn benodol i'r Awdurdod. Felly cyfrifyddir ar gyfer y cynllun fel pe bai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig ac ni chaiff unrhyw rwymedigaeth o ran talu budd-daliadau yn y dyfodol ei chydabod yn y Fantolen a chodir cyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy i bensiynau athrawon yn y flwyddyn ar y gwasanaeth addysg yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

Cynllun Pensiwn Dyfed

Mae Cynllun Pensiwn Dyfed yn cael ei gyfrif yn gynllun budd-daliadau penodol.

Mae rhwymedigaethau Cronfa Pensiwn Dyfed, sydd i'w priodoli i'r Cyngor, yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraid gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau – h.y. asesiad o'r hyn a delir yn y dyfodol mewn perthynas â'r budd-daliadau ymddeol y mae'r gweithwyr wedi'u hennill hyd yn hyn, yn seiliedig ar ragdybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaeth, cyfraddau trosiant gweithwyr, ac ati, a rhagamcanion enillion gweithwyr presennol.

Caiff gwerth y rhwymedigaethau ei ddisgowntio i gyfateb â phrisiau cyfredol gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt 2.6% (sy'n seiliedig ar y gyfradd enillion ddangosol ar fondiau corfforaethol safon uchel [Bond Corfforaethol AA]).

Mae asedau Cronfa Pensiwn Dyfed sydd yn briodol i'r Cyngor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen yn ôl eu gwerth teg:

- gwarannau a ddyfynnwyd – y pris cynnig
- gwarannau na ddyfynnwyd – amcangyfrif proffesiynol
- gwarannau cyfunol – y pris cynnig
- eiddo – gwerth y farchnad.

Mae'r newid yn rhwymedigaethau net pensiynau yn cael ei rannu mewn i'r cydrannau canlynol:

Cost gwasanaethau sef:

- costau gwasanaeth cyfredol - y cynnydd yn y rhwymedigaethau yn sgil y blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni - wedi'u pennu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y gwasanaethau sy'n cyflogi'r gweithwyr.
- cost gwasanaeth y gorffennol – y cynnydd yn y rhwymedigaethau yn deillio o benderfyniadau yn y flwyddyn gyfredol y mae eu heffaith yn gysylltiedig â blynyddoedd gwasanaeth a enillwyd mewn blynyddoedd cynharach – yn cael ei debydu i'r Warged neu Ddiffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r Costau Heb eu Dosbarthu.
- y llog net ar y rhwymedigaeth buddion diffiniedig net (yr ased), h.y. cost y llog net i'r Awdurdod – y newid yn ystod y cyfnod yn y rhwymedigaeth buddion diffiniedig net (yr ased) sy'n deillio o dreigl amser, wedi'i gofnodi dan linell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr – cyfrifir hyn drwy gymryd y gyfradd ostyngol a ddefnyddir i fesur yr ymrwymiad buddion diffiniedig ar ddechrau'r cyfnod a'i defnyddio ar gyfer y rhwymedigaeth buddion diffiniedig net (yr ased) ar ddechrau'r cyfnod – gan ystyried unrhyw newidiadau

yn y rhwymedigaeth buddion diffiniedig net (yr ased) yn ystod y cyfnod o ganlyniad i'r cyfraniadau a'r buddion a delir.

Ailfesur sef:

- yr adenillion ar asedau'r cynllun – ac eithrio'r symiau sydd wedi'u cynnwys yn y llog net ar y rhwymedigaeth/(ased) buddion diffiniedig net – i'w cofnodi dan y Gronfa Bensiynau dan y pennawd Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Eraill.
- enillion a cholledion actiwaraidd – newidiadau yn y rhwymedigaeth bensiynau net sy'n digwydd oherwydd nad yw pethau wedi cyd-fynd â'r rhagdybiaethau a wnaed adeg y prisio actiwaraidd diwethaf neu oherwydd bod yr actiwariaid wedi diweddarau eu rhagdybiaethau – i'w cofnodi dan y Gronfa Bensiynau dan y pennawd Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Eraill.
- cyfraniadau a dalwyd i Gronfa Bensiwn Dyfed – arian parod a dalwyd fel cyfraniadau cyflogwr i'r gronfa bensiwn i setlo rhwymedigaethau; ni chyfrifir amdanynt fel traul.

Mewn perthynas â budd-daliadau ymddeoliad, mae darpariaethau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i godi'r swm sy'n daladwy gan yr Awdurdod i'r gronfa bensiwn neu'n uniongyrchol i'r pensiynwr yn y flwyddyn, nid y swm a gyfrifir yn unol â'r safonau cyfrifyddu perthnasol, ar Falans Cronfa'r Cyngor. Yn y Datganiad Newidiadau i Gronfeydd, mae hyn yn golygu bod yna neilltuadau i ac o'r Gronfa Wrth Gefn Bensiynau er mwyn dileu'r debydau a chredydau tybiannol ar gyfer budd-daliadau ymddeoliad a rhoi yn eu lle ddebydau ar gyfer yr arian parod a dalwyd i'r gronfa bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau o'r fath sy'n daladwy ond heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn. Felly mae'r balans negyddol sy'n codi ar y Gronfa Wrth Gefn Bensiynau yn mesur yr effaith fuddiannol ar y Gronfa Gyffredinol o fod yn ofynnol i gyfrifyddu ar gyfer budd-daliadau ymddeoliad ar sail llifoedd arian yn hytrach nag wrth i gyflogeion ennill budd-daliadau.

Budd-daliadau Dewisol

Mae gan yr Awdurdod hefyd bwerau cyfyngedig i ddewis talu budd-daliadau ymddeol i weithiwr sy'n ymddeol yn gynnar. Os bernir y bydd unrhyw rwymedigaeth yn codi yn sgil talu budd-dal i unrhyw aelod o staff (gan gynnwys athrawon) caiff ei gronni yn y flwyddyn y penderfynwyd gwneud y taliad a'i gyfrif yn unol â'r polisiau sy'n gymwys i Gronfa Bensiwn Dyfed.

6.1.18 Buddiannau mewn Cwmnïau ac Endidau eraill

Mae gan yr Awdurdod fuddiannau perthnasol yn *CWM Environmental* a hynny ar ffurf is-gwmnïau sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparu cyfrifon grŵp. Fodd bynnag nid oes Cyfrifon Grŵp wedi cael eu paratoi, gan na fyddai'r cyfuno yn cael effaith sylweddol ar sefyllfa ariannol yr Awdurdod, nac ar allu'r sawl sy'n darllen y cyfrifon i weld yr holl weithgareddau economaidd a'r risgiau y mae'r Awdurdod yn agored iddynt.

Cyngor Sir Caerfyrddin yw Ymddiriedolwr Gwarchod cofrestredig Egni Sir Gâr Cyfyngedig ac mae ganddo un aelod ar y bwrdd.

6.1.19 Gweithrediadau a Reolir ar y Cyd ac Asedau a Reolir ar y Cyd

Gweithrediadau a reolir ar y cyd yw gweithgareddau y mae'r Awdurdod yn eu cyflawni ar y cyd gyda mentrwyr eraill sy'n golygu defnyddio asedau ac adnoddau'r mentrwyr yn hytrach na sefydlu endid ar wahân. Mae'r Awdurdod yn cydnabod ar ei Fantolen yr asedau mae'n eu rheoli a'r rhwymedigaethau arno ac yn debydu a chredydu'r gwariant mae'n ei wneud a'r

gyfran o'r incwm mae'n ei hennill o weithgarwch y gweithgaredd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Asedau a reolir ar y cyd yw eitemau o eiddo, offeriant neu gyfarpar a reolir ar y cyd gan yr Awdurdod a mentrwy'r eraill, gyda'r asedau'n cael eu defnyddio i gael buddiannau i'r mentrwy'r. Nid yw'r gyd-fenter yn golygu sefydlu endid ar wahân. Mae'r Awdurdod yn cyfrifyddu ar gyfer ei gyfran ef yn unig o'r asedau a reolir ar y cyd, y rhwymedigaethau arno a'r treuliau mae'n gorfod eu talu ar ei ran ei hun neu ar y cyd gydag eraill mewn perthynas â'i fudd yn y gyd-fenter a'r incwm mae'n ei ennill o'r fenter.

Rydym wedi clustnodi'r trefniad canlynol y gallai y diffiniad uchod fod yn berthnasol iddynt at ddibenion y cyfrifon:-

- ERW – consortiwm addysg rhanbarthol Canolbarth a De-orllewin Cymru

	ERW	
	2016-17	
	Cyfanswm	Rhan CSG
	£'000	£'000
Gwariant	201	42
Incwm	(271)	(57)
Gwarged/Diffyg am y flwyddyn	<u>(70)</u>	<u>(15)</u>
Asedau Cyfredol	0	0
Rhwymedigaethau Cyfredol	542	113
Rhwymedigaethau Tymor Hir	(136)	(28)
Cyfanswm Asedau llai Rhwymwddigaethau	<u>406</u>	<u>85</u>
Cronfeydd	406	85
Cyfanswm Cyllido	<u>406</u>	<u>85</u>

Nid yw'r rhestr uchod yn cynnwys popeth – ymhlith y trefniadau posibl eraill mae Consortiwm Prynu Cymru. At ddiben llunio'r cyfrifon hyn, ni ychwanegwyd cofnodion mewn perthynas â'r trefniadau hyn ac eithrio'r gwariant a'r incwm uniongyrchol sy'n berthnasol i bob cynllun. Nid yw'r addasiadau yn rhai perthnasol ac ni fyddent yn effeithio ar sefyllfa ariannol yr Awdurdod, nac ar allu'r sawl sy'n darllen y cyfrifon i weld holl weithgaredd economaidd yr Awdurdod a'r risg y mae'n agored iddi.

6.1.20 **Rhwymedigaeth Amodol**

Mae rhwymedigaeth amodol yn codi lle bo rhywbeth wedi digwydd sy'n gosod rhwymedigaeth bosibl ar yr awdurdod na fydd ei bodolaeth yn cael ei chadarnhau ond wrth i bethau ansicr yn y dyfodol, nad ydynt yn llwyr o dan reolaeth yr awdurdod, ddigwydd neu beidio.

Mae rhwymedigaethau amodol hefyd yn codi mewn amgylchiadau lle câi darpariaeth ei gwneud fel arall ond naill ai nad yw'n debygol y byddai angen all-lif adnoddau neu na ellir mesur swm y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Ni chaiff rhwymedigaethau amodol eu cydnabod yn y Fantolen ond yn hytrach eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon.

6.1.21 TAW

Nid yw'r incwm a'r gwariant yn cynnwys unrhyw symiau TAW, gan fod pob TAW yn daladwy i Gyllid a Thollau ei Mawrhydi, a gellir adennill ganddynt hwy bob TAW a dalwyd.

6.1.22 Cynllun Effeithlonrwydd Ynni'r Ymrwymiad Lleihau Carbon

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gymryd rhan yng Nghynllun Effeithlonrwydd Ynni'r Ymrwymiad Lleihau Carbon. Ar hyn o bryd mae'r cynllun hwn yn ei ail gyfnod, a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2019. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod brynu lwfansau, un ai'n rhagolygol neu'n ôl-weithredol, a'u hildio ar sail allyriadau h.y. y carbon deuocsid a gynhrychir pan ddefnyddir ynni. Wrth i garbon deuocsid gael ei allyrru (h.y. pan ddefnyddir ynni) cydnabyddir rhwymedigaeth a chost. Bydd y rhwymedigaeth yn cael ei thalu drwy ildio lwfansau. Mesurir y rhwymedigaeth ar sail yr amcangyfrif gorau o'r gwariant a fyddai'n ofynnol i gyflawni'ch ymrwymadau, fel rheol yn unol â phris presennol y farchnad o ran nifer y lwfansau sy'n ofynnol i dalu'ch rhwymedigaeth ar y dyddiad adrodd. Mae'r gost i'r Awdurdod yn cael ei chydabod a'i nodi dan gostau gwasanaethau'r Awdurdod ac fe'i dosrennir i'r gwasanaethau ar sail yr ynni a ddefnyddir.

6.2 Dyfarniadau Beirniadol wrth Ddefnyddio Polisiau Cyfrifyddu

Wrth ddefnyddio'r polisiau cyfrifyddu a nodir yn Nodyn 6.1, bu'n rhaid i'r Awdurdod wneud rhai dyfarniadau penodol ynglŷn â thrafodion cymhleth neu'r rheiny sy'n destun ansicrwydd ynglŷn â digwyddiadau yn y dyfodol. Dyma'r dyfarniadau beirniadol a wneir yn y Datganiad o Gyfrifon:

Mae yna lawer iawn o ansicrwydd ynglŷn â lefelau cyllid i lywodraeth leol yn y dyfodol, yn ogystal ag ansicrwydd ynghylch goblygiadau'r bleidlais i adael yr Undeb Ewropeaidd. Fodd bynnag, mae gan yr Awdurdod strategaeth gyllidebol dair blynedd gadarn gyda chynigion o ran effeithlonrwydd a rhesymoli gwasanaethau er mwyn sicrhau cyllideb fantoledig, ac felly mae wedi penderfynu nad yw'r ansicrwydd hwn yn ddigon eto i roi arwydd y gallai fod amhariad ar asedau'r Awdurdod oherwydd angen pellach i gau cyfleusterau a lleihau lefelau'r ddarpariaeth gwasanaethau.

Ym mis Hydref 2008 methodd sector bancio Gwlad yr Iâ â chyflawni ei rwymedigaethau. Roedd £4 miliwn a hefyd llog o arian y Cyngor wedi'i fuddsoddi yng nghwmni Kaupthing, Singer and Friedlander (KSF) ar y pryd. Erbyn diwedd 2016-17 roedd y gweinyddwyr wedi ad-dalu £3.37 miliwn a hefyd llog. Gweler Nodyn 6.46.

Ar hyn o bryd mae ysgolion gwirfoddol a reolir ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir wedi'u heithrio o fantolen yr Awdurdod ers 2009-10. Er bod gan yr Awdurdod rwymedigaethau a risgiau o ran costau eiddo megis gwaith atgyweirio a chynnal a chadw, nid yw'r Awdurdod yn berchen ar yr ysgolion ac nid oes hawl ganddo i unrhyw ddarpar fuddion economaidd sydd ynghlwm wrth yr asedau.

6.3 Tybiaethau a Wnaethpwyd am y Dyfodol a Ffynonellau Mawr Eraill Ansicrwydd wrth Amcangyfrif

Yn y Datganiad o Gyfrifon ceir ffigurau amcangyfrifedig sydd wedi'u seilio ar dybiaethau mae'r Awdurdod wedi'u gwneud am y dyfodol neu sy'n ansicr mewn rhyw ffordd arall. Gwneir amcangyfrifon gan gymryd mewm i ystyriaeth profiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, oherwydd na ellir pennu balansau â sicrwydd, gallai'r gwir ganlyniadau fod yn sylweddol wahanol i'r tybiaethau a'r amcangyfrifon.

Mae'r eitemau ym Mantolen yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2017 y mae risg sylweddol y cânt eu haddasu'n sylweddol yn y flwyddyn ariannol i ddod fel a ganlyn:

Eitem	Elfennau ansicr	Effaith os bydd y gwir ganlyniadau'n wahanol i'r tybiaethau
Rhwymedi -gaeth Pensiynau	Mae'r amcangyfrif o'r rhwymedigaeth net i dalu pensiynau'n dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth sy'n ymwneud â'r gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir, y gyfradd yr amcangyfrifir y bydd cyflogau'n codi, newidiadau i oed ymddeol, cyfraddau marwolaethau a'r enillion a ddisgwylir ar asedau'r gronfa bensiwn. Mae cwmni o actiwariaid ymgynghorol wedi cael ei gyflogi i roi cyngor arbenigol i'r Awdurdod am y tybiaethau i gael eu defnyddio.	Gellir mesur effeithiau newidiadau i dybiaethau unigol ar y rhwymedigaeth bensiynau net. Er enghraifft, pe bai tybiaeth y gyfradd ddisgowntio yn codi 0.1%, byddai'r rhwymedigaeth bensiynau'n gostwng £25.2 miliwn am 2016-17. Y swm oedd yn cael ei gario o ran y rhwymedigaeth bensiynau net ar 31 Mawrth 2017 oedd £361 miliwn. Fodd bynnag, mae'r tybiaethau'n rhyngweithio mewn ffyrdd cymhleth. Yn ystod 2016-17 dywedodd actiwariaid yr Awdurdod fod y rhwymedigaethau pensiynau net wedi lleihau £1.6 miliwn oherwydd bod amcangyfrifon cynharach wedi eu cywiro o ganlyniad i brofiad gwirioneddol ac wedi cynyddu £259.7 miliwn oherwydd diweddarau'r rhagdybiaethau.

6.4 Addasiadau rhwng y Sail Cyfrifyddu a'r Sail Ariannu yn unol â'r Rheoliadau

Mae'r nodyn hwn yn sôn am yr addasiadau gaiff eu gwneud i gyfanswm yr incwm a gwariant cynhwysfawr a gydnabyddir gan yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn. Caiff yr addasiadau eu gwneud yn unol â'r arferion cyfrifyddu priodol i'r adnoddau a enwir yn y darpariaethau statudol fel rhai sydd ar gael i'r Awdurdod i dalu am ei wariant cyfalaf a refeniw yn y dyfodol.

	Cronfeydd y gellir eu defnyddio					
	Balans Cronfa'r Cyngor	Cyfrif Refeniw Tai	Cronfa Derbyniadau Cyfalaf	Cronfa Atgyweiriadau Mawr	Grantiau Cyfalaf na Cymhwyswyd	Symudiad yn Cronfeydd na ellir eu defnyddio
2016-17	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf:						
Gwrthdroi eitemau a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:						
Taliadau am ddibrisiant a niwed i asedau nad ydynt yn gyfredol	(30,304)	(11,185)	0	0	0	41,489
Colledion ar ôl ailbriso Eiddo, Offeriant a Chyfarpar	(4,306)	(4,439)	0	0	0	8,745
Symudiadau yng ngwerth Eiddo Buddsoddi ar y farchnad	(752)	0	0	0	0	752
Grantiau cyfalaf a chyfraniadau a chymhwyswyd	12,398	58	0	0	0	(12,456)
Gwariant refeniw a ariannwyd o'r cyfalaf o dan statud	(1,722)	(9)	0	0	0	1,731
Symiau'r asedau nad ydynt yn gyfredol a ddiddymwyd drwy waredu neu werthu fel rhan o'r elw/colled i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(4,987)	(139)	0	0	0	5,126
Mewnosod eitemau na ddebydwyd na chredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:						
Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddiadau cyfalaf	7,313	4,207	0	0	0	(11,520)
Gwariant cyfalaf a godir ar falansau Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai	5,038	782	0	0	0	(5,820)

	Cronfeydd y gellir eu defnyddio					
	Balans Cronfa'r Cyngor	Cyfrif Refeniw Tai	Cronfa Derbyniadau Cyfalaf	Cronfa Atgyweiriadau Mawr	Grantiau Cyfalaf na Cymhwyswyd	Symudiad yn Cronfeydd na ellir eu defnyddio
2016-17	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Grantiau Cyfalaf na Cymhwyswyd:						
Grantiau a chyfraniadau cyfalaf nas cymhwyswyd a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	82	0	0	0	(82)	0
Grantiau a gymhwyswyd i'r cyllid cyfalaf a drosglwyddwyd i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf	0	0	0	0	354	(354)
Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf:						
Trosglwyddo elw ariannol o werthu eiddo a gredydwyd fel rhan o'r elw/colled ar waredu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.	2,740	118	(2,858)	0	0	0
Derbyniadau Cyfalaf Statudol	48	0	(135)	0	0	87
Defnyddio'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf newydd	0	0	6,644	0	0	(6,644)
Cyfraniad o'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf tuag at y costau gweinyddol o waredu asedau nad ydynt yn gyfredol.	0	0	9	0	0	(9)
Derbyniadau Cyfalaf a Neilltuwyd	0	0	4	0	0	(4)
Trosglwyddo o'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig ar ôl derbyn arian.	0	0	(6)	0	0	6

	Cronfeydd y gellir eu defnyddio					
	Balans Cronfa'r Cyngor	Cyfrif Refeniw Tai	Cronfa Derbyniadau Cyfalaf	Cronfa Atgyweiriadau Mawr	Grantiau Cyfalaf na Cymhwyswyd	Symudiad yn Cronfeydd na ellir eu defnyddio
2016-17	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Gronfa Atgyweiriadau Mawr:						
Gwrthdroi'r Lwfans Atgyweiriadau Mawr a gredydwyd i'r Cyfrif Refeniw Tai	0	6,170	0	(6,170)	0	0
Defnyddio'r Gronfa Atgyweiriadau Mawr i ariannu'r gwariant cyfalaf newydd	0	0	0	6,170	0	(6,170)
Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol:						
Swm sy'n dangos sut mae'r costau ariannol a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wahanol i'r costau sydd i'w codi yn ystod y flwyddyn yn unol â'r gofynion statudol.	154	(52)	0	0	0	(102)
Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Gronfa Bensiynau:						
Gwrthdroi eitemau sy'n ymwneud â buddiannau ymddeol a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. (gweler Nodyn 6.44)	(36,785)	(832)	0	0	0	37,617
Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn.	23,703	502	0	0	0	(24,205)
Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Gronfa Absenoldebau Cronedig:						
Swm sy'n dangos sut mae'r taliadau i swyddogion a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail gronedig yn wahanol i'r taliadau sydd i'w codi yn ystod y flwyddyn yn unol â'r gofynion statudol.	(1,406)	(6)	0	0	0	1,412
Cyfanswm yr Addasiadau	(28,786)	(4,825)	3,658	0	272	29,681

	Cronfeydd y gellir eu defnyddio					
	Balans Cronfa'r Cyngor	Cyfrif Refeniw Tai	Cronfa Derbyniadau Cyfalaf	Cronfa Atgyweiriadau Mawr	Grantiau Cyfalaf na Cymhwyswyd	Symudiad yn Cronfeydd na ellir eu defnyddio
2015-16	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf:						
Gwrthdroi eitemau a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:						
Taliadau am ddibrisiant a niwed i asedau nad ydynt yn gyfredol	(26,591)	(11,173)	0	0	0	37,764
Colledion ar ôl ailbriso Eiddo, Offeriant a Chyfarpar	(1,657)	(134,490)	0	0	0	136,147
Symudiadau yng ngwerth Eiddo Buddsoddi ar y farchnad	(1,485)	0	0	0	0	1,485
Grantiau cyfalaf a chyfraniadau a chymhwyswyd	22,430	291	0	0	0	(22,721)
Gwariant refeniw a ariannwyd o'r cyfalaf o dan statud	(4,105)	(78,991)	0	0	0	83,096
Symiau'r asedau nad ydynt yn gyfredol a ddiddymwyd drwy waredu neu werthu fel rhan o'r elw/colled i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(1,831)	(472)	0	0	0	2,303
Mewnosod eitemau na ddebydwyd na chredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:						
Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddiadau cyfalaf	10,217	2,684	0	0	0	(12,901)
Gwariant cyfalaf a godir ar falansau Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai	12,468	8,493	0	0	0	(20,961)

	Cronfeydd y gellir eu defnyddio					
	Balans Cronfa'r Cyngor	Cyfrif Refeniw Tai	Cronfa Derbyniadau Cyfalaf	Cronfa Atgyweiriadau Mawr	Grantiau Cyfalaf na Cymhwyswyd	Symudiad yn Cronfeydd na ellir eu defnyddio
2015-16	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Grantiau Cyfalaf na Cymhwyswyd:						
Grantiau a chyfraniadau cyfalaf nas cymhwyswyd a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	300	0	0	0	(300)	0
Grantiau a gymhwyswyd i'r cyllid cyfalaf a drosglwyddwyd i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf	0	0	0	0	712	(712)
Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf:						
Trosglwyddo elw ariannol o werthu eiddo a gredydwyd fel rhan o'r elw/colled ar waredu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.	1,699	458	(2,157)	0	0	0
Derbyniadau Cyfalaf Statudol	53	0	(131)	0	0	78
Defnyddio'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf newydd	0	0	10,027	0	0	(10,027)
Cyfraniad o'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf tuag at y costau gweinyddol o waredu asedau nad ydynt yn gyfredol.	0	0	23	0	0	(23)
Derbyniadau Cyfalaf a Neilltuwyd	0	0	123	0	0	(123)
Trosglwyddo o'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig ar ôl derbyn arian.	0	0	(6)	0	0	6

Nodiadau i'r Cvfrifon

	Cronfeydd y gellir eu defnyddio					
	Balans Cronfa'r Cyngor	Cyfrif Refeniw Tai	Cronfa Derbyniadau Cyfalaf	Cronfa Atgyweiriadau Mawr	Grantiau Cyfalaf na Cymhwysyd	Symudiad yn Cronfeydd na ellir eu defnyddio
2015-16	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Gronfa Atgyweiriadau Mawr:						
Gwrthdroi'r Lwfans Atgyweiriadau Mawr a gredydwyd i'r Cyfrif Refeniw Tai	0	6,166	0	(6,166)	0	0
Defnyddio'r Gronfa Atgyweiriadau Mawr i ariannu'r gwariant cyfalaf newydd	0	0	0	6,166	0	(6,166)
Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol:						
Swm sy'n dangos sut mae'r costau ariannol a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wahanol i'r costau sydd i'w codi yn ystod y flwyddyn yn unol â'r gofynion statudol.	(83)	(33)	0	0	0	116
Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Gronfa Bensiynau:						
Gwrthdroi eitemau sy'n ymwneud â buddiannau ymddeol a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. (gweler Nodyn 6.44)	(40,454)	(794)	0	0	0	41,248
Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn.	23,960	453	0	0	0	(24,413)
Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Gronfa Absenoldebau Cronedig:						
Swm sy'n dangos sut mae'r taliadau i swyddogion a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail gronedig yn wahanol i'r taliadau sydd i'w codi yn ystod y flwyddyn yn unol â'r gofynion statudol.	1,092	(6)	0	0	0	(1,086)
Cyfanswm yr Addasiadau	(3,987)	(207,414)	7,879	0	412	203,110

6.5 Gweithrediadau Masnachu

Mae gan yr Awdurdod amryw o weithrediadau masnachu, a restrir yn y tabl isod. Mae trosiant y gweithgareddau masnachu hyn yn deillio yn bennaf o renti, ffioedd a thaliadau a godir ac maent naill ai'n ymgymeriadau gyda'r cyhoedd a thrydydd partion eraill neu'n weithrediadau masnachu mewnol, a sefydlwyd yn wreiddiol fel Gwasanaethlu. Nid yw cartrefi preswyl y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithredu fel gweithgaredd masnachu o fewn yr Awdurdod. Ar hyn o bryd, mae'r holl gostau sydd i'w priodoli i redeg y cartrefi hyn yn cael eu cynnwys yn uniongyrchol yng nghyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol. Ceir ffigurau alldro gwirioneddol y gweithrediadau masnachu hyn isod:

2015-16 Cyfanswm Gwariant Gros	2015-16 Cyfanswm Incwm Gros	2015-16 Cyfanswm (Incwm)/ Gwariant Net		2016-17 Cyfanswm Gwariant Gros	2016-17 Cyfanswm Incwm Gros	2016-17 Cyfanswm (Incwm)/ Gwariant Net
£'000	£'000	£'000		£'000	£'000	£'000
Gweithgareddau/Adain						
32,445	(33,088)	(643)	Gwasanaethau Eiddo Atgyweirio a Chynnal	31,524	(32,206)	(682)
1,352	(1,675)	(323)	Cerbydau	1,131	(1,492)	(361)
3,675	(3,373)	302	Glanhau Adeiladau	3,965	(3,445)	520
5,227	(5,117)	110	Rheoli'r Fflyd	5,202	(5,191)	11
1,315	(1,457)	(142)	Dylunio Sifil	1,447	(1,725)	(278)
578	(296)	282	Yr Ystâd Wledig	688	(311)	377
831	(620)	211	Marchnadoedd Nwyddau	993	(597)	396
1,295	(1,625)	(330)	Safleoedd Diwydiannol	1,321	(1,673)	(352)
46,718	(47,251)	(533)		46,271	(46,640)	(369)

6.6 Treth y Cyngor

Daw incwm Treth y Cyngor trwy godi tâl ar eiddo preswyl yn ôl gwerth yr eiddo ac mae'r gwerth hwnnw wedi'i rannu yn naw band prisio yr amcangyfrifwyd eu gwerth ar 1 Ebrill, 2003. Cyfrifir y taliadau drwy rannu faint o incwm y bydd ei angen ar Gyngor Sir Caerfyrddin ac Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys dros y flwyddyn nesaf â sylfaen Treth y Cyngor. Sylfaen Treth y Cyngor yw cyfanswm nifer yr anheddau ym mhob band prisio, wedi'i addasu yn ôl rhyw gyfran i drosi'r rhif i swm cyfatebol ar gyfer band D ac addasu ar gyfer disgownt – sef £70,929 yn 2016-17 (£70,376 ar gyfer 2015-16). Mae Treth y Cyngor sy'n daladwy gan aelwyd yn cael ei chyfrif drwy luosi swm sylfaenol annedd band D (£1,117.67 ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin) â'r gyfran a bennir ar gyfer y band penodol.

Mae biliau Treth y Cyngor yn seiliedig ar y lluosyddion canlynol ar gyfer y bandiau o A i I. Mae'r tabl canlynol yn dangos y lluosydd sy'n berthnasol i bob band, ynghyd â'r nifer cyfwerth o breswylfeydd Band 'D' ym mhob band. Yn ogystal, mae un band is (A-) a luniwyd i gynnig y gostyngiad priodol mewn perthynas â phreswylfeydd i bobl ag anabledd, lle mae deddfwriaeth yn caniatáu gostyngiad o ran pennu band, i'r band sy'n union o dan y band y gosodwyd y breswylfa ynddo yn ôl ei gwerth gwirioneddol.

Band	A-	A	B	C	D	E	F	G	H	I
Lluosydd	5/9	6/9	7/9	8/9	9/9	11/9	13/9	15/9	18/9	21/9
Preswylfeydd Band D	17	4,809	15,950	13,751	12,310	13,958	8,126	3,206	521	100

Dadansoddiad o'r enillion net o Dreth y Cyngor:

	2015-16 £'000	2016-17 £'000
Treth y Cyngor sy'n Gasgladwy	96,955	100,781
	<hr/>	<hr/>
	96,955	100,781
Llai:		
Symudiad yn Lwfans Amhariad	(658)	(758)
Enillion Net o Dreth y Cyngor (gan gynnwys praeseptau)	96,297	100,023
	<hr/> <hr/>	<hr/> <hr/>

6.7 Trethi Annomestig Cenedlaethol (NNDR)

Trefnir yr NNDR yn ôl dealltwriaeth genedlaethol. Mae'r llywodraeth yn pennu swm y dreth (48.6c ar gyfer gwerthoedd trethol yn 2016-17 a 48.2c ar gyfer gwerthoedd trethol yn 2015-16) ac, yn amodol ar effeithiau trefniadau trosiannol, mae busnesau lleol yn talu trethi sy'n cael eu cyfrifo drwy luosi eu gwerth trethol (sydd wedi'i adbriso o 1 Ebrill 2010) â'r swm hwnnw. Y Cyngor sy'n gyfrifol am gasglu'r trethi oddi wrth drethdalwyr ei ardal ond wedyn mae'n talu'r arian i gronfa'r NNDR a weinyddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ailddosbarthu'r symiau sy'n daladwy yn ôl i'r awdurdodau lleol ar sail swm penodol am bob pen o'r boblogaeth.

Roedd yr incwm o'r NNDR o £48,100,000 ar gyfer 2016-17, ar ôl rhyddhad a darpariaethau, yn seiliedig ar werth trethol cyfartalog o £121,989,319 (£120,806,537 ar gyfer 2015-2016). Ar 31 Mawrth 2017 cyfanswm y trethi annomestig oedd £122,690,223 (£121,288,415 ar 31 Mawrth 2016).

Dadansoddiad o'r enillion net o'r Trethi Annomestig:

	2015-16	2016-17
	£'000	£'000
Y Trethi Annomestig sy'n Gasgladwy Llai	47,725	48,100
Y Swm a Dalwyd i Gronfa'r NNDR	(47,250)	(48,002)
Cost y Gwaith Casglu	(382)	(383)
Symudiad yn Lwfans Amhariad	(196)	(557)
	<hr/>	<hr/>
	(103)	(842)
Derbyniadau o'r Gronfa	53,513	56,562
Enillion Net o'r NNDR	<hr/> 53,410 <hr/>	<hr/> 55,720 <hr/>

6.8 Eiddo, Offeriant a Chyfarpar

Symudiadau yn 2016-17	Tai Cyngor £'000	Tir ac Adeiladau £'000	Cerbydau peiriannau ac Offer £'000	Seilwaith £'000	Asedau Cymunedol £'000	Asedau Dros Ben £'000	Asedau'n cael eu hadeiladu £'000	CYFANSWM £'000
Gwerth Llyfr Gros 01/04/16	326,472	751,829	14,897	276,390	3,782	21,813	19,165	1,414,348
Ychwanegiadau	14,148	10,599	10,027	4,970	367	15	18,041	58,167
Codiadau Ailbriso a gydnabwyd yn y Gronfa Ailbriso	97	21,676	0	0	5	396	0	22,174
Colledion Ailbriso a gydnabwyd yn y Gronfa Ailbriso	(11)	(12,793)	0	0	0	(220)	0	(13,024)
Y Codiadau Ailbriso a Gydnabwyd yn y Ddarpariaeth Gwas.	0	5,413	0	0	0	628	0	6,041
Y Colledion Ailbriso a Gydnabwyd yn y Ddarpariaeth Gwas.	(4,439)	(9,693)	(282)	0	0	(372)	0	(14,786)
Datgydnabod Gwaredu	0	(2,082)	(2,949)	0	0	0	0	(5,031)
Ailddosbarthiadau: i ac o Asedau i'w werthu	(42)	0	0	0	0	(2,458)	0	(2,500)
Ailddosbarthiadau: i ac o Eiddo Buddsoddi	0	(293)	0	0	0	91	0	(202)
Ailddosbarthiadau: o Asedau'n cael eu hadeiladu i Eiddo Buddsoddi	0	0	0	0	0	0	(871)	(871)
Ailddosbarthiadau: o Asedau'n cael eu hadeiladu	(99)	(21,032)	9	9,461	1,498	14,689	(4,526)	0
Ysgrifennu nôl Dibrisiant i'r swm gros a gariwyd ar ailbriso	(2)	(5,604)	(573)	0	0	(27)	0	(6,206)
Gwerth Llyfr Gros 31/03/17	336,124	738,020	21,129	290,821	5,652	34,555	31,809	1,458,110
Y Dibrisiant a'r Amhariad Cronedig ar 01/04/16	296	(25,192)	(8,881)	(70,063)	(395)	(16)	0	(104,251)
Y Tâl Dibrisiant	(11,185)	(21,951)	(1,745)	(6,291)	(34)	(283)	0	(41,489)
Y Dibrisiant a Symudwyd i'r Gronfa Ailbriso	2	5,604	573	0	0	27	0	6,206
Datgydnabod Gwaredu	0	29	2,791	0	0	0	0	2,820
Ailddosbarthiadau: Dibrisiant ac Amhariadau i Eiddo Buddsoddi	0	39	0	0	0	0	0	39
Symudiadau eraill o ran dibrisiant ac amhariadau	0	695	0	0	(39)	(656)	0	0
Dibrisiant Cronnol i 31/03/17	(10,887)	(40,776)	(7,262)	(76,354)	(468)	(928)	0	(136,675)
Gwerth Llyfr Net ar 31/03/17	325,237	697,244	13,867	214,467	5,184	33,627	31,809	1,321,435

Symudiadau yn 2015-16	Tai	Tir ac	Cerbydau		Asedau	Asedau	Asedau'n	
	Cyngor	Adeiladau	peiriannau ac Offer	Seilwaith	Cymunedol	Dros Ben	cael eu hadeiladu	CYFANSWM
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwerth Llyfr Gros 01/04/15	562,449	639,100	17,547	270,648	3,583	19,673	65,723	1,578,723
Ychwanegiadau	15,266	35,194	1,117	5,458	32	152	9,779	66,998
Codiadau Ailbriso a gydnabwyd yn y Gronfa Ailbriso	3,426	46,137	0	0	84	100	0	49,747
Colledion Ailbriso a gydnabwyd yn y Gronfa Ailbriso	(26,852)	(1,262)	0	0	0	(359)	0	(28,473)
Y Codiadau Ailbriso a Gydnabwyd yn y Ddarpariaeth Gwas.	1,908	8,613	0	0	0	0	0	10,521
Y Colledion Ailbriso a Gydnabwyd yn y Ddarpariaeth Gwas.	(136,398)	(7,864)	(1,508)	0	0	(896)	0	(146,666)
Datgydnabod Gwaredu	(10)	0	(270)	0	0	0	0	(280)
Ailddosbarthiadau: i ac o Asedau i'w werthu	(381)	(200)	0	0	(4)	(1,961)	0	(2,546)
Ailddosbarthiadau: i ac o Eiddo Buddsoddi	0	155	0	0	88	2,820	0	3,063
Ailddosbarthiadau: o Asedau'n cael eu hadeiladu i Eiddo Buddsoddi	0	0	0	0	0	0	0	0
Ailddosbarthiadau: o Asedau'n cael eu hadeiladu	477	53,016	0	284	(1)	2,561	(56,337)	0
Ysgrifennu nôl Dibrisiant i'r swm gros a gariwyd ar ailbriso	(93,413)	(21,060)	(1,989)	0	0	(277)	0	(116,739)
Gwerth Llyfr Gros 31/03/16	326,472	751,829	14,897	276,390	3,782	21,813	19,165	1,414,348
Y Dibrisiant a'r Amhariad Cronedig ar 01/04/15	(81,944)	(27,246)	(9,881)	(64,005)	(372)	(23)	0	(183,471)
Y Tâl Dibrisiant	(11,173)	(19,256)	(1,234)	(6,058)	(23)	(20)	0	(37,764)
Y Dibrisiant a Symudwyd i'r Gronfa Ailbriso	93,413	21,060	1,989	0	0	277	0	116,739
Datgydnabod Gwaredu	0	0	245	0	0	0	0	245
Ailddosbarthiadau: Dibrisiant ac Amhariadau i Eiddo Buddsoddi	0	0	0	0	0	0	0	0
Symudiadau eraill o ran dibrisiant ac amhariadau	0	250	0	0	0	(250)	0	0
Dibrisiant Cronnol i 31/03/16	296	(25,192)	(8,881)	(70,063)	(395)	(16)	0	(104,251)
Gwerth Llyfr Net ar 31/03/16	326,768	726,637	6,016	206,327	3,387	21,797	19,165	1,310,097

Nodiadau i'r Cyfrifon

Dibrisiant

Defnyddiwyd yr oesau defnyddiol a'r cyfraddau dibrisio canlynol wrth gyfrifo dibrisiant:

Ased	Oes (Blynyddoedd)
Tai Cyngor	30
Tir <i>(gan gynnwys Asedau Cymunedol)</i>	diddiwedd
Adeiladau <i>(gan gynnwys Asedau Cymunedol)</i>	30
Offeriant, Celfi a Chyfarpar	5 i 10
Cerbydau	1 i 10
Seilwaith	40

Gwariant Heb ei Wella

Yn yr un modd ag a wnaed yn 2015-16, mae'r Gwariant Nad yw'n Ychwanegu Gwerth wedi'i gynnwys yn yr ychwanegiadau yn y flwyddyn ac yna mae wedi'i ddileu ar y sail ei fod yn golled adbriso. Yn y blynyddoedd blaenorol, dilëwyd y gwariant hwn yn uniongyrchol dan y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Ailbrisiadau

Mae'r Awdurdod yn cynnal rhaglen dreigl sy'n sicrhau bod yr holl Eiddo, Offeriant a Chyfarpar yn cael eu hailbriso o leiaf bob pum mlynedd. Cafodd yr holl brisiadau eu gwneud yn fewnol. Prisiwyd y tir a'r adeiladau yn unol â'r dulliau a'r sylfeini ar gyfer amcangyfrif a bennwyd gan safonau proffesiynol Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Caiff y cerbydau, y peiriannau, y celfi, a'r offer eu prisio ar sail cost hanesyddol dibrisiedig.

Datganiad o'r Asedau Sefydlog a gedwir yn ôl eu gwerth presennol 2016-17

Mae'r datganiad canlynol yn dangos y camau a gymerwyd o ran rhaglen dreigl yr Awdurdod i ailbriso asedau sefydlog. Ymgwymerir â'r gwaith prisio gan briswyr yr Awdurdod sy'n perthyn i Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Pennir sylfaen y prisio yn y datganiad o bolisiau cyfrifydda.

	Tai Cyngor	Tir ac Adeiladau Eraill	Cerbydau Peiriannau ac Offer	Asedau Gwarged	CYFANSWM
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Pennwyd ar gwerth teg ar:					
31 Mawrth 2017	9,652	(13,809)	6,232	12,742	14,817
31 Mawrth 2016	(235,977)	112,729	(2,650)	2,140	(123,758)
31 Mawrth 2015	19,668	(40,940)	(683)	(1,269)	(23,224)
31 Mawrth 2014	19,476	(19,640)	1,851	(2,612)	(925)
31 Mawrth 2013	20,711	18,174	(4,093)	432	35,224
Y Blynyddoedd Blaenorol	502,594	681,506	20,472	23,122	1,227,694
Gwerth Llyfr Gros ar 31/03/17	336,124	738,020	21,129	34,555	1,129,828

Ymrwymadau Cyfalaf

Ar 31 Mawrth 2017 roedd y Cyngor wedi ymrwymo drwy gontract i waith cyfalaf oedd yn werth tua £30.8 miliwn. Roedd y prif gontractau yn cynnwys y cynlluniau canlynol.

	£'000
<u>CYMUNEDAU</u>	
Tai Sector Cyhoeddus	2,959
Parc Gwledig Penbre	1,792
<u>AMGYLCHEDD</u>	
Cronfa Trebeddrod	21
Ffordd Gyswllt Gorllewin Caerfyrddin	2,202
Maes Parcio Stryd Murray	46
<u>ADDYSG A GWASANAETHAU PLANT</u>	
Rhaglen Moderneiddio Addysg	
Dyffryn Aman	48
Maes Y Gwendraeth	28
Bro Dinefwr	416
Pen Rhos	4,226
Ffwrnes	10
Carreg Hirfaen	83
Llangadog	3,462
Ysgolion Porth Tywyn	95
Trimsaran	2,554
Parc Y Tywyn	6,306
Bryngwyn	27
Pontyberem	2,931
Coedcae	1,411
St John Lloyd	1,997
Dewi Sant	166
	<u>30,780</u>

6.9 Asedau Treftadaeth

	Casgliadau Celf £'000	Regalia Dinesig £'000	Arddangosion Amgueddfa £'000	Cerfluniau Cyhoeddus £'000	Henebion £'000	Archifau £'000	Arall £'000	Cyfanswm £'000
Y Swm Gros a Gariwyd o ran Cost neu Briad 01/04/15	30	16	71	761	1,337	30	3	2,248
Colledion Adbriso	0	0	0	0	0	0	(2)	(2)
Y Swm Gros a Gariwyd o ran Cost neu Briad 31/03/16	30	16	71	761	1,337	30	1	2,246
Colledion Adbriso	0	0	0	0	0	0	0	0
Y Swm Gros a Gariwyd o ran Cost neu Briad 31/03/17	30	16	71	761	1,337	30	1	2,246

Asedau Treftadaeth: Crynodeb Pum Mlynedd o'r Ychwanegiadau a'r Prisiadau

	Casgliadau Celf £'000	Regalia Dinesig £'000	Arddangosion Amgueddfa £'000	Cerfluniau Cyhoeddus £'000	Henebion £'000	Archifau £'000	Arall £'000	Cyfanswm £'000
2016-17	0	0	0	0	0	0	0	0
2015-16	0	0	0	0	0	0	(2)	(2)
2014-15	0	0	7	39	63	0	0	109
2013-14	0	0	31	2	1	0	0	34
2012-13	0	0	(40)	0	0	30	0	(10)
Blynyddoedd Blaenorol	30	16	73	720	1,273	0	3	2,115
Y Swm Gros a Gariwyd o ran Cost neu Briad 31/03/17	30	16	71	761	1,337	30	1	2,246

Asedau Treftadaeth: Casgliadau archifau

Sefydlwyd y gwasanaeth archifau yn 1959 er mwyn casglu cofnodion o bwysigrwydd hanesyddol. Ers hynny mae'r gwasanaeth wedi crynhoi 8785 o adneuoedd o gofnodion, a gall pob adnau fod cyn lleied ag un eitem neu gymaint â sawl mil. Mae'r holl eitemau'n unigryw. Mae'r cofnodion a ddeler yn cael eu categorio o dan wahanol benawdau.

Deddf Cofnodion Cyhoeddus 1958:

Treth Tir 1797, Treth Aelwyd 1670, Arolwg Tir y Goron 1560 a Chyfrifiad Sir Gaerfyrddin 1841-1911. Llysoedd Chwarter Sir Gaerfyrddin: Llyfrau Gorchmynion/Cofnodion 1748 - 1752, 1794 - 1813, ac 1820 - 1971. Ffeiliau a phapurau achosion 1833-1971; Llyfrau nodiadau'r barnwyr, llyfrau'r rheithgorau, cofrestr yr ystus, cofrestrau collfarnau a llyfrau apêl, o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif. Cofnodion cyhoeddus a oedd ar gadw gan y Clerc Heddwch.

Cofrestrau etholiadol Sir Gaerfyrddin o 1851 ymlaen (etholaethau Sir Gaerfyrddin a Llanelli o 1918 tan heddiw)

Cynlluniau rheilffyrdd, ffyrdd, camlesi, porthladdoedd a gwaith cyhoeddus arall 1808-1950

Deddfau Cau Tiroedd a phenderfyniadau 1810-1873

Cofnodion y Cwmnïau Tyrpeg yn ymwneud â Sir Gaerfyrddin

Y Sesiynau Bach: cofnodion a chofrestrau yn Sir Gaerfyrddin yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif.

Cofnodion Ysbytai: cofnodion, adroddiadau, cofnodion ariannol a chynlluniau ar gyfer gwahanol ysbytai.

Cymdeithas y Tiriogaethwyr: Cofnodion Cymdeithas y Tiriogaethwyr a'r Lluoedd Cynorthwyol.

Cofnodion Llongau: Cytundebau criwiau a llyfrau lög swyddogol llongau a gofrestrwyd yn Llanelli 1863-1913: Cofrestrau llongau a chychod pysgota ym mhorthladdoedd Llanelli 1824-1957 a Chaerfyrddin 1839-1849.

Cofnodion Prasio Tir: Rhestrau prasio a luniwyd dan Ddeddf Cyllid 1910 gan Gomisiynwyr Cyllid y Wlad: mae hyn yn cynnwys prisiadau manwl ar gyfer eiddo ym mhob plwyf yn Sir Gaerfyrddin.

COFNODION SWYDDOGOL

Y Cyngor Sir: Cyngor Sir Gaerfyrddin 1889-1974, cofnodion trwyddedau cerbydau modur 1907-1974; Cofnodion Cyngor Sir Dyfed 1973-1996: Cofnodion Cyngor Sir Caerfyrddin 1997-2011

Cofnodion Addysg: Llyfrau lög amrywiol ysgolion 1862-1976; cofnodion byrddau ysgolion 1871-1903; cofnodion rheolwyr ysgol 1872-1973; rhai cofrestrau derbyn o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif

Bwrdd y Gwarcheidwaid a'r Tloty: Cofnodion a chofnodion ariannol Gwarcheidwaid Undeb Sir Gaerfyrddin o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg tan 1948; Undeb Llandeilo Fawr 1836-1948; Undeb Llanymddyfri 1840-1950; Undeb Llanelli circa 1840-1948; Cofnodion Tloty Penlan, Caerfyrddin 1866-1975; Abercennen Llandeilo 1839-1969; Llanelli 1913-1950.

Cofnodion Bwrdeistref: Cofnodion ar gyfer Bwrdeistrefi Caerfyrddin, Cydweli, Lacharn, Llanymddyfri, a Llanelli, yn cynnwys cofnodion, llyfrau trethi, gweithredoedd, rhenti, cyfrifon, a deunydd arall.

Cynghorau Dosbarth: Cofnodion, llyfrau trethi, cofnodion ariannol, gohebiaeth a chynlluniau Cyngor Dosbarth Gwledig Llandeilo / Cyngor Dosbarth Trefol Llandeilo, Cyngor Dosbarth Trefol Cwmaman circa 1860-1974, a Chyngor Dosbarth Trefol Rhydaman 1903-1974.

Yr Awdurdod Dŵr: cofnodion, adroddiadau, cyfrifon a gohebiaeth Bwrdd Pysgodfeydd Afon Tywi 1867-1951.

Cynghorau Plwyf: Cofnodion, gweithredoedd, llyfrau trethi, cofnodion ariannol a gohebiaeth o lawer o blwyfi 1894-1974.

Cofnodion Eglwysig: Yr Eglwys yng Nghymru: cofrestrau bedyddiadau, priodasau a chladdedaethau holl blwyfi Sir Gaerfyrddin o'r unfed ganrif ar bymtheg hyd at yr ugeinfed ganrif; cofnodion festri, cyfrifon wardeiniaid eglwysi, papurau goruchwylwyr, llyfrau trethi a mapiau degwm ar gyfer rhai plwyfi o'r ddeunawfed ganrif hyd at yr ugeinfed ganrif. Rhaniadau a mapiau'r degwm 1848 tan tua 1920. Yr Anghydfurfyr: Microffilmiau o gofrestrau anghydfurfiol a gedwir yn y Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus; cofnodion gwreiddiol rhai capeli o'r ddeunawfed ganrif hyd at yr ugeinfed ganrif.

CASGLIADAU PREIFAT:

Mae llawer o'r casgliadau hyn yn eiddo i'r rhoddwr gwreiddiol o hyd ac ar fenthyg am gyfnod amhenodol i'r gwasanaeth archifau. Ymhlith yr eitemau pwysicaf y mae achres Fychaniaid Gelli Aur a grëwyd yn 1641, a ystyrir yn un o'r enghreifftiau gorau o'i math; Llyfrau Achau Gelli Aur - pedair cyfrol o achresi teuluoedd Cymreig a grynhowyd tua 1703 - ond sy'n cyfeirio at ffynonellau sy'n dyddio o'r unfed ganrif ar ddeg; Llythyrau Terfysgoedd Beca.

Cofnodion Teuluoedd ac Ystadau: Casgliadau o'r bedwaredd ganrif ar ddeg hyd at yr ugeinfed ganrif yn ymwneud â nifer o ystadau ar draws y sir. Mae'r rhain yn cynnwys gweithredoedd, rhenti, gohebiaeth, cofnodion ariannol, mapiau, dyddiaduron a chofnodion gwleidyddol a phersonol.

Cyfreithwyr: Cofnodion a gasglwyd gan y cwmnïoedd yn Sir Gaerfyrddin, yn cynnwys gweithredoedd, rhenti, gohebiaeth, a mapiau yn cwmpasu sawl ystâd fawr.

Cofnodion Busnesau: John Francis a'i fab, gwerthwyr tai: mae'r cofnodion yn cynnwys gweithredoedd, ewyllysiau, rhenti a mapiau sy'n ymwneud â nifer o ystadau, ynghyd â chasgliad o fwy na 1,000 o gatalogau gwerthu. Ymhlith y cofnodion busnes eraill y mae rhai Waddle Engineering Llanelli, Bragdy Buckleys Llanelli, y diwydiant gwlan yn Nyffryn Teifi, Glofa Glo Caled Emlyn, ac Ymddiriedolaeth Harbwr Llanelli.

Cymdeithasau: Cymdeithas Hynafiaethwyr Sir Gaerfyrddin - casgliad sy'n cynnwys cofnodion bwrdeisiol; cofnodion yr heddlu; cofnodion eglwysig; cofnodion yn ymwneud â Deddf y Tlodion; cofnodion addysg; mapiau; cynlluniau rheilffyrdd a chyfres o lyfrau lloffion sy'n cynnwys gweithredoedd, toriadau, lluniau a defnyddiau hynafiaethol o'r drydedd ganrif ar ddeg hyd at yr ugeinfed ganrif. Hefyd mae'r cofnodion eraill yn cynnwys cofnodion Sefydliad y Merched Sir Gaerfyrddin, Cymdeithas Helwyr y Siroedd Unedig, Plaid Lafur Etholaeth Llanelli, RNLI Glanyfferi, a changen Caerfyrddin o ASLEF yn yr ugeinfed ganrif ynghyd â chofnodion undebau llafur eraill.

Mapiau'r Arolwg Ordnans: Yn cynnwys gwahanol fapiau sy'n ymwneud â Sir Gaerfyrddin ac sy'n dyddio o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Papurau Newydd: Carmarthen Journal 1810 - tan heddiw, The Welshman 1846 -1950, South Wales Guardian a'r Amman Valley Chronicle.

Fel rheol mae'r holl gofnodion uchod ar gael at ddefnydd y cyhoedd, ond ar hyn o bryd oherwydd bod ffwng yn yr ystafelloedd diogel, bu'n rhaid symud y cofnodion er mwyn i waith adfer gael ei wneud, felly nid ydynt ar gael ar hyn o bryd. Cyn y dychwelir y casgliadau, bydd angen sicrhau bod lle addas ar gael neu fel arall ystyried atebion eraill megis gweithio gyda chyrrff eraill i ddarparu'r gwasanaeth. Nid yw'r union amserlenni yn hysbys ar hyn o bryd ond yn y cyfamser, bwriedir adneuo rhai o'r casgliadau yn Archifau Morgannwg ac Archifau Prifysgol Abertawe yn ystod blwyddyn galendr 2016 er mwyn iddynt fod ar gael i ymchwilyr.

Asedau Treftadaeth: Rhagor o wybodaeth am gasgliadau amgueddfeydd Cyngor Sir Caerfyrddin

Mae Gwasanaethau Amgueddfeydd Sir Gaerfyrddin yn cynnwys pum amgueddfa ac un ystafell dreftadaeth.

Er bod casgliadau Amgueddfa Sir Gaerfyrddin ac Oriel Gelf ac Amgueddfa Parc Howard yn cael eu dadansoddi ar wahân, mae rhai'r Amgueddfa Cyflymder, Amgueddfa Tref Caerfyrddin, ac Amgueddfa Bro Aman wedi eu cynnwys yn y wybodaeth am Amgueddfa Sir Gaerfyrddin.

Parc Howard

Agorodd Parc Howard yn 1912. Mae'r rhan fwyaf o'r eitemau yn y casgliadau wedi cael eu rhoi. Maent yn adleisio gorffennol Llanelli. Mae casgliad Parc Howard yn cael ei storio yn yr amgueddfa.

Diwylliant Materol: yn cynnwys yr holl eitemau yn y casgliad ac eithrio Celfyddyd Gain a Chrochenwaith

Mae gan y casgliad hwn amrywiaeth eang o eitemau diwylliant materol sy'n adleisio hanes Llanelli o'r ddeunawfed ganrif ymlaen. Ymhlith yr eitemau amlycaf y mae 'Olwyn Sbâr Stepney', nwyddau o'r diwydiannau haearn, tun, a dur lleol, ynghyd ag esiampl o'r can cwrw cyntaf, a wnaed ar gyfer Bragdy Felin-foel. Hefyd mae'r casgliad yn rhoi sylw i wisgoedd, i chwaraeon, y diwydiant bragu a chrefydd yn lleol, i'r Ail Ryfel Byd ac i hanes dinesig y dref a'i phobl enwocaf. O blith y 3,000 o wrthrychau diwylliant materol yng nghasgliad Parc Howard, arddangosir tua 11% ohonynt ar yr un pryd.

Y Casgliad Celfyddyd Gain

Mae'r casgliad hwn yn cynnwys bron 500 o weithiau celf, gan gynnwys paentiadau olew, gweithiau celf ar bapur, a cherfluniau. Daeth y rhan fwyaf o baentiadau pwysicaf y casgliad o gasgliad y Fonesig Stepney, a wnaeth brydlesu'r amgueddfa a'r parc yn wreiddiol i Gyngor Bwrdeistref Llanelli. Mae'r casgliad yn cynnwys darnau gan yr artistiaid o Lanelli, James Dickson Innes a Charles William Mansel Lewis, yn ogystal â gwaith mawr gan Hubert von Herkomer. Hefyd mae paentiadau gan John Bowen a Tony Evans, sef dau artist lleol o bwys yn yr ugeinfed ganrif. O blith y 491 o weithiau celf arddangosir rhyw 8.5% ohonynt, yn cynnwys darnau mwyaf pwysig y casgliad, ar yr un pryd. Caiff yr eitemau eraill eu cadw dan glo mewn storfa ond mae modd i ysgolheigion gael golwg arnynt ac fe'u dangosir mewn arddangosfeydd cylchredol.

Y Casgliad Crochenwaith

Mae'r casgliad hwn yn cynnwys y casgliad mwyaf o Grochenwaith Llanelli. Arddangosir bron 80% o'r casgliad hwn o 721 o eitemau ar yr un pryd. Mae casgliad Crochenwaith Llanelli wedi cael ei grynhoi ers 1912 a hynny drwy gyfuniad o brynu eitemau a'u derbyn yn rhoddion. Mae cynnwys y casgliad yn amrywio o nwyddau a grëwyd yn ystod y blynyddoedd cynnar hynny o weithgynhyrchu yn yr 1840au i rai o'r blynyddoedd olaf yn yr 1920au. Ymhlith y nwyddau cynharaf o bwys y mae casgliad o lithoffanau a phenddelw o John Wesley, yn ogystal ag enghreifftiau o batrymau a ffurfiau ar grochenwaith a addurnwyd â throsglwyddion. Arddangosir oddeutu 30% o'r rhain ar yr un pryd. Os nad yw'r crochenwaith yn cael ei arddangos fe'i cedwir dan glo mewn storfa ond mae modd i ysgolheigion gael golwg arno.

Amgueddfa Sir Gaerfyrddin

Dechreuwyd y casgliadau gan Gymdeithas Hynafiaethwyr Sir Gaerfyrddin ac agorwyd yr Amgueddfa yn 1908, felly mae hon yn un o'r amgueddfeydd hynaf yng Nghymru. Mae casgliadau Amgueddfa'r Sir nad ydynt yn cael eu harddangos yn cael eu storio yn yr amgueddfa ac mewn storfa fawr yn Amgueddfa Ddiwydiannol Cydweli.

Diwylliant Materol: mae hwn yn cynnwys yr holl eitemau ac eithrio'r casgliadau Archeoleg, Ethnograffeg, a Chelfyddyd Gain.

Mae hanes Sir Gaerfyrddin ers yr oesoedd canol yn cwmpasu bywyd gwledig a bywyd trefol diwydiannol, ac mae'r casgliadau'n adleisio'r ddeuliaeth hon. Mae'r casgliadau'n cynnwys celfi megis seldiau, crochenwaith lleol, offer a pheiriannau amaethyddol a diwydiannol (yn cynnwys y diwydiant glo carreg), gwisgoedd, sampleri, cwiltiau, llwyau caru, lluniau, arteffactau milwrol, nwmismateg, pethau cofiadwy, a chynnwys bwthyn lleol, ac yn rhoi sylw i chwaraeon, addysg, traddodiad, ffydd, chwedlau gwerin, a bywyd masnachol. Yn hynod arwyddocaol y mae'r ffris o Gofeb Picton, arteffactau milwrol, cynnwys y bwthyn, a chopi o'r cyfieithiad Cymraeg cyntaf o'r Testament Newydd, yn ogystal â seldiau Sir Gaerfyrddin gyda'u llestri gwreiddiol. O blith bron 30,000 o wrthrychau sy'n rhan o'r casgliad diwylliant materol arddangosir tua 9% ohonynt ar yr un pryd. Caiff gwrthrychau nad ydynt yn cael eu harddangos eu cadw dan glo mewn storfa ond mae modd i ysgolheigion gael golwg arnynt. Mae'r Neuadd Sirol yng Nghaerfyrddin yn cadw darnau arwyddocaol o gelfi sefydlog a symudol a wnaed ar gyfer y neuadd gan David Morley o Gaerfyrddin, yn ogystal â phortreadau o bobl leol amlwg a phaentiadau eraill.

Casgliad Archeoleg

Mae'r casgliad archeoleg yn gasgliad rhanbarthol sylweddol sy'n cynnwys eitemau o arwyddocâd lleol, rhanbarthol, Cymreig, Prydeinig, a rhyngwladol. Dwy ran sydd i'r casgliad hwn sef deunydd yn bennaf o gasgliad Cymdeithas Hynafiaethwyr Sir Gaerfyrddin (1907 – 1939) ac eitemau yn sgil cloddio rheoledig mawr (1967 tan heddiw) a hynny'n bennaf gan Ymddiriedolaeth Archeoleg Dyfed a CADW. Mae'r archifau hyn yn cynnwys cofnodion papur, ffotograffau, a chofnodion digidol. Mae dyddiadau'r eitemau hyn yn amrywio o ganol yr Oes Baleolithig hyd at yr ugeinfed ganrif.

Ymhlith yr eitemau pwysicaf y mae: Offer siert o Ogof Coygan o ganol yr Oes Baleolithig/diwedd y cyfnod Neanderthalaidd (50,000 o flynyddoedd yn ôl) (o bwys rhyngwladol), gleiniau wedi'u tyllu a ffigurynnau siâl Mesolithig o Nab Head (o bwys rhyngwladol), celc o waith metal o'r Oes Efydd (o bwys rhanbarthol), ffiguryn pren Brythonaidd-Rufeinig o Ystrad Fflur (o bwys rhyngwladol), tlws

Brythonaidd-Rufeinig o Gaerfyrddin (o bwys cenedlaethol), cadwyn aur Frythonaidd-Rufeinig o Ddolau Cothi (o bwys cenedlaethol), archifau cloddio o'r Oes Rufeinig, o Gaerfyrddin ac o Ddolau Cothi/Pumsaint (y ddau o bwys cenedlaethol), meini hir arysgrifenedig o'r canol oesoedd cynnar (o bwys rhyngwladol), archifau cloddio o gestyll Dryslwyn a Lacharn ac o Barc y Brodyr Llwyd, Caerfyrddin (o bwys cenedlaethol), a theils llawr yn Hendy-gwyn (o bwys cenedlaethol). Gyda'i gilydd mae'r casgliad o Gastell Lacharn a Pharc y Brodyr Llwyd yn drawstoriad cyfeirio da o'r hyn a ddefnyddid yn ystod y rhan fwyaf o'r canol oesoedd yn ne-orllewin Cymru. Mae mwy na 30,000 o eitemau. 1.3% o'r eitemau a arddangosir ar yr un pryd.

Casgliad Byd Natur a Daereg

Casgliad bach yw hwn o blanhigion ac anifeiliaid, creigiau, ffosiliau, a mineralau, a'r rheiny'n rhai lleol yn bennaf, sydd wedi datblygu'n araf iawn ers i'r amgueddfa gychwyn.

Ymysg yr eitemau byd natur cynnar y mae esgyrn fertebraid, sbesimenau tacsidermi, casgliad o wyau ac anifeiliaid di-asgwrn cefn, ac ambell enghraifft o blanhigion wedi'u cywasgu. Mae'r herbariwm o'r ail ganrif ar bymtheg/deunawfed ganrif yn eitem o bwys. Anifeiliaid stwffiedig yn bennaf yw'r eitemau diweddarach (o'r 1970au) a arddangosir.

Mae'r casgliad daereg yn dyddio o ddyddiau cynnar yr amgueddfa ac efallai o'r 1970au/80au pryd y mae'n debyg i rai casgliadau lleol ddod i law.

Mae 1700 o eitemau daeregol yn rhan o'r casgliad hwn ac arddangosir 67 ohonynt (4%).

Ethnograffeg

Casgliad bach yw hwn o 300 o eitemau a roddwyd gan deuluoedd sydd â chysylltiad â Chymdeithas Hynafiaethwyr Sir Gaerfyrddin. Mae'r amrywiol eitemau'n adleisio gweithgareddau'r teuluoedd a'r unigolion hyn ledled yr Ymerodraeth ar ddiwedd Oes Fictoria/yn ystod y cyfnod Edwardaidd. Nid oes dim o'r casgliad yn cael ei arddangos ar hyn o bryd ond mae wedi cael ei arddangos yn ddiweddar.

Celfyddyd Gain

Mae'r casgliad hwn yn cynnwys paentiadau olew, gweithiau ar bapur, a cherfluniau. Yn rhan o'r casgliad hwn y mae un o'r casgliadau mwyaf o baentiadau olew sydd mewn amgueddfa yng Nghymru. Mae'r gweithiau celf yn lleol yn yr ystyr eu bod gan artistiaid lleol a Chymreig, a bod sylw'n cael ei roi i bynciau lleol. Ymhlith y gweithiau celf amlycaf y mae'r portreadau o Syr Richard Vaughan o Gelli Aur, Madam Bevan, a David Morley. Mae nifer fawr o weithiau o'r ugeinfed ganrif gan artistiaid o Sir Gaerfyrddin, yn enwedig gan Edward Morland Lewis, B.A. Lewis a Stanley Lewis. O blith tua 2000 o weithiau celf, mae oddeutu 216 neu 11% ohonynt yn cael eu harddangos naill ai yn amgueddfa'r sir neu mewn adeiladau cyhoeddus.

Amgueddfa Ddiwydiannol Cydweli

Mae'r amgueddfa hon yn cynnwys canolfan ddiwydiannol lle mae adeiladau, peiriannau, ac arddangosfeydd. Cyngor Sir Gaerfyrddin sy'n berchen ar yr amgueddfa, ond mae'n cael ei phrydlesu i ymddiriedolaeth annibynnol. Mae'r safle hefyd yn gartref i storfa fawr Gwasanaeth Amgueddfeydd Sir Gaerfyrddin.

6.10 Eiddo Buddsoddi

Cyfrifyddwyd ar gyfer yr eitemau canlynol o incwm a gwariant yn y llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:

	2015-16	2016-17
	£'000	£'000
Incwm rhenti o eiddo buddsoddi	(940)	(981)
Treuliau gweithredol uniongyrchol yn deillio o eiddo buddsoddi (Ennill)/colled net	185	277
	(755)	(704)
Gwariant Anuniongyrchol	419	284
(Enillion)/Colledion net o addasiadau i'r gwerth teg	1,485	753
Incwm a gwariant yng nghyswllt eiddo buddsoddi a newidiadau yn y gwerth teg	1,149	333

Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb o'r newid i werth teg eiddo buddsoddi dros y flwyddyn:

	2015-16	2016-17
	£'000	£'000
Balans ar ddechrau'r flwyddyn	26,374	22,927
Ychwanegiadau:		
Gwelliannau	1,101	2,086
Gwarediadau	0	(5)
Enillion/(Colledion) net o addasiadau i'r gwerth teg	(1,485)	(752)
Trosglwyddiad:		
(I)/O Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar	(3,063)	1,034
	22,927	25,290

6.11 Buddsoddiadau Tymor Hir

	31 Mawrth 2016	31 Mawrth 2017
	£'000	£'000
Cwm Environmental Ltd.	329	329
Egni Sir Gâr Cyfyngedig	0	900
Banciau a Isgwmnioedd a feiddienir yn llwyr - 100%	781	732
	<u>1,110</u>	<u>1,961</u>

Is-gwmni sy'n perthyn yn llwyr i'r Awdurdod yw CWM Environmental Ltd. Sefydlwyd y cwmni yn unol â Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ar gyfer Gwaredu Gwastraff.

Breiniwyd y cwmni gyda'r Swyddfa Gymreig ar 10 Mawrth 1997 ac roedd buddiannau'r Awdurdod ar 31 Mawrth 2017 fel â ganlyn:

	£'000
Cyfalaf Cyfranddaliadau	<u>329</u>

Mae'r buddsoddiad wedi'i gynnwys yn y buddsoddiadau tymor hir ar y Fantolen ac nid yw'r Awdurdod wedi rhoi ymrwymiad i'r cwmni y bydd yn talu unrhyw ddiffygion neu golledion cronol.

Mae *CWM Environmental Cyf.* yn gweithredu dau is-gwmni a feddienir yn llwyr sydd â'r cyfranddaliadau canlynol:

Pembrokeshire Recycling Company Ltd	£1.00
Carmarthenshire Recycling Company Ltd	£1.00

Mae *Pembrokeshire Recycling Company Ltd* wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr ac yn gwmni cwsg.

Mae'r Cwmni wedi cynhyrchu Adroddiadau Blynyddol ar wahân am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2016, sy'n cynnwys barn archwilio bendant gan ei Archwilwyr, Broomfield & Alexander Limited. Mae crynodeb o'r canlyniadau masnachu am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2016 wedi ei nodi isod ynghyd â'r asedau net ar y dyddiad hwnnw ar gyfer *CWM Environmental Cyf.*:

	am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2016 £'000
Trosiant	13,846
Llai: Cost y Gwerthiannau	<u>(10,564)</u>
Elw Gros	3,282
Argostau	<u>(3,357)</u>
Elw Net cyn treth	(75)
Treth ar (golled) / elw	<u>(40)</u>
Elw a Gedwir/(Colled)	<u>(115)</u>
Asedau Net ar 31 Rhagfyr 2016	<u>5,727</u>

Gellir cael copi o'r adroddiad blynyddol oddi wrth y Swyddfa Gofrestredig yn y cyfeiriad canlynol:

Uned MRF, Heol Alltynap,
Ystad Ddiwydiannol Cillefwr,
Tre Ioan, Caerfyrddin
SA31 3RA

Er bod *CWM Environmental* a'i is-gwmni, *Carmarthenshire Recycling Company Cyf.*, ar ffurf is-gwmnïau sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparu cyfrifon grŵp, nid oes Cyfrifon Grŵp wedi cael eu paratoi, gan na fyddai'r cyfuno yn cael effaith sylweddol ar sefyllfa ariannol yr Awdurdod a'r risgiau y mae'r Cyngor yn agored iddynt.

Bu i Gyngor Sir Caerfyrddin fuddsoddi yn y prosiect ffotofoltaidd solar a sefydlwyd gan Egni Sir Gâr Cyfyngedig, sef cymdeithas budd cymunedol a gofrestrwyd gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (rhif 7193). Roedd y cynllun wedi gosod panelau ffotofoltaidd solar ar 17 o adeiladau annomestig ym mhortffolio'r Cyngor yn 2016.

Gwerthodd y gymdeithas gyfrannau i gyllido'r gwariant cyfalaf a gofynion cyfalaf gweithredol cysylltiedig â datblygu, gosod, a chynnal a chadw'r paneli. Gosodwyd paneli haul ffotofoltaig yn ystod trydydd chwarter 2016 ac maent wedi arbed gwerth dros £11,500 o drydan ar draws y 17 safle. Mae'r systemau wedi cynhyrchu dros 250 MWh o drydan ac wedi arbed dros 135 tonnelli o CO₂. Rhagwelir mai'r arbedion blynyddol o ran trydan fydd tua £28,500 y flwyddyn, a'r arbedion blynyddol o ran CO₂ fydd dros 300 tonnelli y flwyddyn.

Cafodd Cytundeb Pryniadau Cyfrannau ei sefydlu rhwng Cyngor Sir Caerfyrddin ac Egni Sir Gâr Cyfyngedig

	£'000
Cyfranddaliadau 'A' cyffredin	100
Cyfranddaliadau 'B' cyffredin	800
Cyfanswm Cyfalaf Cyfranddaliadau	900

Mae gan bob cyfranddaliad werth mewn enw o £1.00 yr un.

6.12 Dyledwyr Tymor Hir

	31 Mawrth 2016	31 Mawrth 2017
	£'000	£'000
Morgeisi a godwyd ar Werthiannau Tai Cyngor	9	5
Troi Tai'n Gartrefi (mwy na blwyddyn o hyd)	119	194
Taliadau yn erbyn ystadau pobl mewn cartrefi preswyl (Cyngor Sir Caerfyrddin)	523	508
Taliadau yn erbyn ystadau pobl mewn cartrefi preswyl (Darparwyr Allanol)	1,032	1,244
Cyfraniad Cyfalaf at fenthyciadau i bobl sy'n prynu eu cartref cyntaf	1,232	1,147
Dwr Cymru Welsh Water	15	14
Benthyciadau Ceir	125	128
Benthyciad Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru	1,190	1,268
Benthyciad Scarlets	2,616	2,616
Benthyciad Eglwys Cymunedol Towy	223	207
Eraill	64	65
	7,148	7,396

Mae menter Troi Tai'n Gartrefi Llywodraeth Cymru yn darparu benthyciadau di-log i sicrhau bod tai gwag yn cael eu defnyddio unwaith eto. Bydd y taliadau hyn i landlordiaid yn creu cronfa benthyciadau ailgylchadwy y gellir ei defnyddio yn ystod cyfnod y cynllun sy'n dod i ben ar 31/03/2030.

Yn ystod 2015-16, cytunodd y Bwrdd Gweithredol i ymestyn benthyciad di-log yr Awdurdod i'r Ardd Fotaneg am 3 blynedd arall hyd at 31 Mawrth 2018. Mae'r trafodyn hwn wedi cael ei drin fel 'benthyciad meddal', lle mae cyfradd y llog a godir yn is na chyfraddau'r farchnad. Addaswyd y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i ystyried y llog a ildwyd sydd i bob pwrpas yn lleihau'r swm dyledus yn gost amorteiddiedig gan leihau'r swm dyledus a gofnodwyd. Bwriedir i'r balans gynrychioli'r hyn y gellid ei gael am y benthyciad. Dros gyfnod y benthyciad, bydd y gost amorteiddiedig yn codi'n ôl i'r swm llawn sy'n ddyledus, sef £1.350 miliwn ar y dyddiad cwblhau ad-dalu, ac o ganlyniad bydd yn ôl-gofnodi'r llog a ildwyd.

Cytunodd y Cyngor Sir, fel rhan o'r Cytundeb Datblygu gyda Chlwb Rygbi Llanelli Cyf. (y clwb), i roi benthyciad i'r clwb swm o £2.4 miliwn am gyfnod o 15 mlynedd. Mae'r Cyngor Sir wedi cael indemniadau gan dri o gyfarwyddwyr cyllido gwreiddiol y clwb, sy'n gwarantu'r rhwymedigaethau o ran y llog sy'n ddyledus o dan amodau'r benthyciad am y 5 mlynedd gyntaf. Ym mis Hydref 2010, cytunodd y Cyngor Sir i amrywiad i delerau'r benthyciad, lle cafodd taliadau llog gwerth £216,000 eu gohirio tan ddiwedd cyfnod y benthyciad yn 2023. Ym mis Hydref 2013, cytunodd y Bwrdd Gweithredol ar amrywiad yn nhelerau'r benthyciad sef gostwng y llog a godir amdano o gyfradd osodedig o 7% i gyfradd amrywiadwy o 3.5% yn ogystal â'r gyfradd llog sylfaenol (sy'n 0.25% ar hyn o bryd) gan bennu na fyddai'r gyfradd yn codi'n uwch na 10%.

Rhodddwyd £270,000 yn fenthyciad blwydd-dal ar gyfradd llog amrywiol sef 2.5% uwchlaw y gyfradd sylfaenol (sy'n 0.25% ar hyn o bryd) am gyfnod o 15 mlynedd i Eglwys Gymunedol Tywi yn Rhagfyr 2012 i'w helpu i wireddu prosiect Canolfan Xcel.

6.13 Buddsoddiadau Tymor Byr

Buddsoddiadau sydd i'w had-dalu o fewn deuddeng mis yw'r rhain ac fe'u dadansoddir fel â ganlyn:

	31 Mawrth 2016 £'000	31 Mawrth 2017 £'000
Banciau a lsgwmnioedd a feiddienir yn llwyr - 100%	8,038	17,148
Llywodraeth Leol	0	5,007
	8,038	22,155

6.14 Asedau a Ddelir i'w Gwerthu

	Asedau Cyfredol	
	2015-16 £'000	2016-17 £'000
Balans ar ddechrau'r flwyddyn	133	410
Asedau sydd newydd eu dosbarthu fel asedau a ddelir i'w gwerthu:		
- Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar	2,546	2,500
Asedau a werthwyd	(2,269)	(2,910)
Balans dyledus ar ddiwedd y flwyddyn	410	0

6.15 Stocrestrau

	Amgylchedd £'000	Addysg a Phlant £'000	Hamdden £'000	Eraill £'000	Cyfanswm £'000
2015-16					
Balans ar 31 Mawrth 2015	801	94	155	16	1,066
Pryniannau	1,712	1,955	149	0	3,816
Cydnabuwyd fel traul yn y flwyddyn	(1,715)	(1,966)	(186)	0	(3,867)
Balansau a ddilëwyd	(1)	0	0	0	(1)
Newidiadau net eraill yn y flwyddyn	(2)	0	0	(6)	(8)
Balans ar 31 Mawrth 2016	795	83	118	10	1,006
2016-17					
Pryniannau	1,840	1,980	123	125	4,068
Cydnabuwyd fel traul yn y flwyddyn	(1,886)	(1,970)	(106)	(123)	(4,085)
Balansau a ddilëwyd	0	0	(6)	0	(6)
Newidiadau net eraill yn y flwyddyn	1	0	0	(7)	(6)
Balans ar 31 Mawrth 2017	750	93	129	5	977

6.16 Dyledwyr Tymor Byr

	31 Mawrth 2016 £'000	31 Mawrth 2017 £'000
Refeniw a Thollau EM	1,691	3,131
Llywodraeth Ganolog	20,566	12,382
Heddlu, Brigad Dân, Parc Cenedlaethol ac Awdurdodau Lleol	4,162	8,152
Cyrff Gwasanaeth Iechyd Gwladol	2,802	4,887
Talwyr Treth y Cyngor	4,410	4,407
Tenantiaid Tai	1,357	1,186
Cysylltiedig â'r Gweithwyr	141	104
Amrywiol	11,241	15,277
	46,370	49,526

6.17 Arian Parod ac Arian Cyfwerth

Mae balans yr Arian Parod a'r Arian Cyfwerth yn cynnwys yr elfennau canlynol:

2015-16		2016-17
£'000		£'000
764	Arian parod a ddelir gan yr Awdurdod	745
(2,921)	Cyfrifon cyfredol yn y banc	(2,727)
27,008	Adneuon tymor byr gyda banciau a chronfeydd marchnad arian	18,004
10,000	Adneuon tymor byr gyda Awdurdodau Lleol	0
<u>34,851</u>	Cyfanswm Arian Parod ac Arian Cyfwerth	<u>16,022</u>

6.18 Benthyciadau Tymor Byr

Benthyciadau sydd i'w had-dalu o fewn deuddeng mis yw'r rhain ac fe'u dadansoddir fel â ganlyn:

	31 Mawrth	31 March
	2016	2017
	£'000	£'000
Bwrdd Benthyciadau Gweithfeydd Cyhoeddus	8,700	12,835
Benthyciadau'r Farchnad	63	64
Salix a Buddsoddi er mwyn Arbed	250	304
	<u>9,013</u>	<u>13,203</u>

6.19 Credydwy'r Tymor Byr

	31 Mawrth	31 Mawrth
	2016	2017
	£'000	£'000
Refeniw a Thollau EM	(3,700)	(4,126)
Llywodraeth Ganolog	(2,513)	(2,799)
Heddlu, Brigâd Dân, Parc Cenedlaethol ac Awdurdodau Lleol	(4,589)	(4,081)
Cyrff Gwasanaeth Iechyd Gwladol	(340)	(642)
Tenantiaid Tai	(386)	(441)
Talwyr Treth y Cyngor	(2,550)	(2,765)
Cysylltiedig â'r Gweithwyr	(6,486)	(7,710)
Amrywiol	(34,977)	(35,159)
	<u>(55,541)</u>	<u>(57,723)</u>

6.20 Darpariaethau

Mae'r crynodeb isod yn dangos y symudiad yn lefel y darpariaethau yn ystod 2016-17:

	1 Ebrill 2016 £'000	Gwerth- droad £'000	Ychwa- negiad £'000	Defnydd £'000	31 Mawrth 2017 £'000
Adran Y Gwasanaethau Corfforaethol	175	(40)	40	0	175
Adran Amgylchedd	145	0	607	0	752
Addysg a Phlant	0	0	126	0	126
Adran y Prif Weithredwr	490	(402)	0	0	88
Adran Cymunedau	1,641	0	297	0	1,938
Statws Unffurf	436	(436)	0	0	0
Colledion ar Buddsoddiadau	802	(21)	0	0	781
Municipal Mutual Insurance (MMI)	142	(9)	0	0	133
Darpariaeth Ôl-ofal Safleoedd Tirlenwi	1,148	0	0	(149)	999
Yswiriant	2,148	0	294	0	2,442
	7,127	(908)	1,364	(149)	7,434

Balansau ar 31 Mawrth 2017	Rhwymedi gaethau Cyfredol (< 1 blwyddyn)	Rhwymedi gaethau Tymor Hir (> 1 blwyddyn)	Cyfanswm £'000
	£'000	£'000	
Adran Y Gwasanaethau Corfforaethol	175	0	175
Adran Amgylchedd	597	155	752
Addysg a Phlant	126	0	126
Adran y Prif Weithredwr	88	0	88
Adran Cymunedau	46	1,892	1,938
Statws Unffurf	0	0	0
Colledion ar Buddsoddiadau	49	732	781
Municipal Mutual Insurance (MMI)	17	116	133
Darpariaeth Ôl-ofal Safleoedd Tirlenwi	137	862	999
Yswiriant	2,442	0	2,442
	3,677	3,757	7,434

Diben y Prif Ddarpariaethau**Adran y Gwasanaethau Corfforaethol**

Gwneir darpariaeth am waith adfer ar adeiladau gwag o £135,000 ac hefyd darpariaeth ar gyfer goramser i gau'r cyfrifon.

Adran Amgylchedd

Gwneir darpariaethau o £14,000 ar gyfer gwaith adfer o achos ymsuddiad ym Mharc y Goron, £21,000 o arian cadw ar gyfer cronfa ddŵr Trebeddrod, £59k o ddrwgddyledion – Gwastraff Masnach, £131,000 ar gyfer drwgddyledion posibl o ran marchnadoedd da byw, £209,000 ar

gyfer taliadau trosglwyddo asedau cymeradwy, £91,000 ar gyfer ad-daliad Buddsoddi er mwyn Arbed Goleuadau Cyhoeddus, a £227,000 ar gyfer Iwfansau Rhaglen Lleihau Carbon o ran allyriadau a gynhyrchir yn 2016-17.

Addysg a Phlant

Gwnaed darpariaeth o £126,000 i gyflawni cyfrifoldebau'r awdurdod o ran Ymrwymiad Lleihau Carbon ar gyfer 2016-17 mewn perthynas ag ysgolion.

Prif Weithredwr

Darpariaeth o £39,000 ar gyfer her gyfreithiol bosibl i daliadau a godwyd am ffioedd chwilio personol a darpariaeth o £49,000 ar gyfer drwgddyledion bosibl ar Eiddo Masnachol.

Cymunedau

Gwneir darpariaeth o £739,000 ar gyfer y posibilrwydd o ddileu dyledion cyfraniadau preswylwyr, £555,000 ar gyfer taliadau posibl yn gysylltiedig â balansau gofal cartref a £293,000 ar gyfer y posibilrwydd o ddiffyg yn yr incwm oddi wrth y Bwrdd Iechyd a darpariaeth £15,000 ar gyfer Ffioedd Cyfreithiol. £208,000 ar gyfer costau cyfreithiol/bargyfreithwyr ar gyfer erlyniadau sy'n ymwneud â safonau masnach ac iechyd anifeiliaid, £31,000 ar gyfer Gweithio Ystwyth, a £15,000 ar gyfer astudiaeth Tai Iach. Gwneir darpariaeth benodol o £81,000 mewn perthynas â dyledion anadferadwy ar incwm rhent o eiddo.

Colledion ar Buddsoddiadau

Ym mis Hydref 2008, methodd sector bancio Gwlad yr Iâ â chyflawni ei rwymedigaethau ariannol. Mae darpariaeth wedi ei wneud yn y cyfrifon am symiau a amcangyfrifir na ellir ei adenill. Gweler Nodyn 6.46.

Municipal Mutual Insurance (MMI)

O ran blynnyddoedd y polisi cyn 1992/93, gallai'r holl awdurdodau lleol y mae MMI wedi'u hyswiro wynebu'r posibilrwydd o rwymedigaeth yswiriant yn ymwneud â chau MMI ar 30 Medi 1992. Ym mis Ionawr 2012, sbardunodd Cyfarwyddwyr MMI y "Cynllun Trefniant Ariannol ar gyfer MMI" a chyhoeddwyd yr hysbysiad ardoll ar 1 Ionawr 2014. Roedd yr ardoll gychwynnol yn 15% a chynyddodd i 25% ar ddiwedd 2015-16. Tra bo rhwymedigaeth net yn parhau ar fantolen MMI, mae Gweinyddwr y Cynllun yn parhau i fonitro'r sefyllfa o ran hawliadau a bydd yn hysbysu credydwy'r cynllun os oes angen addasu'r ardoll. Gan fod y mater yn dal yn gyfredol, cedwir y ddarpariaeth yn y cyfrifon.

Ôl-ofal Safleoedd Tirlenwi

Mae dyletswydd ar endidau sy'n gweithredu safleoedd tirlenwi wneud gwaith adfer a darparu ôl-ofal priodol, gan gynnwys monitro a rheoli'r nwyon a'r trwytholchion a gynhyrchir ar y safleoedd hyn. Mae'r ddarpariaeth hon yn gydnabyddiaeth o'r costau ôl-ofal a ragamcanir ar gyfer safleoedd tirlenwi caeëdig Wernddu a Nant-y-caws.

Y Ddarpariaeth Yswiriant

Mae'r ddarpariaeth hon ar gyfer hawliadau yswiriant sydd wedi cael eu cofrestru ac sy'n debygol o ddod i ran yr Awdurdod.

6.21 Dadansoddiad o Fenthyciadau Tymor Hir

Y Cyfanswm sy'n Ddyledus	31 Mawrth	31 Mawrth	Dyddiadau Aeddfedu
	2016 £'000	2017 £'000	
Ffynonellau'r Benthyciadau			
Bwrdd Benthyciadau Gweithfeydd Cyhoeddus	364,115	371,108	2017-2066
Benthyciadau'r Farchnad (Nodyn i)	3,116	3,116	2017-2055
Benthyciadau di-log (Nodyn ii)	3,194	3,847	2017-2031
	370,425	378,071	

(i) Benthyciad FMS Wertmanagement AoR yw hwn sydd yn fenthyciad LOBO (Opsw'n Rhoi Benthyciad Cymryd Benthyciad). Nodir y Cyfradd Llog Cyfatebol. Benthyciad cyfradd llog banc graddedig ydyw, a 4.72 % yw ei gyfradd llog presennol. Caiff yr un sy'n rhoi'r benthyciad ddewis amrywio'r gyfradd llog bob dyddiad talu llog. Os dewisa'r un sy'n rhoi'r benthyciad wneud hynny, caiff yr Awdurdod ddewis derbyn y gyfradd llog newydd neu ad-dalu'r benthyciad i'r un a'i rhoddodd. Mae'n rhaid addasu'r cyfrifon i unioni'r gwahaniaeth rhwng y gyfradd a godir a'r gyfradd a delir er mwyn dangos gwir gost y benthyciad yn y cyfnod benthycia.

(ii)

Benthyciadau di-log Cyfanswm dyledus ar:	31 Mawrth	31 Mawrth
	2016 £'000	2017 £'000
SALIX	284	100
Buddsoddi er mwyn Arbed	918	1,287
Benthyciadau Gwella Cartrefi	1,292	1,292
Benthyciadau Canol Trefi	700	1,168
	3,194	3,847

Darperir y Cynllun Benthyciadau Gwella Cartrefi o dan statud gan Lywodraeth Cymru. Diben y cynllun yw rhoi benthyciadau i berchen-feddianwyr a'r sector rhentu preifat er mwyn gwella eiddo neu fod eiddo gwag yn cael ei ddefnyddio unwaith eto. Mae'r cyllid ar gael tan 31 Mawrth 2030 a chynigir yr arian ymlaen llaw i drydydd partion ar sail benthyciad di-log i'w had-dalu.

Rhoddir Benthyciadau Canol Trefi drwy statud gan Lywodraeth Cymru. Pwrpas y cynllun yw darparu benthyciadau i leihau nifer y safleoedd a'r eiddo gwag a segur a'r rheiny nad ydynt yn cael eu defnyddio'n llawn yng nghanol y trefi, a chefnogi arallgyfeirio yng nghanol y trefi drwy annog defnyddiau mwy cynaliadwy ar gyfer safleoedd ac eiddo gwag, megis defnyddiau preswyl a hamdden ac ar gyfer gwasanaethau allweddol. Bydd cyfnod y cyllid tan 31 Mawrth 2031 ac ad-delir taliadau i drydydd partion yn ddi-log.

6.22 Cronfeydd Wrth Gefn Cronfa'r Cyngor sydd wedi'u Clustnodi

Mae crynodeb o'r cronfeydd wrth gefn a sefydlwyd gan yr awdurdod hwn neu ei ragflaenwyr wedi'i nodi isod:

	1 Ebrill 2015 £'000	Trosglwy ddiadau Mewn £'000	Trosglwy ddiadau Allan £'000	31 Mawrth 2016 £'000	Trosglwy ddiadau Mewn £'000	Trosglwy ddiadau Allan £'000	31 Mawrth 2017 £'000
Yswiriant	9,626	1,949	(3,689)	7,886	1,947	(1,810)	8,023
Cronfa Buddsoddiad Cyfalaf	86	0	0	86	0	0	86
Cronfa Datblygu	899	302	(6)	1,195	630	(311)	1,514
Cronfa Cytundeb Canlyniadau	3,246	0	(1,909)	1,337	0	(1,328)	9
Grant Awdurdodau Lleol i Gymell Twf							
Busnesau	233	38	(43)	228	0	(142)	86
Cronfa Datblygiadau Mawr	19,723	13,915	(1,720)	31,918	6,643	(1,162)	37,399
Cronfa Trefniadaeth Ysgolion	610	0	(610)	0	0	0	0
System Rheoli Ariannol	273	0	(200)	73	44	0	117
Ymdeol yn Gynnar(Corfforaethol)	4,159	0	(1,016)	3,143	0	(301)	2,842
System Adnoddau Dynol	53	0	(23)	30	0	(30)	0
Tir Diffaith	119	0	0	119	0	(119)	0
Cynllun Gwasanaethau Cefnogi							
leuenctid	21	0	0	21	0	(21)	0
Parc Dewi Sant - St David's Park	957	107	(618)	446	65	0	511
Cyd Fentrau	1,592	199	(276)	1,515	190	(537)	1,168
Swyddi Afraid	1,030	94	(236)	888	8	(88)	808
Rheoli'r Fflyd	3,999	168	(3,855)	312	1,330	(266)	1,376
Cynlluniau sy'n derbyn Cyllid Allanol	1,379	712	(290)	1,801	441	(536)	1,706
Budd-daliadau Treth y Cyngor/Tai	1,631	0	0	1,631	0	0	1,631
Arian Cyfalaf y Rhaglen Moderneiddio							
Addysg	8,470	3,689	(9,995)	2,164	3,685	(2,400)	3,449
Seilwaith TG	1,910	3	(820)	1,093	121	(140)	1,074
Cronfa Salix	389	208	(346)	251	210	(305)	156
Cefnogi Busnesau Sir Caerfyrddin	143	0	0	143	0	0	143
Ty Llanelli	90	0	(30)	60	350	0	410
Gardd Fotaneg Genedlaethol	200	0	(70)	130	0	(65)	65
Datblygiad Gweithwyr	438	0	(54)	384	505	(231)	658
Cynllun Morgeisi Awdurdod Lleol	200	0	(200)	0	0	0	0
Gwerthuso Swyddi	3,462	0	(2,060)	1,402	0	(999)	403
Cyllid Cyfalaf Priffyrdd	748	50	0	798	49	0	847
Cronfa Trosglwyddo Asedau							
Cymunedol	253	0	(14)	239	0	(27)	212
Cynlluniau Gwasanaethau Tai	0	782	(117)	665	939	(381)	1,223
Cronfeydd Adrannau	6,243	2,704	(2,877)	6,070	1,634	(1,537)	6,167
Eraill	76	87	(60)	103	25	0	128
	72,258			66,131			72,211

Nodiadau i'r Cvrifon

	1 Ebrill 2015	Trosglwy- ddiadau	Trosglwy- ddiadau	31 Mawrth 2016	Trosglwy- ddiadau	Trosglwy- ddiadau	31 Mawrth 2017
	£'000	Mewn £'000	Allan £'000	£'000	Mewn £'000	Allan £'000	£'000
A ddelir gan ysgolion yn unol â RHYLL	3,941	1,708	(1,972)	3,677	931	(2,898)	1,710
	<u>3,941</u>			<u>3,677</u>			<u>1,710</u>
Cyfrif Refeniw Tai:							
Atgyweiriadau Mawr	0	6,166	(6,166)	0	6,170	(6,170)	0
Cyfanswm	<u>0</u>			<u>0</u>			<u>0</u>

Yswiriant

Neilltuwyd cronfeydd er mwyn cyllido costau hawliadau a cholledion eraill a allai ddod i ran yr Awdurdod (gweler nodyn 6.37).

Cronfa Buddsoddiad Cyfalaf

Sefydlwyd y gronfa hon gyda'r nôd o ddarparu dull o ychwanegu at Raglen Gyfalaf yr Awdurdod. Bydd yr arian sy'n weddill yn cael ei ddefnyddio yn 2017-18.

Cronfa Datblygu

Nôd y gronfa hon yw cynorthwyo'r Awdurdod yn ei gynlluniau hir dymor drwy bennu adnoddau ar gyfer prosiectau nad oedd modd ymgymryd â hwy gyda dyraniadau arferol y gyllideb.

Cronfa Cytundeb Canlyniadau

Balans y Grant Cytundeb Canlyniadau a roddwyd gan Lywodraeth Cymru ar sail y Cytundeb Polisi yw hwn wedi'i glustnodi i gefnogi y Rhaglen Cyfalaf Tair Blynedd. Bydd yr arian sy'n weddill yn cael ei ddefnyddio yn 2017-18.

Grant Awdurdodau Lleol i Gymell Twf Busnesau

Y swm hwn yw balans grant y Cynllun Awdurdodau Lleol i Gymell Twf Busnesau a ddaeth i law ym mlwyddyn ariannol 2006-07 a 2007-08 uwchlaw'r hyn a ddyrannwyd i gefnogi'r gyllideb. Mae'r arian sy'n weddill wedi'i glustnodi i gefnogi y Rhaglen Gyfalaf yn 2017-18.

Cronfa Datblygiadau Mawr

Cafodd y gronfa hon ei chreu i gefnogi prosiectau datblygu cyfalaf mawr yn y Sir a chaiff ei ddefnyddio ei hadlewyrchu yn y rhaglen gyfalaf 5 mlynedd.

System Rheolaeth Ariannol

Fe'i sefydlwyd i ddarparu ar gyfer y buddsoddiad sylweddol yn y System Rheolaeth Ariannol newydd. Bydd yr hyn sy'n weddill yn cael ei ddefnyddio yn 2017-18.

Cronfa Ymddeoliad Corfforaethol

Sefydlwyd y Gronfa hon i gefnogi polisi'r Awdurdod o ran swyddi afraid ac ymddeoliad cynnar, gan alluogi'r Awdurdod i ddarparu ar gyfer y straen actiwaraid ar y Gronfa Bensiwn a achosir gan ymddeoliad cynnar neu swyddi afraid.

Parc Dewi Sant

Crëwyd y gronfa hon i gyllido rhaglen barhaus o welliannau sy'n ofynnol er mwyn gallu defnyddio'r adeiladau yn swyddfeydd. Cafodd yr incwm a gynhyrchwyd yn sgil yr adeiladau hyn ei neilltuo yn y gronfa wrth gefn hon er mwyn cyllido'r gwaith hwn.

Cy'd Fentrau

Mae'r Awdurdod wedi llunio nifer o gytundebau Mentrau ar y Cŷd gyda Llywodraeth Cymru. Mae'r incwm rhent a dderbynnir mewn perthynas â'r rhain yn cael ei roi i'r naill ochr er mwyn talu am rwymedigaethau yn y dyfodol.

Swyddi Afraid

Sefydlwyd y gronfa hon gan yr Adrannau i gwrdd â'r costau posib a allai godi wedi i gontractau tymor penodol staff ddod i ben pan fydd y cynlluniau a gyllidir yn allanol yn diweddu.

Rheoli'r Fflyd

Sefydlwyd y Gronfa hon i gydraddoli'r gost gydol oes o weithredu a chynnal a chadw cerbydau'r Cyngor, i ddefnyddwyr gwasanaethau dros gyfnodau y cytunwyd arnynt.

Cynlluniau sy'n derbyn Cyllid Allanol

Cynnig arian cyfatebol ar gyfer prosiectau sydd ar waith neu gynlluniau a fydd yn derbyn cyllid allanol yn y dyfodol.

Budd-daliadau Treth y Cyngor/Tai

Mae'r gronfa wrth-gefn hon wedi'i chlustnodi i ddigoni'r costau posibl y bydd Sir Gaerfyrddin yn mynd iddynt yn sgil y gostyngiadau blynyddol yn y grant Gweinyddu Budd-daliadau Tai, a diwygiadau lles.

Arian Cyfalaf MDdA

Pennwyd swm i dalu costau'r benthyciadau darbodus sy'n cyllido rhaglen Moderneiddio'r Ddarpariaeth Addysg a chaiff ei ddefnydd ei hadlewyrchu yn y rhaglen gyfalaf 5 mlynedd.

Seilwaith TG

Sefydlwyd y gronfa hon er mwyn ategu'r bwriad i newid gweinyddion a seilwaith TG yr Awdurdod.

Cronfa Salix

Mae Salix, sef menter gymdeithasol annibynnol sy'n darparu cyllid ar gyfer technolegau profedig sy'n gost-ffeithiol wrth arbed CO2, wedi darparu grant ar gyfer yr awdurdod i ganiatáu i fenthyciadau gael eu rhoi i ysgolion / adrannau i ariannu cynlluniau sy'n arbed ynni. Mae'r benthyciadau hyn yn cael eu had-dalu o'r arbedion a geir yn sgil hynny, ac mae'r gronfa yn cael ei hail-lenwi er mwyn i ysgolion / adrannau eraill elwa o'r cynllun.

Cefnogi Busnesau Sir Gaerfyrddin

Neilltuwyd arian wrth gefn er mwyn rhoi cymorth ariannol i fusnesau sy'n talu ardrethi yn Sir Gaerfyrddin ac sy'n cael anawsterau oherwydd y dirwasgiad economaidd drwy gynnig benthyciadau tymor byr iddynt am 18 mis neu gyfnod llai.

Tŷ Llanelli

Darparu'r cyllid y cytunwyd arno ar gyfer prosiect Tŷ Llanelli, er mwyn cynorthwyo â chynaliadwyedd y cyfleuster newydd hwn a ystyrir yn rhan annatod o'r cynlluniau hirdymor i adfywio canol y dref.

Gardd Fotaneg Genedlaethol

Y Gronfa Wrth Gefn a neilltuwyd i ddarparu cymorth ariannol i'r Ardd Fotaneg Genedlaethol dros dair blynedd o 2015-16.

Y Gronfa Datblygiad Gweithwyr

Arian wrth gefn a neilltuwyd i ddarparu 4 haen o hyfforddiant a lleoliadau gwaith yn y Cyngor er mwyn cynorthwyo pobl leol, gan gynnwys pobl ifanc sydd â fawr ddim neu ddim hanes cyflogaeth, i ennill cymwysterau a chael swydd er mwyn gwella eu rhagolygon cyflogaeth.

Gwerthuso Swyddi

Mae'r Awdurdod wedi rhoi canlyniadau'r ymarferiad Gwerthuso Swyddi ar waith ac wedi creu'r gronfa hon i gynorthwyo â chynnal strwythurau'r Statws Unffurf.

Cyllid Cyfalaf Priffyrdd (Cynllun Menter Benthycia Llywodraeth Leol)

Sefydlwyd y gronfa er mwyn talu costau benthycia i gyllido rhaglen cynnal a chadw a gwelliannau cyfalaf Priffyrdd.

Cronfa Trosglwyddo Asedau Cymunedol

Gwelodd yr awdurdod y gallai rhai gwasanaethau neu gyfleusterau lleol gael eu gweithredu'n fwy effeithiol gan Grwpiau Cymunedol neu Gynghorau Cymuned. Sefydlwyd y gronfa hon i wella cyfleusterau neu i gynnig cymhelliad ariannol er mwyn symud ymlaen â'r prosiectau hyn.

Cynlluniau Gwasanaethau Tai

Mae'r gronfa yma wedi ei sefydlu i gynorthwyo prosiectau Tai yn cynnwys Cefnogi Pobl, dod â thai gwag yn ôl i ddefnydd â'r Cynllun Adsefydlu Syriaid.

Cronfeydd Adrannau

Mae gan yr Awdurdod bolisi sy'n caniatáu adrannau i gario ymlaen hyd at 50% o unrhyw danwariant ar ddiwedd blwyddyn y gellir ei bennu ar gyfer prosiectau/gwasanaethau penodol o fewn yr adrannau.

6.23 Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf

	2015-16	2016-17
	£'000	£'000
Balans Agoriadol	26,512	18,633
Trosglwyddo elw arian parod ar werthiant a gredydwyd fel enillion/colledion wrth eu gwerthu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Derbyniadau Cyfalaf Stadudol	2,157	2,780
Trosglwyddo o'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig ar ôl derbyn arian.	131	213
	6	6
	<u>28,806</u>	<u>21,632</u>
Derbyniadau Cyfalaf a Neilltuwyd	(123)	(4)
Defnyddio'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf newydd	(10,027)	(6,644)
Cyfraniad o'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf tuag at y costau gweinyddol o waredu asedau nad ydynt yn gyfredol.	(23)	(9)
Balans wrth Gau	<u>18,633</u>	<u>14,975</u>

Mae'r gronfa wrth gefn derbyniadau cyfalaf defnyddiadwy yn cynrychioli'r derbyniadau cyfalaf sydd ar gael i gyllido gwariant cyfalaf mewn blynyddoedd i ddod, ar ôl neilltuo'r symiau statudol ar gyfer ad-dalu benthyciadau allanol. Defnyddiwyd yr holl lwfans atgyweiriadau mawr a dderbyniwyd oddi wrth Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystod y flwyddyn. Nid oedd arian gweddill i'w gario ymlaen mewn perthynas â'r grant hwn.

6.24 Grantiau Cyfalaf Heb eu Ddefnyddio

	2015-16	2016-17
	£'000	£'000
Balans Agoriadol	1,275	863
Ychwanegiadau	300	83
	<u>1,575</u>	<u>946</u>
Grantiau a Chyfraniadau wedi'u cymhwysu	(712)	(355)
Balans Cau	<u>863</u>	<u>591</u>

6.25 Cronfa Ailbrisiad

Mae'r Gronfa Ailbrisiad yn cynnwys yr enillion a wnaed gan yr Awdurdod sy'n deillio o'r cynnydd yng ngwerth ei Eiddo, Offeriant a Chyfarpar. Gostyngir y balans pan fydd asedau gydag enillion cronedig yn:

- cael eu hailbrisiu tuag i lawr neu eu hamharu a'r enillion yn cael eu colli
- cael eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau a'r enillion yn cael eu colli drwy ddibrisiad,
- neu yn cael eu gwaredu a'r enillion yn cael eu gwireddu.

Mae'r Gronfa ond yn cynnwys yr enillion drwy ailbrisiad sydd wedi cronni ers 1 Ebrill 2007, y dyddiad y cafodd y Gronfa ei chreu. Caiff enillion cronedig sy'n hynu o ddyddiad cynharach eu cynnwys ym mantolen y Cyfrif Addasiadau Cyfalaf.

2015-16		2016-17
£'000		£'000
323,284	Balans ar 1 Ebrill	333,733
49,747	Ailbrisiu asedau i fyny	22,174
(28,473)	Ailbrisiu asedau i lawr a cholledion amhariad nas codwyd i'r Warged/Diffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau	(13,024)
	Gwarged neu ddiffyg wrth ailbrisiu asedau anghyfredol nas cofnodwyd yn y Warged neu Ddiffyg ar y	
21,274	Ddarpariaeth Gwasanaethau	9,150
(9,949)	Gwahaniaeth rhwng dibrisiad gwerth teg a dibrisiad cost hanesyddol	(10,095)
(876)	Enillion cronedig ar asedau sydd wedi cael eu gwerthu neu eu sgrapio	(1,404)
(10,825)	Y swm a ysgrifennwyd i ffwrdd i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf	(11,499)
333,733	Balans ar 31 Mawrth	331,384

6.26 Cyfrif Addasiadau Cyfalaf

Mae'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf yn llyncu'r gwahaniaethau amseru sy'n deillio o'r trefniadau cyfrifyddu gwahanol ar gyfer defnyddio asedau nad ydynt yn gyfredol ac ar gyfer ariannu caffael, adeiladu neu wella'r asedau hynny yn unol â'r darpariaethau statudol. Bydd y costau caffael, adeiladu neu wella yn cael eu tynnu o'r Cyfrif gan fod dibrisiant, colledion oherwydd niwed a dibrisiant asedau anniriaethol yn cael eu codi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gyda symiau cysoni o'r Gronfa Ailbrisiad i drosi ffigurau gwerth teg yn sail costau hanesyddol). Bydd y symiau a neilltuwyd gan yr Awdurdod i dalu am y costau caffael, adeiladu a gwella yn cael eu rhoi yn y Cyfrif. Mae'r Cyfrif yn cynnwys enillion a cholledion cronedig ar Eiddo Buddsoddi a hefyd enillion a wireddwyd ar asedau a roddwyd nad ydynt eto wedi'u defnyddio gan yr Awdurdod. Mae'r Cyfrif hefyd yn cynnwys yr enillion drwy ailbrisiad sydd wedi cronni ar Eiddo, Offeriant a Chyfarpar cyn 1 Ebrill 2007, y dyddiad y cafodd y Gronfa Ailbrisiad ei chreu i gadw'r cyfryw enillion.

Yn Nodyn 6.4 ceir manylion am ffynhonnell yr holl drafodion yn y Cyfrif, ac eithrio'r rheini sy'n ymwneud â'r Gronfa Ailbrisiad.

2015-16		2016-17
£'000		£'000
731,974	Balans Gwreiddiol ar 1 Ebrill	555,560
	Gwrthdroi eitemau sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:	
(27,815)	Taliadau am ddibrisiant a niwed i asedau nad ydynt yn gyfredol	(31,394)
(136,147)	Colledion drwy Ailbrisió Eiddo, Offeriant a Chyfarpar	(8,745)
(83,096)	Gwariant referniw a ariannwyd drwy gyfalaf o dan statud Symiau'r asedau nad ydynt yn gyfredol a ddiddymwyd drwy waredu neu werthu fel rhan o'r elw/colled ar waredu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(1,732)
<u>(2,303)</u>		<u>(5,126)</u>
482,613		508,563
<u>876</u>	Symiau addasu a ddiddymwyd o'r Gronfa Ailbrisiad	<u>1,404</u>
483,489	Y swm net a ddiddymwyd o gost yr asedau nad ydynt yn gyfredol a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn	509,967
123	Derbyniadau Cyfalaf a Neilltuwyd	4
(78)	Symudiadau ychwanegol o fewn y flwyddyn	(87)
10,027	Defnyddio'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf newydd	6,644
23	Defnyddio'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf i ariannu'r gost o werthu	9
6,166	Defnyddio'r Gronfa Atgyweiriadau Mawr i ariannu gwariant cyfalaf newydd	6,170
22,721	Grantiau a chyfraniadau cyfalaf a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a gymhwyswyd i ariannu cyfalaf	12,456
712	Cymhwyso grantiau i ariannu cyfalaf o'r Cyfrif Grantiau Cyfalaf na Chymhwyswyd	354
12,901	Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddiad newydd a godir ar falansau Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai	11,521
<u>20,961</u>	Gwariant cyfalaf a godir ar falansau Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai	<u>5,820</u>
557,045		552,858
(1,485)	Symudiadau yng ngwerth Eiddo Buddsoddi ar y farchnad a (ddebydwyd) neu a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(752)
<u><u>555,560</u></u>	Balans ar 31 Mawrth	<u><u>552,106</u></u>

6.27 Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol

Mae'r Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol yn llyncu'r gwahaniaethau amseru sy'n deillio o'r gwahanol drefniadau cyfrifyddu yn achos incwm a gwariant sy'n ymwneud ag offerynnau ariannol penodol. Mae hefyd yn ysgwyddo colledion neu'n manteisio ar enillion yn achos pob darpariaeth statudol. Mae'r Awdurdod yn defnyddio'r Cyfrif i reoli premiymau sydd i'w talu wrth glirio benthyciadau'n gynnar. Caiff y premiymau eu tynnu o'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar y pryd, ond wedyn byddan nhw'n cael eu gwrthdroi o Falans Gronfa'r Cyngor i'r Cyfrif drwy'r Datganiad Symudiadau yng Nghronfeydd yr Awdurdod. Gydag amser, caiff y gwariant ei roi'n ôl ym Malans Gronfa'r Cyngor yn unol â'r trefniadau statudol ar gyfer ysgafnhau'r baich ar y dreth gyngor. Yn achos yr Awdurdod, y cyfnod hwn yw'r tymor oedd yn weddill ar y benthyciadau pan gawsant eu clirio. O ganlyniad, caiff y balans ar y Cyfrif ar 31 Mawrth 2017 ei godi ar y Gronfa'r Cyngor dros y 6 mlynedd nesaf.

2015-16		2016-17
£'000		£'000
(870)	Balans ar 1 Ebrill	(986)
	Swm sy'n dangos sut mae'r costau ariannol a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wahanol i'r costau sydd i'w codi yn ystod y flwyddyn yn unol â'r	
(116)	gofynion statudol	102
(986)	Balans ar 31 Mawrth	(884)

6.28 Cronfa Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig

Mae'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig yn dal yr enillion a wireddwyd drwy waredu asedau nad ydynt yn gyfredol, ond lle nad oes setliad ariannol wedi'i wneud hyd yma. O dan y trefniadau statudol, nid yw'r Awdurdod yn ystyried bod yr enillion hyn yn rhai y gellir eu defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf newydd hyd nes bydd yr arian wedi'i dderbyn. Pan fydd y setliad ariannol gohiriedig yn digwydd, caiff yr arian ei drosglwyddo i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf.

2015-16		2016-17
£'000		£'000
348	Balans ar 1 Ebrill	342
	Trosglwyddo i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf ar ôl derbyn	
(6)	yr arian	(6)
342	Balans ar 31 Mawrth	336

6.29 Cronfa Bensiynau

Mae'r Gronfa Bensiynau yn llyncu'r gwahaniaethau amseru sy'n deillio o'r gwahanol drefniadau cyfrifyddu ar gyfer buddiannau ôl-gyflogaeth ac ar gyfer ariannu buddiannau yn unol â'r darpariaethau statudol. Mae'r Awdurdod yn rhoi cyfrif am y buddiannau ôl-gyflogaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr gan fod y buddiannau'n cael eu hennill gan gyflogeion dros flynyddoedd o wasanaeth. Mae'n diweddarau'r rhwymedigaethau a gydnabyddir i adlewyrchu chwyddiant, y newid yn y rhagdybiaethau a'r elw a gafwyd drwy fuddsoddi unrhyw adnoddau a neilltuwyd i dalu'r costau. Serch hynny, yn unol â'r trefniadau statudol rhaid i'r buddiannau a enillir gael eu hariannu gan fod yr Awdurdod yn talu cyfraniadau cyflogwyr i gronfeydd pensiwn neu'n talu unrhyw bensiynau y mae'n uniongyrchol gyfrifol amdanynt. Felly, mae balans y debyd ar y Gronfa Bensiynau yn dangos diffyg sylweddol yn y buddiannau a enillir gan gyn-gyflogeion a chyflogeion presennol a'r adnoddau y mae'r Awdurdod wedi'u neilltuo i'w bodloni. Bydd y trefniadau statudol yn sicrhau y bydd y cyllid wedi'i neilltuo erbyn yr adeg y bydd angen talu'r buddiannau.

2015-16		2016-17
£'000		£'000
(276,151)	Balans ar 1 Ebrill	(264,514)
28,472	Ailfesur y rhwymedigaeth/(ased) buddion diffiniedig net	(83,368)
	Gwrthdroi eitemau sy'n ymwneud â buddiannau ymddeol a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu	
(41,248)	Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.	(37,617)
	Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i	
24,413	bensiynwyr sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn	24,205
<u>(264,514)</u>	Balans ar 31 Mawrth	<u>(361,294)</u>

6.30 Cyfrif Absenoldebau Cronedig

Mae'r Cyfrif Absenoldebau Cronedig yn llyncu'r gwahaniaethau a fyddai fel arall yn codi ar Falans Gronfa'r Cyngor o'r cronni ar gyfer absenoldebau a enillwyd ond nas cymerwyd yn ystod y flwyddyn, ee gwyliau blynyddol a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth. Yn unol â'r trefniadau statudol rhaid i'r effaith ar Falans Gronfa'r Cyngor gael ei ddiddymu drwy drosglwyddo i'r Cyfrif neu ohono.

2015-16		2016-17
£'000		£'000
(4,841)	Balans ar 1 Ebrill	(3,755)
	Setlo neu ganslo croniadau a wnaed ar ddiwedd y	
4,841	flwyddyn flaenorol	3,755
<u>(3,755)</u>	Symiau a gronnwyd ar ddiwedd y flwyddyn gyfredol	<u>(5,167)</u>
	Swm sy'n dangos sut mae'r taliadau i swyddogion a	
	godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar	
	sail gronedig yn wahanol i'r taliadau sydd i'w codi yn	
1,086	ystod y flwyddyn yn unol â'r gofynion statudol	(1,412)
<u>(3,755)</u>	Balans ar 31 Mawrth	<u>(5,167)</u>

6.31 Gwariant ac Incwm yn cael eu Dadansoddi yn ôl Natur

Caiff gwariant ac incwm yr Awdurdod eu dadansoddi fel a ganlyn. Mae hwn yn cynnwys gwariant ac incwm o fewn a thu hwnt i gost gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, ac mae'n gyson â'r gwarged neu'r diffyg o ran darpariaeth gwasanaethau.

2015-16		2016-17
£'000		£'000
	Gwariant	
251,994	Treuliau cyflogeion	252,529
342,864	Treuliau gwasanaeth arall	256,622
30,569	Ad-daliadau gwasanaethau cymorth	30,843
173,911	Dibrisiant a thaliadau tebyg	50,234
54,250	Llog i'w Dalu a Chostau Tebyg	56,806
28,311	Praeseptau ac Ardollau	28,784
146	(Enillion)/colledion ar werthu asedau nad ydynt yn gyfredol	2,268
882,045	Cyfanswm y Gwariant	678,086
	Incwm	
(142,168)	Ffioedd, taliadau ac incwm arall o wasanaethau	(147,510)
(26,727)	Llog ac Incwm Buddsoddiadau	(29,536)
(149,707)	Incwm Treth y Cyngor ac Enillion net y Trethi Annomestig	(155,743)
(344,388)	Grantiau a Chyfraniadau	(321,215)
(662,990)	Cyfanswm Incwm	(654,004)
219,055	(Gwarged)/ddiffyg ar ddarparu gwasanaethau	24,082

6.32 Cyllideb Gyfun

Mae'r Awdurdod wedi sefydlu cytundeb cyllideb gyfun ar y cyd â Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda ar gyfer darparu storfa offer cymunedol integredig. Mae gan yr Awdurdod a'r Bwrdd gytundeb ar waith am dair blynedd o 1af Hydref 2009, lle mae'r partneriaid yn cyfrannu cyllid gwerth £148,768 a £381,960, yn eu tro, at y gyllideb y cytunwyd arni. Mae unrhyw ddiffyg neu warged yn y gyllideb gyfun ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn cael ei ddyrannu i bob partner ar sail traean a dau draean.

	2015-16		2016-17	
	£'000	£'000	£'000	£'000
Cyllid sy'n cael ei gyfrannu at y gyllideb gyfun:				
yr Awdurdod	128		150	
y Bwrdd Iechyd Lleol	<u>382</u>		<u>382</u>	
		510		532
Y gwariant sydd wedi'i dalu o'r gyllideb gyfun:		(515)		(512)
Y gwarged/(diffyg) net sy'n deillio o'r gyllideb gyfun yn ystod y flwyddyn		<u>(5)</u>		<u>20</u>
Cyfran yr Awdurdod o'r gwarged/(diffyg) net sy'n deillio o'r gyllideb gyfun		<u>(3)</u>		<u>(10)</u>

6.33 Lwfansau'r Aelodau

Talodd yr Awdurdod y symiau canlynol i Aelodau o'r cyngor yn ystod y flwyddyn:

	2015-16	2016-17
	£	£
Lwfansau	1,244,592	1,240,069
Treuliau	47,686	42,702
Cyfanswm	<u>1,292,278</u>	<u>1,282,771</u>

Mae rhagor o wybodaeth am Lwfansau Aelodau i'w chael ar wefan yr Awdurdod, www.sirgar.llyw.cymru o dan y pennawd Lwfansau Cyngorwyr.

6.34 Enillion Gweithwyr

Nifer y gweithwyr yr oedd eu cyflogau heb gynnwys cyfraniadau pensiwn yn £60,000 neu fwy oedd:

Band Cyflogau	Nifer y Gweithwyr 2015-16	Nifer y Gweithwyr 2016-17	Ymadawodd yn 2016-17
60,000 i 64,999	27	36	1
65,000 i 69,999	16	16	6
70,000 i 74,999	8	10	2
75,000 i 79,999	6	6	2
80,000 i 84,999	4	3	0
85,000 i 89,999	10	12	1
90,000 i 94,999	2	2	0
95,000 i 99,999	4	3	0
100,000 i 104,999	2	3	0
105,000 i 109,999	2	1	0
Cyfanswm Nifer y Gweithwyr:	81	92	12

Mae gwerth y taliadau yn cynnwys taliadau afreidedd/terfynu.

Cynhwysir yn y band uchod dri athro a gyflogir gan ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr.

Nid yw'r bandiau uchod yn cynnwys uwch-swyddogion sy'n aelodau o Dîm Rheoli'r Awdurdod y rhestrir eu manylion yn y tabl canlynol.

Enillion Uwch Swyddogion ble mae eu cyflog yn £150,000 neu'n fwy y flwyddyn

Nodir yn y tabl isod enillion Uwch Swyddogion sy'n derbyn cyflog sy'n £150,000 neu'n fwy, gan gynnwys cyfraniadau pensiwn neu daliadau cyfwerth.

Swydd		Cyflog (yn cynnwys ffioedd a lwfansau)	Cyfraniadau Pensiwn	Lwfansau Treuliau
Mr M V James	15/16	169,025	0	222
Prif Weithredwr a Swyddog Canlyniadau	16/17	170,424	0	193

Enillion Uwch Swyddogion ble mae eu cyflog rhwng £60,000 a £150,000 y flwyddyn

Swydd		Cyflog (yn cynnwys ffioedd a lwfansau)	Cyfraniadau Pensiwn	Lwfansau Treuliau
Cyfarwyddwr Adfywio a Hamdden (i)	15/16	5,488	0	0
Cyfarwyddwr Amgylchedd (ii)	15/16	27,780	3,621	0
	15/16	56,133	7,241	0
	15/16	44,283	5,048	0
	16/17	116,764	15,125	0
Cyfarwyddwr Cymunedau	15/16	120,790	15,582	0
	16/17	134,198	17,311	0
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol (iii)	15/16	64,865	8,368	0
	16/17	117,696	15,183	0
Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol (iii)	15/16	43,177	5,570	0
Cyfarwyddwr Addysg a Phlant (iv)	15/16	120,790	15,582	0
	16/17	95,981	12,382	0
	16/17	37,906	4,876	0
Pennaeth Gwasanaethau Addysg	15/16	97,860	12,618	0
	16/17	65,921	8,496	0

Er mwyn rhoi gwerth ar y cyfraniadau pensiwn sy'n berthnasol i uwch-swyddogion, defnyddiwyd 12.9%, sef y Gyfradd Gyfrannu Gyffredin ar gyfer tâl pensiynadwy. Nid yw'r gyfradd hon yn ystyried yr Adennill Diffygion sy'n un o rwymedigaethau'r Awdurdod ac nad yw'n ymwneud yn benodol â'r gweithiwr.

- (i) Mi gafodd swydd y Cyfarwyddwr Adfywio a Hamdden ei ddileu ym mis Ebrill 2015. Cyn hyn, roedd y Cyfarwyddwr yn gweithio 4 diwrnod yr wythnos.
- (ii) Yn ystod 2015/16 cyflawnwyd rôl y Cyfarwyddwr Amgylchedd gan dri unigolyn oherwydd ymddiswyddiad a threfniadau dros-dro.
- (iii) Roedd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol wedi ymddeol yn Medi 2014. Wedi hynny fe apwyntiwyd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol fel swyddog Adran 151 tan mis Medi 2015 pan gafodd deiliad y swydd ei apwyntio i swydd y Cyfarwyddwr.
- (iv) Ymddeolodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant ym mis Rhagfyr 2016. Penodwyd Pennaeth y Gwasanaethau Addysg i swydd y Cyfarwyddwr a chafodd swydd Pennaeth y Gwasanaethau Addysg ei dileu.

Roedd cymhareb cyflog y Prif Weithredwr a'r cyflog canolrifol yng Nghyngor Sir Gaerfyrddin fel a ganlyn:

	2015-16	2016-17
Cyflog y Prif Weithredwr	8.07	8.02
Cyflog Canolrif	1	1

6.35 Pecynnau Ymadael

Yn ystod 2016-17 gwariodd yr Awdurdod yn sylweddol ar gostau dileu swyddi a dalwyd i'r rhai a oedd yn gadael, ynghyd â chostau taliadau digolledu i'r Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol o ran costau hawlio pensiynau yn gynnar. Yn ystod y cyfnod hwn, gweithredodd yr Awdurdod gynllun terfynu cyflogaeth gwirfoddol er mwyn cynorthwyo i gyflawni arbedion gofynnol.

Mae'r holl gostau sy'n gysylltiedig â'r buddion terfynu wedi'u cynnwys fel rhan o ddiffiniadau'r gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mae'r costau uchod wedi'u nodi yn y tabl isod.

Band cost y pecyn ymadael (gan gynnwys taliadau arbennig)	Nifer y dileu swyddi gorfodol		Eraill sy'n gadael – y nifer a gytunwyd		Cyfanswm y Pecynnau Ymadael yn ôl bandiau cost		Cost gyfan y Pecynnau Ymadael ym mhob band	
	2015/16	2016/17	2015/16	2016/17	2015/16	2015/16	2015/16 £	2016/17 £
£0 - £20,000	52	74	60	39	112	113	804,773	734,506
£20,000 - £40,000	4	11	35	17	39	28	1,057,547	770,803
£40,000 - £60,000	0	2	8	3	8	5	380,596	250,519
£60,000 - £80,000	0	1	5	11	5	12	357,427	865,684
£80,000 - £100,000	1	0	6	2	7	2	650,502	166,698
£100,000 - £150,000	0	0	0	2	0	2	0	235,951
CYFANSWM	57	88	114	74	171	162	3,250,845	3,024,160

6.36 Costau Archwiliad

Yn 2016-17 gwariodd Cyngor Sir Caerfyrddin y canlynol mewn perthynas â ffioedd archwiliad ac arolwg cyllidol, sy'n daladwy i Swyddfa Archwilio Cymru:

	2015-16 £'000	2016-17 £'000
Gwasanaeth Archwiliad Cyllidol	184	184
Mesur Llywodraeth Lleol	116	116
Ardystio Hawliadau a Ffurflenni am Grantiau	90	72
Archwiliad Harbwr Porth Tywyn	2	1
Cyfanswm	392	373

6.37 Cost Yswiriant

Defnyddir y cronfa yswiriant i dalu costau hawliadau a cholledion eraill y gallai'r Awdurdod fod yn gyfrifol amdanynt. Er bod yr Awdurdod yn prynu ystod o yswiriannau, mae'n parhau i fod yn gyfrifol am ran o'r risg yn sgîl y ffaith ei fod yn derbyn "Gordaliadau Polisi" ac yn pennu "Terfynau Indemniad".

Gosodir "Terfyn ar Golledion" ar Bolisiau Atebolrwydd ac Eiddo sef yr uchafswm agregedig y gallai'r Awdurdod fod yn gyfrifol amdano a bwrw nad eir y tu hwnt i'r Terfynau Indemniad (gweler isod).

Gall cwmni yswiriant bennu terfyn ar yr uchafswm y mae'n cytuno i'w dalu a'r enw a roddir ar hynny yw "Terfynau Indemniad".

Mae'r Tabl isod yn dangos yr hyn y gallai'r Awdurdod fod yn gyfrifol amdano drwy glustnodi'r prif bolisiau, y gordal perthnasol o ran pob hawliad, y Terfyn ar Golledion cyffredin a'r Terfynau Indemniad oedd yn berthnasol am y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf 2016 a 30 Mehefin 2017:

Disgrifiad	Gordal Polisi (fesul hawliad/digwyddiad)	Terfyn Colledion	Terfynau Indemniad
Atebolrwydd	Atebolrwydd Cyhoeddus £250,000 Atebolrwydd Cyflogwr £130,000	£3,150,000	£30,000,000
Eiddo	Eiddo Addysg - £250,000 Eiddo Cyffredinol - £50,000 Eiddo Tai – £50,000	£1,000,000	Swm Yswirio £1,892,650,462
Moduron	£1,000 yr hawliad (difrod i'w hun h.y. Cerbydau'r Cyngor) Nid yw gordal yn berthnasol i Ddifrod i Eiddo 3 ^{ydd} Parti neu Hawliadau am Anafiadau Personol	Amherthnasol	* Difrod i'w Gerbydau ei Hun – Pris y Farchnad * Difrod i Gerbyd neu Eiddo 3 ^{ydd} Parti - £5 miliwn fesul hawliad * Marwolaeth neu Anafiadau i 3 ^{ydd} Parti – Diderfyn

6.38 Incwm Grantiau

Credydodd yr Awdurdod y grantiau, cyfraniadau a rhoddion canlynol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

	2015-16	2016-17
	£'000	£'000
Credydwyd i Wasanaethau		
Addysg a Gwasanaethau Plant:		
Cyllid Ôl 16 a DOG gan APADGOS	6,348	6,344
Dechrau'n Deg	3,782	3,847
Grant Cymorth	1,994	1,977
Grant Gwella Addysg	8,159	7,771
Grant Amddifadiad	3,931	4,505
Cronfa Gymdeithasol Ewrop	0	211
Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion:		
Cefnogi Pobl	6,465	6,238
Grant Gofal Iechyd Parhaus	1,284	1,103
Cronfa Gofal Canolraddol	2,295	1,656
Dewis Gwaith	401	418
Grant Wanless	700	688
Grant Cyfalaf Cyffredinol	2,605	2,294
Grant Penodol ar gyfer Adnewyddiadau	206	327
Tim Cymunedol Anabledau Dysgu	2,487	3,060
ARBED Effeithlonrwydd Ynni	1,368	271
Gwasanaethau Priffyrdd a Thrafnidiaeth:		
Cymhorthdal Tocynnau Teithio Rhatach	1,987	2,001
Grant Gwasanaethau Trafnidiaeth Lleol	740	760
Cydygyfeirio (Ewropeaidd)	30	0
Gwasanaethau Diwylliannol, Amgylcheddol, Rheoleiddio a Chynllunio:		
Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy	3,968	3,750
Cydygyfeirio (Ewropeaidd)	3,589	0
Grant CDRE (Ewropeaidd)	0	90
Cronfa Gymdeithasol Ewrop	0	448
Cynllun Datblygu Gwledig	445	410
Grant Ardal Adfywio Strategol	2,631	0
Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf	709	659
Cyngor Chwaraeon Cymru	513	513
Gwasanaethau Canolog i'r Cyhoedd:		
Budd-daliadau Tai	51,044	51,250
Grantiau eraill a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru	3,677	2,825
Grantiau eraill	4,772	3,124
Cyfanswm	116,130	106,540

Mae cyfanswm 2015-16 y Grantiau ar gyfer gwasanaethau yn benodol o dan 'Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion a Thai' wedi cael ei ailddatgan ac mae £758k yn llai. Mae hyn yn ymwneud â Chynllun Troi Tai'n Gartrefi Llywodraeth Cymru, sy'n cael ei ddsbarthu'n gynllun benthyciadau ac nid yn grant, ac a gafodd ei gynnwys yn anghywir ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r cyfanswm blaenorol ar gyfer 2015-16, sef £116,888k, wedi cael ei ailddatgan fel £116,130k.

	2015-16	2016-17
	£'000	£'000
Grant Cynnal Refeniw	199,071	195,966
Grantiau Cyffredinol gan Lywodraethau		
Grant Cytundeb Canlyniadau	565	0
Cyfanswm	565	0
Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf		
Grant Ysgolion yr 21ain Ganrif/Grant Gwella Adeiladu Ysgolion	11,291	5,225
Lwfans Atgyweiriadau Mawr	6,166	6,170
Dechrau'n Deg	1,287	254
Grant Cytundeb Canlyniadau	1,342	0
Grantiau Trafnidiaeth	3,799	3,116
Grant Cyfalaf Cyffredinol	940	1,265
Arian Cyfatebol a Dargedir	11	171
Cydygyfeirio ERDF	640	17
Cronfa Gofal Canolraddol	0	11
Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid	998	1,090
ARBED Perfformiad Ynni	265	0
Grantiau a Chyfraniadau Eraill	2,448	1,390
Cyfanswm	29,187	18,709

Mae'r Awdurdod wedi cael nifer o grantiau, cyfraniadau a rhoddion nad ydynt wedi cael eu cydnabod fel incwm eto gan fod amodau'n gysylltiedig â hwy a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i arian neu eiddo gael ei ddychwelyd i'r rhoddwr. Mae'r balansau ar ddiwedd y flwyddyn fel a ganlyn:

	31 Mawrth	31 Mawrth
	2016	2017
	£'000	£'000
Derbyniadau Grantiau Refeniw ymlaen llaw		
Cymunedol - amrywiol	75	80
Amgylcheddol - amrywiol	51	41
Addysg - amrywiol	114	121
	240	242

6.39 Trafodion gyda Phartïon Cysylltiedig

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod ddatgelu trafodion sylweddol gyda phartïon cysylltiedig – cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i reoli neu ddylanwadu ar yr Awdurdod neu i'r Awdurdod eu rheoli neu ddylanwadu arnynt. Mae datgelu'r trafodion hyn yn caniatáu i'r darllenwyr asesu i ba raddau y gallai'r Awdurdod fod wedi cael ei gyfyngu o ran ei allu i weithredu'n annibynnol neu y gallai fod wedi sicrhau'r gallu i gyfyngu ar allu parti arall i fargeinio'n rhydd gyda'r Awdurdod.

Llywodraeth Ganolog

Mae gan y Llywodraeth Ganolog reolaeth effeithiol dros weithrediadau cyffredinol yr Awdurdod – mae'n gyfrifol am ddarparu'r fframwaith statudol mae'r Cyngor yn gweithredu o dano, yn darparu'r rhan fwyaf o'i gyllid ar ffurf grantiau ac yn rhagnodi telerau nifer o'r trafodion sydd gan y Cyngor gyda phartïon eraill (e.e. budd-daliadau tai). Caiff y grantiau a geir oddi wrth adrannau llywodraethau eu nodi yn Nodyn 6.38.

Cyrff Cyhoeddus Eraill

Mae gan yr Awdurdod drefniant cyllideb gyfun gyda Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda ar gyfer darparu storfa cyfarpar cymunedol integredig. Mae'r trafodion yn cael eu dangos yn Nodyn 6.32.

Cronfa Bensiwn Dyfed

Mae Cronfa Bensiwn Dyfed yn cael ei weinyddu gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Mae'r trafodion rhwng y ddau gorff yn cael eu dangos yn Nodyn 6.43. Mae Credydwy'r Tymor Byr (Nodyn 6.19) yn cynnwys swm o £4.9 miliwn sydd yn ddyledus i Gronfa Bensiwn Dyfed ar 31 Mawrth 2017. (£2.3 miliwn ar 31 Mawrth 2016).

CWM Environmental Limited

Mae CWM Environmental Limited yn is-gwmni ym mherchnogaeth lwyr Cyngor Sir Caerfyrddin. Ceir manylion buddsoddiadau yn Nodyn 6.11 o dan Fuddsoddiadau Tymor Hir.

Egni Sir Gar Cyfyngedig

Cyngor Sir Caerfyrddin yw Ymddiriedolwr Gwarchod cofrestredig Egni Sir Gâr Cyfyngedig. Ceir manylion buddsoddiadau yn Nodyn 6.11 o dan Fuddsoddiadau Tymor Hir.

Buddiannau Aelodau

Mae gan yr Awdurdod drefniadau mewn lle sy'n gofyn i'r aelodau a'r swyddogion i adnabod a datgelu trafodion gyda phartïon cysylltiedig.

Mae gan aelodau'r cyngor rheolaeth uniongyrchol dros polisiau cyllidebol a gweithredol y cyngor. Dangosir cyfanswm lwfansau'r aelodau a dalwyd yn 2016-17 yn Nodyn 6.33.

Talodd yr awdurdod grantiau gwerth £70,000 i sefydliadau yr oedd gan wyth aelod fuddiant ynddynt. Rhoddwyd y grantiau gan ystyried datganiadau o fuddiant mewn ffordd briodol. Ni chymerodd yr aelodau perthnasol ran mewn unrhyw drafodaeth na phenderfyniad ynghylch y grantiau.

Buddiannau'r Swyddogion

Yn ystod 2016-17, parhaodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Cwsmeriaid a Pholisi) gynrychioli Cyngor Sir Caerfyrddin ar Fwrdd Coleg Sir Gâr.

Nodir crynodeb o drafodion Cyngor Sir Caerfyrddin â Choleg Sir Gâr isod:

	2015-16	2016-17
	£'000	£'000
Gwariant	428	481
Incwm	1,002	966
	2016	2017
Balansau eto i'w talu ar 31ain Mawrth:	£'000	£'000
Credydwr	3	2
Dyledwr	310	563

Mae'r gwariant yn cynnwys talu Coleg Sir Gâr am ddarparu cyrsiau galwedigaethol 14-19.

Mae'r incwm yn cynnwys cyllid gan Goleg Sir Gâr am ddarparu Cyrsiau Dysgu Oedolion yn y Gymuned ac am y cytundeb Cludiant i Fyfirwyr.

6.40 Gwariant Cyfalaf ac Ariannu Cyfalaf

Caiff cyfanswm y gwariant cyfalaf a wnaethpwyd yn y flwyddyn ei ddangos yn y tabl isod ynghyd â'r adnoddau a ddefnyddiwyd i'w ariannu. Lle bo gwariant cyfalaf i gael ei ariannu yn y blynyddoedd i ddod trwy godi symiau i refeniw wrth i asedau gael eu defnyddio gan yr Awdurdod, mae'r gwariant yn arwain at gynnydd yn y Gofyniad Ariannu Cyfalaf, sy'n mesur y gwariant cyfalaf a wnaethpwyd yn hanesyddol gan yr Awdurdod nad yw wedi cael ei ariannu eto. Caiff y Gofyniad Ariannu Cyfalaf ei ddadansoddi yn ail ran y nodyn hwn.

	2015-16	2016-17
	£'000	£'000
Buddsoddiad Cyfalaf		
Eiddo, Offeriant a Chyfarpar	66,998	58,167
Eiddo Buddsoddi	1,101	2,086
Benthyciadau Tymor Hir	6	3
Buddsoddiadau	0	900
Gwariant Refeniw a Ariannwyd o Gyfalaf o dan Statud	16,723	4,945
Prynu allan y cymorthdal CRT	78,969	0
	<u>163,797</u>	<u>66,101</u>
Ffynonellau Ariannol		
Derbyniadau Cyfalaf	10,050	6,653
Grantiau llywodraeth a Chyfraniadau Arall	41,483	21,840
Symiau a neilltuwyd o refeniw	11,682	4,440
Cyfraniadau refeniw uniongyrchol	9,990	1,734
Benthyciadau	90,592	31,434
	<u>163,797</u>	<u>66,101</u>
Gofyniad Ariannu Cyfalaf Agoriadol	373,821	454,325
Esboniad o'r Newidiadau yn y Flwyddyn		
Cynnydd yn yr angen sylfaenol i fenthyca (a gynhelir gan gymorth ariannol gan lywodraethau)	2,525	3,724
Cynnydd yn yr angen sylfaenol i fenthyca (nas cynhelir gan gymorth ariannol gan lywodraethau)	77,979	13,277
Cynnydd/(gostyngiad) yn y Gofyniad Ariannu Cyfalaf	80,504	17,001
	<u>454,325</u>	<u>471,326</u>

6.41 Prydlesi**Yr Awdurdod fel y Prydlesai**

Prydlesi Gweithredol

Mae'r Awdurdod yn rhenti eiddo ar brydles o dan brydlesi gweithredol at y dibenion canlynol:

- i ddarparu gwasanaethau cymunedol, megis cyfleusterau chwaraeon, gwasanaethau twristiaeth a chanolfannau cymunedol
- at ddibenion datblygu economaidd i ddarparu safleoedd fforddiadwy addas i fusnesau lleol.

Y canlynol yw'r taliadau lleiaf am brydlesi sy'n daladwy yn y dyfodol o dan brydlesi na ellir eu canslo:-

	2015-16 £'000	2016-17 £'000
Dim hwyrach na blwyddyn	810	723
Yn hwyrach na blwyddyn ond dim hwyrach na phum mlynedd	2,567	2,227
Yn hwyrach na phum mlynedd	<u>5,093</u>	<u>4,453</u>
	<u>8,470</u>	<u>7,403</u>

Isod mae'r gwariant a godwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â'r prydlesi hyn:

	2015-16 £'000	2015-16 £'000
Taliadau isaf prydlesi	1,081	1,024

Yr Awdurdod fel y Prydleswr

Prydlesi Gweithredol

Mae'r Awdurdod yn gosod eiddo ar brydles o dan brydlesi gweithredol at y dibenion canlynol:

- i ddarparu gwasanaethau cymunedol, megis cyfleusterau chwaraeon, gwasanaethau twristiaeth a chanolfannau cymunedol
- at ddibenion datblygu economaidd i ddarparu safleoedd fforddiadwy addas i fusnesau lleol.

Isod mae'r incwm a credydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â'r prydles hyn:

	2015-16 £'000	2016-17 £'000
Dim hwyrach na blwyddyn	1,046	1,043
Yn hwyrach na blwyddyn ond dim hwyrach na phum mlynedd	3,028	3,077
Yn hwyrach na phum mlynedd	<u>23,925</u>	<u>22,154</u>
	<u>27,999</u>	<u>26,274</u>

Nid yw'r taliadau prydles lleiaf a dderbynnir yn cynnwys rhenti sy'n amodol ar ddigwyddiadau a gynhelir ar ôl llofnodi'r brydles.

Yn 2016/17 roedd y rhenti amodol y gallai'r Awdurdod eu derbyn yn £109,171 (£104,391 yn 2015/16).

Mae'r Awdurdod hefyd yn dal gwahanol asedau cyfalaf, yn bennaf cerbydau, peiriannau ac offer swyddfa a ariennir o dan delerau prydles gweithredol ac y cyfrifyddir ar eu cyfer fel y cyfryw, gyda'r rhenti'n cael eu codi fel gwariant ar y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

6.42 Colledion Amhariad

Gwnaethpwyd asesiad ar ddiwedd y flwyddyn sy'n dangos nad oes unrhyw achosion o amhariad i asedau'r Awdurdod.

6.43 Cyfrifyddu ar gyfer Cynlluniau Pensiynau fel Cynlluniau Cyfraniadau Diffiniedig

Mae athrawon sy'n cael eu cyflogi gan yr Awdurdod yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Athrawon, sy'n cael ei weinyddu gan yr Adran Addysg. Mae'r Cynllun yn darparu budd-daliadau penodedig i athrawon ar ôl iddynt ymddeol, ac mae'r awdurdod yn cyfrannu at y costau trwy roi cyfraniadau sydd wedi'u seilio ar ganran o gyflogau pensiynadwy'r aelodau.

Cynllun Buddion Diffiniedig Aml-gyflogwr yw'r cynllun. Ni chyllidir y cynllun ac mae'r Adran Addysg yn defnyddio cronfa dybiannol yn sail i gyfrifo cyfradd gyfrannu'r cyflogwyr a delir gan yr awdurdodau lleol. Prisir y gronfa dybiannol bob pedair blynedd.

Yn dechnegol cynllun budd-daliadau diffiniedig yw'r Cynllun. Fodd bynnag, mae'r Cynllun heb ei ariannu ac mae'r Adran Addysg yn defnyddio cronfa dybiannol fel y sail i gyfrifo'r gyfradd cyfraniadau cyflogwyr y mae awdurdodau lleol yn ei thalu. Ni all yr Awdurdod ganfod ei gyfran o sefyllfa ariannol sylfaenol a pherfformiad y Cynllun mewn ffordd ddigon dibynadwy at ddibenion cyfrifyddu. At ddibenion y Datganiad o Gyfrifon hwn, felly, cyfrifyddir ar ei chyfer ar yr un sail â chynllun cyfraniadau diffiniedig.

Yn 2016-17 talodd Cyngor Sir Caerfyrddin £10.10 miliwn i'r Adran Addysg mewn perthynas â chostau pensiwn athrawon, sef 16.48% o dâl pensiynadwy athrawon a darlithwyr. Y ffigurau am 2015-16 oedd £9.63 miliwn a 16.48%. Nid oedd unrhyw gyfraniadau heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn. Amcangyfrifir mai £10.2 miliwn fydd y cyfraniadau i'w talu yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Yn ogystal, mae'r Cyngor Sir yn gyfrifol am bob taliad pensiwn sy'n ymwneud â blynyddoedd ychwanegol y mae wedi'u dyfarnu ynghyd â'r codiadau cysylltiedig. Yn 2016-17 roedd y rhain yn dod i swm o £0.442 miliwn.

Mae'r awdurdod yn gyfrifol am gostau unrhyw fudd-daliadau ychwanegol a roddir wrth ymddeol yn gynnar y tu allan i delerau'r Cynllun Athrawon. Mae'r budd-daliadau hyn wedi'u cronni'n llawn yn y rhwymedigaeth pensiynau a ddisgrifir uchod.

6.44 Cynlluniau Pensiwn Budd-daliadau Diffiniedig

Fel rhan o delerau ac amodau cyflogaeth ei swyddogion a chyflogeion eraill, mae'r Awdurdod yn rhoi cyfraniadau tuag at gost budd-daliadau ôl-gyflogaeth. Er na fydd y budd-daliadau hyn yn daladwy nes y bydd y gweithwyr yn ymddeol, mae'r awdurdod wedi ymrwymo i wneud y taliadau. Mae'n rhaid datgelu'r rhwymedigaethau i wneud y taliadau hyn pan fydd gweithwyr yn ennill eu hawliau at y dyfodol.

Mae Cronfa Bensiwn Dyfed yn aelod o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Gweinyddir ef gan Gyngor Sir Caerfyrddin ac mae'n gynllun budd-daliadau penodol, sy'n golygu fod yr awdurdod a'r gweithwyr yn talu cyfraniadau i gronfa. Cyfrif lefel y cyfraniadau i sicrhau cydbwysedd rhwng y rhwymedigaeth o ran pensiynau a'r asedau a fuddsoddyd.

Gweithredir Cronfa Bensiwn Dyfed dan fframwaith rheoleiddio'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a Phanel Cronfa Bensiwn Dyfed sy'n gyfrifol am lywodraethu'r cynllun. Pennir polisi yn unol â Rheoliadau'r Gronfa Bensiwn. Penodir rheolwyr buddsoddi'r gronfa gan y Panel ac fe'u cynghorir gan Ymgynghorydd Buddsoddi annibynnol a swyddogion Cyngor Sir Caerfyrddin.

Y risgiau pennaf i'r Awdurdod yn sgil y cynllun yw'r rhagdybiaethau o ran gweddill oes, newidiadau statudol yn y cynllun, newidiadau yn strwythur y cynllun (h.y. bod llawer o arian yn cael ei godi o'r cynllun), newid o ran chwyddiant, arenillion bondiau a pherfformiad y buddsoddiadau ecwiti a ddelir gan y cynllun. Caiff y rhain eu lliniaru i raddau gan y gofynion statudol i glustnodi i'r Gronfa Gyffredinol a'r Cyfrif Refeniw Tai y symiau sy'n ofynnol yn statudol fel y disgrifir yn y nodyn polisïau cyfrifyddu.

Buddion yn ôl Disgresiwn ar ôl Ymddeol

Mae buddion yn ôl disgresiwn ar ôl ymddeol, pan ymddeolir yn gynnar, yn drefniant buddion diffiniedig nas cyllidir, a thano cydnabyddir rhwymedigaethau pan roddir dyfarniadau. Nid oes asedau wedi'u cronni gan y cynllun i dalu am y rhwymedigaethau pensiwn hyn.

Trafodyn yn ymwneud â budd-daliadau ôl-gyflogaeth

Mae cost budd-daliadau ymddeol yn cael eu cydnabod yng Nghostau'r Gwasanaethau pan fo'r gweithwyr yn ennill cyflog yn hytrach na phan fo'r gweithiwr yn eu derbyn fel pensiwn. Fodd bynnag mae'r tâl a gynhwysir yn nhreth y cyngor yn seiliedig ar yr arian sy'n daldaw ym ystod y flwyddyn, felly mae gwir gost budd-daliadau ymddeol yn cael eu tynnu yn ôl allan o'r Cyfrif Incwm a Gwariant yn y Datganiad Symudiad ar Falans Cronfa'r Cyngor.

Gwnaed y trafodion canlynol yn y Cyfrif Incwm a Gwariant a Datganiad Symudiad ar Falans Cronfa'r Cyngor yn ystod y flwyddyn:

	2015-16 £'000	2016-17 £'000
Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		
Costau y Gwasanaethau		
Cost y Gwasanaeth Cyfredol	28,207	26,294
Enillion Gwasanaeth Blaenorol	18	271
Setliadau a Chwtogiadau	3,838	1,365
Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi		
Cost y Llog Net	9,185	9,687
Cyfanswm y Budd-daliadau Ôl-gyflogaeth a godwyd i'r Warged neu Ddiffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau	41,248	37,617
Budd-daliadau Ôl-gyflogaeth eraill a godwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		
Ailfesur y rhwymedigaeth buddion diffiniedig net sef:		
Yr adenillion ar asedau'r cynllun	34,687	(163,781)
Yr enillion a brofwyd mewn perthynas â'r rhwymedigaethau	0	(17,482)
Enillion a cholledion actiwaraidd yn deillio o newidiadau yn y rhagdybiaethau demograffig	0	(16,312)
Enillion a cholledion actiwaraidd yn deillio o newidiadau yn y rhagdybiaethau ariannol	(63,159)	280,943
Cyfanswm y Budd-daliadau Ôl-gyflogaeth a godwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	12,776	120,985
Datganiad Newidiadau i Gronfeydd		
Gwrthdroi symiau net a godwyd i'r Warged neu Ddiffyg ar gyfer Darpariaeth Gwasanaethau ar gyfer Budd-daliadau Ôl-gyflogaeth yn unol â'r cod	(41,248)	(37,617)
Y Swm gwirioneddol a gynhwyswyd yn Balans Cronfa'r Cyngor ar gyfer pensiynau eleni:		
Cyfraniadau Cyflogwyr sy'n daladwy i'r Cynllun	24,413	24,205

Asedau a Rhwymedigaethau mewn perthynas â Budd-daliadau Ôl-gyflogaeth**Cyngor Sir Gâr**

Cysoni gwerth rhwymedigaethau'r cynllun ar hyn o bryd:

	2015-16	2016-17
	£'000	£'000
Balans ar 1 Ebrill	(1,126,044)	(1,103,940)
Cost y Gwasanaeth Cyfredol	(28,207)	(26,294)
Cost llog	(36,611)	(39,170)
Cyfraniadau gan aelodau'r cynllun	(7,220)	(7,327)
Yr enillion a brofwyd mewn perthynas â'r rhwymedigaethau	0	17,482
Enillion a cholledion actiwaraidd yn deillio o newidiadau yn y rhagdybiaethau demograffig	0	16,312
Enillion a cholledion actiwaraidd yn deillio o newidiadau yn y rhagdybiaethau ariannol	63,159	(280,943)
Cwtogiadau	(3,838)	(1,365)
Budd-daliadau a dalwyd	34,839	34,068
Costau gwasanaeth blaenorol	(18)	(271)
Balans ar 31 Mawrth	<u>(1,103,940)</u>	<u>(1,391,448)</u>

	2015-16	2016-17
	£'000	£'000
Balans ar 1 Ebrill	849,893	839,426
Y llog ar asedau'r cynllun	27,994	30,174
Yr enillion a brofwyd mewn perthynas â'r asedau	(34,687)	163,781
Costau Gweinyddiaeth	(568)	(691)
Cyfraniadau'r cyflogwr	24,413	24,205
Cyfraniadau gan aelodau'r cynllun	7,220	7,327
Budd-daliadau a dalwyd	(34,839)	(34,068)
Balans ar 31 Mawrth	<u>839,426</u>	<u>1,030,154</u>

Rhwymedigaethau Net y Cynllun	<u>(264,514)</u>	<u>(361,294)</u>
--------------------------------------	-------------------------	-------------------------

Mae asedau'r Gronfa Bensiwn yn cynnwys:

			<u>Dyfynnwyd</u>	2015-16	2016-17
				£'000	£'000
Ecwitis	DU	le		200,119	253,417
	Cronfeydd Cyfun tramor	Na		174,013	224,574
	UD	le		88,895	98,895
	Canada	le		3,190	5,151
	Siapan	le		33,409	33,995
	Ymyl Y Mor Tawel	Na		23,504	30,905
	Marchnadoed sy'n datblygu	Na		56,913	78,292
	Cyfun Tramor	le		0	1,030
Bondiau	Cysylltiedig â Mynegai'r DU	le		80,165	99,925
	Corfforaethol DU	Na		82,180	99,925
Eiddo	Cronfeydd Eiddo	Na		93,512	95,804
Arian	Offerynnau arian	le		0	0
	Cyfrifon Arian	le		1,679	6,181
	Asedau Cyfredol Net	Na		1,847	2,060
Cyfanswm			839,426	1,030,154	

Hanes y Cynllun

	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwerth presennol y rhwymedigaethau yn y Cynllun					
Pensiwn Llywodraeth Leol	(978,044)	(926,948)	(1,126,044)	(1,103,940)	(1,391,448)
Gwerth teg yr asedau yn y Cynllun					
Pensiwn Llywodraeth Leol	685,882	740,531	849,893	839,426	1,030,154
Gweddillion/(diffyg) yn y cynllun	(292,162)	(186,417)	(276,151)	(264,514)	(361,294)

Mae'r rhwymedigaethau'n dangos yr ymrwymadau sylfaenol sydd gan yr awdurdod yn y tymor hir i dalu budd-daliadau Ôl-gyflogaeth. Mae cyfanswm net y rhwymedigaeth, sef £361 miliwn, yn cael effaith sylweddol ar werth net yr awdurdod fel y'i cofnodir yn y fantolen. Fodd bynnag, mae trefniadau statudol ar gyfer ariannu'r diffyg yn golygu bod sefyllfa ariannol yr awdurdod dal yn iach, gyda'r diffyg yn y cynllun llywodraeth leol yn cael ei wrthbwysu gan gyfraniadau mwy dros weddill bywyd gwaith y cyflogeion (h.y. cyn bod yn rhaid talu'r taliadau) yn ôl asesiad gan actiwari'r cynllun.

£20.4 miliwn yw cyfanswm y cyfraniadau disgwylidig gan yr Awdurdod i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2018.

Y sail ar gyfer amcangyfrif asedau a rhwymedigaethau

Mae'r rhwymedigaethau wedi cael eu hasesu ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull credydu unedau rhagamcanol, amcangyfrif o'r pensiynau y bydd yn rhaid eu talu yn y blynyddoedd i ddod gan ddibynnu ar dybiaethau ynglŷn â chyfraddau marwolaethau, lefelau cyflogau, enillion ar fuddsoddiadau, chwyddiant yn y dyfodol ac ati. Mae asedau a rhwymedigaethau Cronfa'r Cyngor Sir yn y Fantolen a chostau gwasanaeth y presennol a'r gorffennol a geir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr wedi cael eu hasesu gan Mercer Ltd, cwmni annibynnol o actiwaraid, gyda'r amcangyfrifon ar gyfer y Gronfa'n cael eu seilio ar y prisiaid llawn diweddaraf o'r cynllun ar 31 Mawrth 2016.

Dangosir y prif ragdybiaethau a ddefnyddiwyd yn y cyfrifiadau isod:

	2015-16	2016-17
	%	%
Rhagdybiaethau Ariannol:		
Cyfradd chwyddiant CPI	2.0	2.3
Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau	3.50	3.80
Cyfradd y cynnydd mewn pensiynau	2.0	2.3
Y gyfradd ar gyfer rhwymedigaethau cynlluniau disgownt	3.6	2.5
	2015-16	2016-17
	%	%
Rhagdybiaethau o ran hyd oes:		
Gweddill oes ar gyfartaledd yn 65 oed ar gyfer pensiynwyr presennol:		
Dynion	23.4	22.8
Menywod	25.9	25.5
Gweddill oes ar gyfartaledd yn 65 oed ar gyfer pensiynwyr y dyfodol:		
Dynion	25.7	25.0
Menywod	28.2	27.8

Mae'r amcangyfrif o'r ymrwymadau buddion diffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actiwaraidd a amlinellir yn y tabl uchod. Mae'r dadansoddiadau sensitifrwydd isod wedi'u pennu ar sail y newidiadau sy'n rhesymol bosibl o ran y rhagdybiaethau a ddigwydd ar ddiwedd cyfnod yr adroddiad ac maent yn tybio, yn achos pob newid, fod y rhagdybiaeth a ddadansoddiwyd yn newid tra bo pob rhagdybiaeth arall yn aros yr un fath. Mae'r rhagdybiaethau o ran gweddill oes, er enghraifft, yn tybio bod disgwyliad oes yn codi neu'n disgyn i ddynion a menywod. Yn ymarferol, mae hyn yn annhebygol o ddigwydd, a gall newid yn rhai o'r rhagdybiaethau fod yn gysylltiedig â'i gilydd. Mae'r amcangyfrifon yn y dadansoddiadau sensitifrwydd wedi dilyn polisiau cyfrifyddu'r cynllun, h.y. ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull credydu unedau rhagamcanol. Nid oedd dulliau a mathau y rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd wrth lunio'r dadansoddiadau sensitifrwydd isod yn wahanol i'r rhai a ddefnyddiwyd yn y cyfnod blaenorol.

Yr Effaith ar Ymrwymiad Buddion
Diffiniedig y Cynllun

	Codiad yn Rhagdybiaeth £'000	Gostyngiad yn Rhagdybiaeth £'000
Gweddill oes (1 flwyddyn o gynnydd neu ostyngiad)	27,757	(27,757)
Cyfradd chwyddiant (0.1% y flwyddyn o gynnydd neu ostyngiad)	25,625	(25,625)
Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau (0.1% y flwyddyn o gynnydd neu ostyngiad)	6,257	(6,257)
Cyfradd y cynnydd mewn pensiynau (0.1% y flwyddyn o gynnydd neu ostyngiad)	25,625	(25,625)
Y gyfradd ar gyfer rhwymedigaethau cynlluniau disgownt (0.1% y flwyddyn o gynnydd neu ostyngiad)	(25,162)	25,162

6.45 Rhwymedigaethau Amodol

Mae'r Awdurdod yn gweithredu fel asiant casglu ar ran Dŵr Cymru mewn perthynas â thaliadau dŵr a charthffosiaeth tenantiaid y Cyfrif Refeniw Tai. Yn gyfnewid am y gwasanaeth hwn mae'r Awdurdod wedi bod yn derbyn comisiwn sydd wedi'i drin fel ffrwd incwm i'r Cyfrif Refeniw Tai. Mae'r trefniant hwn wedi cael ei gwestiynu yn sgil dyfarniad Llys yn ystod 2015-16 (Kim Jones yn erbyn Bwrdeistref Southwark yn Llundain) a ddywedodd fod Awdurdodau Lleol sy'n casglu trethi dŵr drwy gyfrwng y Cyfrif Refeniw Tai yn gwneud hynny fel cyflenwr dŵr ac nid fel asiant i'r cyflenwr dŵr. Yn draddodiadol ystyrid hyn yn drefniant asiantaeth, ond roedd dyfarniad y Llys yn dynodi bod yr Awdurdod perthnasol wedi bod yn gweithredu fel cyflenwr dŵr, sydd â goblygiadau ariannol sylweddol i'r rheiny sy'n cael eu heffeithio o ran ffi'r asiantaeth a lle bo camau gweithredu wedi cael eu cymryd yn erbyn dyledion rhent y gellid ystyried eu bod yn cynnwys trethi dŵr. Cyngor cyfreithiol yr Awdurdod yw y byddid yn dod i'r casgliad bod ein cytundeb yn gytundeb asiantaeth bona fide pe byddai'n cael ei herio ac fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2017 nid ydym wedi derbyn unrhyw ohebiaeth yn ymwneud â hawliadau posibl. Fodd bynnag, er mwyn cadarnhau hyd yn oed ymhellach fod yr Awdurdod yn casglu'r arian hwn fel asiantiaid ar gyfer Dŵr Cymru ac osgoi'r posibilrwydd o heriau cyfreithiol yn y dyfodol, mae'r Cyngor yn dechrau ar contract newydd ar hyn o bryd gyda'r cyflenwr dŵr a fydd yn sicrhau ei fod yn gweithredu fel asiant.

6.46 Offerynnau Ariannol**Nodiadau Datgelu ynghylch Atebolrwydd Ariannol, Asedau Ariannol a Risgiau****Balansau Offerynnau Ariannol**

Mae'r benthyciadau a'r buddsoddiadau a ddatgelir yn y Fantolen yn cynnwys y categorïau canlynol o offerynnau ariannol:

	Tymor Hir		Cyfredol	
	31 Mawrth 2016 £'000	31 Mawrth 2017 £'000	31 Mawrth 2016 £'000	31 Mawrth 2017 £'000
Atebolrwydd Ariannol (prifswm)	370,309	377,955	5,727	10,012
Llog Cronedig	0	0	3,286	3,191
Addasiadau Eraill o ran Cyfrifyddu	116	116	0	0
Atebolrwydd ariannol yn ôl cost amorteiddiedig	370,425	378,071	9,013	13,203
Cyfanswm y benthyciadau				
Benthyciadau a symiau i'w derbyn (prifswm)	630	584	8,020	22,046
Llog Cronedig	151	148	18	109
Benthyciadau a symiau i'w derbyn yn ôl cost amorteiddiedig	781	732	8,038	22,155
Buddsoddiad mewn ecwiti annyfynedig am y gost	329	329	0	0
Cyfanswm y buddsoddiadau	1,110	1,061	8,038	22,155
Benthyciadau meddal a roddwyd (nodyn i)	1,190	1,268	0	0

- (i) Rhoddodd y Cyngor fenthyciad i Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru a oedd yn is na chyfraddau'r farchnad (benthyciadau meddal). Mae'r benthyciad hwn am £1.35 miliwn heb log ac fe'i rhoddwyd yn 2015/16 gan ddisgwyl iddo gael ei ad-dalu yn 2017/18. Pan roddir benthyciadau meddal, cofnodir colled yn y Datganiad Incwm A Gwariant Cynhwysfawr (wedi'i debydu i'r gwasanaeth priodol) am werth presennol y llog a gaiff ei ildio am oes yr offeryn, sy'n golygu bod y gost amorteiddiedig yn is na'r prifswm sydd eto i'w ad-dalu. Mae'r llog yn cael ei gredydu ar gyfradd effeithiol ymylol uwch na'r gyfradd a dderbynnir oddi wrth y sefydliadau gwirfoddol, ac mae'r gwahaniaeth yn cynyddu cost amorteiddiedig y benthyciad yn y Fantolen. Mae'n ofynnol yn ôl darpariaethau statudol mai effaith benthyciadau meddal ar Falans y Gronfa Gyffredinol yw'r llog i'w dderbyn am y flwyddyn ariannol - mae'r gwaith o gysoni symiau sy'n cael eu debydu a'u credydu i'r Datganiad Incwm Gwariant Cynhwysfawr i'r enillion net sydd eu hangen yn erbyn Balans y Gronfa Gyffredinol yn cael ei reoli drwy drosglwyddo i'r Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol neu o'r cyfrif hwn. Mae'r wybodaeth fanwl am fenthyciadau meddal fel a ganlyn:

	Benthyciadau meddal	
	31-Mar-16	31-Mar-17
Balans Agoriadol	0	1,190
+ Benthyciadau newydd a roddwyd	1,350	0
- Addasiad Gwerth Teg	232	0
+ Benthyciadau a ad-dalwyd	72	78
Balans a gariwyd ymlaen	1,190	1,268
Gwerth Nominal a gariwyd ymlaen	1,350	1,350

Rhagdybiaethau Priso

Mae'r gyfradd llog a ddefnyddir ar gyfer gwerth teg y benthyciad meddal hwn wedi'i phennu drwy ystyried cost gyffredinol benthycia yr Awdurdod, sef 5%, ac ychwanegu lwfans ar gyfer y risg na chaiff y benthyciad ei ad-dalu.

Enillion/Colledion yn sgil Offerynnau Ariannol

Mae'r enillion a'r colledion a nodir yn y Cyfrif Incwm a Gwariant ac yn Natganiad Cyfanswm yr Enillion a Cholledion mewn perthynas ag offerynnau ariannol fel a ganlyn:

	Rhwymedigaethau Ariannol		Asedau Ariannol		Cyfanswm	
	Rhwymedigaethau a fesurir yn ôl y gost amorteiddiedig		Benthyciadau a Symiau sydd i'w Derbyn			
	2015-16	2016-17	2015-16	2016-17	2015-16	2016-17
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cost y llog	(17,639)	(17,636)	0	0	(17,639)	(17,636)
Colledion yn sgil Amharu	0	0	0	0	0	0
Y llog sy'n daladwy a thaliadau tebyg	(17,639)	(17,636)	0	0	(17,639)	(17,636)
Incwm Llog	0	0	450	386	450	386
Incwm buddsoddi a llog	0	0	450	386	450	386
Enillion/(colled) net am y flwyddyn	(17,639)	(17,636)	450	386	(17,189)	(17,250)

Cario Gwerth Teg yr Asedau a'r Atebolrwydd yn ôl y Costau Amorteiddio

Mae atebolrwydd ariannol ac asedau ariannol megis benthyciadau a symiau i'w derbyn yn cael eu cario ar y fantolen yn ôl y gost amorteiddio. Gellir asesu eu gwerth teg drwy gyfrifo gwerth presennol y llif arian sy'n digwydd dros weddill bywyd yr offerynnau gan ddefnyddio'r tybiaethau canlynol:

- O ran benthyciadau gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (BBGC) a benthyciadau eraill sy'n daladwy, defnyddiwyd cyfraddau ad-daliadau cynnar y BBGC i roi'r gwerth teg yn unol â gweithdrefnau'r BBGC ar gyfer adbrynu dyledion;

- O ran benthyciadau i'w derbyn defnyddiwyd cyfraddau meincnod cyffredin y farchnad i roi'r gwerth teg;
- Pan fo offeryn i'w dalu ymhen llai na 12 mis neu mae'n ddyled fasnachol neu'n swm arall i'w dderbyn bernir mai'r gwerth teg fydd y prifswm sydd heb ei dalu neu'r swm ar y bil;
- Cymerir mai'r swm ar yr anfoneb neu'r bil fydd gwerth teg y dyledion a symiau eraill i'w derbyn.

Mae'r gwerthoedd teg a gyfrifwyd fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2016		31 Mawrth 2017	
	Swm a gariwyd	Gwerth Teg	Swm a gariwyd	Gwerth Teg
Dyled BBGC	372,815	542,509	383,943	598,350
Dyled heb fod i BBGC	6,623	8,198	7,330	12,929
Cyfanswm yr atebolrwydd ariannol	379,438	550,707	391,273	611,279

Mae'r gwerth teg yn uwch na'r swm a gariwyd gan fod portffolio benthyciadau yr Awdurdod yn cynnwys nifer o fenthyciadau cyfradd sefydlog lle mae cyfradd y llog sy'n daladwy yn uwch na'r cyfraddau sydd ar gael ar y farchnad ar fenthyciadau cyffelyb ar ddyddiad y fantolen.

	31 Mawrth 2016		31 Mawrth 2017	
	Swm a gariwyd	Gwerth Teg	Swm a gariwyd	Gwerth Teg
Benthyciadau'r farchnad arian < 1	8,038	8,038	22,155	22,155
Benthyciadau'r farchnad arian > 1	781	781	732	732
Cyfanswm y buddsoddiadau	8,819	8,819	22,887	22,887
Dyledion Masnachol	12,030	12,030	17,416	17,416
Cyfanswm y Benthyciadau a symiau i'w derbyn	20,849	20,849	40,303	40,303

Pennwyd gwerth teg yr atebolrwydd ariannol drwy gyfeirio at reolau adbryniant BBGC a chyfraddau adbryniant cyffredin BBGC ar y dyddiad y lluniwyd pob mantolen ac maent yn cynnwys y llog cronedig. Defnyddiwyd yr un gweithdrefnau a'r cyfraddau llog i bennu gwerth teg dyledion nad oeddent yn rhai BBGC ac mae hyn yn rhoi amcangyfrif cadarn o werth teg yr offerynnau hynny.

Cafodd gwerth teg y benthyciadau a'r symiau i'w derbyn eu pennu drwy gyfeirio at arferion tebyg, fel uchod, sy'n rhoi amcangyfrif da o werth teg offeryn ariannol ac mae'n cynnwys y llog cronedig. Defnyddiwyd cyfraddau buddsoddi mynegiannol ar y dyddiad y lluniwyd pob mantolen i roi'r cyfraddau cyfatebol cyffredin ar y farchnad. Dylai'r cyfraddau gael eu pennu gan faint y gwerthiant a'r cymar, ond nid yw'n ymarferol i ddefnyddio'r ffigurau hynny ac nid yw'r gwahaniaeth yn debygol o fod o bwys.

Mae gwerth teg benthyciadau'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) o £598.350 miliwn yn mesur effaith economaidd y telerau a gytunwyd â'r PWLB o'u cymharu ag amcangyfrifon o'r telerau a fyddai'n cael eu cynnig ar gyfer trafodion yn y farchnad ar ddyddiad y Fantolen. Mae'r gwahaniaeth rhwng y swm a gariwyd a'r gwerth teg yn mesur y llog ychwanegol y bydd yr awdurdod yn ei dalu dros gyfnodau'r benthyciadau sy'n weddill o dan y cytundebau â'r PWLB, o'i gymharu â'r hyn y byddai'n ei dalu pe bai'r benthyciadau ar gyfraddau cyffredin y farchnad, cyfraddau llog adbryniant PWLB.

Fodd bynnag, mae gan yr awdurdod allu parhaus i fenthycia ar gyfraddau gostyngol gan y PWLB yn hytrach na'r marchnadoedd. Ffordd arall o fesur y llog ychwanegol y bydd yr awdurdod yn ei dalu o ganlyniad i'w ymrwymadau gyda'r PWLB o ran benthyciadau cyfradd sefydlog yw cymharu telerau'r benthyciadau hyn â'r cyfraddau benthycia newydd sydd ar gael gan y PWLB, cyfraddau Sicrwydd y PWLB. Os byddai gwerth yn cael ei gyfrifo ar y sail hon, byddai'r swm a gariwyd o £383.943 miliwn yn werth £513.199 miliwn. Ond, os byddai'r awdurdod yn ceisio osgoi'r golled oedd yn cael ei rhagweld drwy ad-dalu'r benthyciadau i'r PWLB, byddai'r PWLB yn codi tâl cosb am adbrynu'n gynnar, yn ogystal â chodi premiwm am y llog ychwanegol na fyddai'n cael ei dalu mwyach. Y pris ymadael ar gyfer benthyciadau'r PWLB gan gynnwys y tâl cosb fyddai £598.350 miliwn, yn cynnwys prif dâl o £380.816 miliwn; llog cronedig o £3.127 miliwn a thâl cosb o £214.407 miliwn.

Datgelu natur a Maint y Risg yn codi o Offerynnau Ariannol

Risgiau Allweddol

Mae gweithgareddau'r Awdurdod yn golygu ei fod yn agored i nifer o risgiau ariannol. Y risgiau allweddol yw:

- Risg credyd – y posibilrwydd y bydd partion eraill yn methu â thalu symiau sy'n ddyledus i'r Awdurdod;
- Risg hylifedd – y posibilrwydd na fydd gan yr Awdurdod arian ar gael i fodloni ei ymrwymadau i wneud taliadau;
- Risg ail gyllido – y posibilrwydd y bydd yn rhaid i'r Awdurdod adnewyddu offeryn ariannol wedi iddo aeddfedu a hynny ar gyfraddau llog neu delerau anfanteisiol.
- Risg y farchnad – y posibilrwydd y bydd yr Awdurdod yn gwneud colled ariannol o ganlyniad i newidiadau mewn mesurau megis symudiadau mewn cyfraddau llog.

Gweithdrefnau Cyffredinol ar gyfer Rheoli Risg

Mae gweithdrefnau cyffredinol yr Awdurdod ar gyfer rheoli risg yn canolbwyntio ar natur anrhagweladwy y marchnadoedd ariannol, a phennu cyfyngiadau i leihau'r risgiau hyn. Pennir y gweithdrefnau ar gyfer rheoli risg gan fframwaith cyfreithiol sydd wedi'i nodi yn *Neddf Llywodraeth Leol 2003* a'r rheoliadau cysylltiedig. Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol bod yr Awdurdod yn cydymffurfio â Chôd Darbodus CIPFA, Côd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys y Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Canllawiau Buddsoddi a gyhoeddwyd drwy'r Ddeddf. Yn gyffredinol mae'r gweithdrefnau hyn yn ei gwneud yn ofynnol bod yr Awdurdod yn rheoli risg fel a ganlyn:

- drwy fabwysiadu'n ffurfiol ofynion y fersiynau Diwygiedig o Gôd Darbodaeth CIPFA a Chôd Ymarfer CIPFA ynghylch Rheoli'r Trysorlys yn 2009 a 2011.
- Mabwysiadu'n ffurfiol Datganiad Polisi y trysorlys a cymalau Reoli Trysorlys;

- Cymeradwyo'n flynyddol ymlaen llaw ddangosyddion darbodus ar gyfer y tair blynedd ddilynol yn cyfyngu ar:
 - Benthyciadau cyffredinol yr Awdurdod;
 - Terfynau uchaf ac isaf o ran cyfraddau llog sefydlog ac amrywiol y bydd yn agored iddynt
 - Terfynau uchaf ac isaf o ran trefniadau ad-dalu ei gymysgedd o fenthyciadau y bydd yn agored iddynt;
 - Uchafswm y buddsoddiadau blynyddol sy'n cymryd mwy na blwyddyn i aeddfedu.
- Cymeradwyo strategaeth fuddsoddi ar gyfer y flwyddyn i ddod, gan nodi'r meini prawf ar gyfer buddsoddi a dewis cymheiriaid buddsoddi yn unol â Chanllawiau'r Llywodraeth;

Mae'n ofynnol rhoi gwybod am y rhain ac iddynt gael eu cymeradwyo pan/cyn cyllideb flynyddol yr Awdurdod i bennu Treth y Cyngor neu cyn dechrau'r flwyddyn y maent yn berthnasol iddynt. Cynhwysir manylion y materion hyn yn yr adroddiad blynyddol ar y polisïau a'r strategaeth ar gyfer rheoli'r trysorlys sy'n amlinellu'r ymagwedd fanwl at reoli risg mewn perthynas â buddsoddiad yr Awdurdod mewn offerynnau ariannol. Cyflwynir adroddiad blynyddol ar yr union berfformiad hefyd. Gweithredir y polisïau hyn gan yr Adran Buddsoddiadau Pensiwn a'r Trysorlys.

Cafodd y strategaeth flynyddol ynghylch rheoli'r trysorlys, sy'n cynnwys y dangosyddion darbodaeth, ei chymeradwyo gan y Cyngor ar 23 Chwefror 2016 ac mae ar gael ar wefan y Cyngor. Y canlynol oedd y prif faterion yn y strategaeth:

- Pennwyd mai £524 miliwn fyddai'r Terfyn Awdurdodedig am 2016-17. Hwn yw'r uchafswm ar gyfer benthyciadau allanol neu rwymedigaethau eraill tymor hir.
- Disgwylid mai £477 miliwn fyddai'r Ffin Weithredol. Hon yw'r ddyled a'r rhwymedigaethau tymor hir eraill a ragwelir yn ystod y flwyddyn.
- Yr uchafsymiau a bennwyd ar gyfer y gyfradd llog sefydlog a'r gyfradd llog amrywiol a fyddai'n daladwy oedd £445 miliwn ac £20 miliwn yn seiliedig ar ddyled net y Cyngor.

Mae'r Awdurdod yn cynnal egwyddorion ysgrifenedig ar gyfer rheoli risg yn gyffredinol, ynghyd â pholisïau ysgrifenedig ar gyfer meysydd penodol megis risg cyfraddau llog, risg credyd, a buddsoddi arian dros ben drwy Arferion Rheoli y Trysorlys. Mae'r Arferion hyn yn ofynnol gan y Côt Ymarfer a chânt eu hadolygu'n rheolaidd.

Risg Credyd

Buddsoddiadau

Perir risg credyd gan arian yn cael ei adnau mewn banc a sefydliadau ariannol a'r peryglon credyd y mae cwsmeriaid yr Awdurdod yn agored iddynt. Lleiheir y risg cymaint ag y bo modd drwy'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol (sy'n rhan o Adroddiad yr Awdurdod ynghylch y Polisi a'r Strategaeth sy'n ymwneud â Rheoli'r Trysorlys), sy'n mynnu na roddir arian ar adnau yng ngofal sefydliadau ariannol oni bai eu bod yn bodloni meini prawf penodedig ynghylch isafswm credyd, yn unol â'r Gwasanaethau Mesur Statws Credyd sy'n cael eu cynnig gan Fitch, Moody's a Standard & Poor's. Mae'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol hefyd yn pennu'r uchafswm a'r cyfnod hwyaf y gellir buddsoddi mewn sefydliad ariannol o bob categori. Nid yw arian yn cael ei adnau mewn banciau a sefydliadau ariannol os nad ydynt yn bodloni isafswm gofynion y meini prawf ar gyfer buddsoddi a amlinellir uchod.

Mae Rhestr Cymheiriaid Cymeradwy'r Cyngor yn dangos y meini prawf sy'n ofynnol ar gyfer cymheiriaid buddsoddi. Y canlynol yw'r meini prawf:-

- Mae Terfyn Uchaf lle bo Statws Credyd ar gyfer y Tymor Byr o F1, P-1 neu A-1 yn berthnasol, ynghyd â Statws Credyd ar gyfer y Tymor Hir, sef AA-, Aa3 ac AA-. £10 miliwn yw'r uchafswm buddsoddi.
- Mae Terfyn Canol yn berthnasol i statws credyd ar gyfer y Tymor Byr o F1, P-1 neu A-1. £7 miliwn yw'r uchafswm buddsoddi.
- Mae Banciau yn y Deyrnas Unedig sy'n rhai rhannol wladol wedi'u cynnwys fel cymheiriaid buddsoddi, cyhyd ag y bônt yn parhau i gael y gefnogaeth briodol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig.
Yr Uchafswm Buddsoddi £7 miliwn
- Terfynau eraill
 - Awdurdod Lleol. £10 miliwn yw'r uchafswm buddsoddi.
 - Cronfa Safon AAA o'r Farchnad Arian. £5 miliwn yw'r uchafswm buddsoddi.
 - Swyddfa Rheoli Dyled £40 miliwn.

Mae cwsmeriaid ar gyfer nwyddau a gwasanaethau'n cael eu hasesu, gan gymryd i ystyriaeth eu sefyllfa ariannol, profiad blaenorol a ffactorau eraill, a chaiff terfynau credyd unigol eu gosod yn unol â graddfeydd mewnol yn unol â pharamedrau a osodir gan y cyngor.

Ni ellir asesu'n gyffredinol y graddau mwyaf y mae credyd yn risg i'r Awdurdod mewn perthynas â'i fuddsoddiadau mewn banciau a chymdeithasau adeiladu, sef £23,000, oherwydd bydd y risg y bydd unrhyw sefydliad yn methu â thalu taliadau llog neu ad-dalu'r prifswm yn benodol i bob sefydliad unigol. Mae profiad diweddar wedi dangos mai anaml y mae endidau o'r fath yn methu â chyflawni eu hymrwymiaidau. Mae risg methu ag adennill arian yn berthnasol i holl adneuo'n yr Awdurdod, ond ac eithrio'r adnau gwerth £4 miliwn gyda KSF (a nodir ar ddiwedd y Nodyn yma), nid oedd unrhyw dystiolaeth ar 31 Mawrth 2017 bod hyn yn debyg o grisialu.

Mae'r dadansoddiad canlynol yn rhoi crynodeb o'r graddau mwyaf y mae credyd yn risg i'r Cyngor ar asedau ariannol eraill, wedi'i seilio ar brofiad o ddiffygdlu, wedi'i addasu i adlewyrchu'r amgylchiadau cyfredol yn y farchnad.

	Swm ar 31 Mawrth 2017 £'000	Profiad Hanesyddol o ddiffygdlu %	Addasiadau ar gyfer cyflwr y farchnad 31 Mawrth 2017 %	Amcangyfrif o uchafswm y diffygdlu y bydd yn agored iddo £'000
<u>Adneuo'n gyda banciau a sefydliadau ariannol</u>				
Cymheiriaid safon AAA	15,000	0.00	0.00	0
Cymheiriaid safon AA	5,000	0.01	0.03	1
Cymheiriaid safon A	15,000	0.07	0.08	12
Cymheiriaid safon BBB	5,000	0.15	0.19	10
Dyledion Masnachol	17,416	3.50	3.50	610
	57,416			633

Mae'r buddsoddiad o £0.63 miliwn yn Kaupthing, Friedlander and Singer (KSF) wedi'i eithrio o'r ffigurau uchod gan fod amhariad yn berthnasol i'r buddsoddiad hwn a darperir manylion llawn am hyn ar diwedd y nodyn yma.

Ni chafwyd unrhyw achosion o dorri meini prawf y Cyngor ar gyfer partïon i gontractau yn ystod y cyfnod adrodd ac nid yw'r Cyngor yn disgwyl unrhyw golledion eraill oherwydd diffyg perfformiad gan unrhyw un o'i bartïon i gontractau mewn perthynas ag adneuon a bondiau.

Dyledion Masnachol

Mae ffigur y dyledwyr masnach, sef y £17.416 miliwn a nodir uchod, yn cynnwys £9.284 miliwn sy'n hwy'r yn cael ei dalu. Gellir dadansoddi'r symiau y mae'r dyddiad ar gyfer eu talu wedi pasio yn ôl oed fel a ganlyn:

	31 Mawrth	31 Mawrth
	2016	2017
	£'000	£'000
Llai na tri mis	1,547	2,247
Rhwng tri a chwe mis	830	840
Rhwng chwe mis a blwyddyn	991	1,434
Mwy na blwyddyn	4,548	4,763
	<u>7,916</u>	<u>9,284</u>

Mae'r Cyngor yn cyflwyno tâl cyfreithiol ar eiddo lle, er enghraifft, mae'r cleientiaid angen cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol ond nad ydynt yn gallu fforddio talu'n syth. £718,000 oedd cyfanswm y warant gyfochrog ar 31 Mawrth 2017.

Risg Hylifedd

Mae gan yr Awdurdod fynediad parod at fenthyciadau gan y Marchnadoedd Arian i fodloni unrhyw anghenion beunyddiol o ran llif arian, ac er mai darparu mynediad at gronfeydd tymor hwy wna'r BBGC mae hefyd yn gweithredu fel benthyciwr cyfle olaf i gynghorau (er na fydd yn darparu arian i gyngor sy'n gweithredu'n anghyfreithiol). Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn ei gwneud yn ofynnol hefyd bod yr Awdurdod yn darparu cyllideb gytbwys sy'n sicrhau bod digon o arian yn cael ei godi i dalu am y gwariant blynyddol. Felly nid oes unrhyw risg o bwys na fydd yn gallu codi arian i fodloni ei ymrwymadau o dan offerynnau ariannol.

Mae'r Awdurdod yn rheoli ei sefyllfa o ran hylifedd drwy'r gweithdrefnau rheoli risg a nodir uchod (pennu a chymeradwyo dangosyddion darbodus a chymeradwyo polisïau a strategaeth rheoli'r trysorlys) a yn ogystal â thrwy system gynhwysfawr i reoli llif arian, yn unol â'r Côd Ymarfer. Nod hyn yw sicrhau y bydd arian ar gael pan fydd ei angen.

Ail gyllido a Risg Aeddfedwydd

Mae'r Awdurdod yn cynnal portffolio sylweddol o ddyledion a buddsoddiadau. Er mai'r gweithdrefnau ar gyfer risgiau ail gyllido a ddefnyddir mewn perthynas â'r gweithdrefnau llif arian a nodir uchod, mae'r risg yn y tymor hwy i'r Awdurdod yn ymwneud â rheoli'r buddsoddiad mewn offerynnau ariannol newydd pan fydd y rhai presennol yn aeddfedu. Mae'r risg hwn yn berthnasol pan fo atebolrwydd ariannol tymor hir ac asedau ariannol tymor hir yn aeddfedu.

Cyfyngiadau'r dangosydd darbodus a gymeradwywyd ar gyfer trefniadau ad-dalu benthyciadau a'r cyfyngiadau a osodir ar fuddsoddiadau sy'n hwy na blwyddyn yw'r paramedrau allweddol a ddefnyddir i ymdrin â'r risg hwn. Mae polisïau a'r strategaeth a

gymeradwywyd gan yr Awdurdod ar gyfer rheoli'r trysorlys yn ymdrin â'r prif risgiau ac mae tîm y trysorlys yn ymdrin â'r risgiau gweithredol o fewn y paramedrau a gymeradwywyd. Mae hyn yn cynnwys:

- monitro proffil aeddfedwydd atebolrwydd ariannol a newid y proffil naill ai drwy fenthyciadau newydd neu aildrefnu'r ddyled bresennol; a
- mae monitro proffil aeddfedwydd y buddsoddiadau i sicrhau bod digon o hylifedd ar gael i fodloni anghenion beunyddiol yr Awdurdod o ran llif arian, a thaenu buddsoddiadau tymor hir yn sefydlogi taliadau aeddfedwydd ac elw ar gyfer anghenion llif arian dros dymor hir.

Isod, ceir dadansoddiad ynghylch aeddfedwydd y rhwymedigaethau ariannol, ynghyd ag uchafswm ac isafswm yr hyn a allai fod yn daladwy gan yr Awdurdod.

	2015-16			2016-17		
	Uchafswm Cymeradwy	Isafswm Cymeradwy	31 Mawrth 2016 £'000	Uchafswm Cymeradwy	Isafswm Cymeradwy	31 Mawrth 2017 £'000
	%	%		%	%	
Llai na blwyddyn	15	0	9,013	15	0	13,203
1-2 flynedd	25	0	9,970	25	0	7,029
2-5 mlynedd	50	0	24,668	50	0	23,857
5-10 mlynedd	50	0	41,348	50	0	42,978
Mwy na 10 mlynedd	100	25	294,439	100	25	304,206
			379,438			391,273

Mae dadansoddiad o aeddfedwydd atebolrwydd ariannol fel a ganlyn:

	2015-2016 £'000	2016-2017 £'000
Llai na blwyddyn	8,038	22,155
Mwy na blwyddyn	781	732
	8,819	22,887

Mae'r holl ddyledion a symiau eraill i'w talu i fod i gael eu talu mewn llai na blwyddyn ac nid yw'r £17.416 miliwn o ddyledion masnachol wedi'u cynnwys yn y tabl uchod.

Risg y Farchnad

Risg Cyfradd Llog – Mae'r Awdurdod yn agored i symudiadau yn y cyfraddau llog ar ei fenthyciadau a'i fuddsoddiadau. Mae symudiadau mewn cyfraddau llog yn cael effaith gymhleth ar yr Awdurdod, yn dibynnu ar sut y mae cyfraddau llog sefydlog a chyfraddau amrywiol yn symud ar draws gyfnodau gwahanol yr offerynnau ariannol. Er enghraifft byddai codiad yn y cyfraddau llog sefydlog a'r cyfraddau amrywiol yn cael yr effeithiau canlynol:

- benthyciadau cyfradd amrywiol – bydd cost y llog a godir ar y Cyfrif Incwm a Gwariant yn codi;
- benthyciadau cyfradd sefydlog – bydd gwerth teg yr atebolrwydd benthyg yn disgyn(dim effaith ar balansau refeniw);
- buddsoddiadau cyfradd amrywiol – bydd incwm y llog a gredydir i'r Cyfrif Incwm a Gwariant yn codi; a

- buddsoddiadau cyfraddau sefydlog – bydd gwerth teg yr asedau yn disgyn (dim effaith ar balansau refeniw).

Nid yw benthyciadau yn cael eu cario ar y fantolen yn ôl eu gwerth teg, felly ni fyddai enillion a cholledion nominal ar fenthyciadau cyfradd sefydlog yn effeithio ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Fodd bynnag bydd newidiadau yn y llog a delir ac a dderbynnir ar fenthyciadau a buddsoddiadau cyfradd amrywiol yn cael eu cynnwys yn y Cyfrif Incwm a Gwariant ac yn effeithio ar Falans y Gronfa Gyffredinol, yn amodol ar ddylanwadau grantiau'r Llywodraeth. Bydd symudiadau yng ngwerth teg buddsoddiadau cyfradd sefydlog yn cael eu hadlewyrchu yn Datganiad am y symudiadau yng Nghronfeydd, os na fydd y buddsoddiadau wedi cael eu dynodi yn rhai Gwerth Teg drwy'r Cyfrif Incwm a Gwariant.

Mae gan yr Awdurdod nifer o strategaethau ar gyfer rheoli risg cyfraddau llog. Mae Strategaeth Flynyddol Rheoli'r Trysorlys a'r Rhaglen Cyfalaf 3 blynedd yn dwyn ynghyd ddangosyddion darbodus y Cyngor a gweithrediadau disgwylidig y trysorlys, gan gynnwys disgwylid y bydd y cyfraddau llog yn symud. O'r Strategaeth hon pennir dangosydd darbodus i ddarparu'r terfynau uchaf ac isaf o ran cyfraddau llog sefydlog ac amrywiol y bydd yr Awdurdod yn agored iddynt.

Mae'r risg o wneud colled ar gyfraddau llog yn cael ei liniaru'n rhannol gan grant y Llywodraeth sy'n daladwy ar gyfer cyllido costau.

Pe byddai pob cyfradd llog wedi bod 1% yn uwch (a bod yr holl amrywiadau eraill yn gyson) byddai'r effaith ariannol fel a ganlyn:

	£'000
Cynnydd yn y llog i'w dalu ar fenthyciadau cyfradd amrywiol	0
Cynnydd yn y llog i'w dderbyn ar fuddsoddiadau cyfradd amrywiol	(356)
Cynnydd yn y grant derbyniadwy gan Lywodraethau i ariannu costau	(155)
Effaith ar y Warged neu Ddiffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau	(511)
Cyfran o'r holl effaith a ddebydwyd i'r Cyfrif Refeniw Tai*	235
Gostyngiad yng ngwerth teg asedau buddsoddi cyfradd sefydlog	0
Effaith ar Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall	(276)
Gostyngiad yng ngwerth teg rhwymedigaethau benthyciadau cyfradd sefydlog (dim effaith ar y Warged neu Ddiffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau nac Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall)	88,420

Oddeutu'r un effaith â'r uchod a gâi gostyngiad o 1% yn y cyfraddau llog ond y byddai'r symudiadau i'r gwrthwyneb. Seilir y tybiaethau hyn ar yr un fethodoleg ag a ddefnyddir yn y Nodyn – Cario Gwerth Teg yr Asedau a'r Atebolrwydd yn ôl y Costau Amorteiddio

Risg Prisiau – Nid yw'r Awdurdod, ac eithrio'r Gronfa Bensiwn, yn buddsoddi mewn cyfranddaliadau ecwiti. Nid yw felly'n agored i golledion yn codi oherwydd symudiadau mewn prisiau.

Risg Cyfnewidfa Dramor – Nid oes gan yr Awdurdod unrhyw asedau nac atebolrwydd ariannol mewn arian tramor. Nid yw felly yn agored i golledion yn codi o oherwydd symudiadau yn y cyfraddau cyfnewid.

Kaupthing Singer and Friedlander Ltd (KSF)

Ar ddechrau mis Hydref 2008, roedd banc Kaupthing o Wlad yr Iâ wedi methu a rhoddwyd Kaupthing, Singer and Friedlander, sef ei is-gwmni yn y Deyrnas Unedig yn nwylo'r gweinyddwyr. Roedd gan yr Awdurdod £4 miliwn ar gadw yn y banc, gyda amrywiaeth o ddyddiadau aeddfedrwydd a cyfraddau llog.

Fe wnaeth yr Awdurdod ddarpariaeth yn 2008-09 mewn perthynas â amhariad disgwyledig yn y dyfodol rhag ofn byddai'r rheoliadau yn darfod ar 31 Mawrth 2017 a'r Cyngor yn gorfod ysgwyddo'r effaith o'r amhariad. Yn 2016-17 rhyddhawyd £21,000 o'r ddarpariaeth ac mae £781,000 yn cael ei gynnal wrth gefn ar gyfer newidiadau yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd, mae holl arian y sefydliad hwn ynghlwm wrth y broses y mae'r gweinyddwyr a'r derbynwyr yn ei chyflawni. Y gweinyddwyr/derbynwyr fydd yn penderfynu ar y symiau a delir i'r adnewwyr, megis yr Awdurdod, a phryd y gwneir y taliadau hynny.

O ran Kaupthing, Singer & Friedlander Ltd, cafodd cyfanswm o £3.370 miliwn (84.25%) ei ad-dalu i 2016-17. Disgwylir y bydd ad-daliad pellach o 2.00% (amcangyfrif) yn dod i law, gan olygu mai 86.25% fydd cyfanswm y difidendau y rhagwelir y byddant yn cael eu talu.

Mae'r sefyllfa gyfredol o ran taliadau gwirioneddol a gafwyd a symiau amcangyfrifedig i'w talu yn y dyfodol fel y'i dangosir yn y tabl.

Dyddiad	Ad-daliad
Wedi eu derbyn yn barod	84.25%
Cwarter 1 2017-18	0.90%
Cwarter 3 2017-18	0.25%
Cwarter 4 2018-19	0.85%

Mae'r adferiadau'n cael eu mynegi fel canran o'r hyn y mae'r Awdurdod yn ei hawlio dan y gweinyddu ariannol, sy'n cynnwys y llog a gronid hyd 7 Hydref 2008.

6.47 Harbwr Porth Tywyn

Mae ystod o bwerau a dyletswyddau statudol wedi'u rhoi i Gyngor Sir Caerfyrddin er mwyn gwella, cynnal a rheoli harbwr Porth Tywyn, a hynny drwy Orchymyn Adolygu Harbwr Porth Tywyn 2000. Yn unol â Deddf Harbyrau 1964, mae'n ofynnol i awdurdodau harbwr statudol lunio datganiad cyfrifon blynyddol ynghylch gweithgareddau'r harbwr. Ar hyn o bryd, caiff gweithgareddau'r harbwr eu cynnwys yn natganiad cyfrifon yr Awdurdod, a'r ffigurau perthnasol yw:

2015-16 £'000	<u>Gwariant</u>	2016-17 £'000
34	Costau sy'n gysylltiedig â Chyflogeion	34
28	Costau sy'n gysylltiedig ag Eiddo	23
0	Costau sy'n gysylltiedig â Thrafnidiaeth	0
78	Cyflenwadau a Gwasanaethau	65
35	Adennill Costau Canolog	55
5	Adennill Costau Is-adrannol ac Adrannol	0
170	Costau Cyfalaf	170
350	Cyfanswm Gwariant	347
	<u>Incwm</u>	
(119)	Ffioedd a'r Costau y gellir eu Hadennill	(99)
(1)	Incwm Arall	(1)
(120)	Cyfanswm Incwm	(100)
230	Costau Net	247

2015-16 £'000	<u>Yr Asedau a ddelir:</u>	2016-17 £'000
3,223	Seilwaith, Tir ac Adeiladau	3,143
737	Peiriannau / Cerbydau / Cyfarpar	670
0	Asedau sy'n cael eu hadeiladu	55
3,960		3,868

Mae datganiad balans a chyfrif incwm a gwariant blynyddol ar wahân wedi'u llunio ar gyfer Harbwr Porth Tywyn yn unol â'r trothwy 'corff llai' a ddiffinnir yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. Mae'r datganiad ar wahân ar gael oddi wrth Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol, Adran y Gwasanaethau Corfforaethol, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP.

6.48 Cysoniad y Gwarged Net â'r Llif Arian Net o'r Gweithgareddau Refeniw

2015-16 £'000	2016-17 £'000
(219,055) Gwarged/(Diffyg) am y Flwyddyn	(24,082)
37,764 Dibrisiant	41,489
136,147 Amhariad a Phrasiadau Disgynnol	8,745
(7,091) Cynydd/(Gostyngiad) yn y Credydwy	2,182
5,635 (Cynydd)/Gostyngiad yn y Dyledwy	(3,404)
60 (Cynydd)/Gostyngiad yn Stocrestrau	29
(16,835) Symudiad o ran Atebolwydd Pensiwn	(13,412)
92,519 Trafodion eraill heblaw arian	15,257
29,144 Llif Arian Net o'r Gweithgareddau Gweithredol	26,804

6.49 Nodyn i'r EFA - Esboniad Naratif**Addasiad at Ddibenion Cyfalaf**

Llinellau gwasanaeth - ychwanegu enillion a cholledion ailbriso, dibrisiant, ac amharu a didynnu cyllid refeniw uniongyrchol

Mae Gwariant ac Incwm Arall yn cynnwys y canlynol:

Gwariant Gweithredu Arall - Addasiadau ar gyfer gwarediadau cyfalaf gyda throsglwyddiad incwm a geir drwy waredu asedau a'r symiau a gaiff eu dileu o ran yr asedau hynny.

Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi - didynnu'r taliadau statudol ar gyfer cyllido cyfalaf (MRP) a chaiff cyfraniadau refeniw eraill eu didynnu o incwm a gwariant arall gan na chaiff y rhain eu codi o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol.

Trethiant, ac incwm a gwariant grant amhenodol - mae grantiau cyfalaf yn cael eu haddasu ar gyfer incwm nad yw'n cael ei godi o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Caiff grantiau refeniw eu haddasu o'r rhai sy'n dderbyniadwy yn ystod y flwyddyn i'r rheiny sy'n dderbyniadwy heb amodau neu roedd yr amodau ar eu cyfer wedi eu bodloni gydol y flwyddyn. Mae credydau ar gyfer grantiau cyfalaf sy'n dderbyniadwy yn ystod y flwyddyn heb amodau neu roedd yr amodau ar eu cyfer wedi eu bodloni gydol y flwyddyn.

Newid Net ar gyfer Addasiadau Pensiynau

Llinellau gwasanaeth - cyfraniadau gan y cyflogwr a wneir gan yr Awdurdod yn cael eu gwaredu fel y caniateir yn ôl y gyfraith ac yn cael eu disodli gan y costau gwasanaeth presennol a'r costau gwasanaeth yn y gorffennol.

Mae Gwariant ac Incwm Arall yn cynnwys y canlynol:

Incwm Cyllido a Buddsoddi - mae'r llog net ar y rhwymedigaeth buddion diffiniedig yn cael ei godi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Gwahaniaethau Eraill

Llinellau gwasanaeth - addasiadau ar gyfer tâl gwyliau a drosglwyddwyd i'r gronfa gronedig absenoldeb.

Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi - addasiadau i'r Gronfa Gyffredinol ar gyfer y gwahaniaethau amseru ar gyfer premiymau a gostyngiadau.

6.50 Addasu ffigurau'r cyfnod blaenorol

Nid oes addasiadau i'r ffigurau am y cyfnod blaenorol

Y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

Ailddatganiad Cymharydd

Bellach mae'r Côt yn ei gwneud yn ofynnol i'r dadansoddiad gwasanaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr gael ei seilio ar y strwythur trefniadol y mae'r Cyngor yn ei ddefnyddio i weithredu a rheoli ei wasanaethau. Yn flaenorol, cafodd y cyflwyniad ei seilio ar y dadansoddiad gwariant gwasanaeth a bennwyd yn y Côt Adrodd Gwasanaeth ar gyfer Awdurdodau Lleol (SeRCOP) CIPFA. Cafodd ffigurau 2015/16 eu hailddatgan er mwyn adlewyrchu'r newid hwn. Nid oes dim effaith net ar Gost y Gwasanaethau, ac mae'r ailddatganiad ond yn effeithio ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Gwargedion/Diffygion ar y Gweithgareddau Masnachu nas cynhwysir yng Nghost Net y Gwasanaethau

O'r blaen roedd y categori hwn wedi'i gynnwys o dan Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi ond mae wedi cael ei symud i Wariant Gweithredu Arall.

7 Y CYFRIF REFENIW TAI (CRT)**7.1 Datganiad Incwm a Gwariant CRT**

2015-16 £'000		2016-17 £'000
	Gwariant	Nodiadau
	Atgyweiro a Chynnal a Chadw	
2,158	- Ymatebol	2,627
4,102	- Cynlluniwyd/Cylchredol	4,635
2,674	- Tai Gwag	2,677
6,698	Goruwchwilio a Rheoli	6,956
1,354	Taliadau Cymorth Canolog	1,265
279	Rhenti, Ardrethi Trethi a chostau eraill	272
258	Newidiadau i'r lwfans ar gyfer drwgddyledion	223
145,663	Dibrisiant ac Amhariad Asedau nad ydynt yn gyfredol	8.11 15,624
78,992	Gwariant Refeniw a Gyllidir gan Gyfalaf dan Statud	9
62	Costau Rheoli Dyledion	34
242,240	Cyfanswm Gwariant	34,322
	Incwm	
(34,971)	Rhenti Anheddau	8.1 (36,229)
(93)	Rhenti nad ydynt yn Annedd	(109)
6	Lesdeiliaid	8.2 (28)
(937)	Ffioedd Gwasanaethau	8.2 (740)
(135)	Grantiau	8.6 (135)
(622)	Incwm Arall	(499)
(492)	Comisiwn - Trethi Dwr	8.7 (520)
(37,244)	Cyfanswm Incwm	(38,260)
204,996	Cost Net Gwasanaethau y CRT fel y mae wedi ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant	(3,938)
283	Cyfran Gwasanaethau y CRT o'r Craidd Corfforaethol a Democrataidd	283
205,279	(Incwm)/Cost net Gwasanaethau CRT	(3,655)
	Cyfran CRT yr incwm a gwariant gweithredol a gynhwysir yn Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	
14	(Cynydd) neu ostyngiad ar werthu Asedau nad ydynt yn gyfredol CRT	21
9,942	Y Llôg sy'n daladwy a chostau cyffelyb	9,681
(56)	Y Llôg a geir a'r incwm buddsoddi	(49)
194	Llog net ar y rhywmedigaeth/(ased) buddion diffiniedig net	224
(6,457)	Grantiau a chyfraniadau cyfalaf derbyniadwy	(6,228)
208,916	(Gwarged) neu Diffyg am y flwyddyn ar Wasanaethau CRT	(6)

7.2 Datganiad Newidiadau i'r Cyfrif Refeniw Tai

Mae'r amcanion cyffredinol ar gyfer y Datganiad Newidiadau i'r Cyfrif Refeniw Tai a'r egwyddorion cyffredinol ar gyfer ei lunio yr un peth â'r rheiny'n gyffredinol ar gyfer y Datganiad Newidiadau i Gronfeydd, y mae wedi'i gynnwys ynddo. Mae'r datganiad yn cymryd yr alldro ar Ddatganiad Incwm a Gwariant y Cyfrif Refeniw Tai ac yn ei gysoni i'r warged neu ddiffyg ar gyfer y flwyddyn ar Falans y Cyfrif Refeniw Tai, wedi'i gyfrifo'n unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

2015-16			2016-17	2016-17
£'000			£'000	£'000
(10,662)	Balans ar y CRT ar ddiwedd y flwyddyn blaenorol			(9,120)
	(Gwarged) neu ddiffyg ar gyfer y flwyddyn ar Gyfrif Incwm a Gwariant y CRT			(6)
208,916				
	Addasiadau rhwng sail cyfrifyddu a sail ariannu o dan y statud	7.3	(4,825)	
(207,414)				
	Cynnydd neu (ostyngiad) net cyn trosglwyddiadau i neu o gronfeydd			(4,831)
1,502				
	Trosglwyddiadau (i) neu o gronfeydd	7.4	(60)	
40				
	(Cynnydd) neu ostyngiad yn y flwyddyn ar y CRT			(4,891)
1,542				
(9,120)	Balans ar y CRT ar ddiwedd y flwyddyn gyfredol			(14,011)

7.3 Addasiadau rhwng y Sail Cyfrifyddu a'r Sail Ariannu yn unol â'r Rheoliadau

2015-16			2016-17
£'000			£'000
(33)	Amorteiddio Premimau a Disgowntiau		(52)
(6)	Trosglwyddiadau i / (o'r) Cyfrif Absoneldebau Cronedig		(6)
(14)	Cynnydd neu ostyngiad ar werthu Asedau CRT anghyfredol		(30)
(341)	Cyfran CRT o'r cyfraniadau i / o'r Gronfa Pensiynau		(330)
8,493	Gwariant Cyfalaf cyllidwyd gan CRT		782
(215,513)	Trosglwyddiadau i / o'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf		(5,189)
(207,414)			(4,825)

7.4 Trosglwyddiadau i neu (o'r) Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Glustnodi

2015-16				2016-17		
£'000	£'000	£'000		£'000	£'000	£'000
Tros. o	Tros. i	Net		Tros. o	Tros. i	Net
211	(213)	(2)	Cronfa Yswiriant	204	(310)	(106)
41	0	41	Salix	41	0	41
1	0	1	Cronfa Ymddeoliad Corfforaethol	5	0	5
253	(213)	40		250	(310)	(60)

8 NODIADAU I'R DATGANIAD INCWM A GWARIANT Y CYFRIF REFENIW TAI (CRT)**Cyflwyniad**

Cofnod yw'r Cyfrif Refeniw Tai o'r incwm a'r gwariant refeniw sy'n gysylltiedig â stoc dai awdurdod. Prif ddiben y Cyfrif yw sicrhau bod y rhenti a godir ar denantiaid yn cyfateb i'r gwariant ar reoli tenantiaethau ac ar gynnal a chadw tai. Yn sgil hyn cyfrif statudol yw'r Cyfrif Refeniw Tai, sydd wedi ei neilltuo rhag gweddill Cronfa'r Cyngor, fel na ellir defnyddio arian treth y cyngor i gynorthwyo â rhenti (neu i'r gwrthwyneb).

8.1 Incwm Rhenti Grôs

Dyma gyfanswm yr incwm rhent a ddisgwyllir yn ystod y flwyddyn ar ôl caniatáu am adeiladau gwag a.y.y.b. Yn 2016-17 y cyfanswm oedd £36.2 miliwn (£34.9 miliwn am 2015-16). Ar 31 Mawrth 2017 roedd 1.99% o'r eiddo a oedd ar gael i'w gosod, yn wag (2.17% yn 2015-16). Cyfartaledd y rhenti oedd £78.79 yr wythnos yn 2016-17 (£76.30 yn 2015-16).

8.2 Taliadau Gwasanaethau a Lesddeiliaid

Hwn yw incwm yr Awdurdod o daliadau am wasanaethau a chyfleusterau yn gysylltiedig â darparu tai ac eiddo arall o fewn y Cyfrif Refeniw Tai – £768,000 yn 2016-17 (£931,000 yn 2015-16).

8.3 Ad-daliadau

Mae'r Cynllun Budd-daliadau Tai yn rhoi cymorth gyda rhenti i'r rhai hynny sydd ar incwm isel. Y cyfanswm oedd £22 miliwn yn 2016-17 (£21.6 miliwn am 2015-16). Mae 64.9% o denantiaid y Cyngor yn cael rhywfaint o gymorth gyda chostau rhent a Threth y Cyngor (65.3% yn 2015-16).

8.4 Y Stoc Dai

Roedd y Cyngor yn gyfrifol am reoli 9,019 o anheddau ar gyfartaledd yn ystod 2016-17 (8,993 yn 2015-16). Roedd y stoc ar 31 Mawrth 2017 fel â ganlyn:

	2015-16	2016-17
Tai	4,858	4,887
Fflatiau/Rhandai/Fflat un ystafell	1,970	1,967
Byngalos	2,174	2,181
	9,002	9,035

Gellir crynhoi'r newid yn y stoc fel â ganlyn:

	2015-16	2016-17
Y Stoc Agoriadol ar 1 Ebrill	8,983	9,002
Gwerthiannau	(4)	0
Dymchweliadau/Dilewyd	0	0
Adeiladu o'r Newydd/Prynu/Trosi	23	33
Y Stoc wrth Gau 31 Mawrth	9,002	9,035

8.5 Ôl-ddyledion Rhent

	Ar 31 Mawrth 2016	Ar 31 Mawrth 2017
	£'000	£'000
Ôl-ddyledion	2,115	1,887
Ôl-ddyledion fel Canran o'r Incwm Gros o Renti	5.93%	5.11%

O gymharu â'r flwyddyn flaenorol mae yna leihad o 0.5% yn ôl-ddyledion y tenantiaid presennol, o ran y ganran o ddebyd gros sydd i'w gasglu. Mae'r perfformiad y tu allan i'r ffiniau o ran yr hyn a ystyrir yn lefel arferion da (2%) sef 2.61%. O gymharu â'r flwyddyn flaenorol mae yna leihad o 0.32% yn ôl-ddyledion y cyn-denantiaid, o ran y ganran o'r debyd gros sydd i'w gasglu. Fodd bynnag, gan gyfrif y £331,000 dyledion a ddilëir, mewn gwirionedd bu gwelliant o 0.6% yn y perfformiad.

Roedd y ddarpariaeth ar gyfer Drwgddyledion ar 31 Mawrth 2017 yn £995,446 ar gyfer rhent (£1,050,633 yn cynnwys trethi dŵr). Y rhifau cyfatebol ar gyfer 2015-16 oedd £1,052,587 ar gyfer rhent (£1,158,599 yn cynnwys trethi dŵr).

8.6 Grantiau

Derbyniwyd Grant Cynnal Pobl £135,000 oddi wrth Lywodraeth Cymru yn ystod 2016-17 (£135,000 yn 2015-16) o ganlyniad i ddosbarthu costau gwasanaethau cynnal i denantiaid a arferai fod mewn un cronfa.

8.7 Comisiwn

Mae'r Awdurdod yn casglu trethi dŵr ar ran Dŵr Cymru Welsh Water ac yn derbyn comisiwn ar yr arian sy'n ddyledus. Yn 2016-17 roedd hwn yn £489,000 (£492,000 yn 2015-16) heb y golled yn sgil eiddo gwag. Gwerth y trethi dŵr a gasglwyd oedd £3.8 miliwn yn 2016-17 (£3.8 miliwn yn 2015-16).

8.8 Gwariant Cyfalaf

Cyfanswm y Gwariant Cyfalaf yn 2016-17 ar dir a phreswylfeydd sydd ynghlwm wrth y Cyfrif Refeniw Tai oedd £14.851 miliwn (£15.269 miliwn yn 2015-16). Gwariwyd £78.969 miliwn yn ogystal ar brynu allan y cymhorthdal CRT. Hefyd bu i'r cytundeb i adael osod terfyn ar y benthyca y gallem ei wneud mewn perthynas â'n gweithgareddau Cyfrif Refeniw Tai.

	2015-16	2016-17
	£'000	£'000
Cyllidwyd hyn fel â ganlyn :-		
Lwfans Atgyweiriadau Sylweddol	6,166	6,170
Benthyciadau	78,969	7,660
Derbyniadau Cyfalaf - Gwerthiant Preswylfeydd/Tir	316	175
Grantiau	194	11
Derbyniadau Cyfalaf - Prifswm Morgais	2	6
Incwm Amrywiol	98	47
Cyllid Refeniw Uniongyrchol	8,493	782
	94,238	14,851
Gwariwyd ar:		
Tai	94,238	14,145
Tir	0	477
Eraill	0	229
	94,238	14,851

8.9 Derbyniadau Cyfalaf

Roedd cyfanswm y Derbyniadau Cyfalaf yn 2016-17 yn £0.115 miliwn (£0.4 miliwn yn 2015-16). Mae'r tabl isod yn dangos y math o dderbyniad a faint ohono a ddefnyddiwyd i gyllido gwariant cyfalaf a faint ohono a ddefnyddiwyd i ad-dalu dyledion.

	Cyllido Gwariant 2015-16 £'000	Ad-dalu dyledion 2015-16 £'000	Cyfanswm 2015-16 £'000	Cyllido Gwariant 2016-17 £'000	Ad-dalu dyledion 2016-17 £'000	Cyfanswm 2016-17 £'000
Gwerthu Preswylfeydd y Cyngor	17	118	135	59	0	59
Gwerthu Tir	300	0	300	43	0	43
Morgais a fenthycwyd	2	5	7	1	4	5
Arall	0	0	0	8	0	8
	319	123	442	111	4	115

8.10 Cyfrifyddu ar gyfer Costau Pensiynau yn unol ag IAS19

Caiff didyniadau gwirioneddol ar gyfer cyfraniadau pensiynau ac unrhyw addasiad ar gyfer cost gwasanaeth cyfredol eu dangos yng nghost net y gwasanaeth. Caiff costau llog net eu cynnwys yn y warged/diffyg ar wasanaethau'r Cyfrif Refeniw Tai ac yna eu haddasu yn y datganiad newidiadau i gronfeydd, er mwyn sicrhau mai dim ond debydau/credydau statudol rhagnodedig wedi'u cyfrifyddu'n unol â Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 a gaiff eu cymhwyso i'r Cyfrif Refeniw Tai.

Gwnaed y trafodion canlynol yn ystod y flwyddyn:-

	2015-16 £'000	2016-17 £'000
<u>Datganiad Incwm a Gwariant CRT</u>		
Cost y Gwasanaeth:		
Cost y Gwasanaeth Cyfredol	599	608
Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi		
Costau llog Net	776	905
Cyfanswm y Budd-daliadau ôl gyflogaeth a godwyd i'r warged neu (ddiffyg) am y flwyddyn ar Gwasanaethau CRT	1,375	1,513
<u>Datganiad Newidiadau i Gronfeydd</u>		
Gwrthdroi symiau net a godwyd i'r warged neu (ddiffyg) am y flwyddyn ar Gwasanaethau CRT ar gyfer Budd-daliadau ôl gyflogaeth yn unol â'r côd	(794)	(832)
Swm gwirioneddol a godwyd yn erbyn Balans CRT ar gyfer pensiynau yn y flwyddyn:		
Cyfraniadau Cyflogwr sy'n daladwy i'r cynllun	453	502
	(341)	(330)

8.11 Dibrisiant

Mae'n ofynnol bod awdurdodau'n cofnodi dibrisiant a cholledion amharu ar bob eiddo sy'n rhan o'r Cyfrif Refeniw Tai ac a gyfrifwyd yn unol ag arferion priodol, gan gynnwys eiddo heblaw preswylfeydd. Nid yw Eitem 8 Penderfyniad yn datgan y dylid debydu'r dibrisiant o Gyfrif Incwm a Gwariant y Cyfrif Refeniw Tai (nac ychwaith y dylid ei dynnu yn ôl allan yn y Datganiad o'r Symudiadau ym malans y Cyfrif Refeniw Tai). Fodd bynnag, derbyniwyd yn gyffredinol bod cyflwyno cyfrifydda adnoddau yn y Cyfrif Refeniw Tai yn 2005/06 yn golygu bod modd bodloni'r gofynion statudol ar sail 'dim effaith net'. Gellir gwneud y debydau a'r credydau disgwyliedig gan arferion priodol (ond heb eu pennu yn y ddeddf) i'r Cyfrif Refeniw Tai ar yr amod y cânt eu tynnu yn ôl wedyn ac y defnyddir symiau statudol wrth gyfrifo balans y Cyfrif Refeniw Tai.

Felly mae dibrisiad a cholledion amharu (yn sgil defnyddio'r asedau) mewn perthynas ag asedau'r Cyfrif Refeniw Tai wedi cael eu debydu i'r Cyfrif Incwm a Gwariant yn unol â darpariaethau cyffredinol SORP a'u tynnu yn ôl allan yn y Symudiadau ym malans y Cyfrif Refeniw Tai. Yn lle'r tâl dibrisiad, cofnodwyd Darpariaeth Refeniw Isaf y Cyfrif Refeniw Tai ar ffurf credyd o'r Cyfrif Cyllid Cyfalaf i osgoi effeithio lefelau rhenti.

Mae preswylfeydd y Cyfrif Refeniw Tai yn cael eu hailbrisio bob pum mlynedd, a cafodd hyn eu wneud diwethaf ar 1 Ebrill 2015.

Dibrisiant a Cholledion Amhariad:

	2015-16	2016-17
	£'000	£'000
Y Dibrisiant o ran Preswylfeydd	11,174	11,185
Amhariadau a Cholledion Adbriso	134,489	4,439
	<u>145,663</u>	<u>15,624</u>

Amhariadau a Cholledion Adbriso ar:

	2015-16	2016-17
	£'000	£'000
Tai	134,489	4,000
Tir	0	46
Eraill	0	393
	<u>134,489</u>	<u>4,439</u>

9 CYFRIF CRONFA'R DEGWM DYFED

Mae Cronfa'r Degwm Dyfed yn gynllun sydd yn bennaf yn rhoi grantiau tuag at gostau cynnal a chadw addoldai. Er hynny, gall elusennau cofrestredig sy'n dod â budd i drigolion wneud cais am gymorth tuag at gostau rhedeg, neu gost prosiect penodol neu gost prynu offer. Yn ogystal â chynorthwyo elusennau cenedlaethol, mae'r Gronfa'n cefnogi elusennau lleol sy'n gyfrifol am ddarparu cyfleusterau hamdden neu wasanaethau eraill sydd o les i'r Gymuned.

Adeg Ad-drefnu Llywodraeth Leol yn 1996 rhannwyd y Gronfa ymhlith yr Awdurdodau Unedol newydd. Roedd y swm a oedd ar gael i bob Awdurdod yn cael ei gyfrifo yn ôl y canrannau canlynol y cytunwyd arnynt:

Cyngor Sir Caerfyrddin	41%
Cyngor Sir Ceredigion	25%
Cyngor Sir Benfro	34%

Cytunwyd mai Cyngor Sir Caerfyrddin fyddai'n gyfrifol am weinyddu'r portffolio buddsoddiadau.

Mae'r cyfrifon canlynol yn rhoi adroddiad ar y trafodion ariannol yn ystod y flwyddyn a sefyllfa asedau'r gronfa gyfan, sy'n cael ei gweinyddu gan Gyngor Sir Caerfyrddin ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r ail set o gyfrifon yn rhoi manylion cyfran rhan Gyngor Sir Caerfyrddin o Gronfa'r Degwm Dyfed ar wedi cymhwyso'r ganran a bennwyd yn sgil Ad-drefnu Llywodraeth Leol.

9.1 Cyfrifon Cronfeydd a weinyddir gan Gyngor Sir Caerfyrddin

Cyfrif Refeniw

2015-16 £'000 31/03/16		2016-17 £'000 31/03/17
	Incwm	
(14)	Rhentu Adeiladau/Tir	(14)
(72)	Incwm o Fuddsoddiadau	(72)
(6)	Incwm arall	(2)
<hr/> (92)		<hr/> (88)
	Gwariant	
195	Grantiau i gyrff Gwirfoddol a Chyrff Eraill	110
17	Rheoli a Gweinyddiaeth	17
0	Ffioedd Proffesiynol	4
<hr/> 120	(Gwarged)/Diffyg y Cyfrif Refeniw am y Flwyddyn	<hr/> 43
(39)	Elw Net ar Werthu Buddsoddiadau	(46)
162	Newid mewn (enillion)/colledion heb eu realeiddio ar fuddsoddiadau	(571)
0	Newid mewn (enillion)/colledion heb eu realeiddio ar asedau nad ydynt yn gyfredol	0
<hr/> <hr/> 243	(Gwarged)/Diffyg Net am y Flwyddyn	<hr/> <hr/> (574)

Datganiad Asedau Net

2015-16		2016-17
£'000		£'000
31/03/16		31/03/17
3,195	Buddsoddiadau	3,733
950	Tir ac Adeiladau Eraill	950
<u>4,145</u>		<u>4,683</u>
0	Dyledwyr	0
729	Arian	692
(213)	Credydwyr	(140)
<u>4,661</u>	Asedau Net	<u>5,235</u>

Cynrhychiolir gan

431	Cyfrif Addasiad Cyfalaf	431
500	Cronfa Wrth Gefn Adbrisiadau	500
2,229	Y Gronfa Gyfalaf	2,197
516	Y Gronfa Refeniw	552
985	Y Gronfa Elw/(Colledion) heb ei realeiddio	1,555
<u>4,661</u>	Balans y Gronfa wrth Gau	<u>5,235</u>

Cysoniad y Symudiadau yn Asedau Net y Gronfa

2015-16		2016-17
£'000		£'000
4,904	Yr Asedau net Agoriadol	4,661
(120)	Gwarged/(Diffyg) y Cyfrif refeniw am y Flwyddyn	(43)
38	Elw Net ar Werthu Buddsoddiadau	46
(161)	Cronfa Elw/(Colled) heb ei realeiddio - Buddsoddiadau	571
0	Cronfa Elw/(Colled) heb ei realeiddio - Asedau nad ydynt yn gyfredol	0
<u>4,661</u>	Asedau Net y Gronfa wrth Gau	<u>5,235</u>

9.2 Cyfrifon Cronfeydd ar gyfer Efen Cyngor Sir Caerfyrddin
Cyfrif Refeniw

2015-16		2016-17
£'000		£'000
31/03/16		31/03/17
	Incwm	
(6)	Rhentu Adeiladau/Tir	(6)
(28)	Incwm Buddsoddiad	(29)
(6)	Incwm arall	0
(40)		(35)
	Gwariant	
122	Grantiau i Gyrrff Gwirfoddol a Chyrrff Eraill	45
6	Rheoli a Gweinyddiaeth	6
0	Ffioedd Proffesiynol	1
88		17
	(Gwarged)/Diffyg y Cyfrif refeniw am y Flwyddyn	
(15)	Elw Net ar Werthu Buddsoddiadau	(19)
66	Newid mewn (enillion)/colledion heb eu realeiddio ar fuddsoddiadau	(234)
0	Newid mewn (enillion)/colledion heb eu realeiddio ar asedau nad ydynt yn gyfredol	0
139	(Gwarged)/Diffyg Net am y Flwyddyn	(236)

Datganiad Asedau Net

2015-16		2016-17
£'000		£'000
1,310	Buddsoddiadau	1,531
389	Tir ac Adeiladau Eraill	389
1,699		1,920
0	Dyledwyr	0
185	Arian	137
(149)	Credydwyr	(86)
1,735	Asedau Net	1,971
	Cynrhychiolir gan	
177	Cyfrif Addasiad Cyfalaf	177
205	Cronfa Wrth Gefn Adbrisiadau	205
914	Y Gronfa Gyfalaf	901
35	Y Gronfa Refeniw	51
404	Y Gronfa Elw/(Colled) heb ei realeiddio	637
1,735	Balans y Gronfa wrth Gau	1,971

Cysoniad y Sumudiadau yn Asedau Net y Gronfa

2015-16		2016-17
£'000		£'000
1,874	Yr Asedau Net Agoriadol	1,735
(88)	Gwarged/(Diffyg) y Cyfrif Refeniw am y Flwyddyn	(17)
15	Elw Net ar Werthiannau wedi'u hail fuddsoddi	19
(66)	Cronfa Elw/(Colled) heb ei realeiddio - Buddsoddiadau	234
0	Cronfa Elw/(Colled) heb ei realeiddio - Asedau nad ydynt yn gyfredol	0
<u>1,735</u>	Asedau Net y Gronfa wrth Gau	<u>1,971</u>

10 CRONFEYDD YMDDIRIEDOLAETHAU 2016-2017**10.1 Cyfrif Derbyniadau a Thaliadau am y Flwyddyn yn Diweddu 31 Mawrth 2017**

Cyfanswm 2015-16 £'000		Gwas. Addysg 2016-17 £'000	Gwas. Cymdeith- asol 2016-17 £'000	Gwas. Diwyll- iannol 2016-17 £'000	Cyfanswm 2016-17 £'000
	Derbyniadau				
(283)	Difidendau/ Llog/ Gwerthiannau/ Cyfraniadau	(106)	(4)	(199)	(309)
305	Taliadau	101	5	170	276
<u>22</u>	(Gwarged)/Diffyg	<u>(5)</u>	<u>1</u>	<u>(29)</u>	<u>(33)</u>

10.2 Y Fantolen ar 31 Mawrth 2017

Cyfanswm 2015-16 £'000		Gwas. Addysg 2016-17 £'000	Gwas. Cymdeith- asol 2016-17 £'000	Gwas. Diwyll- iannol 2016-17 £'000	Cyfanswm 2016-17 £'000
	Asedau				
263	Buddsoddiadau	239	24	0	263
19	Stociau	0	0	17	17
1	Dyledwyr	0	0	0	0
538	Arian	275	59	238	572
<u>821</u>	Cyfanswm yr Asedau	<u>514</u>	<u>83</u>	<u>255</u>	<u>852</u>
	Rhwymedigaethau				
(3)	Credydwr	0	0	(1)	(1)
<u>(3)</u>	Cyfanswm Rhwymedigaethau	<u>0</u>	<u>0</u>	<u>(1)</u>	<u>(1)</u>
<u>818</u>	ASEDAU NET	<u>514</u>	<u>83</u>	<u>254</u>	<u>851</u>

Gwerth Llyfr y buddsoddiadau a nodir, fodd bynnag, eu Gwerth Marchnad ar 31 Mawrth 2017 oedd £824,727 (£720,125 ar 31 Mawrth 2016).

11 NODIADAU AR Y CRONFEYDD YMDDIRIEDOLAETHAU**11.1 Cefndir**

Ar hyn o bryd mae Sir Gaerfyrddin yn gyfrifol am weinyddu chwedeg o gronfeydd ymddiriedolaeth gwahanol.

11.2 Gwasanaethau Addysg

Mae'r Cyngor yn gweinyddu pumdeg un o ymddiriedolaethau addysgol, y mae'r mwyafrif ohonynt wedi'u cofrestru fel elusennau. Mae dadansoddiad y dibenion y sefydlwyd yr ymddiriedolaethau addysgol ar eu cyfer fel a ganlyn:

Gwobrau i Ddisgyblion i gydnabod Cyrhaeddiad Academaidd	16
Darparu Ysgoloriaethau Addysg Bellach neu Addysg Uwch	18
Ariannu Ysgolion (<i>gan gynnwys ysgolion anghenion arbennig</i>)	10
Eraill	7

11.3 Gwasanaethau Diwylliannol

Mae'r Cyngor yn gweinyddu dwy gronfa ymddiriedolaeth, un a sefydlwyd yn unswydd i ariannu'r oriel gelf yn "Oriol Myrddin", Caerfyrddin ac un ar gyfer Amgueddfa Caerfyrddin a elwir yn "Cronfa Ymddiriedolaeth George Arbour Stephens".

11.4 Gwasanaethau Cymdeithasol

Yn ystod y flwyddyn ariannol, roedd y Cyngor yn gyfrifol am weinyddu saith o ymddiriedolaethau ar ran cleientau'r gwasanaethau cymdeithasol. O'r rhain, roedd pump ar gael er lles trigolion cartrefi preswyl penodol ledled y Sir a dau yn ymwneud â chronfeydd sy'n cael eu gweinyddu ar ran unigolion. Oherwydd natur sensitif y ddau ymddiriedolaeth hyn a'r angen i'w cadw'n gyfrinachol, nid oes manylion yn cael eu cyhoeddi am y diben y gweinyddir pob un ar ei gyfer.

12 GOFAL CYMDEITHASOL / GWASANAETHAU PLANT – EIDDO PRESWYLWYR, CYFRIFON A GEDWIR YN DDIOGEL, CRONFEYDD AMWYNDER A CHYFRIFON BUDDION I'R STAFF

12.1 Eiddo Preswylwyr

Caniateir pobl mewn cartrefi preswyl i gael lwfans personol a delir iddynt bob wythnos. Os nad yw'r preswyllydd yn dymuno gwario'r holl lwfans mewn wythnos telir yr hyn sy'n weddill i gyfrif Cadwmigei y Preswylwyr. Roedd y balans ar 31 Mawrth 2017 yn £303,797 (£341,392 ar 31 Mawrth 2016) ac mae hyn yn adlewyrchu swm y lwfansau personol sy'n cael eu dal gan yr Awdurdod ar ran ei drigolion.

12.2 Cyfrifon a Gedwir yn Diogel

Mae'r Adran Cymunedau yn cadw Cyfrifon a Gedwir yn Ddiogel ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth sy'n byw yn y gymuned nad ydynt yn gallu delio â'u materion ariannol oherwydd anallu meddyliol. Y Cyfarwyddwr Cymunedau yw'r sawl sydd wedi'i enwebu gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer bob un o'r rhai hyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Y balans ar 31 Mawrth 2017 oedd £957,141 (£1,043,271 ar 31 Mawrth 2016) ac mae hyn yn adlewyrchu'r swm arian a ddelir gan yr Awdurdod ar ran defnyddwyr ei wasanaeth.

12.3 Cronfeydd Amwynder

Cronfeydd a gedwir ar ran sefydliadau, megis canolfannau dydd a chartrefi preswyl yw cronfeydd amwynder. Mae'r taliadau ar gyfer eitemau a brynir er budd preswylwyr a chleientiaid y sefydliadau hyn, a daw'r incwm o roddion ac anrhegion ac ati gan deuluoedd y cleientiaid, a chymynroddion o ystadau cleientiaid ymadawedig. Roedd y balans ar 31 Mawrth 2017 yn £82,753 (£74,717 ar 31 Mawrth 2016).

Hefyd cronfeydd a gedwir ar ran sefydliadau, megis canolfannau plant/cylchoedd chwarae. Mae'r taliadau ar gyfer eitemau a brynir er budd preswylwyr a chleientiaid y sefydliadau hyn, a daw'r incwm o roddion ac anrhegion ac ati gan deuluoedd y cleientiaid, a chymynroddion o ystadau cleientiaid ymadawedig. Roedd y balans ar yr 31 Mawrth 2017 yn £5,453 (£2,298 ar 31 Mawrth 2016).

12.4 Cyfrifon Buddion i'r Staff

Cronfeydd a gedwir ar ran staff sy'n gweithio mewn sefydliadau penodol a geir yn y Cyfrifon Buddion i'r Staff. Daw'r incwm o roddion gan deuluoedd cleientiaid a chymynroddion o ystadau cleientiaid ymadawedig. Mae'r taliadau ar gyfer eitemau sydd o fudd i'r holl staff sy'n gweithio mewn sefydliad penodol. Roedd y balans ar yr 31 Mawrth 2017 yn £7,846 (£8,431 ar yr 31 Mawrth 2016).

13 CYFRIFLEN CRONFA BENSIWN DYFED**ADRODDIAD NARATIF**

Mae cyfrifon y Gronfa Bensiwn Dyfed wedi'u nodi ar y tudalennau canlynol ac yn cynnwys gwybodaeth am sefyllfa ariannol, perfformiad a chymhwysedd ariannol y Gronfa am y flwyddyn 2016-17. Maent yn dangos canlyniad y gwaith o stiwardio rheolaeth, sef atebolrwydd y rheolwyr o ran yr adnoddau yr ymddiriedwyd iddynt a chyflwr ei asedau ar ddiwedd y cyfnod.

Mae cyfrifon y Gronfa Bensiwn wedi cael eu paratoi yn unol a Chôd Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2016-17 (y côd), sydd wedi'u sefydlu ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, a ddiwygiwyd i'r sector cyhoeddus. Mae'r cyfrifon hefyd yn cyfeirio tuag at Adroddiadau Ariannol Cynlluniau Pensiwn - Datganiad o Arfer a Argymhellir a gyhoeddwyd gan Grŵp Cyfrifwyr Ymchwil i Bensiynau lle mae teimlad fod y datgeliadau yma yn darparu fwy o fanylder.

Ar gyfer darllenwyr sydd â diddordeb mwy manwl neu arbenigol yng ngweithrediad y Gronfa yn ystod 2016-17, dylid cyfeirio at y ddogfen sy'n cynnwys yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blyneddol 2016-17 (pryd y'u cyhoeddwyd).

Y prif gyfrifon ac adroddiadau sydd wedi'u cynnwys yn y Gyfriflen hon yw:

- Cyfrif y Gronfa.
- Datganiad Asedau Net
- Datganiad gan yr Actiwari Ymgynghorol.

Cyfrifon y Gronfa am y Flwyddyn yn Diwedd 31 Mawrth 2017

2015-16 £'000 (ail-ddatgan)	<u>Nodyn</u>	2016-17 £'000
Trafodion gydag aelodau, cyflogwyr ac eraill sy'n ymwneud yn uniongyrchol a'r Gronfa		
Cyfraniadau		
Cyflogwyr		
36,503		36,980
7,082		7,125
7,508		7,951
Aelodau		
17,484		17,739
177		76
1,986	13.6	1,889
70,740		71,760
Budd-daliadau sy'n daladwy		
(59,798)		(61,761)
(13,392)		(13,099)
(1,400)		(1,834)
(4,027)	13.7	(3,452)
(78,617)		(80,146)
Ychwanegiadau (Tynnu Allan) Net o'r Trafodion Gydag Aelodau		
(7,877)		(8,386)
(7,015) *	13.8	(7,371)
Ychwanegiadau (Tynnu Allan) Net yn cynnwys Treuliau Rheoli		
(14,892)		(15,757)
Elw ar y Buddsoddiadau		
29,828 *	13.9	31,508
(32)	13.10	(47)
(78,090)	13.11.2	374,710
49,974	13.11.3	52,245
1,680		458,416
Cynydd (Gostyngiad) net mewn asedau net i dalu budddaliadau yn ystod y flwyddyn		
(13,212)		442,659
1,913,621		1,900,409
1,900,409		2,343,068

* 2015-16 wedi'i ail-ddatgan yn unol â chanllawiau Costau Rheoli CIPFA

Datganiad Asedau Net

31/03/2016		<u>Nodyn</u>	31/03/2017
£'000			£'000
1,894,613	Asedau buddsoddi		2,330,544
1,715	Adnau ariannol		4,880
(948)	Rhwymedigaethau buddsoddi		(246)
<u>1,895,380</u>		13.11.1	<u>2,335,178</u>
9,227	Asedau cyfredol	13.16	11,164
(4,198)	Rhwymedigaethau cyfredol	13.17	(3,274)
<u>5,029</u>	Asedau/(Rhwymedigaethau) Net Presennol		<u>7,890</u>
<u>1,900,409</u>	Cyfanswm yr Asedau Net		<u>2,343,068</u>

Cysoniad o'r Symudiadau yn Asedau Net y Gronfa

2015-16		2016-17
£'000		£'000
1,913,621	Asedau Net ar Ddechrau'r Flwyddyn	1,900,409
14,904	Arian Newydd Net a Fuddsoddiwyd	15,704
(28,116)	Elw a cholledion ar warediad o fuddsoddiadau a newidiadau yng ngwerth buddsoddiadau ar y farchnad	426,955
<u>1,900,409</u>	Asedau Net ar Ddiwedd y Flwyddyn	<u>2,343,068</u>

NODIADAU AR GYFRIFON Y GRONFA BENSIWN**13.1 Disgrifiad o'r Gronfa**

Mae Cronfa Bensiwn Dyfed (y Gronfa) yn rhan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac yn cael ei gweinyddu gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

Crynodeb yn unig yw'r disgrifiad canlynol o'r Gronfa. I gael mwy o fanylion cyfeirier at Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2016-17 (pan y'u cyhoeddir) a'r pwerau statudol sy'n gysylltiedig i'r cynllun sef Deddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 a Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL).

13.1.1 Cyffredinol

Llywodraethir y Gronfa gan Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 ac fe'i gweinyddir yn unol â'r is-deddfwriaethau canlynol:

- Rheoliadau CPLIL 2013 (fel y'u diwygiwyd)
- Rheoliadau CPLIL (Darpariaethau Trosiannol, Arbedion a Diwygiadau) 2014 (fel y'u diwygiwyd)
- Rheoliadau CPLIL (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2016.

Cynllun pensiwn cyfrannol yw hwn a weinyddir gan Gyngor Sir Caerfyrddin i ddarparu pensiynau a buddion eraill i weithwyr pensiynadwy Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Sir Penfro, Cyngor Sir Ceredigion a nifer amrywiol eraill o gyrff rhestredig a chyrrff a dderbynnir o fewn ardal ddaearyddol hen awdurdod Dyfed. Nid yw athrawon, swyddogion yr heddlu a diffoddwyr tân wedi'u cynnwys gan eu bod yn aelodau o gynlluniau pensiwn cenedlaethol eraill.

Goruchwylir y Gronfa gan Banel Cronfa Bensiwn Dyfed (y Panel).

13.1.2 Aelodaeth

Mae aelodaeth o'r Gronfa yn wirfoddol a gall gweithwyr ddewis ymuno â'r cynllun, aros yn y cynllun neu wneud eu trefniadau personol eu hunain y tu allan i'r cynllun.

Mae'r cyrrff sy'n rhan o Gronfa Bensiwn Dyfed yn cynnwys:

- Cyrff rhestredig sef awdurdodau lleol a chyrrff cyffelyb y mae eu staff â hawl awtomatig i fod yn aelodau o'r Gronfa.
- Cyrff a dderbynnir sef cyrrff eraill sy'n cyfrannu i'r Gronfa dan gytundeb derbyn rhwng y Gronfa a'r corff dan sylw. Mae cyrrff a dderbynnir yn cynnwys cyrrff gwirfoddol, cyrrff elusenol a chyrrff eraill cyffelyb neu gontractwyr preifat sy'n cyflawni swyddogaethau awdurdod lleol yn dilyn rhoi gwaith ar gontract allanol i'r sector preifat.

Ar 31 Mawrth 2017 roedd 67 o gyrff cyflogwyr yng Nghronfa Bensiwn Dyfed ac mae'r manylion i'w gweld yn Nodyn 13.21. Mae manylion aelodaeth y cyrff hyn wedi'u crynhoi isod:

31/03/16		31/03/17
18,970	Nifer o gyfranwyr gweithredol yn y Gronfa	19,052
11,462	Nifer o bensiynwyr	12,003
14,499	Nifer o bensiynwyr gohiriedig	14,904
44,931	Cyfanswm aelodau	45,959
49	Nifer o gyflogwyr gyda chyfranwyr gweithredol	50

Mae'r ffigurau hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa fel y'i cofnodwyd ar 31 Mawrth 2017 ond maent yn dueddol i newid ar ôl diwedd y flwyddyn gan fod datganiadau gan y cyrff cyflogi yn dod i law ar ôl y dyddiad hwnnw.

13.1.3 **Cyllido**

Cyllidir y buddion gan gyfraniadau ac enillion ar fuddsoddiadau. Telir cyfraniadau gan aelodau gweithredol y Gronfa yn unol â Rheoliadau CPLIL 2013 ac ar gyfer y flwyddyn yn diwedd 31 March 2017 roedd y cyfraniadau'n amrywio rhwng 5.5% a 12.5% o'r cyflog pensiynadwy. Cyfatebir cyfraniadau'r gweithwyr gan gyfraniadau'r cyflogwyr a seilir ar brisiad actiwaraid a gynhelir bob tair blynedd. Cynhaliwyd y prisiad diwethaf ar 31 Mawrth 2013. Ar hyn o bryd mae cyfraddau cyfrannu'r cyflogwyr yn amrywio rhwng 7.4% a 27.7% o'r cyflog pensiynadwy, fel y nodir yn Nodyn 13.21.

13.1.4 **Buddion**

Dan CPLIL seilir buddion pensiwn ar y cyflog pensiynadwy terfynol a hyd y gwasanaeth pensiynadwy, fel y crynhoir isod:

	Gwasanaeth cyn 1 Ebrill 2008	Gwasanaeth ar ôl 31 Mawrth 2008
Pensiwn	Pob blwyddyn yn werth 1/80 x cyflog pensiynadwy terfynol	Pob blwyddyn yn werth 1/60 x cyflog pensiynadwy terfynol
Cyfundaliad	Cyfundaliad awtomatig 3 x y cyflog. Hefyd gellir cyfnewid rhan o'r pensiwn blyneddol am daliad arian untro di-dreth. Telir £12 o gyfundalaid am bob £1 o pensiwn a ildir	Dim cyfundaliad awtomatig. Gellir cyfnewid rhan o'r pensiwn blyneddol am daliad arian untro di-dreth. Telir £12 o gyfundaliad am bob £1 o pensiwn a ildir

O'r 1 Ebrill 2014 ymlaen, daeth y cynllun yn gynllun cyfartaledd gyrfa, lle bydd aelodau'n cronni buddion yn seiliedig ar eu tâl pensiynadwy yn y flwyddyn honno ar gyfradd gronni o 1/49^{fed}. Caiff gwerth pensiwn a gronnwyd ei godi'n flynyddol yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr.

Darperir ystod o fuddion eraill dan y cynllun yn cynnwys ymddeoliad cynnar, pensiynau salwch a buddion marwolaeth, cyrchwch wefan Cronfa Bensiwn Dyfed i gael rhagor o fanylion – www.cronfabensiwndyfed.org.uk

13.2 Sail y paratoi

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn rhoi crynodeb o drafodion y Gronfa ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016-17 ac yn nodi ei sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn sef 31 Mawrth 2017. Paratowyd y cyfrifon yn unol â Chôd Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2016-17 a seiliwyd ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), fel y'u diwygiwyd ar gyfer sector cyhoeddus y DU.

Mae'r cyfrifon yn crynhoi trafodion y Gronfa ac yn adrodd ar yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion pensiwn. Nid yw'r cyfrifon yn ystyried rhwymedigaethau i dalu pensiynau a buddion sy'n daladwy ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. Datgelir gwerth actiwaraidd presennol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo yn y Datganiad gan yr Actiwari Ymgynghorol.

13.3 Crynodeb o bolisiau cyfrifyddu o bwys

Cyfrif Y Gronfa – cydnabyddiaeth referniw

13.3.1 Cyfraniadau

Cyfrifir am gyfraniadau arferol yr aelodau a'r cyflogwyr ar sail gronadol yn ôl y gyfradd ganrannol a argymhellwyd gan actiwari'r gronfa yn ystod cyfnod y gyflogres y maent yn berthnasol iddo.

Cyfrifir am gyfraniadau'r cyflogwyr ar gyfer ychwanegiadau a straen ar bensiynau yn y cyfnod y mae'r ymrwymadau hynny'n codi. Bydd unrhyw swm sy'n ddyledus mewn blwyddyn ond heb ei dalu yn cael ei nodi fel ased ariannol cyfredol.

Cyfrifir am y cyfraniadau gan gyflogwyr i gyllido'r diffyg ar y dyddiad penodedig ar gyfer eu talu yn unol â'r atodlen cyfraniadau a bennwyd gan actiwari'r cynllun neu ar y dyddiad derbyn os ydynt yn dod i law cyn y dyddiad penodedig.

13.3.2 Trosglwyddiadau i gynlluniau eraill ac o gynlluniau eraill

Mae gwerth trosglwyddiadau yn cynrychioli gwerth y symiau a dderbyniwyd ac a dalwyd yn ystod y flwyddyn mewn perthynas ag aelodau sydd naill ai'n ymuno neu'n ymadael â'r Gronfa yn ystod y flwyddyn ariannol, a chânt eu cyfrif yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Cyfrifir am drosglwyddiadau unigol i mewn/allan pryd y'u derbynnir/telir, sydd fel arfer yn digwydd pan dderbynnir/rhyddheir rhwymedigaeth yr aelod.

Rhoddir cyfrif ar ffurf derbyniadau am y trosglwyddiadau i mewn gan yr aelodau hynny sydd am ddefnyddio enillion eu cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol i brynu buddion y cynllun, ac maent wedi'u cynnwys o dan Drosglwyddiadau i Mewn.

Cyfrifir am drosglwyddiadau swmp (grŵp) ar sail gronadol yn unol â thelerau'r cytundeb trosglwyddo.

13.3.3 Incwm o fuddsoddiadau

13.3.3.1 Incwm llog

Cydnabyddir incwm llog yn y gronfa fel y mae'n cronni gan ddefnyddio cyfradd llog effeithiol yr offeryn ariannol fel dyddiad caffael neu fan cychwyn. Mae'r incwm yn cynnwys amorteiddio unrhyw ostyngiad neu bremiwm, costau prynu (lle bônt yn berthnasol) neu unrhyw wahaniaethau eraill rhwng y swm cychwynnol a'r swm adeg aeddfedu a gyfrifwyd ar sail cyfradd llog effeithiol.

13.3.3.2 Incwm difidendau

Cydnabyddir incwm difidendau ar y dyddiad y mae'r difidend ar gyfranddaliadau yn daladwy. Mae unrhyw swm na dderbynnir erbyn diwedd cyfnod yr adroddiad yn cael ei nodi fel ased ariannol cyfredol yn y datganiad asedau net.

13.3.3.3 Dosbarthiad Incwm Cronfeydd ar y Cyd

Cydnabyddir incwm a ddsberthir o gronfeydd ar y cyd ar y dyddiad y'i cyhoeddir. Mae unrhyw swm na dderbynnir erbyn diwedd cyfnod yr adroddiad yn cael ei nodi fel ased ariannol cyfredol yn y datganiad asedau net.

13.3.3.4 Symudiadau o ran gwerth net buddsoddiadau ar y farchnad

Ystyrir bod newidiadau o ran gwerth net buddsoddiadau ar y farchnad (gan gynnwys eiddo buddsoddi) yn incwm, a'u bod yn cynnwys yr holl elw/colledion cyflawnedig ac anghyflawnedig yn ystod y flwyddyn.

13.3.4 Buddion sy'n daladwy

Mae'r buddion pensiynau a'r cyfandaliadau sy'n daladwy yn cynnwys yr holl symiau y gwyddys eu bod yn ddyledus ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae unrhyw symiau dyledus na thelir yn cael eu nodi fel rhwymedigaethau cyfredol yn y datganiad asedau net.

13.3.5 Trethiant

Mae'r Gronfa wedi'i chofrestru yn gynllun gwasanaeth cyhoeddus dan adran 1(1) Atodlen 36 i Ddeddf Cyllid 2004 ac o'r herwydd mae wedi'i heithrio rhag talu treth incwm y DU ar log a dderbynnir a threth enillion cyfalaf ar yr elw ar werthu buddsoddiadau. Codir treth ataliedig ar incwm o fuddsoddiadau mewn gwledydd tramor yn y wlad berthnasol oni bai y caniateir rhyddhad. Cyfrifir am dreth na ellir ei adennill fel gwariant y gronfa, fel y cyfyd.

Gan mai Cyngor Sir Caerfyrddin yw'r Awdurdod Gweinyddu, gellir adennill TAW ar holl weithgareddau'r Gronfa. Nid yw'r Cyfrifon a ddangosir yn cynnwys TAW.

13.3.6 Treuliau Rheoli

Nid yw'r Côt yn mynnu bod dadansoddiad manwl ar gael o gostau gweinyddu cronfa bensiwn. Fodd bynnag, er mwyn bod yn dryloyw, mae'r Cyngor yn datgelu treuliau rheoli ei gronfa bensiwn yn unol â chanllawiau'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth sef *Accounting for Local Government Pension Scheme Management Expenses 2016*.

Cyfrifir am yr holl wariant gweinyddol ar sail gronadol. Codir yn uniongyrchol ar y gronfa am holl gostau staff y tîm gweinyddol. Yn unol â pholisi'r Cyngor mae'r Gronfa yn gyfrifol am dalu'r gyfran briodol o gostau'r rheolaeth, y swyddfeydd a'r gorbenion cysylltiedig.

Rhoddir cyfrif am yr holl gostau goruchwylio a llywodraethu ar sail gronedig. Codir yn uniongyrchol ar y gronfa am yr holl gostau staff sydd ynghlwm wrth arolygu a llywodraethu.

Caiff y costau rheoli, costau'r swyddfeydd a'r costau cysylltiedig eraill eu dosrannu i'r gweithgaredd hwn, a chodir ar y gronfa amdanynt ar ffurf treuliau.

Cyfrifir am yr holl wariant ar reoli buddsoddiadau ar sail groniadol.

Mae ffioedd y rheolwyr buddsoddi a'r gwarcheidwad allanol wedi'u nodi yn y mandadau perthnasol sy'n llywio eu penodiadau. Yn fras, seilir y rhain ar yr hyn yw gwerth y buddsoddiadau a reolir ar y farchnad ac felly gallant godi neu ddisgyn yn ôl y newidiadau yng ngwerth y buddsoddiadau.

Mae elfen o ffi un o'r Rheolwyr Buddsoddi yn gysylltiedig â pherfformiad. Roedd costau cysylltiedig â pherfformiad yn £0.18 miliwn yn 2016-2017 (2015-2016: Ffi o £0.34 miliwn).

Lle na dderbyniwyd nodyn am ffi'r rheolwr buddsoddi erbyn dyddiad diwedd y flwyddyn, defnyddir amcangyfrif sy'n seiliedig ar werth marchnad y mandad ar ddiwedd y flwyddyn er mwyn ei gynnwys yng Nghyfrif y Gronfa. Yn 2016-2017 mae £0.2 miliwn o ffioedd yn seiliedig ar y fath amcangyfrifon (2015-2016: £0.4 miliwn).

Codir yn uniongyrchol ar y gronfa am gostau tîm buddsoddi pensiynau y Cyngor ynghyd â chyfran o gostau'r Cyngor o ran yr amser rheoli a dreulid gan swyddogion ar reoli buddsoddiadau.

Datganiad Asedau Net

13.3.7 Asedau Ariannol

Mae'r asedau ariannol wedi'u cynnwys yn y datganiad asedau net yn ôl eu gwerth teg ar ddyddiad yr adroddiad. Cydnabyddir ased ariannol yn y datganiad asedau net ar y dyddiad y daw'r Gronfa'n barti i'r cytundeb i gaffael yr ased. O'r dyddiad hwn bydd unrhyw enillion neu golledion a berir gan newidiadau yn y gwerth teg yn cael eu cydnabod gan y Gronfa.

Pennir gwerth y buddsoddiadau fel y'u nodir yn y datganiad asedau net, fel a ganlyn:

13.3.7.1 Buddsoddiadau a ddyfynnwyd ar y farchnad

Pennir gwerth buddsoddiad y mae pris ar y farchnad ar gael yn hwylus ar ei gyfer gan y pris prynu uchaf ar y farchnad ar ddiwrnod olaf y cyfnod cyfrifyddu.

13.3.7.2 Gwarannau llog sefydlog

Cofnodir gwarannau llog sefydlog yn ôl y gwerth net ar y farchnad.

13.3.7.3 Buddsoddiadau heb eu dyfynnu

Prisir buddsoddiadau mewn eiddo heb ei ddyfynnu a chronfeydd seilwaith ar y cyd yn ôl gwerth net yr asedau neu bris sengl a roddir gan y rheolwr buddsoddi.

13.3.7.4 Partneriaethau Cyfyngedig

Seilir y gwerth teg ar werth net yr asedau yn dilyn prisiadau cyfnodol gan y rheiny sy'n rheoli'r bartneriaeth.

13.3.7.5 Cyfyngau buddsoddi ar y cyd

Prisir cyfyngau buddsoddi ar y cyd yn ôl y pris prynu uchaf amser cau. Os nad yw hwnnw ar gael prisir y buddsoddiadau yn ôl y pris sengl amser cau. O ran cronfeydd cronnus bydd y newid yn y gwerth ar y farchnad hefyd yn cynnwys incwm sy'n cael ei ail fuddsoddi yn y Gronfa.

13.3.8 **Trafodion arian tramor**

Caiff difidendau, llog a phryniant a gwerthiant buddsoddiadau mewn arian tramor eu cyfrif yn ôl y cyfraddau ar y farchnad sbot ar ddyddiad y trafodion. Defnyddir cyfraddau cyfnewid diwedd y flwyddyn ar y farchnad sbot i brisio'r arian gweddill a ddelir mewn cyfrifon banc arian tramor, gwerth buddsoddiadau tramor ar y farchnad ac unrhyw bryniannau a gwerthiannau tramor sydd heb eu cwblhau ar ddiwedd cyfnod yr adroddiad.

13.3.9 **Arian ac arian cyfwerth**

Mae arian yn cynnwys arian parod ac arian y gellir ei godi'n ôl y galw gan gynnwys y symiau a ddelir gan reolwyr allanol y gronfa.

Buddsoddiadau tymor byr hynod hylifol sydd ar gael yn hwylus i'w trosglwyddo yn symiau hysbys o arian yw arian cyfwerth a bychan iawn yw'r risg y bydd ei werth yn newid.

Mae gan y Gronfa ei chyfrifon banc ei hun ers 1 Ebrill 2011 i ddelio gyda thrafodion y Gronfa, yn unol ag adran 6 o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd Pensiwn) 2009.

Caiff yr arian gweddill a ddelir gan y Gronfa ei fuddsoddi am gyfnodau byrdymor ar Farchnad Ariannol Llundain gan Cyngor Sir Gaerfyrddin nes y bydd ei angen i dalu ei rhwymedigaethau neu i drosglwyddo arian dros ben i'r rheolwyr buddsoddi ar gyfer ei ail fuddsoddi.

13.3.10 **Rhwymedigaethau ariannol**

Mae'r Gronfa yn cydnabod rhwymedigaethau ariannol yn ôl eu gwerth teg ar ddyddiad yr adroddiad. Caiff rhwymedigaeth ariannol ei gydnabod yn y datganiad asedau net ar y dyddiad y daw'r Gronfa'n barti i'r ymrwymiad. O'r dyddiad hwnnw bydd unrhyw enillion neu golledion a berir gan newidiadau yn y gwerth teg yn cael eu cydnabod gan y Gronfa.

13.3.11 **Gwerth presennol actiwaraidd y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo**

Caiff gwerth presennol actiwaraidd y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo eu hasesu bob tair blynedd gan actiwari'r cynllun yn unol â gofynion IAS19 a'r safonau actiwaraidd perthnasol.

Fel y caniateir dan y Cod, mae'r Gronfa wedi dewis datgelu gwerth presennol actiwaraidd y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo drwy gyfeirio ato yn yr adroddiad actiwaraidd sydd ynghlwm.

13.3.12 **Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY)**

Mae'n statudol ofynnol i Gynlluniau Pensiwn Galwedigaethol ddarparu trefniadau mewnol o ran Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY). Mae gan y Gronfa ddarparwyr ar y cyd: Prudential, Standard Life ac Equitable Life, sy'n darparu ystod o ddewisiadau o ran buddsoddi.

Aelodau unigol y Cynllun sydd i bennu faint y maent am gyfrannu (yn amodol ar derfynau a bennwyd gan Gyllid a Thollau EM) ac ar elfennau neu gynnwys y buddsoddiad.

Buddsoddir CGY ar wahân i asedau'r Gronfa ac ni chânt eu cynnwys yn y cyfrifon yn unol ag adran 4(2)(b) o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd Pensiwn) 2009 (SI 2009/3093). Fe'i datgelir fel nodyn yn unig – Nodyn 13.18

13.4 Barn gritigol wth gymhwyso polisiau cyfrifyddu

13.4.1 Rhwymedigaeth y Gronfa

Caiff rhwymedigaeth y Gronfa ei chyfrif bob tair blynedd gan yr actiwari a benodwyd ac mae'r fethodoleg a ddefnyddir yn cyd-fynd â'r canllawiau arferol ac yn cydymffurfio ag IAS 19. Cytunir gyda'r actiwari ynghylch y rhagdybiaethau sydd i'w defnyddio yn gysail i'r prisiannau ac maent wedi'u crynhoi yn Nodyn 13.22. Gall newid yn y rhagdybiaethau beri amrywiad mawr yn yr amcangyfrif.

13.4.2 Buddsoddiadau mewn Eiddo heb ei Ddyfynnu – Partners Group Red Dragon Limited Partnership

Wrth asesu gwerth teg yr offerynnau ariannol nas masnachwyd, mae'r Bartneriaeth Gyfyngedig yn defnyddio amrywiaeth o dulliau'r farchnad a dulliau incwm megis y tro diwethaf y'u hariannwyd, enillion ac aml-ddadansoddiad, dull llif arian disgowntiedig, a phrisio trydydd parti ac mae'n llunio rhagdybiaethau sy'n seiliedig ar amodau'r farchnad a rhagdybiaethau ynghylch y rhai sy'n cyfranogi yn y farchnad, sy'n bodoli ar ddiwedd pob cyfnod adroddiad. Mae'r wybodaeth arall a ddefnyddiwyd wrth bennu gwerth teg yr offerynnau ariannol nas masnachir yn cynnwys yr adroddiadau ariannol diweddaraf, y llif arian dilynol a monitro mewnol o ddigwyddiadau sbarduno (megis ymadael a Chynigion Cyhoeddus Cychwynnol – IPOs) yn ogystal â newidiadau ym mhrisio buddsoddiadau cymharol ynghyd â thechnegau megis modelau prisio opsiynau, a gwerth ddisgowntiedig amcangyfrifol y llif arian yn y dyfodol. Mae'r arferion hyn yn unol â'r canllawiau rhyngwladol a ddefnyddir yn eang gan y diwydiant. Gwerth y Partners Group Red Dragon Limited Partnership ar 31 Mawrth 2017 oedd £37.1 miliwn. (£33.3 miliwn ar 31 Mawrth 2016).

13.5 Tybiaethau a Wnaethpwyd am y Dyfodol a Ffynonellau Mawr Eraill Ansicrwydd wrth Amcangyfrif

Yn y Datganiad o Gyfrifon ceir ffigurau amcangyfrifedig sydd wedi'u seilio ar dybiaethau mae'r Awdurdod wedi'u gwneud am y dyfodol neu sy'n ansicr mewn rhyw ffordd arall. Gwneir amcangyfrifon gan gymryd mewn i ystyriaeth profiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, oherwydd na ellir pennu balansau â sicrwydd, gallai'r gwir ganlyniadau fod yn sylweddol wahanol i'r tybiaethau a'r amcangyfrifon. Mae'r eitemau yn y Datganiad Asedau Net ar 31 Mawrth 2017 lle mae risg sylweddol y cânt eu haddasu'n sylweddol yn y flwyddyn ariannol i ddod fel a ganlyn:

Eitem	Elfennau ansicr	Effaith os bydd y gwir ganlyniadau'n wahanol i'r tybiaethau
Gwerth presennol actiwaraidd o fudd-daliadau ymddeol a addawyd	Mae'r amcangyfrif o'r rhwymedigaeth net i dalu pensiynau'n dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth sy'n ymwneud â'r gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir, y gyfradd yr amcangyfrifir y bydd cyflogau'n codi, newidiadau i oed ymddeol, cyfraddau marwolaethau a'r enillion a ddisgwylir ar asedau'r gronfa bensiwn. Mae cwmni o actiwariaid ymgynghorol wedi cael ei gyflogi i roi cyngor arbenigol i'r Awdurdod am y tybiaethau i gael eu defnyddio.	Gellir mesur effeithiau newidiadau i dybiaethau unigol ar y rhwymedigaeth bensiynau net. Er enghraifft, pe bai tybiaeth y gyfradd ddisgowntio yn gostwng 0.1%, byddai'r rhwymedigaeth bensiynau'n gostwng £25.2 miliwn am 2016-17. Fodd bynnag, mae'r tybiaethau'n rhyngweithio mewn ffyrdd cymhleth. Yn ystod 2016/17 dywedodd actiwariaid yr Awdurdod fod y rhwymedigaethau pensiynau net wedi lleihau £1.6 miliwn oherwydd bod amcangyfrifon cynharach wedi eu cywiro o ganlyniad i brofiad gwirioneddol ac wedi cynyddu £259.7 miliwn oherwydd diweddarau'r rhagdybiaethau.
Eiddo – Buddsoddiadau Partneriaeth Gyfyngedig	Mae'r buddsoddiadau eiddo mewn Partneriaethau Gyfyngedig yn cael eu prisiau yn unol a chanllawiau a ddefnyddir yn eang drwy'r ddiwydiant. Nid yw'r buddsoddiadau yma wedi'u rhestru'n gyhoeddus felly mae yna radd o amcangyfrif yn y prisiau.	Cyfanswm o'r buddsoddiadau eiddo mewn Partneriaethau Gyfyngedig yw £37.1 miliwn. Mae yna risg fod y prisiau yma wedi'i dan-brisio neu gor-brisio yn y cyfrifon.

13.6 Trosglwyddiadau i fewn o gronfeydd pensiwn eraill

2015-16 £'000		2016-17 £'000
1,986	Trosglwyddiadau unigol	1,889
<u>1,986</u>		<u>1,889</u>

13.7 Taliadau i Ymadawyr a Thaliadau Mewn Perthynas â Hwyt

2015-16 £'000		2016-17 £'000
(103)	Ad-daliadau i aelodau yn gadael y gwasanaeth	(138)
(28)	Taliadau i aelodau yn ymuno a'r cynllun gwladol	(1)
(3,896)	Trosglwyddiadau unigol i gynlluniau eraill	(3,313)
(4,027)		(3,452)

13.8 Treuliau Rheoli

2015-16 £'000 (ail-ddatgan)		2016-17 £'000
(925)	Costau gweinyddol	(942)
(5,733)	Treuliau rheoli buddsoddiadau (Nodyn 13.13)	(5,941)
(357)	Costau goruchwyllo a llywodraethu	(488)
(7,015)		(7,371)

2015-16 wedi'i ail-ddatgan yn unol â chanllawiau Costau Rheoli CIPFA

Ffioedd archwilio o £28,858 am 2016-17 wedi'u cynnwys yn y costau goruchwyllo a llywodraethu. (£26,874 am 2015-16)

13.9 Incwm ar Fuddsoddiadau

2015-16 £'000 (ail-ddatgan)		2016-17 £'000
20,630	Incwm o Ecwitis	21,921
9,199	Buddsoddiadau eiddo ar y cud	9,597
(1)	Llog ar adneuon ariannol	(10)
29,828		31,508

2015-16 wedi'i ail-ddatgan yn unol â chanllawiau Costau Rheoli CIPFA

13.10 Treth

2015-16 £'000		2016-17 £'000
(32)	Treth Ataliedig - Ecwitis	(47)
(32)		(47)

13.11 Buddsoddiadau**13.11.1 Asedau buddsoddi net**

Gwerth teg 31/03/2016 £'000		Gwerth teg 31/03/2017 £'000
	<u>Asedau buddsoddi</u>	
	Bondiau	
178,145	Bondiau Corfforaethol DU - BlackRock	221,350
177,109	Gwarannau Wrth Indecs - BlackRock	219,346
	Ecwitis	
450,678	Ecwitis a Ddyfynnwyd DU - BlackRock	568,252
	Buddsoddiadau ar y cyd	
479,667	Ecwitis tramor - BlackRock	578,845
199,874	Ecwitis byd-eang - Baillie Gifford	270,933
194,866	- Columbia Threadneedle	249,594
	Buddsoddiadau eiddo ar y cyd	
175,362	- Schroders	183,045
27,001	- Partners Group	29,373
	Eiddo	
1,047	- Schroders	1,144
6,334	- Partners Group	4,822
	Adnau ariannol	
736	- BlackRock	1,705
979	- Schroders	275
0	- Partners Group	2,900
	Incwm ar fuddsoddiadau i'w derbyn	
2,973	- BlackRock	3,126
0	- Schroders	45
	Ad-daliadau treth i'w derbyn	
276	- BlackRock	312
88	- Schroders	99
	Symiau i'w derbyn o werthiannau	
1,193	- BlackRock	258
1,896,328	Cyfanswm Asedau Buddsoddi	2,335,424
	<u>Rhwymedigaethau buddsoddi</u>	
	Symiau sy'n daladwy am bryniadau	
(948)	- BlackRock	(246)
(948)	Cyfanswm rhwymedigaethau buddsoddi	(246)
1,895,380	Asedau buddsoddi net	2,335,178

13.11.2 **Dadansoddiad o symudiadau o'r buddsoddiadau**

Yn ystod y flwyddyn prynwyd gwerth £121 miliwn o fuddsoddiadau a gwerthwyd gwerth £59 miliwn. Gwnaed ennill net o £62 miliwn ar y gwerthiannau. Mae'r costau prynu wedi'u cynnwys ym mhreis pryniant y buddsoddiadau.

	Gwerth teg 31/03/2016 £'000	Cost o brynu £'000	Elw o werthu £'000	Symudiad ariannol £'000	Cynyddion/ (Colledion)	
					heb ei realeiddio £'000	Gwerth teg 31/03/2017 £'000
Bondiau	355,254	38,086	(9,469)	0	56,825	440,696
Ecwitis	450,678	56,152	(10,681)	0	72,103	568,252
Buddsoddiadau ar y cyd	874,407	1,081	(25,847)	0	249,731	1,099,372
Buddsoddiadau eiddo ar y cyd	202,363	25,283	(12,918)	0	(2,310)	212,418
Eiddo	7,381	269	0	0	(1,684)	5,966
	1,890,083	120,871	(58,915)	0	374,665	2,326,704
Balansau buddsoddi eraill						
Adnau ariannol	1,715	0	0	3,165	0	4,880
Symiau i'w derbyn o werthiannau	1,193	0	0	(935)	0	258
Incwm ar fuddsoddiadau i'w derbyn	2,973	0	0	153	45	3,171
Ad-daliadau treth i'w derbyn	364	0	0	47	0	411
Symiau sy'n daladwy am bryniadau	(948)	0	0	702	0	(246)
	1,895,380	120,871	(58,915)	3,132	374,710	2,335,178

	Gwerth teg 31/03/2015 £'000	Cost o brynu £'000	Elw o werthu £'000	Symudiad ariannol £'000	Cynyddion/ (Colledion)	
					heb ei realeiddio £'000	Gwerth teg 31/03/2016 £'000
Bondiau	371,507	24,567	(33,544)	0	(7,276)	355,254
Ecwitis	463,834	50,445	(27,173)	0	(36,428)	450,678
Buddsoddiadau ar y cyd	878,458	45,195	(6,401)	0	(42,845)	874,407
Buddsoddiadau eiddo ar y cyd	177,139	35,385	(19,996)	0	9,835	202,363
Eiddo	11,449	0	(3,073)	0	(995)	7,381
	1,902,387	155,592	(90,187)	0	(77,709)	1,890,083
Balansau buddsoddi eraill						
Adnau ariannol	2,774	0	0	(1,059)	0	1,715
Symiau i'w derbyn o werthiannau	16	0	0	1,177	0	1,193
Incwm ar fuddsoddiadau i'w derbyn	2,974	0	0	380	(381)	2,973
Ad-daliadau treth i'w derbyn	321	0	0	43	0	364
Symiau sy'n daladwy am bryniadau	(16)	0	0	(932)	0	(948)
	1,908,456	155,592	(90,187)	(391)	(78,090)	1,895,380

13.11.3 Cynyddion a gostyngiadau wedi eu realeiddio

2015-16		2016-17
£'000		£'000
11,441	Bondiau	2,796
1,336	Ecwitis	9,683
32,948	Buddsoddiadau ar y cyd	35,128
4,971	Buddsoddiadau eiddo ar y cyd	4,508
(722)	Eiddo	130
49,974		52,245

13.11.4 Dadansoddiad daearyddol o'r buddsoddiadau

Gwerth	Dadansoddiad	Gwerth
teg	daearyddol	teg
31/03/16		31/03/17
£'000		£'000
1,032,530	DU	1,260,994
99,498	Ewrop (heblaw DU)	124,203
407,341	Gogledd America	483,243
78,408	Siapan	84,628
89,054	Ymyl y Môr Tawel	125,034
188,549	Marchnadoedd sy'n datblygu	255,575
0	Cronfeydd ar y cyd Rhyngwladol	1,501
1,895,380		2,335,178

13.11.5 Dadansoddiad rheolwyr y Gronfa

Gwerth	Dadansoddiad	Gwerth
teg	rheolwyr y Gronfa	teg
31/03/16		31/03/17
£'000		£'000
1,289,830	BlackRock	1,592,948
177,476	Schroders	184,608
33,334	Partners Group	37,095
199,874	Baillie Gifford	270,933
194,866	Columbia Threadneedle	249,594
1,895,380		2,335,178

13.12 Crynhoi buddsoddiadau

Roedd y buddsoddiadau canlynol yn cynrychioli mwy na 5% o gyfanswm asedau net y Gronfa ar 31 Mawrth 2017:

	Eu gwerth ar 31 Mawrth 2017	Y gyfran o'r portffolio o fuddsoddiadau
	£'000	%
Cronfa 'Baillie Gifford Global Alpha'	270,933	11.60
Cronfa 'Threadneedle Global Equity'	249,594	10.69
Cronfa 'Blackrock Ascent Life US Equity'	227,587	9.75
Cronfa 'Blackrock Active Selection UK'	221,316	9.48
Aquila Life DU Wrth Indecs dros 5 mlynedd	219,346	9.39
Cronfa 'Blackrock Active Selection' - ym Mynegai'r Marchnadoedd Datblygol	135,990	5.82

13.13 Treualiadau Rheoli'r Buddsoddiadau

2015-16		2016-17
£'000		£'000
(ail-ddatgan)		
(3,579)	Ffioedd rheolaeth	(3,813)
(338)	Ffioedd yn gysylltiedig â pherfformiad	(180)
(49)	Ffioedd ceidwad	(50)
(1,767)	Costau Trafodion	(1,898)
<u>(5,733)</u>		<u>(5,941)</u>

2015-16 wedi'i ail-ddatgan yn unol â chanllawiau Costau Rheoli CIPFA

13.14 Offerynnau Ariannol**13.14.1 Dosbarthiad o offerynnau ariannol**

Mae polisiâu cyfrifyddu yn disgrifio sut y mae gwahanol ddosbarthiadau o asedau yn cael eu mesur, a sut y mae incwm a gwariant, yn cynnwys enillion a cholledion gwerth teg, yn cael eu cydnabod. Mae'r tabl canlynol yn dadansoddi symiau cario yr asedau a'r rhwymedigaethau ariannol (ac eithrio arian) yn ôl categori a phenawdau'r datganiad asedau net.

2015-16				2016-17				
Benthycia-		Benthycia-		Benthycia-		Benthycia-		
Dynodedig	dau a	Cost		Dynodedig	dau a	Cost		
ar werth	symiau			ar werth	symiau			
teg trwy	sy'n	rhwymed-		teg trwy	sy'n	rhwymed-		
elw a	dderbynia-	igaethau		elw a	dderbynia-	igaethau		
cholled	dwy	ariannol	Cyfanswm	cholled	dwy	ariannol	Cyfanswm	
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	
Asedau ariannol								
355,254	0	0	355,254	Bondiau	440,696	0	0	440,696
450,678	0	0	450,678	Ecwitis	568,252	0	0	568,252
874,407	0	0	874,407	Buddsoddiadau ar y cud	1,099,372	0	0	1,099,372
Buddsoddiadau eiddo ar								
202,363	0	0	202,363	y cud	212,418	0	0	212,418
7,381	0	0	7,381	Eiddo	5,966	0	0	5,966
0	4,041	0	4,041	Arian	0	9,768	0	9,768
Balansau buddsoddi								
4,530	0	0	4,530	eraill	3,840	0	0	3,840
0	6,901	0	6,901	Dyledwyr	0	6,276	0	6,276
1,894,613	10,942	0	1,905,555		2,330,544	16,044	0	2,346,588
Rhwymedigaethau ariannol								
Balansau buddsoddi								
(948)	0	0	(948)	eraill	(246)	0	0	(246)
0	0	(4,198)	(4,198)	Credydwyr	0	0	(3,274)	(3,274)
(948)	0	(4,198)	(5,146)		(246)	0	(3,274)	(3,520)
1,893,665	10,942	(4,198)	1,900,409	Cyfanswm	2,330,298	16,044	(3,274)	2,343,068

13.14.2 **Elw a cholledion net o offerynnau ariannol**

2015-16 £'000		2016-17 £'000
	Asedau ariannol	
(28,116)	Dynodedig ar werth teg trwy elw a cholled	426,955
(28,116)	Cyfanswm asedau ariannol	426,955
	0 Cyfanswm rhwymedigaethau ariannol	0
(28,116)	Cyfanswm	426,955

13.14.3 **Gwerth teg o offerynnau ariannol a rhwymedigaethau**

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi gwerth cario yr asedau ariannol a'r rhwymedigaethau ariannol yn ôl dosbarth yr offeryn o'u cymharu â'u gwerthoedd teg:

Swm a gariwyd 31/03/16 £'000	Gwerth teg 31/03/16 £'000		Swm a gariwyd 31/03/17 £'000	Gwerth teg 31/03/17 £'000
		Asedau ariannol		
1,480,598	1,894,613	Dynodedig ar werth teg trwy elw a cholled	1,541,819	2,330,544
10,942	10,942	Benthyciadau a symiau sy'n dderbyniadwy	16,044	16,044
1,491,540	1,905,555	Cyfanswm asedau ariannol	1,557,863	2,346,588
		Rhwymedigaethau ariannol		
(948)	(948)	Dynodedig ar werth teg trwy elw a cholled	(246)	(246)
(4,198)	(4,198)	Rhwymedigaethau ariannol am gost wedi ei amortieiddio	(3,274)	(3,274)
(5,146)	(5,146)	Cyfanswm rhwymedigaethau ariannol	(3,520)	(3,520)
1,486,394	1,900,409	Cyfanswm	1,554,343	2,343,068

13.14.4 **Prisio offerynnau ariannol yn cael eu cario yn ôl gwerth teg**

Rhennir prisiad offerynnau ariannol yn dri dosbarth yn ôl ansawdd a dibynadwyedd y wybodaeth a ddefnyddir i bennu'r gwerth teg. Mae trosglwyddiadau rhwng lefelau yn cael eu cydnabod yn y flwyddyn y maent yn digwydd.

Lefel 1

Yr offerynnau ariannol a ddosberthir i Lefel 1 yw'r rheiny lle daw eu gwerth teg o'r prisiau rhestredig nas addaswyd ar farchnadoedd gweithredol ar gyfer asedau neu rwymedigaethau cwbl debyg. Mae'r nwyddau a ddosberthir i lefel 1 yn cynnwys ecwitis a restrir, gwarannau llog sefydlog a restrir, gwarannau mynegrifol a restrir a chwmnïau buddsoddi neilltuol.

Dangosir y buddsoddiadau a restrir yn ôl y pris cynnig. Seilir gwerth cynnig y buddsoddiad yn ôl y cynnig a restrir ar farchnad y gyfnewidfa stoc berthnasol,

Lefel 2

Yr offerynnau ariannol a ddosberthir i Lefel 2 yw'r rheiny lle nad oes prisiau ar eu cyfer wedi'u rhestru ar y farchnad; er enghraifft lle caiff offeryn ei werthu ar farchnad na fernir ei bod yn weithredol, neu pan ddefnyddir technegau prisio i bennu'r gwerth teg ac mae'r technegau hynny'n defnyddio mewnbynnau sy'n seiliedig i raddau helaeth ar ddata gweladwy'r farchnad.

Lefel 3

Yr offerynnau ariannol a ddosberthir i Lefel 3 yw'r rheiny lle mae un o leiaf o'r mewnbynnau a allai gael effaith sylweddol ar brisiad yr offeryn, heb fod wedi'i seilio ar ddata gweladwy'r farchnad.

Byddai'r cyfryw offerynnau yn cynnwys partneriaethau cyfyngedig, lle pennir y gwerth teg gan brisiannau cyfnodol a ddarperir gan y rheiny sy'n rheoli'r bartneriaeth. Mae archwiliad annibynnol o'r bartneriaeth yn rhoi sicrwydd ynghylch y prisiad.

Mae'r tabl canlynol yn dadansoddi asedau a rhwymedigaethau ariannol y Gronfa sydd wedi'u cynnwys yn y grwpiau 1 i 3, ar sail y gwerth y daw'r gwerth teg yn weladwy.

Gwerth teg ar 31 Mawrth 2017	Pris	Defnyddio	Gyda	
	rhestredig y farchnad Lefel 1 £'000	mewnbynnau gweladwy Lefel 2 £'000	mewnbynnau sylweddol sy'n anweladwy Lefel 3 £'000	Cyfanswm £'000
Asedau ariannol				
Dynodedig ar werth teg trwy elw a cholled	1,015,985	1,097,870	216,689	2,330,544
Benthyciadau a symiau sy'n dderbyniadwy	16,044	0	0	16,044
Cyfanswm asedau ariannol	1,032,029	1,097,870	216,689	2,346,588
Rhwymedigaethau ariannol				
Dynodedig ar werth teg trwy elw a cholled	(246)	0	0	(246)
Rhwymedigaethau ariannol am gost wedi ei amorteiddio	(3,274)	0	0	(3,274)
Cyfanswm rhwymedigaethau ariannol	(3,520)	0	0	(3,520)
Asedau ariannol net	1,028,509	1,097,870	216,689	2,343,068

Gwerth teg ar 31 Mawrth 2016	Pris	Defnyddio	Gyda	
	rhestredig y farchnad Lefel 1 £'000	mewnbynnau gweladwy Lefel 2 £'000	mewnbynnau sylweddol sy'n anweladwy Lefel 3 £'000	Cyfanswm £'000
Asedau ariannol				
Dynodedig ar werth teg trwy elw a cholled	811,788	1,049,491	33,334	1,894,613
Benthyciadau a symiau sy'n dderbyniadwy	10,942	0	0	10,942
Cyfanswm asedau ariannol	822,730	1,049,491	33,334	1,905,555
Rhwymedigaethau ariannol				
Dynodedig ar werth teg trwy elw a cholled	(948)	0	0	(948)
Rhwymedigaethau ariannol am gost wedi ei amorteiddio	(4,198)	0	0	(4,198)
Cyfanswm rhwymedigaethau ariannol	(5,146)	0	0	(5,146)
Asedau ariannol net	817,584	1,049,491	33,334	1,900,409

13.14.5 **Sylfaen y Prasio Gwerth Teg**

Disgrifiad o'r Ased	Hierarch aeth Brisio	Sylfaen y prasio	Mewnbynnau gweladwy ac anweladwy	Materion o sensitifrwydd allweddol sy'n effeithio ar y Prisiadau a roddwyd
Buddsoddiadau a dyfynnir gan y farchnad	Lefel 1	Dyfarniad pris cynnig y farchnad a gyhoeddwyd ar ddiwrnod olaf y cyfnod cyfrifyddu	Diangen	Diangen
Bondiau a ddyfynnir	Lefel 1	Gwarannau llog sefydlog yn cael eu prasio am werth y farchnad ar sail arenillion cyfredol	Diangen	Diangen
Buddsoddiadau cyfun - Ecwiti a ddyfynnir	Lefel 2	Pris cynnig cloi lle mae prisiau cynnig yn cael eu cyhoeddi. Pris sengl cloi lle mae pris sengl yn cael ei gyhoeddi	Prasio seiliedig ar Werth Ased Net wedi'i osod ar bolisi blaen-brisio	Diangen
Buddsoddiadau cyfun - Cyllid Eiddo	Lefel 3	Pris cynnig cloi lle mae prisiau cynnig yn cael eu cyhoeddi. Pris sengl cloi lle mae pris sengl yn cael ei gyhoeddi	Prasio seiliedig ar Werth Ased Net wedi'i osod ar bolisi blaen-brisio	Gallai digwyddiadau rhwng dyddiad y datganiadau ariannol a dyddiad riportio'r gronfa bensiwn ei hun effeithio ar brisiadau, ynghyd â newidiadau i lifoedd arian disgwylidig, ac unrhyw wahaniaethau rhwng cyfrifon sydd wedi'u harchwilio ac sydd heb eu harchwilio.
Ecwiti nas dyfynnir	Lefel 3	Prasio cymaradwy cwmnïoedd tebyg yn unol ag Ecwiti Preifat Rhyngwladol a chanllawiau Venture Capital Valuation (2012)	Aml-ddisgownt aml-refeniw EBITDA ar gyfer premiwm diffyg rheoli marchnadwyedd.	Gallai digwyddiadau rhwng dyddiad y datganiadau ariannol a dyddiad riportio'r gronfa bensiwn ei hun effeithio ar brisiadau, ynghyd â newidiadau i lifoedd arian disgwylidig, ac unrhyw wahaniaethau rhwng cyfrifon sydd wedi'u harchwilio ac sydd heb eu harchwilio.

13.14.6 Cysoni mesuriadau gwerth teg o fewn lefel 3

Math o Ased	Gwerth y farchnad		Trosglwyddiadau		Pryniad au	Enillion / Colledion		Gwerth y farchnad 31 Mawrth 2017
	1 Ebrill 2016	adau mewn i Lefel 3	allan o Lefel 3	Trosglwyddiadau		heb eu gwireddu	Enillion / Colledion wedi eu gwireddu	
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Ecwitis - Ecwitis tramor heb eu dyfynnu	0	6,240	0	0	0	(22)	0	6,218
Eiddo	33,334	173,914	0	14,386	(13,906)	(2,346)	5,089	210,471
Cyfanswm	33,334	180,154	0	14,386	(13,906)	(2,368)	5,089	216,689

13.14.7 Trosglwyddiadau rhwng lefelau 1 a 2

Nid oedd dim trosglwyddiadau rhwng buddsoddiadau lefelau 1 a 2 yn ystod 2016-17

13.15 Natur a maint y risg a berir gan offerynnau ariannol**13.15.1 Risg a rheoli risg**

Mae'r Gronfa wedi datblygu proses ffurfiol o asesu risg ac mae'n cadw cofrestr ffurfiol o risgiau sy'n cael ei ddiweddarau yn flynyddol. Mae hyn yn sicrhau fod y risgiau yn cael eu clustnodi'n briodol ac yn cael eu hasesu a'u rheoli yn effeithiol. Am ragor of fanylion, dylir cyfeirio at wefan y Gronfa – www.cronfabensiwndyfed.org.uk

Prif risg hirdymor y Gronfa yw na fydd asedau'r Gronfa yn ddigon i dalu ei rhwymedigaethau (h.y. y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo i'r aelodau). Nod y gwaith o reoli'r risgiau buddsoddi felly yw lleihau cymaint â phosib ar y risg y bydd lleihad cyffredinol yng ngwerth y Gronfa a chynyddu cymaint â phosib ar y cyfleoedd i wneud enillion ar draws y portffolio cyfan. Drwy amrywio'r asedau mae'r Gronfa'n lleihau dylanwad risg y farchnad (risg prisiau, risg arian breiniol a risg cyfraddau llog) a risg credyd, a'i gadw i lefel dderbyniol. Mae'r Gronfa hefyd yn rheoli ei risg hylifedd i sicrhau y bydd digon o hylifedd i fodloni'r llif arian y rhagwelwyd y bydd ei angen ar y Gronfa. Rheolir y risgiau buddsoddi hyn gan yr Awdurdod yn rhan o'i raglen gyffredinol i reoli risgiau'r Gronfa Bensiwn.

Y Panel sy'n gyfrifol am strategaeth rheoli risg y Gronfa. Pennir polisïau rheoli risg i glustnodi a dadansoddi'r risgiau a wynebir gan weithrediadau pensiwn yr Awdurdod. Adolygir y polisïau yn rheolaidd i adlewyrchu unrhyw newidiadau mewn gweithgareddau ac amodau'r farchnad.

13.15.2 Risg y farchnad

Risg y Farchnad yw'r risg o golledion yn sgil newidiadau ym mhrisiau ecwitis, cyfraddau llog a chyfraddau cyfnewid arian tramor. Mae gweithgareddau buddsoddi y Gronfa yn golygu ei bod yn agored i risg y farchnad yn neilltuoel o ran yr ecwitis y mae'n eu dal. Mae lefel y risg y mae'r Gronfa yn agored iddo yn dibynnu ar amodau'r farchnad, y disgwyliadau o ran newidiadau mewn prisiau ac elw yn y dyfodol a chymysgedd yr asedau.

Nod strategaeth rheoli risg y Gronfa yw clustnodi a rheoli risg y farchnad a'i gadw o fewn terfynau derbyniol a hynny mewn modd sy'n ceisio'r elw mwyaf posib.

Yn gyffredinol rheolir anwadalwch eithafol yn risg y farchnad drwy gael portffolio sy'n amrywiol o ran sectorau daearyddol a diwydiannol a gwarannau unigol. I liniaru risg y farchnad mae'r Panel a'i ymgynghorydd annibynnol yn dilyn modd priodol o fonitro amodau'r farchnad a dadansoddi'r meincnod.

Mae gan y Gronfa dair ffordd o reoli'r risgiau hyn:

- Defnyddir dadansoddiad o ffactorau risg i fonitro risg y farchnad y mae'r Gronfa yn agored iddo i sicrhau fod y risg o fewn terfynau goddefol
- Cyfyngir ar risgiau neilltuol drwy bennu uchafswm, wedi'i bwysoli ar sail risg, ar gyfer rhai buddsoddiadau unigol
- Drwy fuddsoddi mewn portffolio sy'n amrywiol o ran rheolwyr a buddsoddiadau ac eto drwy i ragolygon yr actiwari gyfeirio at elw cymharol bwylllog dros yr hirdymor er lleihau'r posibilrwydd o danberfformio

13.15.3 **Risg prisiau eraill**

Y risgiau eraill yw'r rhai sy'n ymwneud â'r risg y bydd gwerth offeryn ariannol yn amrywio o ganlyniad i newid ym mhrisiau'r farchnad (ar wahân i'r rheiny a berir gan risg cyfraddau llog a risg cyfnewid arian tramor), boed y newidiadau hynny'n cael eu hachosi gan ffactorau sy'n benodol i'r offeryn unigol, ei gyhoeddiad neu i ffactorau sy'n effeithio'r holl gyfryw offerynnau yn y farchnad.

Mae'r Gronfa'n agored i risg prisiau cyfranddaliadau. Mae hyn yn ymwneud â buddsoddiadau nad oes sicrwydd ynghylch eu prisiau yn y dyfodol. Mae risg o golled gyfalafol ynghlwm wrth bob buddsoddiad mewn gwarannau. Pennir uchafswm y risg a berir gan offerynnau ariannol gan eu gwerth teg.

Mae rheolwyr buddsoddi y Gronfa yn lleihau'r risg prisiau drwy amrywio'r portffolio ac mae'r Panel yn monitro'r gwarannau a'r offerynnau ariannol eraill a ddewisir i sicrhau eu bod o fewn y terfynau a bennwyd yn strategaeth fuddsoddi y Gronfa.

13.15.4 **Risg prisiau eraill – dadansoddiad sensitifrwydd**

Pennir newidiadau posib mewn prisiau ar sail yr anwadalwch hanesyddol a welwyd mewn elw gan ddsbarth o ased. Mae'r anwadalwch posib a nodir isod yn gyson ag un symudiad gwyro safonol yn y newid yng ngwerth yr asedau yn ystod y tair blynedd ddiweddaraf:

Math o Ased	Symudiad potensial y farchnad (+/-)
Arian	1.90%
Ecwitis DU	9.60%
Ecwitis Tramor	12.30%
Ecwitis Cyfun Byd-eang gan gynnwys y DU	9.20%
Bondiau Corfforaethol DU	7.80%
Gwarannau Wrth Indecs	13.70%
Eiddo	4.80%

Pe byddai pris y Gronfa ar y farchnad wedi codi/disgyn yn unol â'r uchod byddai'r newid yn yr asedau net ar gael i dalu buddion fel a ganlyn:

Math o Ased	Gwerth ar 31		Gwerth ar gynydd	Gwerth ar ostyngiad
	Mawrth 2017	Newid		
	£'000	%	£'000	£'000
Arian	4,880	1.90%	4,973	4,787
Ecwitis DU	568,252	9.60%	622,805	513,700
Ecwitis Tramor	578,845	12.30%	650,042	507,647
Ecwitis Cyfun Byd-eang gan gynnwys y DU	520,527	9.20%	568,415	472,638
Bondiau Corfforaethol DU	221,350	7.80%	238,615	204,085
Gwarannau Wrth Indecs	219,346	13.70%	249,397	189,296
Eiddo	218,384	4.80%	228,866	207,901
Gwerthiannau i'w derbyn	258	0.00%	258	258
Pryniadau i'w talu	(246)	0.00%	(246)	(246)
Incwm i'w derbyn	3,582	0.00%	3,582	3,582
Cyfanswm Asedau	2,335,178		2,566,707	2,103,648

Math o Ased	Gwerth ar 31		Gwerth ar gynydd	Gwerth ar ostyngiad
	Mawrth 2016	Newid		
	£'000	%	£'000	£'000
Arian	1,715	0.01%	1,715	1,714
Ecwitis DU	450,678	10.66%	498,720	402,636
Ecwitis Tramor	479,667	10.25%	528,833	430,501
Ecwitis Cyfun Byd-eang gan gynnwys y DU	394,740	10.08%	434,530	354,950
Bondiau Corfforaethol DU	178,145	6.23%	189,243	167,046
Gwarannau Wrth Indecs	177,109	9.45%	193,846	160,373
Eiddo	209,744	1.96%	213,855	205,633
Gwerthiannau i'w derbyn	1,209	0.00%	1,209	1,209
Pryniadau i'w talu	(964)	0.00%	(964)	(964)
Incwm i'w derbyn	3,337	0.00%	3,337	3,337
Cyfanswm Asedau	1,895,380		2,064,324	1,726,435

13.15.4.1 Sensitifwydd asedau y rhoddir gwerth lefel 3 iddynt

Math o Ased	Gwerth ar 31		Gwerth ar gynydd	Gwerth ar ostyngiad
	Mawrth 2017	Newid		
	£'000	%	£'000	£'000
Ecwitis - Tramor heb eu dyfynnu	6,218	12.30%	6,983	5,454
Eiddo	210,471	4.80%	220,574	200,369
Cyfanswm	216,689		227,557	205,823

13.15.5 Risg cyfraddau llog

Prif ddiben y Gronfa wrth fuddsoddi mewn asedau ariannol yw ennill elw ar y buddsoddiadau. Mae'r buddsoddiadau hyn yn agored i risgiau cyfraddau llog sef y risg y bydd gwerth teg neu lif ariannol offeryn ariannol yn y dyfodol, yn amrywio oherwydd newid yng nghyfraddau llog y farchnad.

Caiff risg cyfraddau llog y Gronfa ei fonitro'n rheolaidd gan y Panel yn unol â strategaeth rheoli risg y Gronfa, gan gynnwys monitro'r hyn fuddsoddwyd mewn asedau ariannol yn erbyn y meincnodau perthnasol.

Yn rhan o'i brisiad tair blynedd, ac yn unol â gorchmynion y Datganiad Strategaeth Gyllido, bydd yr Actiwari ond yn rhagweld elw cymharol bwylllog dros yr hirdymor er lleihau'r risg o danberfformio. Caiff y cynnydd ei ddadansoddi mewn prisiau teirblwydd ar gyfer pob cyflogwr.

Mae ymwneud uniongyrchol y Gronfa â symudiadau yn y cyfraddau llog ar 31 Mawrth 2017 a 31 Mawrth 2016 wedi'u nodi isod. Mae'r datgeliadau hyn yn dangos risg cyfraddau llog yn ôl gwerth teg yr asedau ariannol sy'n sail iddynt:

31/03/16	Math o Ased	31/03/17
£'000		£'000
1,715	Arian cyfwerth ag arian parod	4,880
2,326	Arian gyda CSG	4,888
355,254	Bondiau	440,696
359,295	Cyfanswm	450,464

13.15.6 Dadansoddiad sensitifrydd risg cyfraddau llog

Gall cyfraddau llog amrywio a gallant effeithio incwm i'r Gronfa a gwerth yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion.

Mae'r dadansoddiad canlynol yn tybio bod yr holl newidynnau eraill, yn neilltuol cyfraddau cyfnewid, yn aros yn gyson, ac mae'n dangos yr effaith yn y flwyddyn ar yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion yn ôl newid +/- 1% yn y cyfraddau llog:

Math o Ased	Gwerth ar 31/03/17 £'000	Newid yn y flwyddyn o asedau net ar gael i dalu budd-daliadau	
		+1% £'000	-1% £'000
Arian cyfwerth ag arian parod	4,880	49	(49)
Arian gyda CSC	4,888	49	(49)
Bondiau	440,696	4,407	(4,407)
Cyfanswm newid mewn asedau	450,464	4,505	(4,505)

Math o Ased	Gwerth ar	Newid yn y flwyddyn o asedau	
	31/03/16	net ar gael i dalu budd-daliadau	
		+1%	-1%
	£'000	£'000	£'000
Arian cyfwerth ag arian parod	1,715	17	(17)
Arian gyda CSC	2,326	23	(23)
Bondiau	355,254	3,553	(3,553)
Cyfanswm newid mewn asedau	359,295	3,593	(3,593)

13.15.7 Cyfraddau Disgownt

Mae'r modd yr amcangyfrifir y rhwymedigaethau net i dalu pensiynau yn dibynnu ar nifer o ystyriaethau cymhleth yn ymwneud â'r gyfradd disgownt a ddefnyddir, cyfradd y codiad a ragwelir mewn cyflogau, newid yn yr oedrannau ymddeol, cyfraddau marwolaethau a'r elw disgwylidig ar asedau'r gronfa. Cyflogir cwmni o actiwariad ymgynghorol i roi cyngor arbenigol i'r Awdurdod ynghylch y tybiaethau i'w defnyddio.

13.15.8 Risg Arian Breiniol

Risg arian breiniol yw'r risg y bydd gwerth teg llif arian offeryn ariannol yn amrywio yn y dyfodol oherwydd y newid yng nghyfraddau cyfnewid arian tramor. Mae'r Gronfa yn agored i risg breiniol o ran offerynnau ariannol sy'n cael eu dal mewn unrhyw arian heblaw arian ymarferol y Gronfa (£ Sterling Prydain). Mae'r Gronfa'n dal asedau ariannol ac anariannol mewn ffurfiau arian heblaw am £ Sterling Prydain.

Caiff risg arian breiniol y Gronfa ei fonitro'n rheolaidd gan y Panel yn unol â strategaeth rheoli risg y Gronfa, gan gynnwys monitro i ba raddau y mae'n gael ei heffeithio gan gyfraddfeydd arian yn amrywio.

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi buddsoddiadau'r Gronfa mewn arian breiniol ar 31 Mawrth 2017 a 31 Mawrth 2016:

Gwerth teg	Math o Ased	Gwerth teg
31/03/16		31/03/17
833,807	Ecwitis tramor	1,039,211
29,011	Eiddo	34,973
32	Arian	0
862,850	Cyfanswm asedau tramor	1,074,184

13.15.9 Dadansoddiad sensitifrwydd risg arian breiniol

Roedd buddsoddiadau cyfun y Gronfa mewn arian breiniol ar 31 Mawrth 2017 yn 8.30% (6.23% yn 2015-16).

Mae'r dadansoddiad hwn yn tybio bod yr holl newidynnau eraill, yn neilltuol cyfraddau llog, yn aros yn gyson.

Pe byddai'r bunt yn cryfhau/gwanhau yn ôl 8.30% yn erbyn yr amrywiol arian y mae gan y Gronfa buddsoddiadau ynddynt, byddai'r asedau net ar gael i dalu buddion yn cynyddu/lleihau fel a ganlyn:

Math o Ased	Newid yn y flwyddyn o asedau		
	Gwerth teg 31/03/17	net ar gael i dalu budd- daliadau	
	£'000	+8.30%	-8.30%
Ecwitis tramor	1,039,211	86,255	(86,255)
Eiddo	34,973	2,903	(2,903)
Arian	0	0	0
Cyfanswm newid mewn asedau	1,074,184	89,158	(89,158)

Math o Ased	Newid yn y flwyddyn o asedau		
	Gwerth teg 31/03/16	net ar gael i dalu budd- daliadau	
	£'000	6.23%	-6.23%
Ecwitis tramor	833,807	885,753	781,861
Eiddo	29,011	30,818	27,204
Arian	32	34	30
Cyfanswm newid mewn asedau	862,850	916,605	809,095

13.15.10 Risg credyd

Risg credyd yw'r risg y bydd partiön eraill sy'n rhan o drafodion neu offeryn ariannol yn methu â thalu arian sy'n ddyledus i'r Gronfa gan beri i'r Gronfa ddiodef colled ariannol. Fel arfer mae gwerth marchnad y buddsoddiadau yn cynnwys asesiad o gredyd yn eu prisiau ac felly darparwyd yn benodol ar gyfer y risg o golled yng ngwerth asedau a rhwymedigaethau ariannol y Gronfa.

Yn ei hanfod mae holl bortffolio buddsoddi y Gronfa yn agored i risg credyd o ryw fath. Fodd bynnag bydd dewis partiön contract, broceriaid a sefydliadau ariannol o safon uchel yn lleihau cymaint â phosib ar y risg credyd a allai godi drwy fethu â chwblhau trafodion yn brydlon.

Ar hyn o bryd ni asesir teilyngdod credyd y Cyflogwyr sy'n rhan o'r Gronfa ac nid oes terfynau credyd unigol yn cael eu gosod. Y risg posib yw y methir â chasglu cyfraniadau oddi wrth gyflogwyr sydd heb aelodau yn cyfrannu (e.e. risg sy'n gysylltiedig â chyflogwyr â nifer ddirywiol fechan o aelodau yn cyfrannu) felly mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn monitro newidiadau yn yr aelodaeth yn flynyddol.

Rhaid i gyflogwyr sydd yn ymuno â'r Gronfa o'r newydd gytuno i ddarparu bond i atal y risg o golled ariannol i'r Gronfa yn y dyfodol os bydd iddo fethu â bodloni ei rwymedigaethau pensiwn ar derfynu'r cynllun. Ar hyn o bryd mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn gwarantu i fodloni unrhyw rwymedigaeth y bydd y Gronfa yn gyfrifol amdani yn y dyfodol o ganlyniad i derfynu'r cynllun. Gwneir hyn er sicrhau bod y cyfnodau a'r symiau adennill actiwaraid yn cael eu cadw'n rhesymol ar gyfer cyflogwyr llai.

Ni ddeler gwarant gyfochrog i sicrhau asedau ariannol. Nid yw Cyngor Sir Caerfyrddin fel arfer yn caniatáu credyd i gyflogwyr.

Caiff pob buddsoddiad a ddelir gan y rheolwyr buddsoddi ei ddal yn enw Cronfa Bensiwn Dyfed gan y Ceidwad – Northern Trust, ac felly os bydd y rheolwr buddsoddi yn methu ni fydd buddsoddiadau'r Gronfa yn cael eu rhestru ymhlith asedau'r rheolwr hwnnw.

Caiff unrhyw arian parod sy'n cael ei ddal gan Cyngor Sir Gaerfyrddin ei fuddsoddi yn unol a'r rhestr graddio credyd gwrthbartion sydd wedi ei gymeradwyo.

13.15.11 Risg hylifedd

Mae hwn yn cyfeirio at y posibilrwydd y gallai'r Gronfa fod heb ddigon o arian i fodloni ei hymrwymiaidau i wneud taliadau.

Mae gan Gyngor Sir Gaerfyrddin system gynhwysfawr o reoli llif arian sy'n sicrhau y bydd arian ar gael os bydd ei angen.

Mae'r swm a ddelir yng nghyfrif banc y Gronfa yn ddigon i fodloni anghenion hylifedd arferol y Gronfa a chaiff unrhyw arian dros ben ei fuddsoddi. Actiwariaid y Gronfa sy'n pennu'r cyfraniadau y mae'n rhaid eu talu i sicrhau y gellir bodloni holl rwymedigaethau'r dyfodol.

Natur hylifol sydd i'r rhan fwyaf o fuddsoddiadau'r Gronfa er y gallai unrhyw orfodaeth i droi'r buddsoddiadau yn arian beri colled ariannol.

13.16 Asedau cyfredol

31/03/16 £'000		31/03/17 £'000
	Cyfraniadau dyledus gan gyflogwyr	
4,956	- Cyflogwyr	4,468
1,432	- Gweithwyr	1,456
2,326	Balansau ariannol	4,888
513	Dyledwyr	352
<u>9,227</u>		<u>11,164</u>

13.16.1 Dadansoddiad o Asedau Cyfredol

31/03/16 £'000		31/03/17 £'000
2	Refeniw a Thollau EM	1
8,016	Awdurdodau lleol eraill	9,906
1	Cyrff GIG	1
1	Corfforaethau cyhoeddus a chronfeydd masnachu	1
1,207	Cyrff eraill ac unigolion	1,255
<u>9,227</u>		<u>11,164</u>

13.17 Rhwymedigaethau cyfredol

31/03/16		31/03/17
£'000		£'000
(2,206)	Budd-daliadau heb eu talu	(1,823)
(1,992)	Credydwyr	(1,451)
(4,198)		(3,274)

13.17.1 Dadansoddiad o Rhwymedigaethau Cyfredol

31/03/16		31/03/16
£'000		£'000
(586)	Refeniw a Thollau EM	(609)
(454)	Awdurdodau lleol eraill	(67)
(670)	Corfforaethau cyhoeddus a chronfeydd masnachu	(417)
(2,488)	Cyrrff eraill ac unigolion	(2,181)
(4,198)		(3,274)

13.18 Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY)

Mae'n statudol ofynnol i Gynlluniau Pensiwn Galwedigaethol ddarparu trefniadau mewnol o ran Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY). Mae gan Gronfa Bensiwn Dyfed ddarparwyr ar y cyd: Prudential, Standard Life, ac Equitable Life lle mae ystod o ddewisiadau o ran buddsoddi ar gael.

Aelodau unigol y Cynllun sydd i bennu faint y maent am gyfrannu (yn amodol ar derfynau a bennwyd gan Refeniw a Thollau EM) ac ar elfennau neu gynnwys y buddsoddiad.

Mae'r cyfraniadau i gynlluniau CGY a fuddsoddir ar wahan a gwerth y buddsoddiadau hynny ar ddyddiad y fantolen, wedi'u nodi isod:

Darparwyr CGY	Gwerth ar	Cyfraniadau	Gwariant	Newid yng	Gwerth ar
	31/03/2016			ngwerth y	
	£ '000	£ '000	£ '000	farchnad	£ '000
Prudential	2,858	1,009	(469)	369	3,767
Equitable Life	585	23	(99)	40	549
Standard Life	3,435	605	(674)	325	3,691
Cyfanswm	6,878	1,637	(1,242)	734	8,007

13.19 Trefniadau ariannu

Er mwyn cydymffurfio gyda Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013, mae actiwari'r Gronfa yn cynnal prisiant actiwaraid llawn bob tair mlynedd er mwyn sefydlu lefel cyfraniadau'r cyflogwyr am y tair mlynedd nesaf. Mae'r ffigyrau sydd wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol yma wedi'u seilio ar y prisiad 31 Mawrth 2013. Cymerodd y prisiad olaf le ar 31 Mawrth 2016 a bydd y prisiad nesaf yn cymryd lle ar 31 Mawrth 2019.

Am fwy o fanylion, ac i weld y Datganiad Strategath Gyllido (DSG), dylid cyfeirio at wefan y Gronfa – www.cronfabensiwndyfed.org.uk a'r Adroddiad a Chyfrion Blynyddol 2016-17.

13.20 Trosglwyddiadau Partion Perthnasol

Mae'r Gronfa yn cael ei weinyddu gan Cyngor Sir Caerfyrddin, ac o ganlyniad mae yna berthnyas cryf rhwng yr Awdurdod a'r Gronfa.

Gwnaeth yr Awdurdod ddioddef costau o £0.929 miliwn (2015-16: £0.889 miliwn) ynglyn â gweinyddiath y Gronfa ac fe wnaeth y Gronfa ad-dalu'r costau yma.

Yr Awdurdod yw'r cyflogwr mwyaf o'r holl gyflogwyr yn y Gronfa ac fe wnaeth gyfraniadau o £31.756 miliwn i'r Gronfa yn 2016-17 (2015-16: £31.149 miliwn).

Mae'r Gronfa yn dal rhan o'i arian parod gyda'r Awdurdod er mwyn cyfarfod a thaliadau dyddiol y Gronfa. Mae'r arian yma yn cael ei fuddsoddi ar y Farchnadoedd Arian gan adran Rheoli'r Trysorlys yr Awdurdod. Yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2017, roedd gan y Gronfa falans buddsoddi ar gyfartaledd o £6.58 miliwn (2015-16: £4.73 miliwn) yn ennill llog o £26,558 (2015-16: £26,180).

13.20.1 Llywodraethu

Panel Pensiwn

Mae gan y Gronfa dri aelod ac un dirprwy aelod ar y Panel Pensiwn. Yn ystod 2016-17, rhain oedd Cynghorydd Wyn Evans, Cynghorydd Siân Thomas (aelod gweithredol), Cynghorydd Terry Davies MBE (aelod gweithredol) a'r Cynghorydd Philip Hughes (aelod gweithredol) oedd y dirprwy aelod.

Bu gan Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, Mr Chris Moore, sydd yn Swyddog Adran 151 i'r Awdurdod, ran allweddol yn rheolaeth ariannol y Gronfa. Mae ef yn aelod gweithredol o'r Gronfa.

Mae'n ofynnol i aelodau'r Panel, a'r Uwch Swyddogion sy'n cynghori'r Panel, i ddatgan unrhyw ddiddordeb sydd ganddynt ym mhob cyfarfod.

Mae aelodau'r Panel a Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol yn cronni eu budd-daliadau mewn cydymffurfiaeth a'r rheolau sy'n amgylchynnu cynghoryddion a gweithwyr cyrff cyflogi y Gronfa.

Y Bwrdd Pensiwn

Cafodd Bwrdd Pensiwn lleol ei gymeradwyo gan y Cyngor Sir ar 11 Chwefror 2015 a bydd yn weithredol o 1 Ebrill 2015 ymlaen yn unol â Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013. Mae'n cynnwys tri cynrychiolydd cyflogwr, tri cynrychiolydd aelodau, a chadeirydd annibynnol.

Am fwy o fanylion, ac i weld y Polisi Llywodraethu dylir cyfeirio at wefan y Gronfa – www.cronfabensiwndyfed.org.uk a'r Adroddiad a Chyfrion Blynnyddol 2016-17.

13.20.2 Prif Bersonél Rheoli

Swyddog Adran 151 y gronfa yw prif bersonél rheoli'r gronfa. Nodir isod gyfanswm y taliadau sy'n daladwy i'r prif bersonél rheoli:

31/03/16		31/03/17
£ '000		£ '000
12	Budd-daliadau tymor byr	13
<u>3</u>	Budd-daliadau ôl-gyflogaeth	<u>3</u>
<u>15</u>		<u>16</u>

13.21 Cyfraddau cyfrannu y cyrff cyflogi, y budd-daliadau a thalwyd a'r cyfraniadau a dderbyniwyd

2015-16				2016-17				
Cyfradd cyfrannu %	Cyfrania-dau Diffyg £'000	Cyfraniadau £'000	Budd-daliadau a thalwyd £'000	Cyfradd cyfrannu %	Cyfrania-dau Diffyg £'000	Cyfraniadau £'000	Budd-daliadau a thalwyd £'000	
Cyrff Rhestredig								
12.9	4,690	26,459	31,650	Cyngor Sir Caerfyrddin	12.9	5,019	26,753	32,822
13.5	1,107	13,776	14,600	Cyngor Sir Benfro	13.5	1,152	14,103	16,322
13.6	730	10,008	10,792	Cyngor Sir Ceredigion	13.6	760	9,949	9,927
11.6	389	3,455	2,048	Swyddfa y Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys	11.6	405	3,643	2,066
13.5	133	1,167	930	Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru	13.5	138	1,389	1,139
15.2	(1)	275	224	Coleg Ceredigion	15.2	(1)	281	340
14.3	139	1,244	1,046	Coleg Sir Gar	14.3	144	1,211	836
15.1	(24)	592	681	Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro	15.1	(25)	591	821
12.8	55	851	258	Coleg Sir Benfro	12.8	57	847	281
	7,218	57,827	62,229			7,649	58,767	64,554
Cyrff Dynodedig								
20.0	2	3	53	Cyngor Tref Aberystwyth	20.0	2	4	13
12.6	0	1	0	Cyngor Tref Aberaeron	12.6	0	1	0
18.6	13	71	123	Cyngor Tref Caerfyrddin	18.6	14	72	95
18.7	0	6	0	Cyngor Tref Cwmaman	18.7	0	14	0
27.7	1	5	5	Cyngor Cymuned Gorslas	27.7	1	5	4
24.4	0	9	30	Cyngor Tref Hwlfordd	24.4	0	11	30
27.6	7	9	14	Cyngor Tref Cydweli	27.6	7	13	12
17.3	0	2	1	Cyngor Cymuned Llanbadarn Fawr	17.3	0	2	1
21.2	0	1	1	Cyngor Cymuned Llanarthne	21.2	0	1	1
14.6	11	196	136	Cyngor Gwledig Llanelli	14.6	12	185	200
17.8	8	52	74	Cyngor Tref Llanelli	17.8	8	100	76
12.8	0	6	0	Cyngor Cymuned Llangennech	12.8	0	6	0
18.2	4	21	7	Cyngor Cymuned Llannon	18.2	4	23	7
23.5	3	25	7	Cyngor Tref Penbre a Phorth Tywyn	23.5	3	30	7
13.0	-1	6	12	Cyngor Tref Dinbych-y-pysgod	13.0	(1)	6	12
12.0	0	9	3	Cyngor Tref Penfro	12.0	0	10	1
8.5	0	7	0	Cyngor Tref Doc Penfro	8.5	0	7	0
24.9	0	3	0	Cyngor Cymuned Pontyberem	24.9	0	0	0
	48	432	466			50	490	459

(parhad drosodd)

2015-16				2016-17			
Cyfradd cyfrannu %	Cyfrania- dau Diffyg	Cyfran- iadau £'000	Budd- daliadau a thalwyd £'000	Cyfradd cyfrannu %	Cyfrania- dau Diffyg	Cyfran- iadau £'000	Budd- daliadau a thalwyd £'000
Cyrff a Dderbyniwyd							
Cyrff Cymunedol a Dderbyniwyd							
26.1	(12)	1	26 Ymddiriedolaeth Pwll Nofio Aberteifi	26.1	(12)	0	14
			Cymdeithas Gwasanaethau				
13.2	13	31	17 Gwirfoddol Ceredigion	13.2	13	32	19
13.3	40	937	892 Gyrfa Cymru	13.3	42	811	891
			Cymdeithas Gwasanaethau				
11.7	6	38	38 Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin	11.7	6	31	46
			Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc				
26.5	(5)	11	0 Sir Gaerfyrddin	26.5	(5)	9	0
17.9	0	34	84 Iaith Cyf (Cwmni Iaith)	17.9	0	16	39
20.0	5	3	16 Cartref Cheshire y Cwm	20.0	5	3	16
0.0	0	0	0 Cyngor Cymuned Llanedi	21.7	0	7	0
18.1	5	32	37 Bwrdd Claddu Llanelli	18.1	5	29	49
7.8	3	60	0 Menter Bro Dinefwr	7.8	3	55	27
11.5	15	35	28 Menter Cwm Gwendraeth	11.5	16	33	31
7.4	0	15	0 Menter Gorllewin Sir Gar	7.4	0	16	0
23.7	1	12	40 Menter Iaith Castell Nedd a Port	23.7	1	21	10
			Cymdeithas Cymuned a Chwaraeon				
16.0	1	10	2 Arberth a'r Cylch	16.0	2	9	2
			Cymdeithas Gwasanaethau				
14.5	4	60	33 Gwirfoddol Sir Benfro	14.5	4	63	23
12.6	7	57	40 PLANED	12.6	7	45	33
13.4	0	1	26 PRISM	13.4	0	0	73
14.2	(41)	301	179 Tai Ceredigion	14.2	(42)	265	320
16.5	101	582	529 Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant	16.5	105	607	563
22.5	74	10	189 Prifysgol Aberystwyth	22.5	77	11	228
15.1	22	254	374 Cyngor Llyfrau Cymru	15.1	22	222	371
			Gweithredu dros lechyd Meddwl				
13.8	6	32	40 Gorllewin Cymru	13.8	6	34	40
17.8	1	56	44 Tribiwnlys Prisio Gorllewin Cymru	17.8	1	52	44
13.5	0	3	0 Nofio Arberth	13.5	0	7	0
	246	2,575	2,634		256	2,378	2,839
Cyrff trosglwyddo a dderbyniwyd							
14.9	0	0	0 Garnant Golf Club Limited	14.9	0	0	0
19.3	(4)	87	70 Grwp Gwalia	19.3	(4)	17	36
21.5	0	25	45 Danfo	21.5	0	15	6
20.3	0	219	93 Grwp Cymorth Dynol (GCD)	20.3	0	175	198
	(4)	331	208		(4)	207	240

(parhad drosodd)

2015-16				2016-17			
Cyfradd cyfrannu %	Cyfran- iadau Diffyg	Cyfran- iadau £'000	Budd- daliadau a thalwyd £'000	Cyfradd cyfrannu %	Cyfran- iadau Diffyg	Cyfran- iadau £'000	Budd- daliadau a thalwyd £'000
Cyrff eraill perthnasol heb weithwyr pensiynadwy							
Asiantaeth Trwyddedau Gyrwyr a							
0.0	0	6	7	0.0	0	5	6
0.0	0	51	352	0.0	0	51	325
0.0	0	1	6	0.0	0	1	5
0.0	0	1	5	0.0	0	1	2
0.0	0	0	2	0.0	0	0	2
0.0	0	0	8,615	0.0	0	0	8,198
Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol							
0.0	0	0	2	0.0	0	0	2
0.0	0	8	8	0.0	0	6	7
0.0	0	13	42	0.0	0	13	42
0.0	0	0	7	0.0	0	0	7
0.0	0	0	5	0.0	0	0	5
0.0	0	1	1	0.0	0	1	1
	0	81	9,052		0	78	8,602
	7,508	61,246	74,589		7,951	61,920	76,694
Cyfanswm							

13.21.1 Cyrff Eraill Perthnasol Heb Weithwyr Pensiynadwy

Cymerwyd yn ganiataol, yn achos y cyrff hyn heb weithwyr pensiynadwy, y bydd y gyfran o godiadau pensiwn a nodir isod yn parhau i gael eu hadennill.


	Cyfran i'w hadennill %
Asiantaeth Trwyddedau Gyrwyr a Cherbydau	100
Cyngor Tref Aberdaugleddau	100
Gwasanaeth Iechyd Gwladol	100
Canolfan y Teulu, Caerfyrddin	100
Dwr Cymru	50

13.22 Datganiad Actiwaraid

Darparwyd y datganiad hwn i fodloni gofynion Rheoliad 57(1)(d) o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013.

Cynhaliwyd prisiad actriwaraid o Gronfa Bensiwn Dyfed ar 31 Mawrth 2016 i bennu'r cyfraddau cyfrannu o 1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2020.

Ar sail y tybiaethau a fabwysiadwy roedd asedau'r Gronfa ar ddyddiad y prisiad yn £1,900 miliwn, sef 97% o'r £1,964 miliwn (y "Targed Ariannu") oedd wedi'i ymrwymo am wasanaeth a roddwyd. Y diffyg ar y prisiad oedd £64 miliwn.



Roedd y prisiad hefyd yn dangos bod angen i gyflogwyr dalu cyfradd cyfraniad sylfaenol o 15.2% o'r cyflog pensynadwy bob blwyddyn. Cyfrifir bod y cyfradd sylfaenol, ynghyd â'r cyfraniadau a delir gan aelodau, yn ddigonol i fodloni'r holl rwymedigaethau fydd yn codi o ran gwasanaeth ar ôl dyddiad y prisiad.

Yr amcan cyllido fel y nodwyd yn y Datganiad Strategaeth Gyllido yw cyflawni ac yna cynnal lefel gyllido solfedd o 100% o atebolrwydd (y targed cyllido solfedd). Yn unol â'r Datganiad Strategaeth Gyllido, lle bo diffyg ariannol yn bodoli ar ddiwrnod gweithredu'r prisiad, bydd cynllun adfer diffyg ariannol yn cael ei roi ar waith sy'n gofyn am gyfraniadau ychwanegol i unioni'r diffyg ariannol (neu ostyngiadau cyfrannu i ad-dalu unrhyw warged).

Mae'r Datganiad Strategaeth Gyllido yn pennu'r broses ar gyfer penderfynu ar gynllun adfer ar gyfer pob cyflogwr. Ar gyfer y prisiad actiwaraid hwn, y cyfnod adfer diffyg ariannol cyfartalog yw 17 o flynyddoedd, a chyfanswm cychwynnol y taliad adfer (y "gyfradd Eilaidd") ar gyfer 2017/18 yw tua £3.6 miliwn (mae hyn yn caniatáu i rai cyflogwyr gyflwyno unrhyw gynnydd yn raddol). Ar gyfer pob cyflogwr, bydd y gyfradd Eilaidd yn cynyddu 3.7% y flwyddyn, oni bai lle bo cyflwyno'n raddol ar waith. Os bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn cytuno i hynny, gall cyflogwyr hefyd ddewis talu rhywfaint o'u cyfraniadau diffyg ariannol yn gynnar yn gyfnewid am ostyngiad addas y cytunwyd arno.

Mae rhagor o fanylion ynghylch canlyniadau'r prisiad wedi eu cynnwys yn yr adroddiad ffurfiol ynghylch y prisiad actiwaraid dyddiedig 31 Mawrth 2017. Yn ymarferol, caiff safle pob cyflogwr unigol ei asesu ar wahân ac mae'r cyfraniadau sydd eu hangen wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn. Yn ogystal â'r cyfraddau cyfrannu ardystiedig, bydd y cyflogwyr yn gwneud taliadau i'r Gronfa i ganiatáu ar gyfer rhwymedigaethau ychwanegol sy'n codi yn sgil ymddeoliad cynnar (ar wahân i rai a achosir gan afiechyd), lle nad oes lwfans yn y gyfradd gyfrannu.

Mae'r cynllun cyllido a fabwysiadwyd i asesu cyfraniadau pob cyflogwr unigol yn cydymffurfio â'r Datganiad Strategaeth Gyllido (DSG). Mae'r gwahanol dulliau a fabwysiedir i weithredu'r codiadau mewn cyfaniadau a'r cyfnodau adennill diffygion yn unol â'r rhai a bennwyd gan broses ymgynghori'r DSG.

Defnyddiwyd y dull actiwaraid o broffwydo gwerth unedau wrth gynnal y prisiad ac roedd y brif ragdybiaeth actiwaraid a ddefnyddiwyd i asesu'r Targed Ariannu a'r gyfradd gyfrannu gyffredin, fel a ganlyn:

	Ar gyfer rhwymedigaethau Gwasanaeth Blaenorol	Ar gyfer rhwymedigaethau Gwasanaeth yn y Dyfodol
Cyfradd yr elw ar fuddsoddiadau (graddfa â ddisgownt)	4.4% y flwyddyn	4.95% y flwyddyn
Cyfradd y codiad mewn cyflogau (tymor hir)*	3.7% y flwyddyn	3.7% y flwyddyn
Cyfradd y codiad mewn Pensiynau (yn uwch na'r Pensiwn Lleiaf Gwarantedig)	2.2% y flwyddyn	2.2% y flwyddyn

* mae hyn wedi ystyried ataliaeth cyflog byr-dymor yn y sector gyhoeddus dros gyfnod o 4 blynedd

Aseswyd yr asedau yn ôl gwerth y farchnad.

Cynhelir prisiad actiwaraidd teirblwydd nesaf y Gronfa ar 31 Mawrth 2019. Bydd unrhyw newid yn y cyfraddau cyfrannu sy'n daladwy gan gyflogwyr unigol ar sail y prisiad hwnnw yn dod i rym ar 1 Ebrill 2020.

Gwerth Actiwaraidd Presennol Buddion Ymddeol sydd wedi'u Haddo at Ddibenion IAS 26

Mae'n ofynnol, yn ôl IAS 26, fod gwerth presennol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo yn cael eu datgelu, ac ar gyfer y diben hwnnw rhaid defnyddio'r rhagdybiaethau actiwaraidd a'r fethodoleg sy'n seiliedig ar IAS 19 yn hytrach na'r rhagdybiaethau a'r fethodoleg a ddefnyddir ar gyfer dibenion cyllido.

I asesu gwerth y buddion hyn ar y sail honno rydym wedi defnyddio'r rhagdybiaethau ariannol canlynol ar 31 Mawrth 2017 (mae rhagdybiaethau 31 Mawrth 2016 wedi'u cynnwys fel cymhariaeth):

	31 Mawrth 2016	31 Mawrth 2017
Cyfradd yr elw ar fuddsoddiadau (graddfa â disgownt)	3.6% y flwyddyn	2.5% y flwyddyn
Cyfradd y codiad mewn cyflogau *	3.5% y flwyddyn	3.8% y flwyddyn
Cyfradd y codiad mewn pensiynau (yn uwch na'r Pensiwn Lleiaf Gwarantedig)	2.0% y flwyddyn	2.3% y flwyddyn

* yn cynnwys lwfans cyfatebol i'r hyn sydd yn y prisiad actiwaraidd yng nghyswllt cyfyngu cyflogau yn y tymor byr yn y sector cyhoeddus.

Mae'r rhagdybiaethau demograffig yr un peth â'r rhai a defnyddir ar gyfer dibenion cyllido. Gellir gweld manylion llawn ynglyn â'r rhagdybiaethau yma yn yr adroddiad ffurfiol y prisiad actiwaraidd sy'n ddyddiedig Mawrth 2017.

Yn ystod y flwyddyn, bu i'r elw o fondiau corfforaethol ddisgyn, gan arwain at gyfradd ostyngol is yn cael ei defnyddio at ddibenion IAS 26 ar ddiwedd y flwyddyn na dechrau'r flwyddyn (2.5% y flwyddyn o gymharu â 3.6% y flwyddyn). Bu i'r gyfradd chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr tymor hir ddisgwyliedig gynyddu yn ystod y flwyddyn, o 2.0% y flwyddyn i 2.3% y flwyddyn. Bu i'r ddau ffactor hyn gyda'i gilydd gyfuno i gynyddu'r rhwymedigaethau dros y flwyddyn yn sylweddol. Mae'r rhagdybiaeth y bydd codiad cyflog ar ddiwedd y flwyddyn hefyd wedi newid i ganiatáu ar gyfer cyfyngiad cyflog sector cyhoeddus tymor byr sy'n lleihau'r rhwymedigaethau.

Amcangyfrifir bod gwerth buddion ymddeol addawedig y Gronfa at ddibenion IAS 26 fel yr oedd ar 31 Mawrth 2016 yn £2,337 miliwn. Roedd llog dros y flwyddyn wedi cynyddu rhwymedigaethau tua £84 miliwn, a chan ganiatáu ar gyfer buddion net a gronnwyd/a dalwyd dros y cyfnod, wedi eu cynyddu tua £13 miliwn (ar ôl caniatáu ar gyfer unrhyw gynnydd mewn rhwymedigaethau sy'n deillio o ganlyniad i ymddeoliadau cynnar/ychwanegiadau). Wedyn roedd cynnydd pellach mewn rhwymedigaethau o £563 miliwn wedi eu gwneud o "golledion actiwaraid" (yn bennaf newidiadau yn y rhagdybiaethau actiwaraid a ddefnyddiwyd, sef yn bennaf y gyfradd ostyngol a chyfradd ragdybiedig MPD y dyfodol fel y cyfeirir ato uchod).

Yr effaith net or holl hyn yw fod yr amcangyfrif o gyfanswm buddion ymddeol sydd wedi'u haddo ar 31 Mawrth 2017 yn £2,997 miliwn.

John Livesey

**Cymrawd o'r Sefydliad a'r Gyfadran Actiwarau
Mercer Limited**

Mehefin 2017

13.23 Digwyddiadau ar ôl dyddiad y fantolen

Trosglwyddo Ecwiti Goddefol

Yn ystod mis Ebrill 2017, trosglwyddodd Cronfa Bensiwn Dyfed ei holl asedau ecwiti goddefol, sef tua £570 miliwn, i gronfeydd ecwiti cyfun goddefol BlackRock o ganlyniad i ymarfer caffael ar y cyd gyda phob un o 8 cronfa Cymru.

Y Panel Pensiynau

Yn dilyn ymddeoliadau ac etholiadau'r Cyngor Sir ym mis Mai 2017, mae aelodaeth y panel pensiynau fel a ganlyn:

Y Cyng. Elwyn Williams (Cadeirydd)

Y Cyng. Jim Jones

Y Cyng. John Prosser

Y Cyng. Dai Thomas (Dirprwy)

Nid yw'n ofynnol gwneud unrhyw addasiadau i'r cyfrifon hyn yn achos y digwyddiadau hyn.

13.24 Cronni Buddsoddiadau Pensiwn Cymru

Wedi i Lywodraeth Ei Mawrhydi gymeradwyo Cronfa Fuddsoddi Cymru ym mis Tachwedd 2016, penodir yn haf 2017 Weithredwr Trydydd Parti i'r Gronfa a reoleiddir gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, i reoli'r buddsoddiadau a'r gostyngiad mewn treuliau rheoli buddsoddiadau ar gyfer pob un o'r 8 cronfa yng Nghymru. Mae Cytundeb Rhwng Awdurdodau, sef y fframwaith cyfreithiol ar gyfer sefydlu Cyd-bwyllgor Llywodraethu wedi cael ei gymeradwyo gan bob un o'r 8 awdurdod gweinyddu ac mae Gweithgor Swyddogion a fydd yn cynghori'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cael ei ddewis fel Awdurdod Cynnal i ddarparu cymorth gweinyddol ac ysgrifenyddol, ac i roi'r penderfyniadau a wneir gan y Cyd-bwyllgor Llywodraethu ar waith.

14 GEIRFA

Mae'r adran ganlynol yn ceisio esbonio ystyr rhai o'r termau technegol sy'n cael eu defnyddio yn y Datganiadau. Mae'r adran wedi'i rhannu yn dermau Cyffredinol a'r rhai hynny sy'n ymwneud â Chyfrifon y Gronfa Bensiwn.

Cyffredinol**Amrywiad**

Y gwahaniaeth rhwng yr union wariant a'r gyllideb – a fynegir fel arian neu ganran.

Archwiliad

Archwiliad annibynnol ar ein gweithgareddau yw'r archwiliad hwn

Asedau a Ddelir i'w Gwerthu

Mae'r rhain yn asedau na ddefnyddir mwyach i ddarparu gwasanaeth ac sydd wrthi'n cael eu marchnata ac sy'n debygol iawn o gael eu gwerthu cyn pen blwyddyn.

Asedau Cyfredol

Asedau tymor byr yw'r rhain, sydd ar gael i ni eu defnyddio yn ystod y flwyddyn gyfrifydda ganlynol.

Asedau/Rhwymedigaethau Pensiynau Net (Nodiadau ar y Symudiad mewn Rhwymedigaethau Pensiwn Net)

Costau Gwasanaeth Presennol – gwerth y codiad yn rhwymedigaethau'r aelodau sy'n gweithio o ganlyniad i gynnydd o flwyddyn yn eu gwasanaeth (h.y. o ddechrau'r flwyddyn i ddiwedd y flwyddyn), llai unrhyw gyfraniadau gan weithwyr.

Cyfraniadau'r Cyflogwyr – Cyfraniadau'r cyflogwr yw'r symiau a delir gan y cyflogwr yn ystod y flwyddyn. Maent yn cynnwys unrhyw symiau a delir mewn perthynas â phwysau ymddeoliadau cynnar ac unrhyw gostau a adenillir o ran budd-daliadau blynyddoedd ychwanegol gorfodol.

Costau Gwasanaeth Blaenorol – Cyfyd costau gwasanaeth blaenorol pan fo cyflogwr yn gwneud ymrwymiad i ddarparu lefel uwch o fudd-dâl na'r hyn a addawyd yn flaenorol, er enghraifft creu budd-dâl pensiwn ar gyfer cymar lle nad oedd y cyfryw fudd-dâl yn bodoli neu ganiatáu ymddeoliad cynnar gyda blynyddoedd ychwanegol o wasanaeth.

Costau Llog – Mae cost y llog yn seiliedig ar gyfradd y disgownt a gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun ar ddechrau'r cyfnod. Ffordd arall o edrych ar y "llog ar rwymedigaethau" yw dad-ddirwyn blwyddyn o ddisgownt mewn perthynas â rhwymedigaethau.

Enillion a Cholledion Actiwaraid – Yn yr achos hwn y gwahaniaeth rhwng yr union elw ar yr asedau a'r elw a ddisgwylir.

Yr Elw Disgwyliedig ar Asedau – Mae'r elw a ddisgwylir ar asedau yn seiliedig ar ddisgwyliadau hir dymor ar ddechrau'r cyfnod.

Enillion neu Golledion ar Gytundebau neu Gwtogiadau – Pan fo rheolau'r Cynllun yn caniatáu gweithwyr i ymddeol yn gynnar neu drosglwyddo allan o'r Cynllun, cyfrifir am y cyfryw gytundebau neu gwtogiadau yn y rhagdybiaethau demograffig arferol a wneir gan yr actiwari a bydd unrhyw enillion neu golledion a achosir yn enillion a cholledion actiwaraid. Mae unrhyw golledion a achosir gan gytundeb neu gwtogiad nad yw wedi'i gyfrif yn y rhagdybiaethau actiwaraid yn cael ei fesur ar y dyddiad y mae'r cyflogwr yn dangos ei ymrwymiad i'r trafodion ac mae'n cael ei gydnabod yn y cyfrif elw a cholled ar gyfer y dyddiad hwnnw. Mae unrhyw enillion a achosir gan gytundeb neu gwtogiad nad ydyw wedi'i gyfrif yn y rhagdybiaethau actiwaraid yn cael ei fesur ar y dyddiad y mae pob parti y mae angen eu caniatâd wedi ymrwymo yn ddi-droi'n ôl i'r trafodion ac fe'i cydnabyddir yn y cyfrif elw a cholledion am y dyddiad hwnnw.

Asedau Treftadaeth

Yn ôl y diffiniad, Asedau Treftadaeth yw'r asedau hynny sy'n cael eu dal a'u cynnal yn bennaf oherwydd eu cyfraniad i wybodaeth a diwylliant.

Awdurdod Bilio

Awdurdod lleol sy'n gyfrifol am gasglu treth y cyngor a threthi annomestig.

Awdurdodau Praesept

Yr awdurdodau hynny sydd heb fod yn awdurdodau bilio, h.y. nid ydynt yn casglu treth y cyngor a threthi annomestig. O ran Cyngor Sir Caerfyrddin yr awdurdodau praesept yw Heddlu Dyfed-Powys a'r Cynghorau Tref a Chymuned.

Balans

Y gwarged neu'r diffyg mewn unrhyw gyfrif ar unrhyw adeg.

Blwyddyn Ariannol

Dyma gyfnod y cyfrifon. Yn achos yr awdurdodau lleol, mae'n dechrau ar 1 Ebrill ac yn dod i ben ar 31 Mawrth yn y flwyddyn ganlynol.

Budd-daliadau Tai

Lwfans i bobl ar incwm isel (neu ddim incwm) i dalu am eu rhent yn gyfan neu am gyfran ohono. Awdurdodau lleol sy'n caniatáu neu'n talu'r budd-dâl ond ad-delir rhan o gost y budd-daliadau a'r gost o redeg y gwasanaeth gan lywodraeth ganolog. Gelwir y budd-daliadau a delir i denantiaid yr awdurdod yn 'gostyngiad yn y dreth'ac enw'r budd-dâl a delir i denantiaid y sector preifat yn 'lwfans rhent'.

Bwrdd Benthyciadau Gweithfeydd Cyhoeddus (PWLB)

Un o asiantaethau'r Llywodraeth yw hon ac mae'n darparu benthyciadau tymor hir ar gyfer awdurdodau lleol. Mae'n codi cyfraddau llog sydd ychydig yn unig yn uwch na'r cyfraddau y mae'r Llywodraeth yn eu talu am fenthyca.

Côd Darbodus

Côd ymddygiad proffesiynol yw'r Côd Darbous i gefnogi awdurdodau lleol mewn gwneud penderfyniadau buddsoddi cyfalaf.

Credydwr

Mae credydwr yn rhywun y mae arnom arian iddo ar ddiwedd y flwyddyn ariannol am waith sydd wedi'i wneud, nwyddau sydd wedi dod i law neu wasanaethau sydd wedi'u rhoi.

Cronfa Bensiwn

Y gronfa a gynhelir i dalu taliadau pensiwn ar ymddeoliad y cyfranogwyr

Cronfa'r Cyngor

Prif gronfa reffeniw yr awdurdod lleol. Defnyddir y gronfa hon i dalu am wariant beunyddiol ar wasanaethau.

Cronfa Wrth Gefn

Symiau yw'r rhain sydd wedi'u neilltuo ond sydd heb fod yn disgyn o fewn diffiniad darpariaethau ac maent yn cynnwys cronfeydd wrth gefn cyffredinol (balansau) y mae'n rhaid i bob awdurdod eu cynnal fel mater o ddarbodaeth.

Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi

Dyma'r cronfeydd sydd wedi'u neilltuo ar gyfer diben penodol.

Croniad

Mae croniad yn swm a ddangosir yn ein cyfrifon ar gyfer incwm neu wariant yn ystod cyfnod y cyfrifon ond sydd heb gael ei dalu ar ddyddiad y fantolen.

Cyfrif Refeniw

Cyfrif yw hwn sy'n cofnodi ein gwariant a'n hincwm beunyddiol ar eitemau fel cyflogau wythnosol a misol, costau rhedeg gwasanaethau a chyllido gwariant cyfalaf.

Cyfrif Refeniw Tai (HRA)

Y cyfrif hwn sy'n cynnwys ein holl incwm a gwariant ym maes tai.

Cyllideb

Cynllun ar gyfer gwario yw cyllideb, a hynny at y flwyddyn ariannol nesaf fel rheol.

Cyllido Refeniw yn Uniongyrchol

Adnoddau a ddarperir o gyllideb refeniw yr awdurdod i gyllido costau prosiectau cyfalaf.

Dadansoddiad Goddrychol

Dadansoddiad o incwm a gwariant yn ôl math. Mae'r cyfryw benawdau yn cynnwys costau gweithwyr, eiddo a thrafnidiaeth. Mae'r incwm yn cynnwys grantiau llywodraeth, ffioedd a thaliadau.

Darpariaeth

Ystyr darpariaeth yw swm y byddwn yn ei neilltuo yn ein cyfrifon ar gyfer y rhwymedigaethau neu'r colledion sy'n debygol neu'n sicr o ddigwydd, ond nid oes sicrwydd ynghylch y symiau na'r dyddiadau.

Derbyniadau Cyfalaf

Dyma'r derbyniadau a geir drwy werthu tir ac adeiladau y mae statudau'n cyfyngu ar y defnydd a wneir ohonynt. Dim ond i gyllido gwariant cyfalaf newydd neu i'w neilltuo er mwyn cyllido gwariant cyfalaf hanesyddol y gellir eu defnyddio.

Dibrisiant

Dull o ddyrannu cost Eiddo, Offeriant a Chyfarpar dros eu bywydau defnyddiol yw dibrisiant.

Dyledwr

Mae dyledwr yn rhywun y mae arno arian i ni ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Eiddo Buddsoddi

Mae'r rhain yn eiddo a gedwir dim ond er mwyn cael rhent amdanynt neu er mwyn y cynnydd yn eu gwerth, neu at y ddau ddiben hyn, yn hytrach nag er mwyn darparu gwasanaethau.

Eiddo, Offeriant a Chyfarpar

Mae'r asedau hyn yn asedau sydd â sylwedd ffisegol ac fe'u cedwir i'w defnyddio wrth gynhyrchu neu gyflenwi nwyddau a gwasanaethau, i'w gosod ar rent i eraill (fel rhan o wasanaeth) neu at ddibenion gweinyddol. Y disgwyl yw y bydd unrhyw ased a gaiff ei gynnwys yn y categori hwn yn cael ei ddefnyddio am fwy nag un flwyddyn ariannol.

Y Fantolen

Datganiad o'n hasedau, ein rhwymedigaethau a'n balansau eraill ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Ffioedd a Thaliadau

Incwm a enillir drwy godi tâl ar ddefnyddwyr gwasanaethau am y cyfleusterau, e.e. defnyddio offer hamdden, parcio ceir, casglu gwastraff masnachol, ac ati.

Grant Cynnal Refeniw

Y prif grant a delir gan Lywodraeth Cymru i gefnogi cyllideb awdurdodau lleol.

Gwarannau

Buddsoddiadau megis stociau, cyfrannau a bondiau yw'r rhain.

Gwariant Cyfalaf

Ystyr gwariant cyfalaf yw gwario ar asedau anghyfredol megis Eiddo, Offeriant a Chyfarpar, Eiddo Buddsoddi ac Asedau Treftadaeth. Byddai hyn yn cynnwys prynu neu adeiladu asedau newydd, ynghyd â'r gwariant dilynol ar waith cynnal a chadw/datblygu mawr.

Gwariant Gros

Cyfanswm y gost o ddarparu gwasanaethau'r Cyngor cyn ystyried unrhyw incwm megis ffioedd a thaliadau am wasanaethau, ac ati.

Gwerth Realeiddiadwy Net

Pris gwerthu yr ased, llai'r gost berthnasol ei werthu.

IFRS

Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

IFRIC

Pwyllgor Dehongli Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol.

Safonau cyfrifyddu yw'r ddau uchod sy'n rhoi canllaw ar gyfer cyfrifyddu ariannol.

Isafswm y Ddarpariaeth Refeniw (MRP)

Dyma'r swm y mae'n rhaid inni ei neilltuo i ad-dalu benthyciadau.

Praeseptau

Dyma'r swm y byddwn yn ei dalu i Awdurdod Nad yw'n Bilio (er enghraifft Cyngor Cymuned) er mwyn iddo dalu ei gostau (ar ôl caniatáu ar gyfer ei incwm).

Pris Cynnig

Y pris y byddai trydydd parti yn ei dalu i'r cynllun am y buddsoddiad ar ffurf trafodyn hyd braich.

Prydlesi Ariannol

Dull o brynu eitemau cyfalaf. (Wrth ddefnyddio prydlesi ariannol rydym yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r risgiau (a'r enillion) o fod yn berchen ar asedau.)

Prydlesi Gweithredol

Dull o brynu eitemau cyfalaf.

Gyda'r prydlesi hyn mae'r risgiau (a'r enillion) o fod yn berchen ar yr ased yn aros gyda'r perchennog.

Rhwymedigaeth

Swm sy'n daladwy rywbyrd yn y dyfodol yw rhwymedigaeth.

Rhwymedigaethau Cyfredol

Rhwymedigaethau tymor byr yw'r rhain, sydd i gael eu talu gennym yn ystod y flwyddyn gyfrifydda nesaf.

Stocrestrau

Ystyr stocrestrau yw deunyddiau crai a brynir i'w defnyddio o ddydd i ddydd. Mae gwerth yr eitemau hynny a oedd heb eu defnyddio gennym ar ddyddiad y fantolen yn cael ei ddangos yn yr asedau cyfredol yn y fantolen.

Swyddfa Archwilio Cymru

Corff annibynnol yn cael ei arwain gan Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n gyfrifol am benodi archwilywyr allanol i awdurdodau lleol.

Treth y Cyngor

Prif ffynhonnell treth leol i awdurdodau lleol. Codir treth y cyngor ar gartrefi yn ei ardal gan yr Awdurdod Bilio a defnyddir yr arian i fodloni gofynion treth y cyngor yr Awdurdod Bilio ac i dalu'r awdurdodau praesept.

Trethi Annomestig Cenedlaethol (NNDR)

Yr NNDR, neu'r Trethi Busnes, yw'r tâl y bydd deiliaid safleoedd busnes yn ei dalu er mwyn cyllido rhan o wariant yr awdurdodau lleol. Y Llywodraeth sy'n pennu'r NNDR ac mae'n ganran o'r gwerthoedd trethol. Yr un yw y ganran drwy Gymru gyfan. Mae'r cyfanswm sy'n cael ei gasglu yn cael ei rannu rhwng yr awdurdodau unigol yn ôl eu cyfran hwy o'r oedolion yn y boblogaeth.

Y Gronfa Bensiwn**Actiwari**

Ymgynghorydd annibynnol sy'n rhoi cyngor o ran gallu'r gronfa i dalu ei ffordd. Mae'r actiwari yn adolygu asedau a rhwymedigaethau'r gronfa bob tair blynedd ac yn cyflwyno adroddiad i'r Cyngor Sir fel yr awdurdod gweinyddu ar y sefyllfa ariannol ac yn argymhell cyfraddau cyfrannu y cyflogwyr. Gelwir hyn yn brisiant actiwaraid.

Budd-daliadau Cadwedig

Y budd-daliadau pensiwn sy'n daladwy i aelod o'r Gronfa ar gyrraedd oedran ymddeol arferol sydd wedi stopio cyfrannu o ganlyniad i adael ei waith neu symud allan o'r Cynllun Pensiwn cyn oedran ymddeol arferol.

Buddsoddi

Caffael ased at y diben o gynhyrchu incwm ac Enillion Cyfalaf i'w berchennog.

Cynnydd/(Gostyngiad) heb ei realeiddio yn y Gwerth ar y Farchnad

Y cynnydd/(gostyngiad), a fu ers dyddiad y pryniant, ar werth ar y farchnad y buddsoddiadau hynny a ddelir ar ddiwedd y flwyddyn.

Dangosyddion y Farchnad

- (i) Mae symudiadau yn y Farchnad Stoc yn cael eu monitro yn barhaus drwy gyfrwng Mynegai o brisiau cyfredol detholiad cynrychioliadwy o stoc.
- (ii) Newid yn y cyfraddau o ran cyfenwid arian.

Diffyg mewn cyllid

Cyfraniadau sydd yn daladwy, er enghraifft am gyfnod byr neu fel un taliad, er mwyn gwella ariannu cynllun budd-daliadau sydd wedi ei ddiffinio, yn aml yn codi o gynllun sydd yn ceisio adennill arian cynlluniau o'r fath.

Dosbarth o Asedau

Buddsoddi mewn maes penodol neu fath penodol ar fuddsoddi e.e. Ecwitis y DU, Ecwitis tramor, Incwm Sefydlog, Eiddo, Arian.

Ecwitis

Cyfranddaliadau cyffredin mewn cwmnïau Prydeinig a chwmnïau tramor a fasnachwyd ar gyfnewidfa stoc gydnabyddedig. Mae gan gyfranddalwyr fudd yn elw'r cwmni ac fel arfer bydd ganddynt hawl i bleidleisio yng nghyfarfodydd y Cyfranddalwyr.

Elw

Cyfanswm yr enillion o ddal buddsoddiad am gyfnod penodol, yn cynnwys incwm a chynnydd (gostyngiad) yng ngwerth y farchnad.

Elw Meincnod

Nod Rheolwr y Gronfa yw perfformio 1% yn well na'r elw Meincnod. Yr elw meincnod yw'r elw y byddai Rheolwr y Gronfa wedi'i gyflawni heblaw iddo wyro oddi wrth y pwysau a roddwyd i bob dosbarth o asedau gan y Panel Buddsoddi ac wedi llwyddo i wneud elw ym mhob un o'r dosbarthiadau hyn o asedau yn unol â chyfartaledd yr elw a wnaed gan bob Cronfa Awdurdod Lleol yn y dosbarthiadau hynny. Mae pwysau Meincnod y dosbarthiadau o asedau wedi'u amlinellu yn y Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi.

Gwarannau Llog Sefydlog

Buddsoddir yn bennaf mewn stociau'r llywodraeth sy'n gwarantu cyfradd llog sefydlog. Mae'r gwarannau yn fenthyciadau sydd i'w had-dalu ar ddyddiad penodol yn y dyfodol ond gellir eu gwerthu ar y Farchnad Stoc yn y Cyfamser.

Gwerth Trosglwyddo

Dyma werth y taliadau rhwng cronfeydd pan fydd cyfranwyr yn ymadael â gwasanaeth un cyflogwr ac y penderfynu mynd â gwerth eu cyfraniadau pensiwn i gronfa'r cyflogwr newydd.

Gwerth ar y Farchnad

Y pris a geir o werthu buddsoddiad ar ddyddiad arbennig.

Llywodraethu Corfforaethol

Materion sy'n ymwneud â'r ffordd y mae cwmni yn sicrhau ei fod yn rhoi'r pwysigrwydd mwyaf i les ei randdalwyr a sut y gall rhanddalwyr ddylanwadu ar reolaeth.

Mesur Perfformiad

Gwasanaeth a luniwyd i gynorthwyo buddsoddwyr i werthuso perfformiad eu buddsoddiadau. Fel arfer mae hyn yn cynnwys cymharu perfformiad cronfa gyda Meincnod a ddewiswyd a/neu gydag Universe neu gronfeydd tebyg. Y prif Gwmnïau Mesur Perfformiad yw The WM Company, y mae Cronfa Bensiwn Dyfed yn ei ddefnyddio, a CAPS

Perfformiad

Mesur, sy'n cael ei gyfleu gan amlaf ar ffurf canran, sy'n dangos cystal yw llwyddiant cronfa dros gyfnod penodol o amser - naill ai mewn termau absoliwt neu wedi ei fesur yn ôl Cronfa 'Gyfartalog' neu Feincnod arbennig.

Perfformio'n Well/Tanberfformio

Y gwahaniaeth rhwng elw y mae cronfa neilltuol wedi ei ennill ac elw Cronfa 'Gyfartalog' neu Fynegai dros gyfnod penodol o amser, h.y. efallai mai targed cronfa yw perfformio'n well na Meincnod dros gyfnod o 3 blynedd.

Portffolio

Term torfol am y buddsoddiadau a ddelir mewn cronfa, marchnad neu sector.

Rheolaeth Oddefol (fe'i gelwir hefyd yn Mynegeo/ Orlhain Mynegai)

Math o Reolaeth Buddsoddi sy'n anelu at lunio Portffolio mewn ffordd sy'n darparu'r un elw ag a ddarperir gan Fynegai a ddewiswyd, h.y. mae stociau yn cael eu prynu i adlewyrchu cymaint â phosib gyfansoddiad y Mynegai. Mae'n gwbl groes i Reolaeth Weithredol.

Rheolaeth Weithredol

Dull o Reoli Buddsoddiadau sy'n ceisio perfformio'n well na'r Meincnod perthnasol drwy Ddyrannu Asedau, Amseru'r Farchnad neu Ddewis y Stoc (neu gyfuniad o'r rhain). Mae'n gwbl groes i Reolaeth Oddefol.

Rheolwr y Gronfa

Unigolyn neu gwmni y mae'r Ymddiriedolwyr wedi dirprwyo iddo/iddi y gwaith o fuddsoddi holl asedau cronfa neu ran o'r asedau hynny.

Risg

Fel arfer mae'n cyfeirio at Amrywiant yr Elw. Rhaid i fuddsoddiadau â'r risg mwyaf addo elw uwch na'r buddsoddiadau mwy 'sefydlog' cyn y bydd buddsoddwyr yn eu prynu.

Ymddiriedolaethau Unedau

Cwmnïau buddsoddi yw'r rhain ac maent yn derbyn arian oddi wrth lawer o wahanol fuddsoddwyr. Mae'r arian yn cael ei gyfuno a'i ddefnyddio i brynu buddsoddiadau.

Ymgynghorydd Buddsoddi

Unigolyn neu gwmni â chymwysterau proffesiynol y mae ei brif fywoliaeth yn seiliedig ar ddarparu cyngor buddsoddi gwrthrychol a diduedd i gwmnïau, cronfeydd pensiwn neu unigolion a hynny am ffi benodol.

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Pwyllgor Archwilio
14 Gorffennaf 2017

Pwnc: Datganiad Ariannol Awdurdod Harbwr Porth Tywyn 2016-17

Y Pwrpas: I gyflwyno'r cyfriflen am y flwyddyn 2016-17

Yr Argymhellion / Penderfyniadau Allweddol Sydd Eu Hangen:

I dderbyn Datganiad Ariannol Awdurdod Harbwr Porth Tywyn am y flwyddyn 2016-17.

Y Rhesymau:

Mae angen i'r Cyngor gymeradwyo cyfriflen Awdurdod Harbwr Porth Tywyn am y flwyddyn 2016-17, cyn yr archwiliad, i gydymffurfio â Rheolau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

Mae gan y Pwyllgor Archwilio bwer dirprwyedig i gymeradwyo'r Cyfrifon yn unol a'r Mesuriad Llywodraeth Leol.

Ymgynghorwyd â'r pwyllgor craffu perthnasol NADDO

Angen i'r Bwrdd Gweithredol wneud penderfyniad NAC OES

Angen i'r Cyngor wneud penderfyniad NAC OES

YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL SY'N GYFRIFOL AM Y PORTFFOLIO:-
 Cyng. D Jenkins

Y Gyfarwyddiaeth:

Enw Pennaeth y Gwasanaeth:

Owen Bowen

Awdur yr Adroddiad:

Owen Bowen

Swyddi:

Pennaeth Gwasanaethau Cyllidol

Rhif ffôn: 01267 224886

Cyfeiriad E-bost:

Obowen@sirgar.gov.uk

EXECUTIVE SUMMARY
Audit Committee
14th July 2017

Burry Port Harbour Financial Statement 2016-17

1. BRIEF SUMMARY OF PURPOSE OF REPORT.

Carmarthenshire County Council has been given a range of statutory powers and duties for the purposes of improving, maintaining and managing the Burry Port harbour through the Burry Port Harbour Revision Order 2000.

In accordance with the Harbours Act 1964, statutory harbour authorities are required to prepare annual statement of accounts relating to the harbour activities. In compliance with the Accounts and Audit (Wales) Regulations 2014, these accounts are in the form of a separate annual income and expenditure account and statement of balances.

The net cost of the Harbour Activities in 2016-17 was £247k, and all activities are fully funded by Carmarthenshire County Council. Fixed assets held at 31st March 2017 total £3,868k.

DETAILED REPORT ATTACHED ?

YES

IMPLICATIONS



EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru

YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report :

Signed: O Bowen

Head of Financial Services

Policy, Crime & Disorder and Equalities NONE	Legal YES	Finance YES	ICT NONE	Risk Management Issues NONE	Staffing Implications NONE	Physical Assets NONE
--	---------------------	-----------------------	--------------------	---------------------------------------	--------------------------------------	--------------------------------

Legal

Compliance with the Accounts and Audit (Wales) Regulations 2014

Finance

The net cost of the Harbour activities in 2016-17 was £247k, which has been fully funded by Carmarthenshire County Council. Fixed assets held at 31st March 2017 total £3,868k.

CONSULTATIONS

I confirm that the appropriate consultations have taken in place and the outcomes are as detailed below

Signed: O Bowen

Head of Financial Services

1. **Scrutiny Committee:** Not applicable
2. **Local Member(s):** Not applicable
3. **Community / Town Council:** Not applicable
4. **Relevant Partners:** Not applicable
5. **Staff Side Representatives and other Organisations:** Not applicable

Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information

List of Background Papers used in the preparation of this report:

THESE ARE DETAILED BELOW

Title of Document	File Ref No.	Locations that the papers are available for public inspection
Accounts and Audit (Wales) Regulations 2014		Corporate Services Department, County Hall, Carmarthen.



EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru

YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales


Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Cyrff llywodraeth leol llai o faint yng Nghymru Ffurflen Flynyddol ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2016

Rhaid i gyrrff llywodraeth leol llai o faint yng Nghymru baratoi cyfrifon blynyddol gan ddilyn arferion priodol fel y'u nodir yng nghyhoeddiad Un Llais Cymru/Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol (SLCC) **Governance and accountability for local councils in Wales – A Practitioners' Guide 2006** (y Canllaw i Ymarferwyr). Mae'r Canllaw i Ymarferwyr yn nodi y gall cyrrff baratoi eu cyfrifon ar ffurf ffurflen flynyddol a baratowyd gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Y cyfrifon a'r broses archwilio

Mae'r cyfrifon a'r trefniadau archwilio yn dilyn y broses a nodir isod.



Cwblhewch bob adran mewn coch. Mae'n bosibl y bydd ffurflenni anghyflawn neu anghywir yn galw am waith archwilio allanol ychwanegol ac yn arwain at gostau ychwanegol. Anfonwch y Ffurflen Flynyddol **wreiddiol**, ynghyd â'r holl wybodaeth y gofynnwyd amdani, at yr archwilydd allanol sy'n gweithredu ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru. **Noder bod yn rhaid i bob copi a ddarperir at ddibenion yr archwiliad gael eu hardystio fel copïau cywir o'r rhai gwreiddiol gan y Clerc a'r Cadeirydd.** Oni bai y gofynnir i chi wneud hynny, **peidiwch** ag anfon unrhyw gofnodion ariannol gwreiddiol na chofnodion eraill at yr archwilydd allanol.

Dylai cyrrff nodi'r newidiadau i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Dylai hyn gael ei gwblhau yn llawn gan bob Corff.

Caiff ffurflenni a archwiliwyd ac a ardystiwyd eu dychwelyd at y Corff i'w cyhoeddi neu er mwyn cyhoeddi'r datganiadau cyfrifyddu, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a thystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Rhestr wirio cwblhau

Bydd ateb 'Anghywir' yn golygu nad ydych wedi bodloni'r gofynion o bosibl		Gweithredwyd?	
Cyflwyniad cyntaf i'r archwilydd allanol		Cywir	Anghywir
Cyfrifon	A yw'r Swyddog Ariannol Cyfrifol wedi ardystio'r datganiadau cyfrifyddu ac a yw'r corff wedi cymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol (fel y dangoswyd gan y llofnodion perthnasol), erbyn 30 Mehefin 2017 fan bellaf?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
	A yw'r cyfrifon yn cyfrifo'n gywir ac a yw'r balans a gaiff ei barhau o'r llynedd yn cyfateb i'r balans agoriadol eleni?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
	A yw'r papurau i'w hanfon at yr archwilydd allanol yn cynnwys esboniad o amrywiadau sylweddol, gan gynnwys dadansoddiad wedi ei fesur o'r newidiadau rhwng y llynedd ac eleni?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
	A yw'r cysoniad banc ar 31 Mawrth 2017 yn gyson â llinell 9?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Pob adran	A yw'r holl flychau coch wedi'u cwblhau ac a oes esboniadau wedi'u rhoi lle bo angen?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
	A yw'r holl wybodaeth y gofynnwyd amdani gan yr archwilydd allanol wedi'i hanfon gyda'r Ffurflen Flynyddol hon? Dylech gyfeirio at yr hysbysiad o'r archwiliad ac unrhyw amserlenni ychwanegol a ddarparwyd gan eich archwilydd allanol.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Tystiolaeth ategol	A yw'r holl eitemau a'r tudalennau o dystiolaeth ategol a ddarparwyd i'r archwiliad wedi eu hardystio fel copi cywir o'r un gwreiddiol gan y Clerc a'r Cadeirydd?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Datganiadau cyfrifyddu 2016-17 ar gyfer:

Enw'r corff:

Awdurdod Harbwr Porth Tywyn

	Y flwyddyn a ddaeth i ben		Nodiadau a chanllawiau i'r sawl sy'n llunio'r cyfrifon				
	31 Mawrth 2016 (£)	31 Mawrth 2017 (£)	Dylech dalgrynnu'r ffigurau i'r £ agosaf. Ni ddylech adael unrhyw flychau yn wag na chofnodi balansau o £0 neu ddim. Rhaid i bob ffigur fod yn gyson â'r cofnodion ariannol sylfaenol ar gyfer y flwyddyn berthnasol.				
Datganiad o incwm a gwariant/derbyniadau a thaliadau							
1. Balansau a ddygwyd ymlaen	0	0	Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddechrau'r flwyddyn fel y'u cofnodwyd yn y cofnodion ariannol. Rhaid iddo fod yn gyson â llinell 7 y flwyddyn flaenorol.				
2. (+) Incwm o drethiant lleol/ardoll	230,141	246,662	Cyfanswm yr incwm a dderbyniwyd/derbyniadwy yn ystod y flwyddyn o drethiant lleol (praesept) neu ardoll/cyfraniad gan brif gyrrff.				
3. (+) Cyfanswm derbyniadau eraill	119,670	100,318	Cyfanswm incwm neu dderbyniadau a gofnodwyd yn y llyfr arian parod llai'r symiau a gynhwysir yn llinell 2. Mae'n cynnwys grantiau cymorth, dewisol a referiw.				
4. (-) Costau staff	33,707	34,364	Cyfanswm gwariant neu daliadau a wnaed i bob gweithiwr cyflogedig ac ar ei ran. Dylech gynnwys cyflogau, TWE ac Yswiriant Gwladol (cyflogeion a chyflogwyr), cyfraniadau pensiwn a threuliau cysylltiedig e.e. costau terfynu.				
5. (-) Llog ar fenthyciadau/ad-daliadau cyfalaf	169,997	169,997	Cyfanswm gwariant neu daliadau cyfalaf a llog a wnaed yn ystod y flwyddyn ar fenthyciadau allanol (os o gwbl).				
6. (-) Cyfanswm taliadau eraill	146,107	142,619	Cyfanswm gwariant neu daliadau fel y'u cofnodwyd yn y llyfr arian parod, a thynnu costau staff (llinell 4) a llog ar fenthyciadau/ad-daliadau cyfalaf (llinell 5).				
7. (=) Balansau a barhawyd	0	0	Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn. Rhaid iddo fod yn hafal i (1+2+3) - (4+5+6).				
Datganiad o falansau							
8. (+) Dyledwyr a balansau stoc	65,394	51,818	Cyfrifon incwm a gwariant yn unig: Nodwch werth dyledion sy'n ddyledus i'r corff a balansau stoc a ddelir ar ddiwedd y flwyddyn.				
9. (+) Cyfanswm arian parod a buddsoddiadau	-59,101	-45,749	Pob cyfrif: Swm yr holl gyfrifon banc cyfredol a chadw, daliadau ariannol a buddsoddiadau a ddelir ar 31 Mawrth. Rhaid i hyn fod yn gyson â balans cysoni'r llyfr arian parod yn unol â chysoniad y banc.				
10. (-) Credydwyr	6,293	6,069	Cyfrifon incwm a gwariant yn unig: Nodwch werth yr arian sy'n ddyledus gan y corff (heblaw costau benthyg) ar ddiwedd y flwyddyn.				
11. (=) Balansau a barhawyd	0	0	Dylai cyfanswm y balansau fod yn gyson â llinell 7 uchod: Nodwch gyfanswm (8+9-10).				
12. Cyfanswm asedau sefydlog ac asedau hirdymor	3,959,762	3,868,493	Gwerth gwreiddiol cofrestr asedau a buddsoddiadau pob ased sefydlog, ynghyd ag asedau hirdymor eraill a ddelir ar 31 Mawrth.				
13. Cyfanswm benthyciadau	0	0	Balans cyfalaf dyledus pob benthygiad o drydydd partion ar 31 Mawrth (gan gynnwys PWLB).				
14. Nodyn datgelu cronfeydd ymddiriedolaeth	Ydy	N/Y	Dd/G	Ydy	N/Y	Dd/G	Mae'r Corff yn gweithredu fel unig ymddiriedolwr ac mae'n gyfrifol am reoli (a) cronfa/cronfeydd ymddiriedolaeth/asedau (dylai darllenwyr nodi nad yw'r ffigurau uchod yn cynnwys unrhyw drafodion ymddiriedolaeth).

Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rhan 1)

Rydym yn cydnabod fel aelodau o'r Cyngor, ein cyfrifoldeb dros sicrhau bod yna system reolaeth fewnol gadarn, gan gynnwys paratoi'r datganiadau cyfrifyddu. Rydym yn cadarnhau, hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, o ran y datganiadau cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017, ein bod wedi gwneud y canlynol:

	Cytunwyd?			Mae 'CYWIR' yn golygu bod y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor wedi gwneud y canlynol:	Cyf y Dangosydd Perfformiad
	Cywir	Anghywir*			
1. Rydym wedi cymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu a baratowyd yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd) ac arferion priodol.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>		Paratoi ei ddatganiadau cyfrifyddu yn y ffordd a ragnodir gan y gyfraith.	6, 12
2. Cynnal system rheolaeth fewnol ddigonol, gan gynnwys mesurau a gynlluniwyd i atal a chanfod twyll a llygredd, ac adolygu ei heffeithiolrwydd.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>		Gwneud trefniadau priodol a derbyn cyfrifoldeb am warchod yr arian cyhoeddus a'r adnoddau dan ei reolaeth.	6, 7
3. Rydym wedi cymryd camau rhesymol i roi sicrwydd i'n hunain nad oes unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol neu bosibl â chyfreithiau, rheoliadau na chodau ymarfer a allai gael effaith ariannol sylweddol ar allu'r Awdurdod Harbwr i gynnal ei fusnes nac ar ei sefyllfa ariannol.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>		Ond wedi gwneud pethau y mae ganddo'r pŵer cyfreithiol i'w gwneud ac wedi cydymffurfio â chodau ymarfer a safonau wrth wneud hynny.	6
4. Rydym wedi darparu cyfle priodol i etholwyr arfer eu hawliau yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>		Rhoi'r cyfle i bob unigolyn â diddordeb archwilio a gofyn cwestiynau am gyfrifon y Corff.	6, 23
5. Rydym wedi cynnal asesiad o'r risgiau sy'n wynebu'r Cyngor ac wedi cymryd camau priodol i reoli'r risgiau hynny, gan gynnwys cyflwyno rheolaethau mewnol a/neu yswiriant allanol lle y bo angen.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>		Ystyried y risgiau ariannol a'r risgiau eraill a wynebwr ganddo wrth weithredu'r Corff a delio â hwy'n briodol.	6, 9
6. Rydym wedi cynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol ar gyfer y cofnodion cyfrifyddu a'r systemau rheoli drwy gydol y flwyddyn ac wedi cael adroddiad gan yr archwilydd mewnol.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>		Trefnu i unigolyn cymwys, yn annibynnol ar y rheolaethau a'r gweithdrefnau ariannol, roi barn wrthrychol ar ba un a yw'r rhain yn diwallu anghenion y Corff.	6, 8
7. Rydym wedi ystyried pa un yw unrhyw ymgyfreitha, rhwymedigaethau neu ymrwymadau, digwyddiadau neu drafodion, a ddigwyddodd naill ai yn ystod y flwyddyn neu ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben, wedi cael effaith ariannol ar y Cyngor a, lle y bo'n briodol, wedi eu cynnwys yn y datganiadau cyfrifyddu.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>		Datgelu popeth y dylai fod wedi ei ddatgelu am ei fusnes yn ystod y flwyddyn gan gynnwys digwyddiadau a ddigwyddodd ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben os ydynt yn berthnasol.	6
8. Rydym wedi cymryd camau priodol i fynd i'r afael â phob mater a godwyd mewn adroddiadau blaenorol gan archwilydd mewnol ac allanol.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>		Ystyried a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â phroblemau/gwendidau a ddygwyd i'w sylw gan archwilydd mewnol ac allanol.	6, 8, 23
9. Cronfeydd ymddiriedolaeth – yn rhinwedd ein swydd fel ymddiriedolwr, rydym wedi: <ul style="list-style-type: none"> Cyflawni ein cyfrifoldeb mewn perthynas ag atebolrwydd am y gronfa/cronfeydd gan gynnwys cyflwyno adroddiadau ariannol a, lle y bo angen, cynnal archwiliadau annibynnol. 	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Cyflawni ei gyfrifoldebau yn rhinwedd ei swydd fel unig reolwr-ymddiriedolwr ymddiriedolaeth neu ymddiriedolaethau lleol.	3, 6

* Ar ddalen ar wahân, rhowch esboniadau i'r archwilydd allanol ar gyfer pob ymateb a nodwyd fel 'Anghywir' a roddwyd; a disgrifiwch pa gamau gweithredu sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd.

Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rhan 2)

	Cytunwyd?		Mae ateb 'Cywir' yn golygu bod y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor wedi:	Cyf y Dangosydd Perfformiad
	Cywir	Anghywir*		
1. Gwnaethom gyfrifo a chymeradwyo gofyniad cyllidebol yr Awdurdod Harbwr ar gyfer blwyddyn ariannol 2016-17 yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ac arferion priodol [ac fe wnaethom osod y praesept yn unol ag Adran 39 i 42 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.]*	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Cynllunio'n briodol ei weithgareddau ariannol ar gyfer y flwyddyn a phennu cyllideb yn unol â gofynion statudol.	13
2. Rydym wedi derbyn adroddiadau ariannol manwl yn nodi'r [incwm a'r gwariant* derbyniadau a thaliadau*] a chrynodeb o sefyllfa ariannol y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor ar sail dda fisol reolaidd drwy gydol y flwyddyn.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Monitro ei sefyllfa ariannol, ei incwm a'i wariant yn erbyn y gyllideb honno yn effeithiol drwy gydol y flwyddyn.	13
3. Rydym wedi sicrhau bod archwiliad mewnol y Cyngor yn annibynnol ar ei broses gwneud penderfyniadau o ddydd i ddydd a'r broses o gynnal y cofnodion cyfrifyddu ac rydym wedi cytuno ar gylch gorchwyl priodol ar gyfer yr archwiliad mewnol.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Sicrhau bod ei swyddogaeth archwilio mewnol yn gallu cyflawni'r gwaith heb wrthdaro buddiannau posibl a chyda digon o gyfle i ddarparu gwasanaeth digonol ac effeithiol.	8

* Dileer fel y bo'n briodol.

Cymeradwyaeth ac ardystiad y Pwyllgor Archwilio

Y Cyngor sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 ac am baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Ardystiad gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol Ardystiaf fod y datganiadau cyfrifyddu yn y Ffurflen Flynyddol hon yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod Harbwr, a'i incwm a'i wariant, neu'n cyflwyno'r derbyniadau a'r taliadau'n briodol, pa un bynnag sy'n berthnasol, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017.	Cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Archwilio Cadarnhaf fod y datganiadau cyfrifyddu hyn a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi cael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor o dan gyfeirnod cofnod: Rhowch gyfeirnod y cofnodion a dyddiad y cyfarfod
Llofnod y Swyddog Ariannol Cyfrifol: angen llofnod	Llofnod y Cadeirydd: angen llofnod
Enw: angen enw	Enw: angen enw
Dyddiad: dd/mm/bbbb	Dyddiad: dd/mm/bbbb

Ailgymeradwyaeth ac ailardystiad y Pwyllgor (dim ond os bydd y ffurflen flynyddol wedi ei diwygio yn yr archwiliad y bydd eu hangen)

Ardystiad gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol Ardystiaf fod y datganiadau cyfrifyddu yn y Ffurflen Flynyddol hon yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod Harbwr, a'i incwm a'i wariant, neu'n cyflwyno'r derbyniadau a'r taliadau'n briodol, pa un bynnag sy'n berthnasol, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017.	Cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Archwilio Cadarnhaf fod y datganiadau cyfrifyddu hyn a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi cael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor o dan gyfeirnod cofnod: Rhowch gyfeirnod y cofnodion a dyddiad y cyfarfod
Llofnod y Swyddog Ariannol Cyfrifol: angen llofnod	Llofnod y Cadeirydd: angen llofnod
Enw: angen enw	Enw: angen enw
Dyddiad: dd/mm/bbbb	Dyddiad: dd/mm/bbbb

Tystysgrif archwilio ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r archwilydd allanol yn cynnal yr archwiliad ar ran, ac yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Ar sail ei adolygiad o'r Ffurflen Flynyddol a'r wybodaeth ategol, mae'n nodi pa un a fydd unrhyw fater a ddaw i'w sylw yn peri pryder nad yw'r ddeddfwriaeth a'r gofynion rheoleiddio perthnasol wedi'u bodloni.

Ardystiwn ein bod wedi cwblhau'r archwiliad o'r Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 ar gyfer:

Adroddiad yr archwilydd allanol

[Ac eithrio'r materion a adroddir isod]* Ar sail ein hadolygiad, yn ein barn ni, mae'r wybodaeth yn y Ffurflen Flynyddol yn cydymffurfio ag arferion priodol ac nid oes unrhyw faterion wedi dod i'n sylw sy'n peri pryder nad yw'r ddeddfwriaeth a'r gofynion rheoleiddio perthnasol wedi'u bodloni.

[[Mae'r materion hyn, ynghyd â]* Mae materion eraill nad ydynt yn effeithio ein barn yr ydym yn tynnu sylw'r corff atynt, yn ogystal â'n hargymhellion ar gyfer gwella wedi eu cynnwys yn ein hadroddiad i'r corff, dyddiedig _____.]

Materion eraill ac argymhellion

Ar sail ein hadolygiad, tynnwn sylw'r Corff at y materion a'r argymhellion canlynol nad ydynt yn effeithio ar ein barn archwilio ond y dylai'r Corff ymdrin â hwy.

(Parhewch ar daflen ar wahân os oes angen.)

Enw'r archwilydd allanol:

Llofnod yr archwilydd allanol:

Dyddiad:

Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

* Dileer fel y bo'n briodol.

Adroddiad archwilio mewnol blynyddol ar gyfer:

Enw'r corff:

Awdurdod Harbwr Porth Tywyn

Mae archwiliad mewnol y **Cyngor**, gan weithredu'n annibynnol ac ar sail asesiad o risg, wedi cynnwys cynnal asesiad dewisol o gydymffurfiaeth â'r gweithdrefnau a'r rheolaethau perthnasol y disgwyliir iddynt fod ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben 31 Mawrth 2017.

Cynhaliwyd yr archwiliad mewnol yn unol ag anghenion y **Cyngor** a'r gwaith a drefnwyd. Ar sail y canfyddiadau yn y meysydd a archwiliwyd, ceir crynodeb o gasgliadau'r archwiliad mewnol yn y tabl hwn. Nodir isod amcanion rheolaeth fewnol a chasgliadau'r archwiliad mewnol ar ba un a oedd yr amcanion canlynol o ran rheolaeth, ym mhob ffordd bwysig, yn cael eu bodloni drwy gydol y flwyddyn ariannol i safon sy'n ddigonol i ddiwallu anghenion y **Cyngor**.

	Cytunwyd?				Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff)
	Cywir	Anghywir*	Dd/G	Heb ei gynnwys**	
1. Mae'r llyfrau cyfrifon priodol wedi'u cadw'n briodol drwy gydol y flwyddyn.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Mewnosodwch y testun
2. Bodlonwyd rheoliadau ariannol, cefnogwyd taliadau gan anfonebau, cymeradwywyd gwariant a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Mewnosodwch y testun
3. Asesodd y corff y risgiau sylweddol i gyflawni ei amcanion ac adolygodd ddigonolrwydd y trefniadau ar gyfer eu rheoli.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Mewnosodwch y testun
4. Deilliodd y gofyniad blynyddol am braesept/ardoll/adnoddau o broses gyllidebu ddigonol, cafodd cynnydd yn erbyn y gyllideb ei fonitro'n rheolaidd, ac roedd y cronfeydd wrth gefn yn briodol.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Mewnosodwch y testun
5. Cafodd yr incwm disgwylidig ei dderbyn yn llawn, ar sail prisiau cywir, ei gofnodi'n briodol a'i fancio'n syth, a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Mewnosodwch y testun
6. Cefnogwyd taliadau arian mân yn briodol gan dderbynebau, cymeradwywyd gwariant a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Mewnosodwch y testun
7. Talwyd cyflogau i gyflogaion a lwfansau i aelodau yn unol â chymeradwyaethau a gofnodwyd, a chymhwyswyd gofynion TWE ac Yswiriant Gwladol yn briodol.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Mewnosodwch y testun
8. Roedd y cofrestrau asedau a buddsoddiadau yn gyflawn ac yn gywir, ac yn cael eu cynnal yn briodol.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Mewnosodwch y testun

	Cywir	Anghywir*	Dd/G	Heb ei gynnwys**	o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff)
9. Cafodd cysoniadau cyfrifon banc cyfnodol ac ar ddiwedd y flwyddyn eu cynnal yn briodol.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Mewnosodwch y testun
10. Cafodd datganiadau cyfrifyddu a baratowyd yn ystod y flwyddyn eu paratoi ar y sail cyfrifyddu gywir (derbyniadau a thaliadau/incwm a gwariant), roeddent yn gyson â'r llyfr arian parod, wedi'u cefnogi gan lwybr archwilio digonol o gofnodion sylfaenol, a, lle y bo'n briodol, cafodd dyledwyr a chredydwyr eu cofnodi'n briodol.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Mewnosodwch y testun
11. Cronfeydd ymddiriedolaeth (gan gynnwys ymddiriedolaethau elusenol). Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei gyfrifoldebau fel ymddiriedolwr.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Mewnosodwch y testun

Roedd rheolaethau digonol yn bodoli ar gyfer unrhyw feysydd risg a nodwyd gan y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor (rhestrwch unrhyw feysydd risg eraill isod neu ar dudalennau ar wahân os oes angen:

	Cytunwyd?				Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff)
	Cywir	Anghywir*	Dd/G	Heb ei gynnwys**	
12. Mewnosodwch y maes risg	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Mewnosodwch y testun
13. Mewnosodwch y maes risg	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Mewnosodwch y testun
14. Mewnosodwch y maes risg	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Mewnosodwch y testun

* Os atebwyd 'Anghywir', nodwch y goblygiadau a'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw wendid rheoli a nodwyd (ychwanegwch dudalennau ar wahân os oes angen).

** Os atebwyd 'heb ei gynnwys', nodwch pryd y gwnaethpwyd y gwaith archwilio mewnol mwyaf diweddar yn y maes hwn a phryd y bwriedir ei wneud nesaf, neu os nad oes angen ei gynnwys, rhaid i'r archwilydd mewnol esbonio pam nad oes angen hynny.

[Mae fy nghanfyddiadau ac argymhellion manwl yr wyf yn tynnu sylw'r Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor atynt wedi eu cynnwys yn fy adroddiad manwl i'r Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor, dyddiedig _____.] * Dilêwch os na chafodd adroddiad ei baratoi.

Cadarnhau archwiliad mewnol

Cadarnhaf nad wyf, fel archwilydd mewnol y Cyngor, wedi ymgymryd â rôl rheoli na gweinyddol o fewn y corff nac fel aelod o'r corff yn ystod blynyddoedd ariannol 2014-15 a 2015-16. Cadarnhaf hefyd na fu unrhyw achos o wrthdaro buddiannau ynghylch fy mhenodiad.

Enw'r unigolyn a gynhaliodd yr archwiliad mewnol: angen enw

Llofnod yr unigolyn a gynhaliodd yr archwiliad mewnol: angen llofnod

Dyddiad: dd/mm/yyyy

Canllawiau ar gyfer cwblhau Ffurflen Flynyddol

1. Rhaid i chi gymhwyso arferion priodol wrth baratoi'r ffurflen flynyddol hon. Am gyfarwyddyd darllenwch y Canllaw i Ymarferwyr (**Governance and accountability for local councils: A Practitioners's Guide (Wales)**)- ar gael gan Un Llais Cymru ac SLCC. Mae'n cynnwys popeth sydd ei angen arnoch ar gyfer yr archwiliad ar ddiwedd y flwyddyn ariannol a'r archwiliad statudol.
2. Mae Cyfnewidfa Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru (www.archwilio.cymru/cy/arfer-da/cyllid/arian-cynghorau-cymuned) yn darparu rhagor o wybodaeth am y broses cyfrifon ac archwilio ynghyd â chanllawiau ar faterion llywodraethu.
3. Gwnewch yn siŵr bod y Ffurflen Flynyddol wedi ei chwblhau'n llawn h.y. dim blychau coch gwag. Ceisiwch osgoi gwneud unrhyw ddiwygiadau i'r ffurflen wedi'i chwblhau. Os na allwch osgoi hyn, rhowch linell drwy'r cofnodion anghywir, sicrhewch fod y diwygiadau wedi'u tynnu at sylw'r corff gyda llythrennau cyntaf eich enw wrth eu hymyl a'ch bod wedi rhoi esboniad i'r archwilydd allanol. **Peidiwch â defnyddio hylif cywiro.** Caiff ffurflenni blynyddol anghyflawn neu rai sy'n cynnwys diwygiadau heb eu cymeradwyo a/neu eu hesbonio neu gyda hylif cywiro eu dychwelyd heb eu harchwilio a gall olygu costau ychwanegol.
4. **Mae dau flwch i'r Corff eu hardystio a'u cymeradwyo yn awr. Dim ond os bydd yn rhaid diwygio'r ffurflen flynyddol o ganlyniad i'r archwiliad y bydd angen yr ail flwch. Dim ond cyn anfon y ffurflen at yr archwilydd y dylech gwblhau'r blwch uchaf.**
5. Gofynnwch i ail berson, y Cadeirydd neu aelod efallai, adolygu eich Ffurflen Flynyddol er mwyn sicrhau ei bod yn gyflawn cyn anfon y ffurflen wreiddiol at yr archwilydd.
6. Gwnewch yn siŵr bod eich datganiadau cyfrifyddu yn adio'n gywir, bod y balans a barhawyd o'r flwyddyn flaenorol (llinell 7 o 2016) yn cyfateb i'r balans a ddygwyd ymlaen yn y flwyddyn gyfredol (linell 1 o 2017). Esboniwch unrhyw wahaniaethau rhwng ffigurau 2016 ar y ffurflen flynyddol hon a'r symiau a gofnodwyd yn ffurflen flynyddol y llynedd.
7. Rhowch esboniad llawn am unrhyw amrywiannau sylweddol yn y datganiadau ariannol. Peidiwch ag anfon copi o'ch cofnodion cyfrifyddu manwl yn lle'r esboniad hwn. Mae'r archwilydd allanol am wybod eich bod chi'n deall y rhesymau dros yr holl amrywiannau. Cofiwch gynnwys dadansoddiad manwl i ategu eich esboniad a byddwch yn benodol ynghylch gwerthoedd elfennau unigol sy'n gyfrifol am yr amrywiannau.
8. Sicrhewch fod y copi o'r cysoniad banc y byddwch yn ei anfon at eich archwilydd gyda'r Ffurflen Flynyddol yn cynnwys eich **holl** gyfrifon banc a balansau banc. Os nad oes unrhyw eitemau cysoni, nodwch hyn a rhowch dystiolaeth o falansau'r banc. Os oes gan eich cyngor unrhyw fuddsoddiadau byrdymor, nodwch eu gwerth ar y cysoniad banc. Dylai'r archwilydd allu cytuno ar eich cysoniad banc â llinell 9 yn adran 1. Ceir rhagor o gymorth ar gysoniadau banc yn y Canllaw i Ymarferwyr*.
9. Mae'n ofynnol i **bob** corff bach bellach anfon gwybodaeth at yr archwilydd allanol, i ategu'r honiadau a wnaed yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Bydd eich archwilydd yn dweud wrthyhych pa wybodaeth sydd angen i chi ei darparu. Sicrhewch eich bod yn darllen yr hysbysiad archwilio yn ofalus er mwyn sicrhau eich bod yn cynnwys yr holl wybodaeth y mae'r archwilydd wedi gofyn amdani. Dylech anfon **copïau** o'r cofnodion gwreiddiol (a ardystiwyd gan y Clerc a'r Cadeirydd fel copïau cywir) at yr archwilydd allanol ac nid y dogfennau gwreiddiol eu hunain.
10. Peidiwch ag anfon unrhyw wybodaeth at yr archwilydd nad yw wedi gofyn yn benodol amdani. Nid yw hyn o fudd.
11. Os bydd yn rhaid i'r archwilydd adolygu gwybodaeth nas gofynnwyd amdani, gofyn eto am wybodaeth, neu os caiff gysoniad banc anghyflawn neu esboniad o amrywiannau neu os caiff ddogfennau gwreiddiol y mae'n rhaid eu dychwelyd, bydd yr archwilydd yn mynd i gostau ychwanegol y mae ganddo hawl i godi ffioedd ychwanegol amdanynt.
12. **Peidiwch â chwblhau Tystysgrif Archwilio ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru.** Bydd yr archwilydd allanol yn cwblhau hyn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru pan fydd yr archwiliad wedi ei gwblhau.
13. **Dylech ateb pob gohebiaeth â'r archwilydd allanol yn brydlon.** Bydd hyn yn eich helpu i gyflawni eich rhwymedigaethau statudol a bydd yn lleihau cost yr archwiliad.
14. **Noder, os byddwch yn cwblhau'r ffurflen electronig, rhaid i chi argraffu'r ffurflen er mwyn iddi gael ei hardystio gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol a'i llofnodi gan y Cadeirydd cyn iddi gael ei hanfon at yr archwilydd.**

PWYLLGOR ARCHWYLIO**14 Gorffennaf 2017****Y Pwnc:** Cofnodion grwpiau perthnsaol ir Pwyllgor Archwilio**Y Pwrpas:** Hysbysu'r Pwyllgor Archwilio**Yr Argymhellion / Penderfyniadau Allweddol Sydd Eu Hangen:**

I dderbyn y cofnodion

Y Rhesymau:

Fe nodwyd yn Amodau Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio bod angen derbyn cofnodion y Grwp Rheoli Risg ynghyd â materion ym mherthnasol i drefniadau sy'n ymwneud a Threfn Rheoli Corfforaethu a Threfniadau Ariannol.

Ymgynghorwyd â'r pwyllgor craffu perthnasol : AMHERTHNASOL**Angen i'r Bwrdd Gweithredol wneud penderfyniad : AMHERTHNASOL****Angen i'r Cyngor wneud penderfyniad : AMHERTHNASOL****YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL SY'N GYFRIFOL AM Y PORTFFOLIO:-**

Cynghorydd David Jenkins

Y Gyfarwyddiaeth:

Gwasanathau Corfforaethol

Enw Pennaeth y Gwasanaeth:

Helen Pugh

Awdur yr Adroddiad:

Helen Pugh

Swyddi:

Pennaeth Archwilio, Risg a Chaffael Dros Dro

Pennaeth Archwilio, Risg a Chaffael Dros Dro

Rhif ffôn: 01267 246223

Cyfeiriad E-bost:HLPugh@sirgar.gov.uk

Rhif ffôn: 01267 246223

Cyfeiriad E-bost:HLPugh@sirgar.gov.uk

EXECUTIVE SUMMARY
Audit Committee
14th July 2017

SUBJECT
Minutes

To provide Members with minutes form supporting Governance Groups for information

The following Minutes are attached:

1. Risk Management Steering Group – 5th April 2017
2. Grants Panel – 12th May 2017

DETAILED REPORT ATTACHED ?

YES



EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru

YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

IMPLICATIONS

I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report :

Signed: **Phil Sexton** **Head of Audit, Risk & Procurement**

Policy, Crime & Disorder and Equalities	Legal	Finance	ICT	Risk Management Issues	Staffing Implications	Physical Assets
NONE	NONE	NONE	NONE	NONE	NONE	NONE

CONSULTATIONS

I confirm that the appropriate consultations have taken in place and the outcomes are as detailed below

Signed: **Phil Sexton** **Head of Audit, Risk & Procurement**

1. **Scrutiny Committee** : Not Applicable
2. **Local Member(s)** : Not Applicable
3. **Community / Town Council** : Not Applicable
4. **Relevant Partners** : Not Applicable
5. **Staff Side Representatives and other Organisations** : Not Applicable

Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information

List of Background Papers used in the preparation of this report:

THESE ARE DETAILED BELOW

Title of Document	File Ref No.	Locations that the papers are available for public inspection
Strategic Audit Plan 2014-17	AC 28-03-14	Internal Audit Unit

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

RISK MANAGEMENT STEERING GROUP

**Minutes of Meeting held at
Meeting Room 3, Building 2, Parc Dewi Sant
Wednesday, 5th April 2017.**

Members Present:			
Phil Sexton (Chair)	Corporate Services	Head of Audit, Risk & Procurement	PS
Cllr David Jenkins	Executive Board Member (Corporate Services)	Executive Board Risk Champion	DJ
Jonathan Fearn	Environment	Chair of Property & Liability Risks Working Group	JF
Stephen Pilliner	Environment	Chair of Transport Risks Working Group	SP
Helen Pugh	Corporate Services	Risk Champion	HLP
Alan Howells	Environment	Risk Champion	AH
Richard Davies	Principal Officer	Communities	RD
Julie Standeven	Corporate Services	Principal Risk Officer	EJS
Adryan Jones	Chief Executive's	Strategic Advisor (H&S)	AJ
Roger Bowen	Education & Children's Services	School Development Project Officer	RB

Item No	Subject	Action
1.	Apologies Lyn Walters – Communities Risk Champion Richard Stradling – Communities (Leisure) Risk Champion Heidi Font – Chief Executive's Risk Champion Mark Stephens, Marsh Ltd	
2.	Minutes of Last Meeting The Minutes of the Risk Management Steering Group Meeting held at Parc Dewi Sant on Wednesday, 4th January 2017, were confirmed as a true record.	
3.	Matters arising from Risk Management Steering Group Minutes.	
3.1	Corporate Risk Register PS advised that the Corporate Risk Register was received by Audit Committee at its meeting held on Friday, 24 th March 2017 and it was resolved that :- <ul style="list-style-type: none"> • Corporate Risk Register to be reviewed by Audit Committee at 6 monthly intervals • Corporate Management Team to review the format of the report It was agreed that the Corporate Risk Register be circulated to the Group together with a Summary Report completed by Zurich Risk Engineering UK.	

4.	Minutes of Property & Liability Risks Working Group Meeting – 20th March 2017 The Minutes were noted.	
4.1	Matters arising from Property & Liability Risks Working Group Minutes None	
5	Minutes of Transport Risks Working Group Meeting – 23rd March 2017 The minutes were noted.	
5.1	Matters arising from Transport Risks Working Group Minutes	
5.1.1	MV Statistics – Claims & Complaints SP advised that as at 28 th February 2017 the annualised accident rate was 22% and reflects the pro-active work of the Transport Division working with Departments over the years to introduce a range of Risk Management initiatives. This compares favourably with an annualised accident rate of 43.8% circa 2000.	
6.	Bids for Financial Assistance	
6.1	CEx – H&S Review - Theatres This bid related to the procurement of an independent theatre industry health, safety and theatre property specialist to produce an objective analytical report containing observations and recommendations on suitable and effective fall from height preventative measures within the theatre setting. It was agreed that the Corporate Bid for the estimated gross cost of £5,000 be approved.	
6.2	COMM – Carmarthenshire Museums This bid related to the funding of a fixed term Documentation Assistant post to digitise museum management records. It was agreed that the Departmental Bid for £7,326 (50% of the estimated gross cost of £14,652) be approved.	
6.3	E&C – Bryngwyn School This bid related to the installation of a Magna Locks access control system. It was agreed that the Departmental Bid for £9,000 (50% of the estimated gross cost of £18,000) be approved.	
6.4	ENV – Driver Training This bid related to the provision of a targeted programme of driver assessments / training to improve the professionalism of the Authority's drivers and reduce traffic accidents. It was agreed that the Corporate Bid for the estimated cost of £20,000 be approved.	

7	Any Other Business	
7.1	Retirement of Head of Audit, Risk & Procurement SP advised that Phil Sexton, Head of Audit, Risk & Procurement, would be retiring at the end of April 2017. The Steering Group wished to record their thanks to Phil for his contribution to the work of the Group.	
7.2	Service Risk Registers It was agreed that individual Service Risk Registers be reviewed by the Group on a rotational basis.	
8.	Next Meeting Date to be advised	

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

MINUTES OF THE GRANTS PANEL MEETING HELD ON 12th MAY 2017 IN COMMITTEE ROOM 2, 3 SPILMAN ST.		
DATE: 15th May 2017		
PRESENT: Owen Bowen, Head of Financial Services Helen Pugh, Interim Head of Audit, Risk & Procurement Delyth Thomas, Grants Compliance Officer (GCO) Stuart Walters, Economic Development Manager Simon Davies, Chair of PWG, Education & Children's Services Les James, Chair of PWG, Community Services Rhian Phillips, European Programmes Manager		
APOLOGIES: Helen Morgan, Economic Development Manager Julie Owens, Financial Audit Team Leader, Wales Audit Office (WAO) Alan Howells, Chair of PWG, Environment		
	SUBJECT	ACTION
1.0	<u>Minutes of the last meeting</u> <ul style="list-style-type: none"> The minutes were agreed. 	
2.0	<u>Matters Arising</u> <ul style="list-style-type: none"> The WAO report on the Certification of Grants & Returns 2015/2016 was circulated. The final report was submitted to the Audit Committee by WAO in March 2017. Internal Audit are still waiting confirmation from each of the Chairpersons of the PWGs as to which grants they wish to be reviewed in their department as part of the Internal Audit Annual Plan. Arrangements have been made to utilise the Corporate File Plan to provide documentation to support grants and returns for WAO to access for audit purposes. Same arrangements to be put in place for the audit of grants undertaken by Internal Audit. 	Chairs of PWG DT
3.0	<u>Wales Audit Office - Update</u> <ul style="list-style-type: none"> A summary of the grants and returns to be submitted to WAO for the financial year 2016/2017 was presented to Grants Panel. The WEFO Article 55 - Revenue generating project draft statement for Y Ffwrnes has been submitted to WAO for review. 	

	SUBJECT	ACTION
4.0	<p><u>LSB Lessons Learnt</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • An action plan following the report on the lessons learnt exercise undertaken for the Carmarthenshire Local Service Board (LSB) funded projects was presented to Grants Panel. The action plan was accepted and is to be implemented as soon as possible. Elements of the action plan are currently in place. 	
5.0	<p><u>Internal Audit (IA) - Update</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • A review has been undertaken on the following grants received from Welsh Government: <ul style="list-style-type: none"> ○ Major Repairs Allowance ○ Environment & Sustainable Development Directorate Revenue Grant ○ Community Services - Equipment Store The reports are to be finalised and the agreed action plans will be presented to the next Grants Panel meeting. 	HP
6.0	<p><u>Project Working Groups – Update</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Minutes of PWG meetings were circulated to Grants Panel members for : <ul style="list-style-type: none"> ○ Community Services – 20/3/17 ○ Chief Executives & Corporate Services – 20/3/17 ○ Environment – 25/1/17 & 22/3/17 ○ Education & Children’s Services – Capital: 24/1/17 & 21/3/17 • An email has been circulated by Learning and Development offering project management training to officers within the Education & Children’s Services Department. • Projects within the Tackling Poverty Programme (TPP) to be reviewed on an ongoing basis to ensure that virement opportunities between projects are effectively managed. Discussions to be carried out between the relevant chairperson of the PWGs and 	

	SUBJECT	ACTION
	<p>the chairperson of the TPP. These projects include:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Supporting People ○ Flying Start ○ Families First ○ Communities First <ul style="list-style-type: none"> ● Modernisation Services Manager now also attends the Community Services PWG as part of his role in managing major capital schemes within the department. 	
7.0	<p><u>Update re Projects under New Funding Programmes</u></p> <ul style="list-style-type: none"> ● The Bucanier project, funded via the Ireland Wales Co-operation Programme, has been approved. The estimated project cost for the Authority is £407k with a grant of £325k. Pembrokeshire County Council is the lead authority and a project officer will be appointed for Carmarthenshire. It will help create cross-border networks to help boost trade and specialist support to help small businesses design and develop new products and services. ● Approval awarded for the 1st stage of the Celtic Routes Project. Approval has been received for an application to proceed to 2nd stage. CCC is the lead authority and this project is also funded via the Ireland Wales Co-operation Programme Partners include Pembrokeshire County Council, Ceredigion County Council and 3 authorities from Ireland. Project costs estimated at €2m and aims to develop trade and tourism links with Ireland. ● Stage 2 application submitted to Visit Wales for the Pendine Land Speed Cultural Centre and Eco Resort Complex. Total project costs are for £7m and with an estimated grant of £3m. Funding is via the European Structural Fund. ● A reprofile is being submitted for Workways Plus, an ESF project funded through the European Structural Funds Programme, to support a 2 year extension from November 2018 to December 2020. The lead authority for the project is Neath Port Talbot. 	<p style="text-align: right;">Tudalen 375</p>

	SUBJECT	ACTION
	<ul style="list-style-type: none"> • A Letter of Variation to the Act of Entrustment received from WG (Lead Body) for the Communities for Work projects, which is also funded through the European Structural Funds Programme. The project end date has been extended from March 2018 to December 2020. • The Cam Nesa project is currently in development. The project will work with 16-24 year olds who are NEET (Not in Employment, Education or Training). • In the previous meeting, it was reported that there was a delay in the submission of claims for projects funded by the Rural Development Programme LEADER project. Claims have now been submitted for the period to 31st March 2017. • The internal projects funded via the RDP LEADER project have been approved: <ul style="list-style-type: none"> ○ Events Organisers Network ○ Community Benefits ○ Pre-Tenancy Training ○ Provision of Mobile and Pop Up Hubs ○ Heritage for Schools Tywi Centre • The Authority is still waiting for final approval for four projects submitted under the Rural Communities Development Fund. These include: <ul style="list-style-type: none"> ○ Towy Valley Path Phase W1 ○ Towy Valley Cycleway ○ Carmarthen Wetlands and Western Valley Gateway ○ Jackson's Lane Square Development (Phase 1) 	
8.0	<p><u>AOB</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Project files to support 19 projects supported by the Convergence Programme already successfully archived. However, there are still a number of actions outstanding for the remaining 18 projects and a list of the outstanding actions provided at the meeting. Chairpersons of the PWG requested to follow up on these actions with an aim to archive the records as soon as possible. 	Chairs of PWGs

	SUBJECT	ACTION
	<ul style="list-style-type: none"> • Update provided relating to the retention periods of records to support the Closure of the European Structural Fund and Community Initiative Programmes 2000 to 2006 (Objective 1). Agreed that where retention deadlines have lapsed, that these project files could now be destroyed. • A request was made to the Chairpersons of the PWG to send a reminder to officers within their respective department that acceptance of the grant/terms and conditions need to be authorised by Head of Service or Director level unless an officer has been formally given the delegated authority to do so. A record of the delegation will need to be retained on file. 	Chairs of PWGs
9.0	Date of next meeting – 2:00pm on 27 th July 2017 Resources Conference Room County Hall	

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

DYDD GWENER, 24AIN MAWRTH, 2017

PRESENT: Y Cynghorydd C.P. Higgins [Cadeirydd]

Y Cynghorwyr:

H.A.L. Evans, J.D. James, A.G. Morgan, E.G. Thomas, W.G. Thomas a D.E. Williams

Mrs. J. James – Aelod Allanol â Phleidlais

Hefyd yn bresennol fel sylwedydd:

Y Cynghorydd D.M. Jenkins – Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau

Yn bresennol o Swyddfa Archwilio Cymru:

Mr J. Garcia

Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:

Mr C. Moore	–	Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol
Mr P. Sexton	–	Pennaeth Archwilio, Risg a Chaffael
Ms H. Pugh	–	Rheolwr Archwilio a Risg
Ms J. Davies	–	Rheolwr Busnes a Phrosiectau
Mr L. Walters	–	Uwch Rheolwr Cymorth Busnes
Ms M. Mason	–	Rheolwr Datblygu Amgueddfa
Ms C. Jones	–	Prif Swyddog Caffael
Mrs M. Evans Thomas	–	Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Y Siambr, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin : 10.00 a.m. - 12.40 p.m.

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd G.B. Thomas. Hefyd cafwyd ymddiheuriadau gan Mr Richard Harries a Mr Jeremy Evans o Swyddfa Archwilio Cymru.

Cyfeiriwyd at y ffaith y byddai Mr Phil Sexton, Pennaeth Archwilio, Risg a Chaffael yn ymddeol ar 31 Mawrth, a diolchwyd i Mr Sexton am ei arweiniad a'i gyngor hynod werthfawr dros y blynyddoedd a dymunwyd ymddeoliad hir a hapus iddo.

Ni fyddai'r Cynghorwyr Callum Higgins na Bill Thomas yn dychwelyd ar ôl yr etholiadau a dymunwyd yn dda i'r ddau ohonynt yn y dyfodol.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

3. DIWEDDARIAD AR Y CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2016/17

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiad a roddai ddiweddariad am y cynnydd oedd yn cael ei wneud o ran gweithredu Cynllun Archwilio Mewnol 2016/17. Yn Rhan A(i) o'r adroddiad roedd adroddiad cynnydd ac yn Rhan A(ii) roedd argymhellion y matrices sgorio.

Yn Rhan C roedd argymhellion Blaenoriaeth 1 ynghylch adolygiadau o systemau eraill ac archwiliadau sefydliadau, a oedd yn cynnwys adolygiadau a gwblhawyd ers mis Ebrill 2016 lle roedd gan y systemau un neu ragor o wendidau rheoli sylfaenol neu adolygiadau cysylltiedig yr oedd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a'r Rheolwr Archwilio a Risg wedi cytuno y dylid eu rhoi gerbron y Pwyllgor. Roedd yr adran hon yn cynnwys manylion adolygiad o'r gwasanaeth Amgueddfeydd. Roedd adolygiad gan Archwilio Mewnol yn 2015/16 wedi nodi pryderon am y ffordd roedd asedau'n cael eu rheoli a'u gweinyddu. Roedd adolygiad dilynol wedi'i gynnal yn ystod 2016/17 ac er ei bod yn cael ei gydnabod bod llawer o'r problemau heb eu datrys o hyd, nodwyd bod cryn dipyn o waith wedi'i wneud i roi camau ar waith a fydd, yn y pen draw, yn sicrhau bod y problemau hyn, dros amser, yn cael eu datrys.

Rhoddwyd sylw i'r sylwadau/materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- O ran archwiliadau ac arolygiadau diogelu cyfeiriwyd at broblemau mewn ysgol benodol a oedd, yn dilyn achos o dorri i mewn, yn dal i aros i atgyweiriadau a gwelliannau gael eu gwneud 18 mis yn ddiweddarach, a oedd yn cynnwys gosod system mynediad drwy garden sweipio a fyddai'n gwella diogeledd yn yr ysgol. Dywedodd y Rheolwr Archwilio a Risg wrth y Pwyllgor er bod diogelu wedi'i gynnwys yn y cynllun, fod y pwyslais mwyaf ar y prosesau ar gyfer gofalu am blant ac oedolion agored i niwed. Nid oeddent yn rhoi sylw i asedau ffisegol ar hyn o bryd, fodd bynnag, mae Estyn yn gwneud hynny ac mae Swyddogion Iechyd a Diogelwch yr Awdurdod yn gweithredu ynghylch unrhyw argymhellion;
- O gofio bod y Rheolwr Archwilio, Risg a Chaffael yn ymddeol yn fuan, gofynnwyd i'r swyddogion a oeddent yn hyderus y byddent yn gallu darparu'r Flaenraglen Waith ac oedd unrhyw gynlluniau wrth gefn yn eu lle. Eglurodd y Cyfarwyddwr Adnoddau fod trefniadau wedi cael eu gwneud o ran staff, a bod swyddogion hefyd yn edrych ar gynigion ar gyfer cydweithio â Chyngor Sir Penfro mewn perthynas â chaffael;

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL

- 3.1 bod y diweddariad am Gynllun Archwilio Mewnol 2016/17 yn cael ei dderbyn, at ddibenion monitro;**
- 3.2 bod y Pwyllgor yn cael diweddariad yn y cyfarfod nesaf ynghylch y strwythur staffio newydd yn dilyn ymddeoliad y Pennaeth Archwilio, Risg a Chaffael ac ynghylch y trefniadau cydweithio o ran caffael;**
- 3.3 bod y Pwyllgor yn derbyn adroddiad cynnydd am y Cynllun Gweithredu ar gyfer Amgueddfeydd yn y cyfarfod ym mis Medi.**

4. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2017/18 A'R HYN A GYNLLUNNYD AR GYFER 2018/20

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a fanylai ar Gynllun Archwilio Mewnol 2017/18 ac a amlinellai'r hyn a gynllunnid ar gyfer 2018/20. Roedd y Cynllun Archwilio wedi ei lunio gan ddefnyddio egwyddorion asesu risg, gan gymryd i ystyriaeth newidiadau mewn gwasanaethau. Roedd mabwysiadu rhaglen dreigl dair blynedd yn rhoi sicrwydd bod y trefniadau archwilio yn ddigonol gan ganiatáu, ar yr un pryd, hyblygrwydd o ran ymdrin â newidiadau yn systemau'r Awdurdod. Roedd y Cynllun yn cymryd y byddai pob un o swyddi'r Adain wedi'i llenwi, sef 9.4 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL

4.1 cymeradwyo'r Cynllun Archwilio Mewnol blynyddol ar gyfer 2017/18;

4.2. cadarnhau'r trefniadau a gynllunnid ar gyfer 2018/20.

5. PWYLLGOR ARCHWILIO - BLAENRHAGLEN WAITH

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r Flaenraglen Waith ar gyfer 2017/18, a nodai'r eitemau i'w cyflwyno i'r Pwyllgor yn y cyfarfodydd oedd wedi'u trefnu ar gyfer y flwyddyn i ddod.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.

6. Y NEWYDDION DIWEDDARAF YNGHYLCH CYNLLUN GWEITHREDU Y CYFLEUSTERAU ARFORDIROL

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiad a fanylai ar y camau oedd wedi'u cymryd i roi Cynllun Gweithredu y Cyfleusterau Arfordirol ar waith. Roedd yr adroddiad cynnydd chwarterol yn crynhoi'r gwaith a wnaed gan Dîm y Cyfleusterau Arfordirol er mwyn dal ati i wella ei brosesau.

Rhoddwyd sylw i'r sylwadau/materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Pan ofynnwyd a fyddai system newydd ar gyfer dyrannu tocynnau tymor yn cael ei chyflwyno, dywedodd y Pwyllgor fod tocynnau tymor yn cael eu rheoli bellach gan yr Uned Cymorth Busnes Ganolog a bod yr holl docynnau a ddyrennir i'r parc yn cael eu cofnodi fel y gellir cysoni'r holl werthiannau. Hefyd roedd bwriad cyflwyno system A.N.P.R. yn y parc lle roedd ymwelwyr yn talu i adael, a thrwy hynny ni fyddai angen trafod arian yn y parc ac ni fyddai angen ciwio i gael mynediad;
- O ran staffio a thâl goramser, gofynnwyd i'r swyddogion a oedd gweithwyr tymhorol yn cael eu cyflogi yn y parc. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod staff yn cael amser i fwrdd yn lle oriau a weithiwyd yn hytrach na thâl goramser. Defnyddir staff tymhorol ar gyfer rhai swyddi yn y parc, ond caiff y goramser ei gronni gan bobl sydd â rolau mwy arbenigol, fel y parcmyn.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r cynnydd o ran Cynllun Gweithredu

y Cyfleusterau Arfordirol.

7. DIWYGIADAU I RHEOLAU GWEITHDREFN CONTRACTAU

Atgoffwyd y Pwyllgor fod y Rheolau Gweithdrefn Contractau wedi eu diweddarau a'u cymeradwyo yn y cyfarfod ar 30 Medi, 2016 (gweler cofnod 8).

Ers y dyddiad hwn, roedd y Rheolau Gweithdrefn diweddaraf wedi cael eu cymhwyso i bob gweithgarwch caffael. Fodd bynnag, wrth gymhwyso'r Rheolau Gweithdrefn yn ymarferol, canfuwyd bod rhai rhannau'n agored i ddehongliad ac roedd diwygiadau pellach wedi cael eu cynnig, fel y manylwyd yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y diwygiadau i'r Rheolau Gweithdrefn Contractau, y manylwyd arnynt yn yr adroddiad, yn cael eu cymeradwyo.

8. COFRESTR RISG CORFFORAETHOL

Cafodd y Pwyllgor y Gofrestr Risg Gorfforaethol i'w hystyried, yn dilyn yr Aseiad Corfforaethol gan Swyddfa Archwilio Cymru a'r argymhelliad y dylid rhannu'r Gofrestr â'r Pwyllgor Archwilio.

Yn dilyn cael ei hystyried yn y cyfarfod heddiw, byddai'r Gofrestr yn cael ei hadolygu gan y Pwyllgor bob 6 mis.

Rhodddwyd sylw i'r sylwadau/materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Mynegwyd pryderon fod angen rhagor o wybodaeth er mwyn galluogi aelodau o'r Pwyllgor i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch risgiau. Dywedwyd wrth y Pwyllgor y byddai swyddogion yn edrych ar fformat yr adroddiad dros y misoedd nesaf ac yn cymryd y sylwadau i ystyriaeth. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol wrth aelodau'r Pwyllgor y gallai drefnu eu bod yn cyfarfod â'r Rheolwr Risg perthnasol os oedd ganddynt ymholiadau penodol;
- Dywedwyd y byddai adroddiad lliw â risgiau wedi'u codio mewn lliw yn helpu'r Pwyllgor yn fawr o ran gwerthuso risgiau;

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL

8.1 bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn;

8.2 bod sesiwn ar Reoli Risg yn cael ei threfnu yn unrhyw raglenni hyfforddiant yn y dyfodol.

9. YSTYRIED Y DOGFENNAU CANLYNOL A BARATOWYD GAN SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU:-

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r cyfarfod i Mr Jason Garcia o Swyddfa Archwilio Cymru.

9.1. DIWEDDARIAD I BWYLLGOR ARCHWILIO CYNGOR SIR CAERFYRDDIN - MAWRTH 2017

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a roddai'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith o ran archwilio ariannol ac archwilio perfformiad oedd wedi'i wneud/yn mynd i gael ei wneud ynghylch yr Awdurdod gan Swyddfa Archwilio Cymru ers y cyfarfod diwethaf.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.

9.2. ARDYSTIO GRANTIAU A FFURFLENNI - CYNGOR SIR CAERFYRDDIN 2015-16

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiad a fanylai ar waith gan Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch ardystio hawliadau am grantiau ar gyfer y cyfnod 2015-16.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod Swyddfa Archwilio Cymru wedi ardystio 13 o hawliadau am grantiau a ffurflenni yn ystod blwyddyn ariannol 2015-16.

Roedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi dod i'r casgliad fod gwelliannau wedi'u gwneud i drefniadau'r Cyngor ar gyfer llunio a chyflwyno hawliadau am grantiau yn 2015-16 o gymharu â blynyddoedd blaenorol, er bod rhai meysydd lle gellid gwneud gwelliannau pellach. Nododd y Pwyllgor fod y casgliad yn seiliedig ar y canfyddiadau cyffredinol canlynol:-

- Roedd yr holl hawliadau wedi eu cyflwyno ar amser;
- nid oedd unrhyw newidiadau sylweddol i unrhyw un o'r hawliadau;
- roedd gostyngiad wedi bod yng nghyfran yr hawliadau yr oedd angen eu dilysu yn 2015-16 (31% eleni o gymharu â 50% angen eu dilysu y llynedd);
- o ystyried y gwelliannau hyn, roedd ffi Swyddfa Archwilio Cymru am ardystio ffurflenni wedi gostwng o £75,388 yn 2014-15 i £72,397 yn 2015-16.

PENDERFYNWYD bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.

9.3. CYNLLUN ARCHWILIO 2017 - CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Cynllun Archwilio 2017 ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin. Mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol, fel archwilydd allanol y Cyngor, gyflawni ei ddyletswyddau a'i rwymedigaethau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, ac roedd y cynllun yn nodi'r gwaith oedd i'w wneud er mwyn cyflawni'r cyfrifoldebau hynny.

PENDERFYNWYD derbyn Cynllun Archwilio 2017 ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin.

9.4. CYNLLUN ARCHWILIO 2017 - CRONFA BENSIWN DYFED

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Cynllun Archwilio 2017 ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed. Mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol, fel archwilydd Cronfa Bensiwn Dyfed, gyflawni ei ddyletswyddau a'i rwymedigaethau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, ac roedd y cynllun yn nodi'r gwaith oedd i'w wneud er mwyn cyflawni'r cyfrifoldebau hynny.

PENDERFYNWYD derbyn Cynllun Archwilio 2017 ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed.

9.5. DATGANIAD CYFRIFOLDEB

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r adroddiad Datganiad Cyfrifoldeb a oedd yn manylu ar gyfrifoldebau'r Archwilydd Cyffredinol a'r cyrff y mae'n eu harchwilio mewn perthynas â'r archwiliad o ddatganiadau ariannol.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.

9.6. CYNLLUNIO ARBEDION - CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod Swyddfa Archwilio Cymru, yn ystod 2015-16, wedi gwneud gwaith yn yr holl Gynghorau er mwyn asesu digonolrwydd eu trefniadau cynllunio ariannol, rheoli a llywodraethu. Yn yr asesiad ynghylch Cyngor Sir Caerfyrddin, a wnaed rhwng mis Mehefin a mis Medi 2016, bu i Swyddfa Archwilio Cymru edrych i ba raddau roedd y Cyngor wedi cyflawni ei gynlluniau arbedion ar gyfer 2015-2016, safon ei gynlluniau ariannol yn y tymor canolig, a chadernid ei gynlluniau arbedion ar gyfer 2016-17.

Roedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi dod i'r casgliad y gellid gwella cynllunio ariannol y Cyngor yn y tymor canolig, ond bod y trefniadau rheoli yn gryf a bod llywodraethu ariannol yn dda. Hefyd roedd wedi dod i'r casgliad er bod gan y Cyngor drefniadau cadarn o ran cynllunio arbedion, a oedd yn cefnogi gwytnwch ariannol yn y dyfodol, roedd rhywfaint o ddiffyg tryloywder o hyd o ran riportio ariannol. Roedd yr adroddiad yn cynnwys cynigion ar gyfer gwelliannau i gryfhau trefniadau cynllunio ariannol yr Awdurdod.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.

10. COFNODION GRWPIAU PERTHNSAOL I'R PWYLLGOR ARCHWYLIO

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn cofnodion cyfarfod y Grŵp Llywio Rheoli Risg ar 4 Ionawr 2017, a chyfarfodydd y Panel Grantiau ar 16 Tachwedd, 2016 a 20 Ionawr, 2017.

11. COFNODION – 6ED IONAWR 2017

Cyfeiriwyd at gofnod 5 (Diweddariad am Gynllun Gweithredu y Cyfleusterau Arfordirol) ac yn benodol at ail baragraff y materion a drafodwyd, a dywedwyd y dylai'r ail frawddeg ddarllen fel a ganlyn "Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol nad oedd angen paratoi adroddiad o'r fath ac nad oedd dim achosion troseddol yn y llys ar hyn o bryd nac achosion troseddol yr oedd yn aros am ddedfryd yn eu cylch."

PENDERFYNWYD, ar yr amod y byddai'r newid a nodwyd uchod yn cael ei gynnwys, lofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio oedd wedi'i gynnal ar 6 Ionawr, 2017, i nodi eu bod yn gywir.

CADEIRYDD

DYDDIAD

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol